Atodiad i'r A

# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 19/02/2013

Cynnwys Contents


Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

Datganiad: Halogi Cynnyrch Cig Eidion
Statement: Contamination of Beef Products

Datganiad: Diwygio TGCh—Adolygu'r Rhaglen Dysgu Digidol
Statement: ICT Reform—Review of Digital Learning

Datganiad: Cyflwyno'r Bil Teithio Llesol (Cymru)
Statement: Introduction of the Active Travel (Wales) Bill

Datganiad: Y Diweddaraf ynghylch Mynediad at Ddeddfwriaeth
Statement: Update on Access to Legislation

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol—y Bil Ynni
Legislative Consent Motion –the Energy Bill

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol—y Bil Mordwyo Morol (Rhif 2)
Legislative Consent Motion—The Marine Navigation (No. 2) Bill

Setliad yr Heddlu
The Police Settlement

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time


*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m.gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 1.30 p.m.with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The National Assembly for Wales is now in session.

Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### Adroddiad GMB

### GMB Report

13:30

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am adroddiad GMB a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cadarnhau bod 111 o weithwyr Cymru ar restr wahardd y Gymdeithas Ymgynghori ar gyfer y diwydiant adeiladu. OAQ(4)0902(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on the recent publication of the GMB report confirming that 111 Welsh workers were on the Consulting Association's construction industry blacklist. OAQ(4)0902(FM)*

13:31

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is appalling that such a blacklist exists. We condemn its use because we know that it leads to the discriminatory treatment of workers who were either members of trade unions or who were perceived to be health and safety activists.

Mae'n warthus fod y fath restr wahardd yn bodoli. Rydym yn condemnio ei defnydd gan ein bod yn gwybod ei bod yn arwain at driniaeth wahaniaethol o weithwyr a oedd naill ai'n aelodau o undebau llafur neu y tybiwyd eu bod yn actifyddion iechyd a diogelwch.

13:31 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that response, First Minister. You are right to say that this shameful practice was only uncovered thanks to the campaigning and the support that was provided by trade unions. Assurances have been given that the blacklisting practice was isolated and has now ended. However, I believe that those assurances should be treated with real scepticism. Will the Welsh Government consider revising procurement guidelines, in a similar manner to the French Ministry of Defence, to provide for real and meaningful financial penalties for any firms that make use of such a blacklist in the future?

Diolch am yr ymateb yna, Brif Weinidog. Rydych yn gywir i ddweud mai dim ond oherwydd yr ymgyrchu a'r gefnogaeth a ddarparwyd gan yr undebau llafur y datgelwyd yr arfer cywilyddus hwn. Rhoddwyd sicrwydd bod yr arfer o lunio rhestr wahardd wedi'i ynysu a'i fod wedi dod i ben erbyn hyn. Fodd bynnag, credaf y dylai'r sicrwydd hwn gael ei drin ag amheuaeth wirioneddol. A wnaiff Llywodraeth Cymru ystyried diwygio'r canllawiau caffael, mewn ffordd debyg i Weinyddiaeth Amddiffyn Ffrainc, i ddarparu ar gyfer gosbau ariannol gwirioneddol ac ystyrlon i unrhyw gwmnïau sy'n defnyddio rhestr wahardd o'r fath yn y dyfodol?

13:31 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

It is not clear whether there is a need for new guidance, but we will certainly review the situation. Officials will be issuing fresh guidance to remind public sector organisations of how they may address those issues when contracting. Whether there is a need for new procurement guidance is something that we will bear in mind, in order to ensure that this practice does not develop or take root in Wales.

Nid yw'n eglur a oes angen canllawiau newydd, ond byddwn yn sicr yn adolygu'r sefyllfa. Bydd swyddogion yn cyhoeddi canllawiau newydd i atgoffa sefydliadau sector cyhoeddus o sut y gallant fynd i'r afael â'r materion hynny wrth gontractio. Mae'r cwestiwn o ba un a oes angen canllawiau caffael newydd yn rhywbeth y byddwn yn ei gadw mewn cof, er mwyn sicrhau nad yw'r arfer hwn yn datblygu nac yn ymsefydlu yng Nghymru.

13:32 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I am concerned that 39, I believe, of the people on this blacklist are from north Wales. That is 35%, although the north only makes up 22% of the population of Wales, so it is of particular concern there, as well as being a concern everywhere. Given that it is reported that this is illegal activity, but that over 40 companies have checked the list, what legal advice has the Welsh Government obtained, or what advice is it seeking, regarding those claims of illegality, and what action might it be able to take, alone or with other organisations, on that basis?

Rwyf yn poeni bod 39, rwy'n credu, o'r bobl ar y rhestr wahardd hon yn dod o ogledd Cymru. Mae hynny'n 35%, er mai dim ond 22% o boblogaeth Cymru sy'n byw yn y gogledd, felly mae'n peri pryder arbennig yno, yn ogystal â bod yn bryder ym mhob man. O gofio yr adroddir bod hyn yn weithgarwch anghyfreithlon, ond bod dros 40 o gwmnïau wedi edrych ar y rhestr, pa gyngor cyfreithiol mae Llywodraeth Cymru wedi ei dderbyn, neu pa gyngor y mae'n ei geisio, ynghylch yr honiadau hynny o anghyfreithlondeb, a pha gamau y gallai eu cymryd, yn annibynnol neu gyda sefydliadau eraill, ar y sail honno?

13:32 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We are awaiting the outcome of the UK Government's discussion with the Information Commissioner. Depending on the outcome of those discussions, we will then examine whether further action is required in Wales.

Rydym yn disgwyl am ganlyniad trafodaeth Llywodraeth y DU gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth. Yn dibynnu ar ganlyniad y trafodaethau hynny, byddwn yn ystyried wedyn a oes angen cymryd camau pellach yng Nghymru.

## Datblygiad Economaidd

## Economic Development

13:33 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i gefnogi datblygu economaidd yng Nghymru. OAQ(4)0917(FM)*

*2. Will the First Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to support economic development in Wales. OAQ(4)0917(FM)*

13:33 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We have several schemes that are designed to facilitate economic development in Wales in these difficult economic times.

Mae gennym nifer o gynlluniau sydd â'r nod o hwyluso datblygiad economaidd yng Nghymru yn y cyfnod economaidd anodd presennol.

13:33

## David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer, First Minister. Last week, Tata fired up blast furnace No. 4, and started the increased production of iron in the Port Talbot works. That has given a clear sign of its confidence in the future of the plant, and in steelmaking in Wales. However, a few weeks ago, the Secretary of State for Business, Innovation and Skills, Vince Cable, told the Welsh Affairs Select Committee in Westminster that the UK Government is

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Yr wythnos diwethaf, taniodd Tata ffwrnais chwyth Rhif 4, gan ddechrau cynhyrchu mwy o haearn yng ngweithfeydd Port Talbot. Mae hynny wedi rhoi arwydd eglur o'i hyder yn nyfodol y gwaith, ac yn y diwydiant gwneud dur yng Nghymru. Fodd bynnag, ychydig wythnosau yn ôl, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau, Vince Cable, wrth y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn San Steffan bod Llywodraeth y DU yn

'dealing with the problems of the steel industry on an ad hoc basis.'

ymdrin â phroblemau'r diwydiant dur ar sail ad hoc.

He also admitted that the UK Government's taxation policy was a problem for the industry. What discussions are you having with Dr Cable and his colleagues to establish a UK steel strategy that benefits Welsh steelmaking, and a taxation policy that does not penalise its competitiveness?

Cyfaddefodd hefyd bod polisi trethiant Llywodraeth y DU yn broblem i'r diwydiant. Pa drafodaethau ydych chi'n eu cael gyda Dr Cable a'i gydweithwyr i sefydlu strategaeth ddur ar gyfer y DU sydd o les i ddiwydiant cynhyrchu dur Cymru, a pholisi trethiant nad yw'n cosbi ei gystadleurwydd?

13:33

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I welcome the Secretary for State for Business, Innovation and Skills's explicit acknowledgment of the important matters that face the steel industry. He used those words in the Welsh Affairs Select Committee on 29 January. I have discussed with the Secretary for business on several occasions the importance of the steel industry to the economy of Wales, and the current challenges that are faced by the industry in these times.

Rwy'n croesawu cydnabyddiaeth bendant yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau o'r materion pwysig sy'n wynebu'r diwydiant dur. Defnyddiodd y geiriau yna yn y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar 29 Ionawr. Rwyf wedi trafod pwysigrwydd y diwydiant dur i economi Cymru, a'r heriau presennol a wynebir gan y diwydiant yn y cyfnod hwn, gyda'r Ysgrifennydd busnes ar sawl achlysur.

13:34

## Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

First Minister, you will no doubt share my concern at the British Retail Consortium figures that show that high street footfall has fallen dramatically recently. Furthermore, Wales sadly has the highest vacancy rate in the UK. The Welsh Conservatives have highlighted this problem, and I know that your Government has accepted the recommendations of the Enterprise and Business Committee. When are you going to get on with the job of saving the Welsh high street?

Brif Weinidog, byddwch yn sicr yn rhannu fy mhryder am ffigurau Consortiwm Manwerthu Prydain sy'n dangos bod nifer yr ymwelwyr â'r stryd fawr wedi gostwng yn ddramatig yn ddiweddar. Ar ben hynny, Cymru, yn anffodus, sydd â'r gyfradd uchaf o siopau gwag yn y DU. Mae Ceidwadwyr Cymru wedi tynnu sylw at y broblem hon, a gwn fod eich Llywodraeth wedi derbyn argymhellion y Pwyllgor Menter a Busnes. Pryd ydych chi'n mynd i fwrw ymlaen â'r gwaith o achub y stryd fawr yng Nghymru?

13:34

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I could equally ask, 'What is your party going to do about it?' I will tell you what we are doing. We have commissioned research by Professor Dylan Jones-Evans, who is a member of your party. We await the results of that research, which I am sure will be wholly sensible.

Gallwn innau ofyn, 'Beth mae eich plaid chi yn mynd i wneud am y peth?' Mi ddywedaf wrthych beth rydym ni'n ei wneud. Rydym wedi comisiynu gwaith ymchwil gan yr Athro Dylan Jones-Evans, sy'n aelod o'ch plaid chi. Rydym yn disgwyl canlyniadau'r gwaith ymchwil hwnnw, ac rwy'n siŵr y bydd yn gwbl synhwyrol.

13:34 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, rydych wedi rhybuddio y bydd cwtogi cyllideb yr Undeb Ewropeaidd yn arwain at golli cannoedd o filiynau o bunnau a fyddai wedi mynd fel arall i hyrwyddo a chryfhau economi Cymru. Fodd bynnag, mae eich cyd-aelod Llafur Wayne David wedi gofyn i Brif Weinidog y Deyrnas Unedig a oedd am ddiolch i Aelodau Llafur, gan gynnwys Aelodau Llafur Cymru, am bleidleisio o blaid cwtogi'r union gyllideb honno a helpu David Cameron i gael ei ffordd yn Ewrop. A ydych yn barod i gondemnio Mr David am yr hyn y mae'n ei wneud i Gymru?

First Minister, you have warned that cutting the European Union budget will lead to a loss of hundreds of millions of pounds that would otherwise have gone to promoting and strengthening the Welsh economy. However, your fellow Labour colleague Wayne David has asked the UK Prime Minister whether he would like to thank Labour Members, including Welsh Labour Members for voting in favour of cutting that exact same budget and helping David Cameron to get his own way in Europe on the budget. Are you willing to condemn Mr David for what he is doing to Wales?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae ein safbwynt ni fel Llywodraeth yn glir: bydd Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn colli mas. Nid ydym o blaid y cytundeb sydd wedi cael ei wneud, ac, wrth gwrs, deallwn fod Lloegr yn mynd i wneud yn well. Y cwestiwn felly yw: beth mae'r Prif Weinidog yn ei wneud? A ydyw ef yn sefyll cornel Cymru? Yr ateb i hynny yw 'nag ydyw'.

Our standpoint as a Government is clear: Wales, Scotland and Northern Ireland will be losing out. I am therefore not in favour of the agreement that has been reached, and, of course, we understand that England will be doing better. The question, therefore, is: what is the Prime Minister doing? Is he standing up for Wales? The answer to that is 'no'.

13:35 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, as I am sure that you will agree, one of the key ways in which economic development can be fostered is through full and effective access for businesses, particularly small businesses, to financial services. This is made increasingly difficult, particularly in rural Wales, due to the continuing tide of bank branch closures and also to the insufficient coverage of internet. In this context, will you provide an update as to the work that your Government is currently doing to liaise with the banking and financial services sector to ensure that businesses have more effective access to funding, and also that alternative sources of finance, such as the business credit unions, which have been so successful in the United States and also in Scandinavia, are given due consideration?

Brif Weinidog, fel rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno, un o'r ffyrdd allweddol y gellir meithrin datblygiad economaidd yw trwy fynediad llawn ac effeithiol i fusnesau, a busnesau bach yn enwedig, at wasanaethau ariannol. Caiff hyn ei wneud yn gynyddol anodd, yn enwedig yng nghefn gwlad Cymru, oherwydd yr achosion parhaus o gau canghennau banc a hefyd oherwydd y ddarpariaeth annigonol o'r rhyngrwyd. Yn y cyd-destun hwn, a allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y gwaith mae eich Llywodraeth yn ei wneud ar hyn o bryd i gydgysylltu â'r sector gwasanaethau bancio ac ariannol i sicrhau bod gan fusnesau fynediad mwy effeithiol at gyllid, a hefyd bod ffynonellau amgen o gyllid, fel yr undebau credyd busnes, sydd wedi bod mor llwyddiannus yn yr Unol Daleithiau a hefyd yn Sgandinafia, yn cael ystyriaeth ddyledus?

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

As the Member knows, Professor Dylan Jones-Evans is conducting such a review in terms of the availability of funding to small and medium-sized enterprises in Wales, whether they are on the high street or not. That report is due in the autumn and will inform us as to what we need to do in the future in order to further assist SMEs.

Fel y mae'r Aelod yn gwybod, mae'r Athro Dylan Jones-Evans yn cynnal adolygiad o'r fath o ran y cyllid sydd ar gael i fentrau bach a chanolig eu maint yng Nghymru, pa un a ydynt ar y stryd fawr ai peidio. Disgwylir yr adroddiad hwnnw yn yr hydref a bydd yn ein hysbysu am yr hyn y mae angen i ni ei wneud yn y dyfodol er mwyn cynorthwyo BBaChau ymhellach.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:37 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, Wales has the highest high street vacancy rate in mainland Britain. Can you tell us why that is the case?

Brif Weinidog, Cymru sydd â'r gyfradd uchaf o siopau gwag ar y stryd fawr ar dir mawr Prydain. A allwch chi ddweud wrthym pam mai dyma yw'r achos?

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We know that this is a problem across the whole of the UK. We know that there are changes in consumer behaviour, particularly with regard to internet purchasing.

Rydym yn gwybod bod hon yn broblem ledled y DU gyfan. Rydym yn gwybod bod ymddygiad defnyddwyr yn newid, yn enwedig o ran prynu ar y rhyngrwyd.

13:37 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Once again, it is clear that the First Minister's policy is to pass the buck and blame other people. Back in October, he said that he wanted to ensure the vibrancy of our town centres in the future, yet as the UK steadily pulls ahead on the high street Wales is falling backwards under his leadership. Some months ago, we presented our vision for the high street that had key policy objectives that could be adopted readily to improve economic footfall on our high streets. They included a night-time strategy, ensuring fairness by splitting the business rate multiplier, encouraging free car parking and also reforming the planning system. Considering our vision for the high street, why has the First Minister's Government been so inactive in this field?

Unwaith eto, mae'n amlwg mai polisi'r Prif Weinidog yw taflu'r baich a beio pobl eraill. Yn ôl ym mis Hydref, dywedodd ei fod yn awyddus i sicrhau bywiogrwydd canol ein trefi yn y dyfodol, ond wrth i'r DU achub y blaen yn raddol ar y stryd fawr, mae Cymru yn cwympo yn ôl dan ei arweinyddiaeth ef. Rai misoedd yn ôl, cyflwynwyd ein gweledigaeth ar gyfer y stryd fawr a oedd yn cynnwys amcanion polisi allweddol y gellid eu mabwysiadu'n rhwydd i gynyddu nifer yr ymwelwyr economaidd â'r stryd fawr. Roeddent yn cynnwys strategaeth gyda'r nos, a oedd yn sicrhau tegwch trwy rannu'r lluosydd ardrethi busnes, yn annog parcio am ddim ac yn diwygio'r system gynllunio hefyd. O ystyried ein gweledigaeth ar gyfer y stryd fawr, pam mae Llywodraeth y Prif Weinidog wedi bod mor anweithgar yn y maes hwn?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

None of these things will work without a customer base. That customer base will not exist until people have money to spend, and they will not have money to spend until the UK Government changes its policies; it is as simple as that. You can put in place whatever you want in terms of planning and rates, but if people do not have money to spend, then the shops have no customers. Even he would understand that. That is the reality of the situation. He talks about leadership, but what has he done? I spend my time, as has the Prime Minister, selling Wales and Britain to the world, whereas all he does is carp and moan and sit on his backside.

Ni fydd yr un o'r pethau hyn yn gweithio heb gronfa o gwsmeriaid. Ni fydd y gronfa honno'n bodoli tan y bydd gan bobl arian i'w wario, ac ni fydd ganddynt arian i'w wario tan y bydd Llywodraeth y DU yn newid ei pholisïau; mae mor syml â hynny. Gallwch roi beth bynnag y dymunwch ar waith o ran cynllunio a chyfraddau, ond os nad oes gan bobl arian i'w wario, yna ni fydd gan y siopau unrhyw gwsmeriaid. Byddai hyd yn oed ef yn deall hynny. Dyna wirionedd y sefyllfa. Mae'n sôn am arweinyddiaeth, ond beth mae ef wedi ei wneud? Rwyf yn treulio fy amser, fel y mae'r Prif Weinidog wedi ei wneud, yn gwerthu Cymru a Phrydain i'r byd, a'r cwbl y mae ef yn ei wneud yw cwyno ac eistedd ar ei ben ôl.

13:38 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I touched on high streets and the devastating figures that came out yesterday, which indicate that the rest of the UK is replacing stock that is closing on its high street. Yet Wales's vacancy rates are increasing dramatically compared with the rest of mainland UK. Is it not typical that the First Minister talks of delivery, but does not care about the private sector, he does not care about small business and he certainly does not care about the Welsh high street? Is it not the case, Presiding Officer, that all we have seen him deliver is boarded up shops, empty streets and unemployment—

Brif Weinidog, soniais am y stryd fawr a'r ffigurau trychinebus a gyhoeddwyd ddoe, sy'n dangos bod gweddill y DU yn cael stoc newydd yn lle'r hyn sy'n cau ar y stryd fawr. Ac eto mae cyfraddau siopau gwag Cymru yn cynyddu'n sylweddol o'u cymharu â gweddill tir mawr y DU. Onid yw'n nodweddiadol fod y Prif Weinidog yn siarad am gyflawni, ond oes ots ganddo am y sector preifat, nid oes ots ganddo am fusnesau bach ac yn sicr, nid oes ots ganddo am y stryd fawr yng Nghymru? Onid yw'n wir, Lywydd, mai'r cwbl yr ydym wedi ei weld yn ei gyflawni yw siopau a'u ffenestri wedi'u byrddio, strydoedd gwag a diweithdra—

13:39 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Senedd.tv Fideo Video

He has got it written down. [Laughter.]

Mae wedi'i ysgrifennu i lawr ganddo. [Chwerthin.]

*It is good to hear the real First Minister chatting away there. [Interruption.] Could he allow the stand-in to say a few words this afternoon without his prompting?*

*Mae'n dda clywed y Prif Weinidog go iawn yn clebran yn y fan yna. [Torri ar draws.] A allai ganiatáu i'r dirprwy ddweud ychydig o eiriau y prynhawn yma heb ei annog?*

Is it not the case that unemployment is constantly above the UK average? Is this not poor delivery on behalf of Carwyn Jones's Labour Government here in Wales? Where was the promise for better delivery?

Onid yw'n wir fod diweithdra yn gyson uwch na chyfartaledd y DU? Onid yw hyn yn gyflawniad gwael gan Lywodraeth Lafur Carwyn Jones yma yng Nghymru? Ble'r oedd yr addewid o gyflawni'n well?

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The Member lost his script there and went off the rails, as we saw. He sits there and complains, and then he criticises anything that we do to sell Wales abroad. The Prime Minister is in India, and so he should be; I fully support the fact that he is in India selling Britain. He wants to open doors for British business and wants to make sure that Britain is open for business. The leader of the opposition wants me to say that Wales should not be doing these things and that we should not be selling Wales in America, India and China. All he does is carp about it. Where is he on the Silk commission? He talks about leadership, but where is the evidence for the Silk commission? He has not submitted it yet. Do you know why? It is because he is waiting for the Prime Minister to come back from India, so that he can have the permission of his political master to submit the evidence. The reality is this: when it comes to leadership and when it comes to my party, I lead; he is on a lead.

Collodd yr Aelod ei sgript yn y fan yna ac aeth ar gyfeiliorn, fel y gwelsom. Mae'n eistedd yna ac yn cwyno, ac yna'n beirniadu unrhyw beth yr ydym yn ei wneud i werthu Cymru dramor. Mae'r Prif Weinidog yn India, fel y dylai fod; rwy'n cefnogi'n llawn y ffaith ei fod yn India yn gwerthu Prydain. Ei ddymuniad yw agor drysau i fusnesau Prydain a gwneud yn siŵr bod Prydain yn agored i fusnes. Mae arweinydd yr wrthblaid eisiau i mi ddweud na ddylai Cymru fod yn gwneud y pethau hyn ac na ddylem fod yn gwerthu Cymru yn America, India a Tsieina. Cwyno am y peth yw'r cwbl y mae'n ei wneud. Beth yw ei farn ar gomisiwn Silk? Mae'n sôn am arweinyddiaeth, ond ble mae'r dystiolaeth ar gyfer comisiwn Silk? Nid yw wedi ei gyflwyno eto. Wyddoch chi pam? Am ei fod yn disgwyl i'r Prif Weinidog ddychwelyd o India, fel y gall gael caniatâd ei feistr gwleidyddol i gyflwyno'r dystiolaeth. Y gwirionedd yw hyn: o ran arweinyddiaeth ac o ran fy mhlaid, rwyf fi'n arwain; mae ef ar dennyn.

13:40 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Presiding Officer, he posed a question about the Silk commission; I hope that you will allow me to answer it. You made a ruling that you would allow party leaders to respond to questions.

Lywydd, gofynnodd gwestiwn am gomisiwn Silk; rwy'n gobeithio y byddwch yn caniatáu i mi ei ateb. Gwnaethoch ddyfarniad y byddech yn caniatáu i arweinwyr y pleidiau ymateb i gwestiynau.

13:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I did not make a ruling. I think that that was one of the First Minister's rhetorical questions. We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Ni wnaethpwyd dyfarniad gennyf. Rwyf yn credu mai un o gwestiynau rhethregol y Prif Weinidog oedd hwnna. Symudwn yn awr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

13:41 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, your Government yesterday published its submission to the second report of the Silk commission. The direction of travel is to be welcomed. However, given the way in which your Members of Parliament have voted against the Welsh national interest on questions such as Europe, benefits and tax, the obvious question must be: are the MPs signed up to your agenda on Silk? Can you tell us which of the proposals in yesterday's document will definitely be included in Labour's 2015 election manifesto?

Brif Weinidog, cyhoeddodd eich Llywodraeth ei gyflwyniad i ail adroddiad comisiwn Silk ddoe. Mae cyfeiriad y teithio i'w groesawu. Fodd bynnag, o gofio'r ffordd y mae eich Aelodau Seneddol wedi pleidleisio yn erbyn buddion cenedlaethol Cymru ar gwestiynau fel Ewrop, budd-daliadau a threth, y cwestiwn amlwg yw: a yw'r ASau yn cytuno â'ch agenda o ran Silk? A allwch chi ddweud wrthym ba rai o'r cynigion yn nogfen ddoe sy'n sicr o gael eu cynnwys ym maniffesto Llafur ar gyfer etholiad 2015?

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We do not yet know what the Silk commission will recommend. As a Government, we have submitted our evidence. We await the evidence from other parties and we will then await the recommendations of Silk.

Nid ydym yn gwybod eto beth fydd comisiwn Silk yn ei argymell. Fel Llywodraeth, rydym wedi cyflwyno ein tystiolaeth. Rydym yn disgwyl y dystiolaeth gan bleidiau eraill ac yna byddwn yn disgwyl am argymhellion Silk.

13:42

## Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

I am pleased that you have made a u-turn and backed a policy that Plaid Cymru has long supported, namely the transfer of powers over policing, which would bring us into line with Scotland and Northern Ireland, who already have those powers. In July 2011, your Minister, Carl Sargeant said:

Rwyf yn falch eich bod wedi gwneud tro pedol a chefnogi polisi y mae Plaid Cymru wedi ei gefnogi ers amser maith, sef trosglwyddo pwerau dros blismona, a fyddai'n ein rhoi ar yr un sail â'r Alban a Gogledd Iwerddon, sy'n meddu ar y pwerau hynny eisoes. Ym mis Gorffennaf 2011, dywedodd eich Gweinidog, Carl Sargeant:

'I would certainly not want to take any function from Westminster without the appropriate funding. I believe that, at the moment, policing is in that bracket.'

Yn sicr, ni fyddwn yn dymuno cymryd unrhyw swyddogaeth oddi wrth San Steffan heb y cyllid priodol. Credaf mai dyna'r sefyllfa o ran plismona ar hyn o bryd.

First Minister, what about other criminal justice powers? What about powers over the probation service, which faces privatisation? Is it your position that our criminal justice system is better off in the hands of Tory Ministers in Westminster than Welsh Ministers here in Cardiff bay?

Brif Weinidog, beth am bwerau cyfiawnder troseddol eraill? Beth am bwerau dros y gwasanaeth prawf, sy'n wynebu preifateiddio? Ai eich safbwynt chi yw ei bod yn well i'n system cyfiawnder troseddol fod yn nwylo Gweinidogion Torïaidd yn San Steffan nag yn nwylo Gweinidogion Cymru yma ym mae Caerdydd?

13:42

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

We have believed for a long time that it is possible for policing to be separated from the rest of the system. The police are an agency of criminal justice. We have not taken the view that it is possible to separate bits of the rest of the criminal justice system without taking the whole lot on board. For example, probation depends on sentencing policy, which depends on legislative control and, ultimately, control of the courts and the sentences that they pass. The same applies to the prison service. We know that the prison service in Wales is not self-contained. There will be a need either to build more prisons—as the leader of Plaid Cymru knows, there is no women's prison in Wales—or put ourselves in the position of being over a barrel in terms of what the English prison system, as it would then be, would charge Wales for Welsh inmates. On top of that, it is quite true that we do not have the policy capacity yet in Government to deal with criminal justice. That would have to be built over time. However, we do have that capacity for policing. We have taken a rational and sensible approach. She asked whether we would want to see full budgetary transfer accompanying any transfer of responsibility. The answer to that is clearly 'yes'.

Rydym wedi credu ers amser maith ei bod yn bosibl gwahanu plismona oddi wrth weddill y system. Mae'r heddlu yn asiantaeth cyfiawnder troseddol. Nid ydym wedi cymryd y farn ei bod yn bosibl gwahanu darnau o weddill y system cyfiawnder troseddol heb gymryd cyfrifoldeb am y cwbl i gyd. Er enghraifft, mae'r gwasanaeth prawf yn dibynnu ar bolisi dedfrydu, sy'n dibynnu ar reolaeth ddeddfwriaethol ac, yn y pen draw, rheolaeth dros y llysoedd a'r dedfrydau y maent yn eu traddodi. Mae'r un peth yn berthnasol i'r gwasanaeth carchardai. Gwyddom nad yw'r gwasanaeth carchardai yng Nghymru yn hunangynhaliol. Bydd angen naill ai adeiladu mwy o garchardai—fel y mae arweinydd Plaid Cymru yn gwybod, nid oes carchar i fenywod yng Nghymru—neu roi ein hunain yn y sefyllfa o fod ar drugaredd yr hyn y byddai system garchardai Lloegr, fel y byddai wedyn, yn ei godi ar Gymru am garcharorion o Gymru. Yn ogystal â hynny, mae'n ddigon gwir nad yw'r gallu gennym yn y Llywodraeth eto o ran polisi i ymdrin â chyfiawnder troseddol. Byddai'n rhaid datblygu hynny dros amser. Fodd bynnag, mae'r gallu gennym i blismona. Rydym wedi mabwysiadu dull rhesymegol a chall. Gofynnodd hi a fyddem yn dymuno gweld trosglwyddiad cyllidebol llawn yn digwydd ar y cyd ag unrhyw drosglwyddiad o gyfrifoldeb. Yr ateb i hynny yn amlwg yw 'byddem'.

13:44

## Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

On Radio Wales this morning, David Hanson, the shadow Minister for policing, refused to support you on your call for the devolution of policing powers. Sadly, First Minister, there was no-one from your Government to defend your position. You did not answer my question when I asked you earlier, therefore I will ask you again: will you give us your word today that your bosses in London will support the document that your Government published yesterday, that they will implement those policies should Labour win the next UK general election and that those proposals will be in your party's manifesto in 2015?

Ar Radio Wales y bore yma, gwrthododd David Hanson, Gweinidog yr wrthblaid dros blismona, gefnogi eich galwad am ddatganoli pwerau plismona. Yn anffodus, Brif Weinidog, nid oedd unrhyw un o'ch Llywodraeth yno i amddiffyn eich safbwynt. Ni wnaethoch ateb fy nghwestiwn pan ofynnais i chi yn gynharach, felly gofynnaf i chi eto: a wnewch chi roi eich gair i ni heddiw y bydd eich penaethiaid yn Llundain yn cefnogi'r ddogfen a gyhoeddwyd gan eich Llywodraeth ddoe, y byddant yn gweithredu'r polisïau hynny pe bai Llafur yn ennill etholiad cyffredinol nesaf y DU, ac y bydd y cynigion hynny ym maniffesto eich plaid yn 2015?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

She spoils the questions by saying 'your bosses in London'. As I have said, I lead my party; I do not need some kind of collective leadership board to be set up to provide further leadership within my own party, thank you very much. She raises an important question, which is whether the devolution of policing will be included in the Labour Party manifesto in 2015. That is something that we, as a Welsh Government, would want to see. I heard David Hanson's interview this morning. I heard nothing in that interview that cut across what we had submitted as evidence. He quite rightly said that there are issues to be resolved; of course there are. He quite rightly said that there are issues regarding serious crimes and counter-terrorism, for example, that would need to be resolved. I heard nothing in his interview that in any way cut across what we as a Welsh Government had submitted in evidence.

Mae'n difetha'r cwestiynau trwy ddweud 'eich penaethiaid yn Llundain'. Fel yr wyf wedi dweud, fi sy'n arwain fy mhlaid; nid oes arnaf i angen i ryw fath o fwrdd arwain ar y cyd gael ei sefydlu i ddarparu arweinyddiaeth ychwanegol o fewn fy mhlaid fy hun, diolch yn fawr iawn. Mae hi'n codi cwestiwn pwysig, sef a fydd datganoli plismona yn cael ei gynnwys ym maniffesto'r Blaid Lafur yn 2015. Mae hynny'n rhywbeth y byddem ni, fel Llywodraeth Cymru, yn awyddus i'w weld. Clywais gyfweliad David Hanson y bore yma. Ni chlywais ddim yn y cyfweliad hwnnw a oedd yn groes i'r hyn yr oeddem wedi ei gyflwyno fel tystiolaeth. Roedd yn iawn i ddweud bod problemau i'w datrys; wrth gwrs bod hynny'n wir. Roedd yn iawn i ddweud bod problemau yn ymwneud â throseddau difrifol a gwrthderfysgaeth, er enghraifft, y byddai angen eu datrys. Ni chlywais ddim yn ei gyfweliad a oedd yn mynd yn groes mewn unrhyw ffordd i'r hyn yr oeddem ni fel Llywodraeth Cymru wedi ei gyflwyno fel tystiolaeth.

13:45 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv
Fideo Video

Yesterday, First Minister, your Government did indeed ask for increased powers over a long list of issues: large-scale energy generation, speed and drink-driving limits, licensing, ports, policing, water, administrative justice and youth justice. Given that that is such a long list, do you admit that when Labour designed the current system just a few years ago, you did not get it exactly right?

Ddoe, Brif Weinidog, mae'n wir i'ch Llywodraeth ofyn am fwy o bwerau dros restr hir o faterion: cynhyrchu ynni ar raddfa fawr, terfynau cyflymder ac yfed a gyrru, trwyddedu, porthladdoedd, plismona, dŵr, cyfiawnder gweinyddol a chyfiawnder ieuenctid. O ystyried bod hon yn rhestr mor hir, a ydych chi'n cyfaddef na chawsoch chi bethau'n hollol gywir pan gynlluniwyd y system gyfredol gan y Blaid Lafur dim ond ychydig o flynyddoedd yn ôl?

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I believe that the system that was designed in the last Government of Wales Act reflected the views of the people of Wales at that time. We know that things changed in March 2011. We know, from the opinion polls that have been conducted since, that things have changed once again. This is all part of the organic development of devolution within Wales.

Credaf fod y system a gynlluniwyd yn y Ddeddf Llywodraeth Cymru ddiwethaf yn adlewyrchu barn pobl Cymru ar y pryd. Rydym yn gwybod bod pethau wedi newid ym mis Mawrth 2011. Rydym yn gwybod, o'r polau piniwn a gynhaliwyd ers hynny, bod pethau wedi newid unwaith eto. Mae hyn oll yn rhan o ddatblygiad organig datganoli yng Nghymru.

13:46 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Welsh Liberal Democrats have long supported further devolution. In the spirit of building a cross-party consensus to see Wales move forward, I will ensure that my party makes a positive submission to the Silk commission. You have made great play this afternoon of being a leader. Will you, as leader of your party, ensure that Labour also makes a submission supporting those extra powers?

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi cefnogi datganoli pellach ers cryn amser. Gyda'r nod o ddatblygu consensws trawsbleidiol i weld Cymru yn symud ymlaen, byddaf yn sicrhau bod fy mhlaid yn gwneud cyflwyniad cadarnhaol i gomisiwn Silk. Rydych wedi rhoi pwyslais mawr y prynhawn yma ar y ffaith eich bod yn arweinydd. A wnewch chi, fel arweinydd eich plaid, sicrhau bod Llafur hefyd yn gwneud cyflwyniad sy'n cefnogi'r pwerau ychwanegol hynny?

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I cannot write the leader of the Liberal Democrats' submission for her, but from our point of view we have already submitted evidence as a Welsh Labour Government. That evidence is detailed and clear.

Ni allaf ysgrifennu cyflwyniad arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol ar ei rhan, ond o'n safbwynt ni rydym eisoes wedi cyflwyno tystiolaeth fel Llywodraeth Lafur Cymru. Mae'r dystiolaeth honno yn fanwl ac yn eglur.

13:47 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do not worry about my party's evidence to the Silk commission, First Minister [Assembly Members: Oh.]. I am much more worried about your party's submission to the Silk commission. I look forward to actually seeing a submission by Welsh Labour to part 2 of the Silk commission. You are the First Minister of Wales, and, as leader of the Labour Party, you are proposing the devolution of responsibility for policing. I presume that a great deal of policy work and analysis has gone into developing that policy, which is, indeed, rational and sensible. Given, as you have said, that it is so rational and sensible to devolve the police, why was the Welsh Labour Shadow Minister for police—a Labour Member of Parliament—not able to give it a ringing endorsement this morning on Radio Wales?

Peidiwch â phoeni am dystiolaeth fy mhlaid i i gomisiwn Silk, Brif Weinidog [Aelodau'r Cynulliad: O.]. Rwy'n poeni llawer mwy am gyflwyniad eich plaid chi i gomisiwn Silk. Edrychaf ymlaen at weld cyflwyniad gan Blaid Lafur Cymru i ran 2 comisiwn Silk. Chi yw Prif Weinidog Cymru, ac, fel arweinydd y Blaid Lafur, rydych yn cynnig datganoli'r cyfrifoldeb dros blismona. Rwyf yn rhagdybio bod llawer iawn o waith polisi a dadansoddi wedi cael ei wneud i ddatblygu'r polisi hwnnw, sydd, yn wir, yn rhesymol ac yn synhwyrol. O ystyried, fel yr ydych wedi dweud, bod datganoli'r heddlu yn gam mor rhesymol a synhwyrol, pam nad oedd Gweinidog Gwrthblaid Llafur Cymru dros yr heddlu —Aelod Seneddol Llafur—yn gallu ei gymeradwyo'n llawn ar Radio Wales y bore yma?

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I refer the leader of the Liberal Democrats to the answer that I gave to the leader of Plaid Cymru. She seems to be arguing now against the devolution of policing. I am, as she rightly points out, the leader of Welsh Labour, and, from our point of view, this is the evidence of a Welsh Labour Government having consulted with party organs within Welsh Labour. That is the reality of the situation. We know full well that it is important that we take forward the aspirations of the people of Wales and provide leadership in that regard. I look forward to seeing the evidence that her party produces, and I even look forward to the evidence—if it can be called that—that the Welsh Tories produce. Then, of course, we will know that both parties and others have taken their lead from a Welsh Labour Government.

Cyfeiriaf arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol at yr ateb a roddais i arweinydd Plaid Cymru. Mae'n ymddangos ei bod yn dadlau yn erbyn datganoli plismona nawr. Fel y nodwyd ganddi yn gwbl gywir, fi yw arweinydd Llafur Cymru, ac, o'n safbwynt ni, dyma dystiolaeth Llywodraeth Lafur Cymru, a ddaeth yn sgîl ein hymgynghoriad ag aelodau o'r blaid yng Nghymru. Dyna wirionedd y sefyllfa. Rydym yn gwybod yn iawn ei bod yn bwysig inni fwrw ymlaen â dyheadau pobl Cymru a rhoiarweinyddiaeth yn hynny o beth. Edrychaf ymlaen at weld y dystiolaeth y bydd ei phlaid hi yn ei chyflwyno, ac rwyf hyd yn oed yn edrych ymlaen at y dystiolaeth—os gellir ei galw'n hynny—y bydd Ceidwadwyr Cymru yn ei chyflwyno. Wedyn, wrth gwrs, byddwn yn gwybod bod y ddwy blaid ac eraill wedi dilyn esiampl Llywodraeth Lafur Cymru.

### Blas am Oes

### Appetite for Life

13:48 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro Blas am Oes. OAQ(4)0898(FM)*

*3. Will the First Minister outline how the Welsh Government is monitoring Appetite for Life. OAQ(4)0898(FM)*

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Since 2008, all local authorities have been required to submit annual progress reports as part of the monitoring arrangements for the Appetite for Life grant scheme. We also monitor progress through a nutritional analysis software package hosted by the Welsh Local Government Association.

Ers 2008, mae wedi bod yn ofynnol i bob awdurdod lleol gyflwyno adroddiadau blynyddol ar gynnydd yn rhan o'r trefniadau monitro ar gyfer y cynllun grant Blas am Oes. Rydym hefyd yn monitro cynnydd trwy becyn meddalwedd dadansoddi maeth a gynhelir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

13:49 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. You will know, of course, that this is not yet compulsory and that it is currently being brought in on a voluntary basis. However, I understand that it will become compulsory as of the next financial year. Given that the outcome of the use of the Saffron system is fairly mixed—the evidence that I have gathered shows that there has been a small drop in the take-up of school meals, even though the number of those having free school meals has increased—and given that there are complaints about the over-restrictive nature of the Saffron system, have you carried out any research into how this can be made more locally focused in giving local authorities more discretion as to how they use this system, in order to ensure that take-up starts to increase and that more children eat healthy school meals?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Byddwch yn gwybod, wrth gwrs, nad yw hyn yn orfodol eto a'i fod yn cael ei gyflwyno ar sail wirfoddol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rwyf ar ddeall y bydd yn orfodol o'r flwyddyn ariannol nesaf ymlaen. O ystyried bod canlyniadau'r defnydd o'r system Saffron yn eithaf cymysg—mae'r dystiolaeth yr wyf i wedi ei chasglu yn dangos y bu gostyngiad bychan yn y nifer sy'n manteisio ar brydau bwyd ysgol, er bod nifer y rhai sy'n cael prydau bwyd ysgol am ddim wedi cynyddu—ac o ystyried bod yna gwynion am natur or-gyfyngol system Saffron, a ydych chi wedi gwneud unrhyw waith ymchwil i sut y gellir canolbwyntio hyn yn fwy lleol trwy roi mwy o ddisgresiwn i awdurdodau lleol o ran sut maen nhw'n defnyddio'r system hon, er mwyn sicrhau bod y nifer sy'n manteisio arni'n ddechrau cynyddu a bod mwy o blant yn bwyta prydau ysgol iach?

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Responsibility for the provision of school meals, including procurement, already lies with local authorities or, indeed, school governing bodies where that function has been delegated. We are contacting all local authorities and public bodies to remind them of their responsibilities regarding food products. This is particularly topical in the light of the events of the past week.

Mae'r cyfrifoldeb am ddarparu prydau ysgol, gan gynnwys caffael, eisoes yn nwylo'r awdurdodau lleol neu, yn wir, cyrff llywodraethol ysgolion lle mae'r swyddogaeth honno wedi ei dirprwyo. Rydym yn cysylltu â phob awdurdod lleol a chorff cyhoeddus i'w hatgoffa am eu cyfrifoldebau o ran cynhyrchion bwyd. Mae hyn yn arbennig o amserol yng ngoleuni digwyddiadau'r wythnos ddiwethaf.

13:50 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, Appetite for Life is obviously part of a broader agenda that deals with the health and wellbeing of children. Part of their wellbeing must be to do with how they feel about themselves and how they are perceived by adults. So, can you tell me, First Minister, has the Labour Party and your Government rowed back on its commitment to look at how we might legislate to ban the hitting of children?

Brif Weinidog, mae Blas am Oes yn amlwg yn rhan o agenda ehangach sy'n ymdrin ag iechyd a lles plant. Mae'n rhaid bod rhan o'u lles yn gysylltiedig â sut y maent yn teimlo amdanynt eu hunain a sut y mae oedolion yn eu gweld. Felly, a allwch chi ddweud wrthyf, Brif Weinidog, a yw'r Blaid Lafur a'ch Llywodraeth chi wedi mynd yn groes i'w hymrwymiad i ystyried sut y gallem ddeddfu i wahardd taro plant?

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I fail to see what that has to do with Appetite for Life. I refer the Member to the answers that I have given on Appetite for Life, as that is what the question was about.

Ni allaf weld beth sydd gan hynny i'w wneud â Blas am Oes. Cyfeiriaf yr Aelod at yr atebion a roddais ar Blas am Oes, gan mai dyna roedd y cwestiwn yn ymwneud ag ef.

13:50 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I know that one of the Appetite for Life initiatives is the combating of obesity, and I acknowledge that that is very important. For some people, however, it is about having not the correct nutrition, but any nutrition at all, and by that I mean those who suffer from eating disorders. Everybody here will know that it was Eating Disorders Awareness Week last week, which is very important. Do you have any plans to expand on Appetite for Life to acknowledge this group of people who, perhaps in the network of these programmes within schools, may fall out of any sort of bracket whatsoever when discussing nutrition?

Brif Weinidog, rwyf yn gwybod mai un o fentrau Blas am Oes yw mynd i'r afael â gordewdra, ac rwy'n cydnabod bod hynny'n bwysig iawn. I rai pobl, fodd bynnag, nid yw'n ymwneud â methu â chael y maeth cywir, ond cael unrhyw faeth o gwbl, a thrwy hynny rwy'n golygu'r rhai sy'n dioddef o anhwylderau bwyta. Bydd pawb yma yn gwybod ei bod yn Wythnos Ymwybyddiaeth o Anhwylderau Bwyta yr wythnos diwethaf, sy'n bwysig iawn. A oes gennych chi unrhyw gynlluniau i ehangu Blas am Oes i gydnabod y grŵp hwn o bobl a allai, yn y rhwydwaith o'r rhaglenni hyn mewn ysgolion, beidio â bod mewn unrhyw fath o fraced o gwbl wrth drafod maeth?

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Appetite for Life is designed particularly for schools. She asked a question about how the analysis is done in terms of nutrition. In order to meet the standards, local authorities and opted-out schools have to analyse the nutrition of their lunch-time provision. This is, it is true to say, a specialised area, but I have mentioned the software that is available and which is hosted by the WLGA. So, there are requirements on local authorities, and school governing bodies where they are the providers, to make sure that the analysis of nutrition done by them is right.

Mae Blas am Oes wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer ysgolion. Gofynnodd gwestiwn am sut y gwneir y gwaith dadansoddi o ran maeth. Er mwyn bodloni'r safonau, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ac ysgolion sydd wedi optio allan ddadansoddi maeth eu darpariaeth amser cinio. Mae'n wir dweud bod hwn yn faes arbenigol, ond rwyf wedi sôn am y feddalwedd sydd ar gael ac sy'n cael ei gynnal gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Felly, mae gofynion ar awdurdodau lleol, a chyrff llywodraethu ysgolion pan eu bod yn ddarparwyr, i wneud yn siŵr bod y dadansoddiad o faeth a wneir ganddyn nhw yn gywir.

## Addysgu Cerddoriaeth

## The Teaching of Music

13:51 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. Beth mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i hybu addysgu cerddoriaeth ymhlith plant oedran ysgol. OAQ(4)0904(FM)*

*4. What is the Welsh Government doing to encourage the teaching of music amongst school aged children. OAQ(4)0904(FM)*

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We recognise the significant contribution that music makes to the wellbeing of young people. Music figures prominently in the statutory areas of learning defined for the foundation phase, and it is of course a statutory requirement in all maintained schools up to the end of key stage 3.

Rydym yn cydnabod y cyfraniad sylweddol y mae cerddoriaeth yn ei wneud i les pobl ifanc. Mae cerddoriaeth yn flaenllaw yn y meysydd dysgu statudol sydd wedi'u diffinio ar gyfer y cyfnod sylfaen, ac mae'n ofyniad statudol ym mhob ysgol a gynhelir hyd at ddiwedd cyfnod allweddol 3, wrth gwrs.

13:52 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. I am sure you are aware that Gwent Music Support Service, outside of the school curriculum, has provided fantastic support to young people interested in music over the past 50 years. All of this is now under threat, thanks to the huge cut—100%, in fact—proposed by Newport council, with Monmouthshire and Torfaen councils expected to make up the shortfall. What are you doing to help safeguard services such as the Gwent Music Support Service so that they can do their best for the next generation of young musicians?

Diolch i chi, Brif Weinidog. Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol bod Gwasanaeth Cymorth Cerddoriaeth Gwent, y tu allan i gwricwlwm yr ysgol, wedi darparu cefnogaeth wych i bobl ifanc sydd â diddordeb mewn cerddoriaeth dros y 50 mlynedd diwethaf. Mae hyn i gyd dan fygythiad bellach, diolch i'r gostyngiad enfawr—100% mewn gwirionedd—a gynigiwyd gan gyngor Casnewydd, a disgwylir i Sir Fynwy a Thor-faen lenwi'r bwlch. Beth ydych chi'n ei wneud i helpu i ddiogelu gwasanaethau fel Gwasanaeth Cymorth Cerddoriaeth Gwent fel y gallant wneud eu gorau i'r genhedlaeth nesaf o gerddorion ifanc?

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Of course, it is the sole responsibility of local authorities to decide what level of support they wish to give to music services in their areas, based on their own understanding of local needs and priorities. It is for them to answer if they take particular decisions.

Wrth gwrs, cyfrifoldeb awdurdodau lleol yn llwyr yw penderfynu pa lefel o gymorth y maent yn dymuno ei roi i wasanaethau cerddoriaeth yn eu hardaloedd, yn seiliedig ar eu dealltwriaeth eu hunain o anghenion a blaenoriaethau lleol. Eu cyfrifoldeb nhw yw ateb os byddant yn gwneud penderfyniadau penodol.

13:53 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Nid yn unig yng Ngwent y mae toriadau; mae toriadau yn y brifddinas, yng Nghaerdydd—ac mae'r cynghorau Llafur sydd yn eu cyflwyno yn eu disgrifio yn rhai erchyll. Pan oedd toriadau i'r ŵyl gerddorol Gymraeg—y Tafwyl—fe safoch chi yn y bwlch a rhoi arian i wneud iawn am hynny. Beth a wnewch chi dros Gymru i gyd gyda'r toriadau hyn yn digwydd yn y gwasanaethau cerddorol? A ydych yn cytuno â Karl Jenkins, sy'n disgrifio'r toriadau hyn fel niwed andwyol iawn i dreftadaeth a diwylliant Cymru?

There are cuts not only in Gwent; there are also cuts here in the capital, in Cardiff—and the Labour councils that are introducing them are describing them as appalling. When there were cuts to the Welsh-language festival, Tafwyl, you stepped in and provided funding to make up that deficiency. What will you do for the rest of Wales, given these cuts to music services? Do you agree with Karl Jenkins, who has described these cuts as being extremely detrimental to Welsh culture and heritage?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Byddwn yn erfyn i'r awdurdodau lleol sicrhau bod digon o gyllid ar gael ar gyfer gwasanaeth miwsig teg, o gofio ein traddodiad yn y byd cerddorol hyd yn awr. Byddwn yn erfyn i awdurdodau lleol sicrhau bod cerddoriaeth ar gael ar lefel iawn i bobl ifanc Cymru.

I would expect local authorities to ensure that there is sufficient funding available to secure an equitable music service, bearing in mind the tradition that we have had in the world of music to date. I would urge local authorities to ensure that music provision is available at the right level for the young people of Wales.

13:54 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

To follow up Simon Thomas's point, the thing that worries me most about the 100% cut proposed by Cardiff council is that it threatens support for music education for those pupils whose parents are not able to pay for it themselves. Many of us in this Chamber benefited from a system that was the best in the world—it was the envy of the world, and it was copied by the world. What can you do, as a Government, to make sure that those vulnerable children whose parents cannot pay for tuition are still able to access that wonderful system?

I ddilyn pwynt Simon Thomas, y peth sy'n fy mhoeni i fwyaf am y gostyngiad o 100% a gynigir gan gyngor Caerdydd yw ei fod yn bygwth cefnogaeth i addysg cerddoriaeth i'r disgyblion hynny efallai nad yw eu rhieni yn gallu talu amdano eu hunain. Fe wnaeth llawer ohonom ni yn y Siambr hon elwa o'r system orau yn y byd—roedd yn destun eiddigedd y byd, ac fe'i copïwyd gan y byd. Yr hyn y gallwch ei wneud, fel Llywodraeth, yw gwneud yn siŵr bod y plant hynny sy'n agored i niwed na all eu rhieni dalu am hyfforddiant yn dal i allu cael mynediad at y system wych honno.

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

These are matters for local authorities. I cannot answer on behalf of any local authority in Wales; it is for them to explain to their electors.

Materion i awdurdodau lleol yw'r rhain. Ni allaf ateb ar ran unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru; eu cyfrifoldeb nhw yw egluro i'w hetholwyr.

## Cysylltiadau Band Eang

## Broadband Connections

13:54 **Llyr Huws Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o bwysigrwydd cysylltiadau band eang i economi Cymru. OAQ(4)0914(FM)W*

*5. What assessment has the Welsh Government made of the importance of broadband connections to the Welsh economy. OAQ(4)0914(FM)W*

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rydym yn cydnabod bod band eang yn sylfaen i dwf economaidd a swyddi cynaliadwy yng Nghymru. Dyna pam yr ydym newydd gyhoeddi rhaglen Cyflymu Cymru i symud pethau ymlaen.

We recognise that broadband underpins economic growth and sustainable jobs in Wales. That is why we recently announced the Superfast Cymru programme to move things along.

13:55 **Llyr Huws Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch am yr ateb hwnnw. Mae ystâd ddiwydiannol Wrecsam yn un o ganolfannau gweithgynhyrchu mwyaf Cymru ond, yn anffodus, mae cysylltiadau band eang yn anobeithiol yno. Mae un perchennog busnes wedi dweud wrthyf ei fod yn gorfod teithio adref yn ystod y dydd i lawrlwytho a lanlwytho ffeiliau ac, o ganlyniad, mae'n ystyried adleoli ei fusnes. Gwnaeth Llywodraeth Cymru'n Un benderfyniad pwysig o safbwynt gwella cysylltiadau trafnidiaeth ar yr ystâd honno. Beth rydych chi'n ei wneud i wella cysylltiadau band llydan ar yr ystâd strategol bwysig hon sydd, wrth gwrs, yn cyflogi bron 8,000 o weithwyr?

Thank you for that response. Wrexham industrial estate is one of the major manufacturing centres of Wales but, unfortunately, its broadband connections are appalling. One business owner has told me that he has to travel home during the day to download and upload files and, as a result, is considering relocating his business. The One Wales Government made an important decision in terms of improving transport links on that estate. What are you doing to improve the broadband connections on that strategically important estate that, of course, employs almost 8,000 people?

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Fel y mae'r Aelod yn ei wybod, rydym wedi dweud y bydd 96% o fusnesau ledled Cymru yn cael mynediad i fand eang cyflym erbyn diwedd 2015. Mae hynny'n bwysig dros ben i gadw busnesau yng Nghymru a thynnu busnesau i mewn i Gymru.

As the Member knows, we have said that 96% of businesses across Wales will have access to superfast broadband by the end of 2015. That is very important in order to keep businesses in Wales and to attract businesses to Wales.

13:56 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, there is a long-standing issue regarding BT's upgrading of Welsh exchanges. Back in December 2011, BT announced that it was undertaking a programme of work in Powys that would see 25,000 homes and businesses in towns like Newtown and Llanidloes receiving superfast broadband by the summer of 2012. Since then, there have been continued delays. Initially, I was told that the upgrade would take place by 2012, then it was the summer of 2013, and now I am told that it will be done by June 2014. Can the First Minister make representations to BT about this issue as it is having a considerable economic impact on the local economy?

Brif Weinidog, ceir problem hirhoedlog yn ymwneud â gwaith uwchraddio BT o gyfnewidfeydd yng Nghymru. Yn ôl ym mis Rhagfyr 2011, cyhoeddodd BT ei fod yn ymgymryd â rhaglen o waith ym Mhowys a fyddai'n golygu y byddai 25,000 o gartrefi a busnesau mewn trefi fel y Drenewydd a Llanidloes yn derbyn band eang cyflym iawn erbyn haf 2012. Bu oedi parhaus ers hynny. Fe'm hysbyswyd i gychwyn y byddai'r uwchraddio yn digwydd erbyn 2012, yna haf 2013, ac yn awr dywedir wrthyf y bydd yn cael ei wneud erbyn Mehefin 2014. A all y Prif Weinidog drafod y mater hwn â BT gan ei fod yn cael effaith economaidd sylweddol ar yr economi leol?

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I am aware of these problems and have experienced them myself in Bridgend, where BT Infinity was delivered more than a year after it was originally promised, so I can understand the frustration. It requires Government intervention, and, as the Member knows, that is why we have introduced Superfast Cymru to make sure that access is available to 96% of premises by the end of 2015.

Rwyyf yn ymwybodol o'r problemau hyn ac wedi cael profiad ohonynt fy hun ym Mhen-y-bont ar Ogwr, lle darparwyd BT Infinity mwy na blwyddyn yn hwyrach nag yr addawyd yn wreiddiol, felly gallaf ddeall y rhwystredigaeth. Mae'n gofyn am ymyriad gan y Llywodraeth, ac, fel y mae'r Aelod yn gwybod, dyna pam yr ydym wedi cyflwyno Cymru Cyflym Iawn i sicrhau bod mynediad ar gael i 96% o safleoedd erbyn diwedd 2015.

13:57 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

It is not just broadband connections that are vital for the Welsh economy. In my constituency, a simple mobile phone signal can be very difficult to obtain. Businesses in Brecon have been severely affected by a poor EE service, where business calls have been missed and bookings have been lost because of a lack of mobile phone service. We have supplied 17 pages of complaints to the Minister for enterprise about the poor state of the EE mobile phone service in the Brecon area. Will you join with her and make representations to that company to ensure that no more of my constituents' businesses are adversely affected by such a poor service?

Nid dim ond cysylltiadau band eang sy'n hanfodol i economi Cymru. Yn fy etholaeth i, gall signal ffôn symudol syml fod yn anodd iawn ei gael. Mae busnesau yn Aberhonddu wedi cael eu heffeithio'n ddifrifol gan wasanaeth EE gwael, lle y collwyd galwadau busnes ac y collwyd archebion oherwydd diffyg gwasanaeth ffôn symudol. Rydym wedi darparu 17 o dudalennau o gwynion i'r Gweinidog dros fenter am gyflwr gwael gwasanaeth ffôn symudol EE yn ardal Aberhonddu. A wnewch chi ymuno â hi a gwneud sylwadau i'r cwmni hwnnw er mwyn sicrhau nad oes mwy o fusnesau fy etholwyr yn cael eu heffeithio'n andwyol gan wasanaeth mor wael?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

The leader of the Liberal Democrats is absolutely right when she points out the poor level of service in many parts of Wales, and sometimes in the middle of Cardiff, our biggest city. It is right to say, in my view, that mobile coverage in the UK lags behind by some distance the coverage that you get in some other countries. It is an issue that I have raised with the Prime Minister and the Deputy Prime Minister. We will continue to make representations to these private companies. I understand that there is an opportunity relating to technology, in terms of using other ways to transmit a mobile phone signal. That is something that I have discussed with telecommunication providers in the past.

Mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn llygad ei lle wrth nodi'r lefel wael o wasanaeth mewn sawl rhan o Gymru, ac weithiau yng nghanol Caerdydd, ein dinas fwyaf. Mae'n iawn i ddweud, yn fy marn i, bod derbyniad ffonau symudol yn y DU ymhell ar ei hôl hi o'i gymharu â'r derbyniad y gallwch ei gael mewn rhai gwledydd eraill. Mae'n fater yr wyf wedi ei godi gyda'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog. Byddwn yn parhau i gyflwyno sylwadau i'r cwmnïau preifat hyn. Rwyf yn deall bod cyfle yn ymwneud â thechnoleg, o ran defnyddio ffyrdd eraill i drosglwyddo signal ffôn symudol. Mae hynny'n rhywbeth yr wyf wedi ei drafod gyda darparwyr telathrebu yn y gorffennol.

**San Francisco**

**San Francisco**

13:58 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei ymweliad diweddar â San Francisco. OAQ(4)0907(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on his recent visit to San Francisco. OAQ(4)0907(FM)*

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I issued a written statement to Members yesterday. There were 19 Welsh companies that accompanied me on the trade mission. The purpose of my visit was threefold: to promote Wales as being open for business; to raise the profile of the trade mission; and to open doors for Welsh businesses and Wales, much along the same lines as what the Prime Minister is currently doing in India.

Cyflwynais ddatganiad ysgrifenedig i Aelodau ddoe. Daeth 19 o gwmnïau o Gymru gyda mi ar y daith fasnach. Roedd tri rheswm am fy ymweliad: hyrwyddo Cymru fel lle sy'n agored i fusnes; codi proffil y daith fasnach; ac agor drysau i fusnesau Cymru a Chymru, mewn ffordd debyg iawn i'r hyn y mae'r Prif Weinidog yn ei wneud yn India ar hyn o bryd.

13:58 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for that response and congratulations on what seems to have been a successful mission. Thank you also for keeping us all informed via Twitter, which was very interesting. What report-back mechanisms are there to ensure that the 19 companies that were represented on the trade mission and Welsh Government officials are able to follow up the leads that they had in the United States and to pursue the companies in the United States that were interested in investing in Wales?

Diolch i chi am yr ymateb yna a llongyfarchiadau ar daith y mae'n ymddangos iddi fod yn llwyddiannus. Diolch hefyd am roi'r newyddion diweddaraf i ni i gyd drwy Twitter, a oedd yn ddiddorol iawn. Pa ddulliau adrodd yn ôl sydd ar gael i sicrhau bod y 19 cwmni a gynrychiolwyd ar y daith fasnach a swyddogion Llywodraeth Cymru yn gallu manteisio ar y cysylltiadau a wnaethpwyd ganddynt yn yr Unol Daleithiau ac i fynd ar drywydd y cwmnïau yn yr Unol Daleithiau oedd â diddordeb mewn buddsoddi yng Nghymru?

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

These matters are pursued via the international engagement board, which I chair. I met with the companies at the beginning of the trade mission and the end to get feedback regarding how they believed things had developed. They were more than content with the way that things had gone. Some companies will now pursue matters themselves, and we will seek to help the others to get the access to markets that they require.

Y bwrdd ymgysylltu rhyngwladol, yr wyf fi'n ei gadeirio, sy'n ymdrin â'r materion hyn. Cefais gyfarfod â'r cwmnïau ar ddechrau'r daith fasnach ac ar y diwedd i gael adborth ar sut yr oeddent yn credu bod pethau wedi datblygu. Roeddent yn fwy na bodlon gyda'r ffordd yr aeth pethau. Bydd rhai cwmnïau yn mynd ar drywydd materion eu hunain nawr, a byddwn yn ceisio helpu'r lleill i gael y mynediad y mae arnynt ei angen at farchnadoedd.

13:59

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I was pleased that you announced at the end of your visit that there would be a Welsh Government employee based in San Francisco. This was a proposition that I put to you last June, and reinforced in July and September of last year. I am therefore pleased that you have finally taken some sensible advice in employing Welsh employees to promote Wales in the North American market. However, what tangible results can we expect to see over the next 12 to 18 months from this employee based in San Francisco? What goals have you set that individual?

Roeddwn yn falch eich bod wedi cyhoeddi ar ddiwedd eich ymweliad y byddai gweithiwr Llywodraeth Cymru yn cael ei leoli yn San Francisco. Roedd hwn yn awgrym a roddais i i chi fis Mehefin diwethaf, ac a ailadroddwyd ym mis Gorffennaf a mis Medi y llynedd. Rwy'n falch, felly, eich bod wedi cymryd cyngor call o'r diwedd o ran cyflogi gweithwyr o Gymru i hyrwyddo Cymru ym marchnad Gogledd America. Fodd bynnag, pa ganlyniadau diriaethol allwn ni ddisgwyl eu gweld dros y 12 i 18 mis nesaf yn sgil lleoli'r gweithiwr hwn yn San Francisco? Pa nodau ydych chi wedi eu gosod i'r unigolyn hwnnw?

14:00

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

That individual has not been appointed yet. The appointment process is still under way. The leader of the opposition cannot have it every way. On the one hand, he says that there should not be trade missions, and then he says that we should have people based in cities around the world. His view is that we should do absolutely nothing but sit at home all day, and not go around and sell Wales. It is not a view, fortunately, taken by the Prime Minister, who said—and I entirely agree—that

Nid yw'r unigolyn wedi ei benodi eto. Mae'r broses benodi yn dal i fynd rhagddi. Ni all arweinydd yr wrthblaid ei chael hi bob ffordd. Ar y naill law, mae'n dweud na ddylid cynnal teithiau masnach, ac yna mae'n dweud y dylai fod gennym bobl mewn dinasoedd o gwmpas y byd. Ei farn ef yw y dylem wneud dim byd o gwbl ond eistedd gartref bob dydd, a pheidio â mynd o gwmpas i werthu Cymru. Yn ffodus, nid dyma farn y Prif Weinidog, a ddywedodd—ac rwy'n cytuno'n llwyr—bod:

'We have to get out there, make the case for Britain and open doors for British business. That is why I see leading British trade delegations as a vital part of my job.'

Yn rhaid i ni fynd allan, cyflwyno'r achos dros Brydain ac agor drysau i fusnesau Prydain. Dyna pam yr wyf o'r farn bod arwain dirprwyaethau masnach Prydain yn rhan hanfodol o'm swydd.

This is absolutely right; I entirely agree, and the same applies to Wales. I expect this sort of stuff from the Tories, but the thing that surprises me is that they could not bring themselves to welcome the 100-plus jobs that Hydro is bringing to Wales. They could not even welcome that. It was one piece of good news too far even for them.

Mae hyn yn hollol gywir; Rwy'n cytuno'n llwyr, ac mae'r un peth yn berthnasol i Gymru. Rwy'n disgwyl hyn gan y Torïaid, ond y peth sy'n fy synnu i yw nad oeddent yn barod i groesawu'r 100 a mwy o swyddi sy'n dod i Gymru drwy Hydro. Ni allent groesawu hynny hyd yn oed. Roedd yn un darn o newyddion da a oedd yn ormod, hyd yn oed iddyn nhw.

14:01

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Brif Weinidog, rwy'n croesawu'n fawr iawn y 100 neu fwy o swyddi sy'n dod i Gymru o ganlyniad i'ch ymweliad â San Francisco. Rydym yn falch iawn eich bod wedi bod yna, ac rydym yn falch iawn eich bod wedi arwain y ddirprwyaeth hynny. Mae'n glir mai chi oedd yn arwain hynny. Ar faterion rhyngwladol eraill, nid yw mor glir pwy sy'n arwain ar ran y Blaid Lafur. Rydych yn dweud un peth yma—ac rwy'n croesawu hynny—ynglŷn â'r gyllideb Ewropeaidd. Rydych chi ac Alun Davies wedi bod yn glir iawn ynglŷn â barn Llywodraeth Cymru, ond mae gan Wayne David, er enghraifft, farn wahanol iawn a bu iddo longyfarch y Prif Weinidog yn San Steffan, a rhoi mandad iddo, ar gwtogi'r gyllideb. Clywais eich ymateb i Alun Ffred Jones yn gynharach; dywedasoch fod eich safbwynt chi'n glir—

First Minister, I warmly welcome the 100 or more jobs that are coming to Wales as a result of your visit to San Francisco. We are very pleased that you went there, and we are very pleased that you led the delegation there. It is clear that you led that delegation. On other international issues, it is not as clear who is in the lead on behalf of the Labour Party. You say one thing here—and I welcome that—as regards the European budget. You and Alun Davies have been crystal clear about the views of the Welsh Government, but Wayne David, for example, has a very different view, congratulating the Prime Minister and giving him a mandate to cut the budget. I heard your response to Alun Ffred Jones earlier; you said that your view is clear—

14:02

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Order. Please come to the question.

Trefn. Gofynnwch y cwestiwn.

14:02

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mae eich safbwynt personol chi'n glir, ond beth yw safbwynt y Blaid Lafur yng Nghymru ar hyn?

Your personal view is clear, but what is the view of the Labour Party in Wales on this?

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Fi yw arweinydd y Blaid Lafur yng Nghymru, ac felly gallaf roi safbwynt y Blaid Lafur yn glir. Rwyf wedi arwain sawl ymweliad tramor ac, wrth gwrs, mae rhai Gweinidogion eraill yn gwneud yr un peth. Mae'n rhaid inni wneud hynny er mwyn sicrhau bod Cymru yn cael ei gwerthu dros y byd.

I am the leader of the Labour Party in Wales and so I can give the view of the Labour Party clearly. I have led a number of delegations abroad and, of course, some other Ministers carry out the same function. That is exactly what we need to do in order to ensure that Wales is sold globally.

## Lles Anifeiliaid yn Nyffryn Clwyd

## Animal Welfare in the Vale of Clwyd

14:02 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i wella lles anifeiliaid yn Nyffryn Clwyd. OAQ(4)0908(FM)*

*7. Will the First Minister outline the Welsh Government 's plans to improve animal welfare in the Vale of Clwyd. OAQ(4)0908(FM)*

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We are fully committed to raising standards of animal welfare in the Vale of Clwyd. For example, we have programmes on dog breeding, microchipping and dog control, fly-grazing, the welfare of animals at the time of slaughter and, indeed, pig welfare.

Rydym wedi ymrwymo'n llawn i godi safonau lles anifeiliaid yn Nyffryn Clwyd. Er enghraifft, mae gennym raglenni ar fridio cŵn, microsglodynnu a rheoli cŵn, pori anghyfreithlon, lles anifeiliaid ar adeg eu lladd ac, yn wir, lles moch.

14:02 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Last week, I took the opportunity to spend a day with inspector Rachel Davies from the RSPCA. I thoroughly enjoyed that day, even though it was snowing in the north-east of Wales, but there we go. On that day, I saw first-hand what the RSPCA is doing in conjunction with the Dogs Trust in terms of making people a little more responsible about some of the dogs that they own. Many people have told me that they want to see dog licensing reintroduced as a way of encouraging responsible dog ownership. Has your Government had any discussions about how you intend to look at dog licensing for the future?

Yr wythnos diwethaf, achubais ar y cyfle i dreulio diwrnod gyda'r arolygydd Rachel Davies o'r RSPCA. Mwynheais y diwrnod hwnnw yn fawr iawn, er ei bod yn bwrw eira yng ngogledd-ddwyrain Cymru, ond dyna ni. Ar y diwrnod hwnnw, gwelais drosof fy hun yr hyn y mae'r RSPCA yn ei wneud ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Cŵn o ran gwneud pobl ychydig yn fwy cyfrifol am rai o'r cŵn y maent yn berchen arnynt. Mae llawer o bobl wedi dweud wrthyf eu bod am weld trwyddedu cŵn yn cael ei ailgyflwyno fel ffordd o annog perchnogaeth cŵn cyfrifol. A yw eich Llywodraeth wedi cael unrhyw drafodaethau am sut rydych yn bwriadu ystyried trwyddedu cŵn ar gyfer y dyfodol?

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

No, not in terms of dog licensing as it was done in the past, but we are considering introducing regulations to require the compulsory microchipping and registration of all dogs in Wales as part of our road map on dog welfare. We have already consulted on this subject, and we will be publishing the results shortly.

Na, nid o ran trwyddedu cŵn fel y'i gwnaed yn y gorffennol, ond rydym yn ystyried cyflwyno rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i ficrosglodynnu a chofrestru'r holl gŵn yng Nghymru yn orfodol yn rhan o'n cynllun ar gyfer lles cŵn. Rydym wedi ymgynghori ar y pwnc hwn eisoes, a byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau yn fuan.

14:04 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As the vice-chairman of the Assembly's cross-party group on the horse—Angela Burns AM is the chairman—I am aware of concerns raised with regard to issues such as general equine welfare, fly-grazing and, of course, the horse passport regime in Wales. Having recently written to every local authority regarding this—and I have had 21 responses—it is fair to say that there are some inconsistencies—

Fel is-gadeirydd grŵp trawsbleidiol y Cynulliad ar y ceffyl—Angela Burns AC yw'r cadeirydd—rwy'n ymwybodol o'r pryderon a godwyd o ran materion fel lles cyffredinol ceffylau, pori anghyfreithlon ac, wrth gwrs, y drefn pasbortau ceffylau yng Nghymru. Ar ôl ysgrifennu at bob awdurdod lleol ynglŷn â hyn yn ddiweddar—ac rwyf wedi derbyn 21 o ymatebion—mae'n deg dweud y ceir rhai anghysondebau—

14:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Order. We are discussing the Vale of Clwyd. Please stick to the Vale of Clwyd.

Trefn. Rydym yn trafod Dyffryn Clwyd. Cadwch at Ddyffryn Clwyd os gwelwch yn dda.

14:04 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The Vale of Clwyd is a classic example—there has been only one prosecution, which was pre-2009. Other councils have stated that there is a distinct lack of funding, combined with a deficit of detailed guidance across Wales. In light of the recent contamination of the food chain with horsemeat, and given that only recently the UK Government has highlighted the importance of equine traceability—

Mae Dyffryn Clwyd yn enghraifft glasurol—dim ond un erlyniad a fu, ac roedd hynny cyn 2009. Mae cynghorau eraill wedi datgan bod diffyg cyllid eglur, ynghyd â diffyg canllawiau manwl ledled Cymru. Yng ngoleuni halogi diweddar y gadwyn fwyd gyda chig ceffyl, ac o ystyried mai dim ond yn ddiweddar y mae Llywodraeth y DU wedi amlygu pwysigrwydd gallu olrhain ceffylau—

14:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Order. Are you coming to a question? Please do so immediately, on the Vale of Clwyd.

Trefn. A ydych chi ar fin gofyn cwestiwn? Gwnewch hynny ar unwaith os gwelwch yn dda, ar Ddyffryn Clwyd.

14:05 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Yes. First Minister, will you work with the Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes and the Minister for Local Government and Communities to address these shortcomings in order that Wales can play its own part as regards animal welfare, accurate food labelling and, most of all, improved food safety?

Ydw. Brif Weinidog, a wnewch chi weithio gyda'r Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd a'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau i fynd i'r afael â'r diffygion hyn fel y gall Cymru chwarae ei rhan ei hun o ran lles anifeiliaid, labelu bwyd yn gywir ac, yn bennaf oll, gwell diogelwch bwyd?

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes.

Gwnaf.

14:05 **Llyr Huws Gruffydd** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Mae newid hinsawdd a newid mewn arferion clirio glannau afonydd ac yn y blaen bellach yn cyfrannu at enghreifftiau llawer mwy mynych o lifogydd ar dir amaethyddol. Pa asesiad mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith hynny ar les anifeiliaid fferm? Bûm ar fferm yn Nyffryn Clwyd yr wythnos diwethaf lle mae tir amaethyddol wedi bod o dan ddŵr ers mis Medi.

Climate change and changes to the way that riverbanks are cleaned and so on are now contributing to far more examples of flooding on agricultural land. What assessment has the Welsh Government made on the impact of this on the welfare of farm animals? I was on a farm in the Vale of Clwyd last week where agricultural land has been under water since September.

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'r Gweinidog yn ystyried hynny'n fanwl. Gwn, mewn rhai rhannau o Gymru, fod llifogydd wedi bod ar dir fferm oherwydd bod trefi a phentrefi wedi cael llifogydd o'r blaen, ac mae Dyffryn Conwy yn enghraifft o hynny. Deallwn fod y tywydd wedi bod yn arw iawn, yn enwedig yn y misoedd diwethaf. Os oes gan ffermwyr unrhyw broblemau, mae'n bwysig eu bod yn eu codi gyda'u hundebau. Yna, gallwn ystyried y problemau hynny drwy'r Gweinidog.

The Minister is considering this in detail. We know that, in some parts of Wales, there has been flooding on farm land because the towns and villages were flooded previously, and the Conwy valley is an example of that. We understand that there has been very heavy rain, particularly over the past few months. If farmers have any problems, it is important that they raise them with their unions. Those problems can then be discussed with the Minister.

## Manteision i Gymru / Benefits to Wales

14:06 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad yn amlinellu'r manteision i Gymru a fydd yn deillio o'i ymweliad diweddar â San Francisco. OAQ(4)0906(FM)*

*8. Will the First Minister make a statement outlining the benefits to Wales arising from his recent visit to San Francisco. OAQ(4)0906(FM)*

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I refer the Member to my earlier response to the Member for Cardiff North. It is important that we capitalise on the opportunities that the opening of a Welsh Government office in San Francisco provides us with.

Cyfeiriaf yr Aelod at fy ateb cynharach i'r Aelod dros Ogledd Caerdydd. Mae'n bwysig ein bod yn manteisio ar y cyfleoedd y mae agor swyddfa Llywodraeth Cymru yn San Francisco yn eu cynnig i ni.

14:07 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, it is perfectly right that the Government has to account for foreign trips. As the leader of the opposition said, such globetrotting has to serve a purpose and amount to more that winter sun searching. In 2009, nine Tories visited Brussels and there were other trips to Madrid at a cost of £12,000. More recently, five Tories again visited Brussels at a cost of over £1,500. Is the First Minister able to outline any benefit to Wales from those trips, other than providing Conservative Members with, in Mohammad Asghar's words, a 'wonderful time'?

Brif Weinidog, mae'n berffaith gywir bod yn rhaid i'r Llywodraeth fod yn atebol am deithiau tramor. Fel y dywedodd arweinydd yr wrthblaid, mae'n rhaid i deithio byd-eang o'r fath fod at ddiben penodol a golygu mwy na chwilio am haul yn ystod y gaeaf. Yn 2009, ymwelodd naw o Doriaid â Brwsel a bu teithiau eraill i Fadrid a gostiodd £12,000. Yn fwy diweddar, ymwelodd pump o Doriaid â Brwsel eto am gost o fwy na £1,500. A all y Prif Weinidog amlinellu unrhyw fudd i Gymru o'r teithiau hynny, ac eithrio, i ddefnyddio geiriau, Mohammad Asghar, i roi 'amser gwych' i Aelodau Ceidwadol?

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There are great dangers in constantly running the line that questions the need for overseas visits. They are absolutely essential for Government. I regret the line always taken by the Welsh Conservatives in that regard. Members, from time to time, may also benefit from overseas visits. In terms of winter sun, San Francisco was full of fog for the three days I was there. In terms of Istanbul, when I was there, it had just thawed from a snowfall and there was rain. There was no chance there, nor in Dublin, of any winter sun. That detracts from the situation. When the Prime Minister visits India, he is not asked why he is going there. When the mayor of London goes to India he is not asked, 'Why are you bothering to go?' This is a problem that exists in Welsh politics and Welsh journalism, in my view. I would like to get away from any suggestion that any visit carried out by any Member or any Member of the Government is in some way questionable from the beginning. Members will know that that is not the case.

Ceir peryglon mawr mewn parhau i gwestiynu'r angen am ymweliadau tramor. Maen nhw'n gwbl hanfodol i Lywodraeth. Rwy'n gresynu at y safbwynt a gymerir bob amser gan Geidwadwyr Cymru yn hynny o beth. O bryd i'w gilydd, gall Aelodau gael budd o ymweliadau tramor hefyd. O ran haul y gaeaf, roedd San Francisco yn llawn niwl yn ystod y tri diwrnod yr oeddwn i yno. O ran Istanbul, pan roeddwn i yno, roedd eira newydd ddadmer ac roedd hi'n bwrw glaw. Nid oedd unrhyw siawns yno, nac yn Nulyn, o gael unrhyw haul y gaeaf. Mae hynny'n tynnu lleihau'r atyniad. Pan fydd y Prif Weinidog yn ymweld ag India, ni ofynnir iddo pam mae'n mynd yno. Pan fydd maer Llundain yn mynd i India, ni ofynnir iddo, 'Pam ydych chi'n trafferthu i fynd?' Mae hon yn broblem sy'n bodoli yng ngwleidyddiaeth Cymru a newyddiaduraeth Cymru, yn fy marn i. Hoffwn i symud oddi wrth unrhyw awgrym bod unrhyw ymweliad a gynhelir gan unrhyw Aelod neu unrhyw Aelod o'r Llywodraeth yn amheus o'r dechrau mewn rhyw ffordd. Bydd yr Aelodau'n gwybod nad yw hynny'n wir.

14:08 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yn eich datganiad ddoe, dywedasoch y byddech yn cadw cysylltiad â busnesau dros y misoedd nesaf i fonitro sut mae rhai o'r cysylltiadau a wnaethoch yn San Francisco yn datblygu. A allwch ymhelaethu ar sut rydych yn bwriadu gweithio gyda busnesau Cymru yn dilyn eich taith i sicrhau eu bod yn y sefyllfa orau bosibl i gymryd mantais o'r daith fasnach?

In your statement yesterday, you said that you would be keeping in touch with businesses over the ensuing months to monitor how some of the contacts that you made in San Francisco are developing. Can you elaborate on how you intend to work with Welsh businesses, following your visit, to ensure that they are in the best possible position to take advantage of that trade mission?

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Bydd busnesau'n gallu cadw mewn cysylltiad â swyddogion a bydd swyddogion yn eu helpu drwy weithio â'r swyddfa newydd yn San Francisco i ddatblygu eu marchnadoedd yng Nghaliffornia.

Businesses will be able to keep in touch with officials and officials will assist them in working with the new office in San Francisco to develop those markets in California.

14:09 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

First Minister, your announcement on the partnership between Hydro Industries in Carmarthenshire and T&T Salvage in California was great news and I welcome the 100 jobs it brings with it to Carmarthenshire. Do you agree that Hydro Industries is exactly the kind of innovative Welsh company we need to showcase on the world stage to establish Wales as a go-to country for investment in cutting-edge technology and research and development?

Brif Weinidog, roedd eich cyhoeddiad ar y bartneriaeth rhwng y Hydro Industries yn Sir Gaerfyrddin a T&T Salvage yng Nghaliffornia yn newyddion gwych ac rwyf yn croesawu'r 100 o swyddi y mae'n eu creu yn Sir Gaerfyrddin. A ydych chi'n cytuno mai Hydro Industries yw'r union fath o gwmni arloesol o Gymru y mae angen i ni ei arddangos ar lwyfan y byd i sefydlu Cymru fel gwlad i ddod iddi i fuddsoddi yn y dechnoleg a'r ymchwil a datblygu diweddaraf?

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Absolutely, it is an unusual technology, but we have expertise in it in Wales. I very much welcome the deal, and was there when it was signed, to ensure that more than 100 jobs come to eastern Carmarthenshire.

Yn sicr, mae'n dechnoleg anarferol, ond mae gennym arbenigedd ynddi yng Nghymru. Rwy'n croesawu'r cytundeb yn fawr, ac roeddwn i yno pan gafodd ei lofnodi, gan sicrhau bod mwy na 100 o swyddi yn dod i ddwyrain Sir Gaerfyrddin.

Senedd.tv Fideo Video

### Adroddiadau Pwyllgorau'r Cynulliad

### Reports of Assembly Committees

14:10 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

*9. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r ffordd y mae argymhellion o fewn adroddiadau pwyllgorau'r Cynulliad sydd wedi'u derbyn gan y Llywodraeth yn cael eu gweithredu. OAQ(4)0913(FM)*

*9. How does the Welsh Government monitor the implementation of accepted recommendations to reports of Assembly committees. OAQ(4)0913(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae adrannau'n gyfrifol am fonitro sut y caiff argymhellion eu cymryd ymlaen.

Departments are responsible for monitoring how recommendations are taken forward.

Senedd.tv Fideo Video

14:10 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Wrth i ni drafod trosglwyddo mwy o rym i'r Cynulliad, a ydych yn fodlon yn bersonol â'r ffyrdd y mae'r adrannau hynny yn monitro'r sefyllfa hon? Rydych yn gwybod am adroddiad pwyllgor a gyhoeddwyd tua phythefnos yn ôl ar wasanaethau mamolaeth, sydd, hwyrach, yn adlewyrchiad o adroddiadau dros y 10 mlynedd diwethaf ac yn dangos bod diffyg gweithredu ar ran y Llywodraeth. A oes rhaid i chi edrych eto ar y ffordd y mae rhai o'r adrannau hyn yn monitro'r ffordd y maent yn gweithredu?

As we discuss the transfer of greater powers to the Assembly, are you personally happy with the way in which those departments monitor this situation? You know of the report of the committee, published about a fortnight ago, on neonatal care, which is perhaps a reflection of reports over the past decade and shows that there has been a lack of action from the Government's point of view. Should you look again at the way in which some of these departments monitor the way in which they work?

Senedd.tv Fideo Video

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae Gweinidogion yn gyfrifol am yr hyn sy'n cael ei wneud, ac maent yn atebol i'r Cynulliad cyfan. Dyna'r ffordd i sicrhau bod argymhellion, lle y maent yn cael eu derbyn, yn cael eu gweithredu.

Ministers are responsible for what is done and they are accountable to the Assembly as a whole. That is the way to ensure that recommendations, where they are accepted, are implemented.

Senedd.tv Fideo Video

14:11 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, rydym yn dal i aros am yr argymhellion ar gyfranogiad yn y celfyddydau a wnaed gan Bwyllgor Cymunedau a Diwylliant y Cynulliad diwethaf i gael eu gweithredu. Rydym hefyd yn disgwyl i'r argymhellion a wnaed gan Gomisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg i gael eu cyflawni. A ydych yn meddwl bod eich uned gyflawni, sy'n cefnogi Gweinidogion, yn sicrhau bod argymhellion anllywodraethol neu annibynnol yn cael eu gweithredu'n ddigon cyflym?

First Minister, we are still awaiting the implementations of the recommendations on participation in the arts made by the Communities and Culture Committee in the last Assembly. We are also awaiting the implementation of the recommendations made by the Children's Commissioner for Wales and the Welsh Language Commissioner. Do you believe that the delivery unit, which supports Ministers, ensures that non-governmental or independent recommendations are implemented quickly enough?

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae system yn ei lle er mwyn sicrhau bod argymhellion gan bwyllgorau yn cael eu gweithredu. Mae'r system honno wedi bod yn ei lle ers blynyddoedd.

There is a system in place in order to ensure that committee recommendations are implemented. That system has been in place for many years.

14:11 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Gallaf sicrhau'r Prif Weinidog, os na fydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu argymhellion Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, bydd y Gweinidogion sydd heb weithredu yn cael eu galw yn ôl i'r pwyllgor ar fyrder i ateb am eu camweddau.

I can assure the First Minister that, if the Welsh Government does not implement and take action on the recommendations made by the Environment and Sustainability Committee, the Ministers who have not taken action will be called back to the committee as a matter of urgency to account for their actions.

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n credu bod yr ateb a roddwyd gan yr Aelod yn glir iawn.

I think that the response made by the Member is very clear.

## Llif y Traffig

## Traffic Flow

14:12 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith y system terfyn cyflymder newidiol rhwng cyffordd 24 a chyffordd 28 yr M4 ar lif y traffig. OAQ(4)0909(FM)*

*10. Will the First Minister make a statement on the impact on traffic flow of the variable speed limit system on the M4 between junctions 24 to 28. OAQ(4)0909(FM)*

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Current indications suggest that congestion is less severe following the installation of the system. The system minimises rather than fully alleviates the queuing that results from demands on the network at peak times. A full assessment will be undertaken once sufficient information has been gathered to provide a statistically reliable assessment.

Mae'r arwyddion presennol yn awgrymu bod tagfeydd yn llai difrifol yn dilyn sefydlu'r system. Mae'r system yn lleihau'r ciwio sy'n deillio o ofynion ar y rhwydwaith ar adegau brig yn hytrach na chael gwared arno'n gyfan gwbl. Bydd asesiad llawn yn cael ei gynnal pan fydd digon o wybodaeth wedi'i chasglu i ddarparu asesiad ystadegol dibynadwy.

14:12 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the First Minister for his answer. He will know that that particular stretch of the motorway has involved a lot of minor accidents, almost since its inception. Will he also look at the complaint that vehicles do not maintain lane discipline, particularly at those junctions where there are a number of intersections?

Rwyf yn ddiolchgar i'r Prif Weinidog am ei ateb. Bydd yn gwybod y bu llawer o fân ddamweiniau ar y rhan benodol honno o'r draffordd, mwy neu lai o'r adeg y'i hadeiladwyd. A wnaiff ef ystyried hefyd y gŵyn nad yw cerbydau yn cynnal disgyblaeth cadw at y lôn gywir, yn enwedig ar y cyffyrdd hynny lle y ceir nifer o groesffyrdd?

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

If people do not keep to their lanes, that would give rise to potential charges of driving without due care and attention. Potentially worse than that, it is tempting for some to jump the queue—I have seen it often enough at junctions on a number of motorways. However, it is crucial that drivers understand that the reason why these variable speed limits are in place is to keep traffic flowing. Where people try to jump the queue they actually impede the flow of traffic.

Os nad yw pobl yn cadw at eu lonydd, byddai'n arwain at gyhuddiadau posibl o yrru heb ofal a sylw digonol. Yn waeth na hynny o bosibl, mae'n demtasiwn i rai geisio mynd i flaen y ciw—rwyf wedi gweld hyn yn ddigon aml wrth gyffyrdd ar nifer o draffyrdd. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig fod gyrwyr yn deall mai'r rheswm y mae'r terfynau cyflymder newidiol hyn ar waith yw i gynnal llif y traffig. Pan fydd pobl yn ceisio mynd i flaen y ciw, maen nhw'n amharu ar lif y traffig mewn gwirionedd.

14:13 **Ieuan Wyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Bydd y Prif Weinidog yn cofio mai'r rheswm am y penderfyniad gwreiddiol i bennu terfyn cyflymdra o 50 milltir yr awr oedd hefyd i gryfhau rhannau o'r draffordd yn ardal Casnewydd. Bydd y Prif Weinidog yn cofio, hefyd, y cafwyd yn gynnar iawn ffigurau yn dangos bod nifer y damweiniau difrifol a oedd yn digwydd wedi lleihau'n sylweddol yn ystod y cyfnod hwnnw. A fyddai'r Prif Weinidog yn fodlon cyhoeddi ffigurau'r damweiniau sydd wedi digwydd ers i'r terfyn cyflymdra newydd gael ei gyflwyno er mwyn i ni eu cymharu â'r hyn a ddigwyddodd cyn hynny? Rwy'n siŵr y bydd yn gweld bod nifer y damweiniau wedi cwympo'n sylweddol.

The First Minister will remember that the reason for the original decision to set a speed limit of 50 mph was also to strengthen parts of the motorway in the Newport area. The First Minister will also remember that, very early on, we received figures that showed that the number of serious accidents had been reduced during that period. Would the First Minister be willing to publish the figures for the number of accidents that have occurred since the introduction of the new speed limit in order for us to compare it with what happened before that? I am sure that he will see that the number of accidents has fallen considerably.

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Byddaf yn gwneud hynny; mae'n bwysig i Aelodau a'r cyhoedd ddeall hynny.

I will do that; it is important for Members and the public to understand that.

### Uned Gyflawni

### Delivery Unit

14:14 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*11. A wnaiff y Prif Weinidog roi manylion ynghylch y meysydd y mae Uned Gyflawni'r Prif Weinidog yn eu hasesu ar hyn o bryd, ac y bydd yr Uned yn eu hasesu eleni. OAQ(4)0911(FM)*

*11. Will the First Minister provide details on the areas that his Delivery Unit are currently assessing, and will be assessing, this year. OAQ(4)0911(FM)*

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

The delivery unit reports directly to me and ensures the integrated and streamlined delivery of Government policy.

Mae'r uned cyflenwi yn adrodd yn uniongyrchol i mi ac yn sicrhau darpariaeth integredig a syml o bolisi'r Llywodraeth.

14:14 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for that. I read with interest your publicised comments that the delivery unit concentrates on key manifesto commitments and policies. Does that then mean that it will not be looking at cross-cutting issues, such as the possible delivery of education services in Wales? What I am seeking to establish is where in your Government sit the checks and balances for new policy initiatives that were not in your manifesto that cover a number of policy areas.

Diolch i chi am hynna. Darllenais gyda diddordeb eich sylwadau a hysbysebwyd bod yr uned gyflawni yn canolbwyntio ar ymrwymiadau a pholisïau allweddol y maniffesto. A yw hynny'n golygu felly na fydd yn ystyried materion trawsbynciol, fel y ddarpariaeth bosibl o wasanaethau addysg yng Nghymru? Yr hyn yr wyf yn ceisio ei sefydlu yw pa ran o'ch Llywodraeth sy'n gyfrifol am gadw cydbwysedd ar gyfer mentrau polisi newydd nad oeddent yn eich maniffesto sy'n cwmpasu nifer o feysydd polisi.

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

They are brought to Cabinet, of course. The delivery unit's objective is not to deliver itself but to ensure that others deliver. That is something that is does very well.

Fe'u cyflwynir i'r Cabinet, wrth gwrs. Nid cyflawni ei hun yw nod yr uned gyflawni, ond sicrhau bod eraill yn cyflawni. Mae hynny'n rhywbeth y mae'n ei wneud yn dda iawn.

14:15 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography
Senedd.tv Fideo Video

Os felly, ac rwy'n derbyn eich esboniad o'r uned arbennig hon, pryd yr ydych yn bwriadu cyflwyno adroddiad sy'n dadansoddi'r ffordd y mae'r uned hon wedi monitro'r ffordd y mae eich Llywodraeth yn cyflwyno'r polisïau hyn?

If so, and I accept your explanation of this particular unit, when do you intend to present a report that analyses the way in which the delivery unit has monitored the way in which your Government introduces these policies?

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae hynny yn rhywbeth i'r Cynulliad. Y Cynulliad sy'n sicrhau bod y Llywodraeth yn atebol. Fel y dywedais, rôl yr uned hon yw sicrhau bod pethau yn cael eu delifro o dan y rhaglen lywodraethu.

That is something for the Assembly. The Assembly ensures that the Government is held to account. As I said, the role of this unit is to ensure that things are delivered under the programme for government.

14:16
Senedd.tv Fideo Video

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## Business Statement and Announcement

**Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ / The Minister for Finance and Leader of the House*

I have one change to report to this week's business. The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes will make a statement shortly on the contamination of beef products. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

Mae gennyf un newid i'w adrodd i fusnes yr wythnos hon. Bydd y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd yn gwneud datganiad yn fuan ar halogi cynhyrchion cig eidion. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel a ddangosir yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i Aelodau yn electronig.

14:16 **William Graham** Bywgraffiad Biography
Senedd.tv Fideo Video

I thank the Leader of the House for her statement today. Will she ask the Minister for Housing, Regeneration and Heritage to further promote the Olympic legacy? I welcome Cardiff Council's commitment to bid for the 2026 Commonwealth Games. I note with much regret that, when previously asked—admittedly some years ago—the Welsh Government and the Minister with responsibility for sports at the time, Jenny Randerson, replied,

Diolch i Arweinydd y Tŷ am ei datganiad heddiw. A wnaiff hi ofyn i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth i hyrwyddo etifeddiaeth y Gemau Olympaidd ymhellach? Rwy'n croesawu ymrwymiad Cyngor Caerdydd i wneud cais am Gemau'r Gymanwlad yn 2026. Nodaf gyda chryn ofid, pan ofynnwyd iddynt yn flaenorol—rai blynyddoedd yn ôl rwy'n cyfaddef—atebodd Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog a oedd yn gyfrifol am chwaraeon ar y pryd, Jenny Randerson:

'The Minister has no intention of conducting a feasibility study into the possibility of the Commonwealth Games being staged in Wales.'

Nid oes gan y Gweinidog unrhyw fwriad i gynnal astudiaeth o ddichonoldeb i'r posibilrwydd o gynnal Gemau'r Gymanwlad yng Nghymru.

I am grateful that times have moved on. Will the Welsh Government also liaise with Torfaen County Borough Council? The Minister may know that the licence for athletics has been withdrawn from Cwmbran stadium, because it has deteriorated below safety standards. It is important that athletes can train and compete at Cwmbran stadium and that the venue can resume its association with world-class athletes.

Rwyf yn ddiolchgar bod yr oes wedi newid. A wnaiff Llywodraeth Cymru gydgysylltu hefyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen? Efallai y bydd y Gweinidog yn gwybod bod y drwydded ar gyfer athletau wedi cael ei thynnu'n ôl o stadiwm Cwmbrân oherwydd ei fod wedi dirywio islaw'r safonau diogelwch. Mae'n bwysig bod athletwyr yn gallu hyfforddi a chystadlu yn stadiwm Cwmbrân ac y gall y lleoliad ailsefydlu ei gysylltiad ag athletwyr gorau'r byd.

14:17 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Of course, it is important that we look to all opportunities and the Commonwealth Games is one of those. Certainly, this Welsh Labour Government is looking at this seriously. Therefore, we welcome the initiative by Cardiff Council in this respect. That will require all of us, in partnership, to look at the facilities and infrastructure available to host such an important initiative.

Wrth gwrs, mae'n bwysig ein bod yn edrych ar bob cyfle ac mae Gemau'r Gymanwlad yn un o'r rheiny. Yn sicr, mae'r Llywodraeth Lafur Cymru hon yn ystyried hyn o ddifrif. Felly, rydym yn croesawu'r fenter gan Gyngor Caerdydd yn hyn o beth. Mae hynny'n golygu y bydd gofyn i bob un ohonom, mewn partneriaeth, ystyried y cyfleusterau a'r seilwaith sydd ar gael i gynnal menter mor bwysig.

Senedd.tv
Fideo Video

14:17 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Last Saturday, the Welsh Labour women's forum met in Cardiff and the Minister was present. There was a lot of debate about the damage that the welfare benefit cuts are causing to women, in particular. What opportunities are there to debate this issue, and other issues relating to women, particularly around International Women's Day?

Ddydd Sadwrn diwethaf, fe wnaeth fforwm menywod Llafur Cymru gyfarfod yng Nghaerdydd ac roedd y Gweinidog yn bresennol. Roedd llawer o drafodaeth am y niwed y mae'r toriadau i fudd-daliadau lles yn achosi i fenywod, yn arbennig. Pa gyfleoedd sydd ar gael i drafod y mater hwn, a materion eraill yn ymwneud â menywod, yn enwedig ar adeg Diwrnod Rhyngwladol y Menywod?

Senedd.tv
Fideo Video

14:18 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I thank Julie Morgan for that question. International Women's Day provides us with an opportunity, not only to celebrate all the achievements and contributions made by women, but also to recognise the barriers, difficulties and problems that women are facing. We have that information and evidence from the latest report on the impact of welfare reform on people and communities, particularly on women and children in Wales. I think that there is a good opportunity not just for me to make a statement on International Women's Day, but to turn this into a debate, because there will be a great deal to discuss on that day.

Diolch i Julie Morgan am y cwestiwn yna. Mae Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn rhoi cyfle i ni, nid yn unig i ddathlu'r holl lwyddiannau a chyfraniadau a wneir gan fenywod, ond hefyd i gydnabod y rhwystrau, yr anawsterau a'r problemau y mae menywod yn eu hwynebu. Mae'r wybodaeth a'r dystiolaeth hynny gennym o'r adroddiad diweddaraf ar effaith diwygio lles ar bobl a chymunedau, yn enwedig ar fenywod a phlant yng Nghymru. Rwy'n credu bod cyfle da i mi wneud datganiad ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod, yn ogystal â throi hyn yn drafodaeth, gan y bydd llawer iawn i'w drafod ar y diwrnod hwnnw.

Senedd.tv
Fideo Video

14:19 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Minister, I wonder whether we could have a debate on the provision of eating disorder services in Wales, given that, last week, we were in recess and we did not have an opportunity to ask questions about or raise awareness of Eating Disorders Awareness Week. During this week, many different organisations, most notably Beat Cymru, did a lot of work to raise awareness of eating disorders and the stigma that still surrounds mental health issues. I ask because the previous Minister for health, Edwina Hart, agreed to a Health Inspectorate Wales review after the first year of funding—which we welcome—for the new framework for eating disorders. I do not believe that that has been done. It would be useful for us, as Assembly Members, to be able to monitor the progress of that framework to see how it has embedded into the health service now that it has been going on for some time, before we can review and move on with asking for more services in Wales.

Weinidog, o'n i'n meddwl tybed a allem ni gael trafodaeth ar y ddarpariaeth o wasanaethau anhwylderau bwyta yng Nghymru, o gofio ein bod ar y toriad yr wythnos diwethaf, ac na chawsom gyfle i ofyn cwestiynau am Wythnos Ymwybyddiaeth o Anhwylderau Bwyta na chodi ymwybyddiaeth ohoni. Yn ystod yr wythnos hon, gwnaeth nifer o wahanol sefydliadau, a Beat Cymru yn fwyaf amlwg, lawer o waith i godi ymwybyddiaeth o anhwylderau bwyta a'r stigma sy'n dal i fod yn gysylltiedig â materion iechyd meddwl. Rwyf yn gofyn hyn oherwydd i'r Gweinidog iechyd blaenorol, Edwina Hart, gytuno i adolygiad gan Arolygiaeth Iechyd Cymru ar ôl y flwyddyn gyntaf o gyllid—ac rydym yn croesawu hyn—i'r fframwaith newydd ar gyfer anhwylderau bwyta. Nid wyf yn credu bod hynny wedi cael ei wneud. Byddai'n ddefnyddiol i ni, fel Aelodau'r Cynulliad, i allu monitro cynnydd y fframwaith hwnnw er mwyn gallu gweld sut y mae wedi'i ymsefydlu yn y gwasanaeth iechyd gan ei fod wedi bod ar waith ers cryn amser erbyn hyn, cyn y gallwn adolygu a symud ymlaen i ofyn am ragor o wasanaethau yng Nghymru.

Senedd.tv
Fideo Video

14:20 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

The Minister for Health and Social Services, Lesley Griffiths, is very supportive of the framework for tackling eating disorders. This is something that she regularly monitors in terms of delivery and implementation at health board level. I welcome the fact that Bethan Jenkins has brought the issue to the fore again, because it is an important time to recognise it, and there has been good publicity about it from some of the campaigns of third sector groups over the past week. So, thank you for raising it.

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Lesley Griffiths, yn gefnogol iawn i'r fframwaith ar gyfer mynd i'r afael ag anhwylderau bwyta. Mae hyn yn rhywbeth y mae hi'n ei fonitro'n rheolaidd o ran darparu a gweithredu ar lefel bwrdd iechyd. Rwyf yn croesawu'r ffaith bod Bethan Jenkins wedi dod â'r mater i'r amlwg unwaith eto, gan ei bod yn amser pwysig i'w gydnabod, a bu cyhoeddusrwydd da ar ei gyfer trwy rai o ymgyrchoedd grwpiau trydydd sector yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Felly, diolch i chi am ei godi.

Senedd.tv Fideo Video

14:20 **William Powell** Bywgraffiad Biography

For some time, I have been receiving increasingly disturbing reports about potentially harmful waste management practices taking place on puppy farming sites throughout west Wales. In some cases, it has also been alleged that animal waste, and more alarmingly, puppy carcases, are being left to decay on farmland that is also used to graze livestock that is ultimately destined for human consumption. Given the potential of this dangerous practice to spread disease within livestock that would then enter the food chain, and the obvious breaches of existing legislation that are taking place, I request a statement from the Minister for Environment and Sustainable Development on the work he is presently undertaking in advance of the animal welfare and breeding of dogs Bill to ensure that this practice is curtailed, and that those guilty are held to account.

Rwyf wedi bod yn derbyn adroddiadau cynyddol annymunol ers cryn amser am arferion rheoli gwastraff a allai fod yn niweidiol ar safleoedd ffermio cŵn bach ledled gorllewin Cymru. Mewn rhai achosion, honnwyd hefyd bod gwastraff anifeiliaid, ac yn fwy brawychus, carcasau cŵn bach, yn cael eu gadael i bydru ar dir ffermio a ddefnyddir hefyd i bori da byw sydd i gael ei fwyta gan bobl yn y pen draw. O ystyried y potensial y gallai'r arfer peryglus hwn ledaenu clefyd mewn da byw a fyddai wedyn yn mynd i mewn i'r gadwyn fwyd, a'r diffyg cydymffurfiad amlwg â deddfwriaeth bresennol, gofynnaf am ddatganiad gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar y gwaith y mae'n ei wneud ar hyn o bryd i ddatblygu'r Bil lles anifeiliaid a bridio cŵn i sicrhau y rhoddir terfyn ar yr arfer hwn, a bod y rhai sy'n euog yn cael eu gwneud yn atebol.

Senedd.tv Fideo Video

14:21 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I thank William Powell for bringing this point to the Chamber. If you have evidence in your region of this bad practice, I hope that you would bring it to the attention of the Minister. This is something that he will take into account in the preparations for his Bill.

Diolch i William Powell am ddod â'r pwynt hwn i'r Siambr. Os oes gennych dystiolaeth o'r arfer gwael hwn yn eich rhanbarth, rwy'n gobeithio y byddech yn tynnu sylw'r Gweinidog ato. Mae hyn yn rhywbeth y bydd yn ei ystyried wrth wneud y paratoadau ar gyfer ei Fil.

Senedd.tv Fideo Video

14:21 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

I request a statement from the Minister for environment on 'Minerals Technical Advice Note 2: Coal', following the news last week that he is minded to approve the Varteg hill appeal in Torfaen, a decision that would allow opencast mining to take place well within the 500m buffer zone laid down in the MTAN, and just 130m from a local school. I and others opposed to the scheme were deeply dismayed to find that MTAN 2 does not provide the protection that those of us who unanimously backed the buffer zone would have hoped for. While I do not expect you to comment on the Varteg hill appeal, I am sure that Members across the Chamber would welcome the opportunity to scrutinise how well the MTAN is delivering for communities in Wales.

Gofynnaf am ddatganiad gan Weinidog yr amgylchedd ar 'Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo', yn dilyn y newyddion yr wythnos diwethaf ei fod yn bwriadu cymeradwyo apêl bryn Farteg yn Nhor-faen, penderfyniad a fyddai'n caniatáu cloddio glo brig ymhell o fewn y glustogfa o 500m a nodwyd yn y Nodyn, a dim ond 130m oddi wrth ysgol leol. Roeddwn i ac eraill sy'n gwrthwynebu'r cynllun yn siomedig iawn i ganfod nad yw Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2 yn darparu'r amddiffyniad y byddai'r rhai ohonom a gefnogodd y glustogfa yn unfrydol wedi gobeithio amdano. Er nad wyf yn disgwyl i chi gynnig sylwadau ar apêl bryn Farteg, rwy'n sicr y byddai Aelodau ar draws y Siambr yn croesawu'r cyfle i graffu ar ba mor dda y mae'r Nodyn yn cyflawni ar gyfer cymunedau yng Nghymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:22 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I am sure that the Member for Torfaen has brought this to the attention of the Minister in terms of any concerns.

Rwy'n siŵr bod yr Aelod dros Dor-faen wedi dod â hyn i sylw'r Gweinidog o ran unrhyw bryderon.

Senedd.tv Fideo Video

14:22 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leader of the House, before the half-term recess, I asked if a statement could be forthcoming on school closures. There is one issue that is of grave concern to many members of the community in the Vale Of Glamorgan, and as a statement has not been forthcoming, are you in a position to confirm today that the Welsh Government has a target of 10% vacant spaces in schools, and if schools do not hit that 10% target, they have to shut? If that is not the case, could we have a statement from the Minister for education to clarify the Welsh Government's instruction to local authorities as to what do with vacant spaces in our primary schools?

Arweinydd y Tŷ, cyn y toriad hanner tymor, gofynnais a ellid cael datganiad ar gau ysgolion. Mae un mater sy'n peri pryder difrifol i nifer o aelodau o'r gymuned ym Mro Morgannwg, a chan na chafwyd datganiad hyd yma, a ydych chi mewn sefyllfa i gadarnhau heddiw bod gan Lywodraeth Cymru darged o 10% o leoedd gwag mewn ysgolion, ac os nad yw ysgolion yn cyrraedd y targed hwnnw o 10%, bod yn rhaid ydyn nhw gau? Os nad yw hynny'n wir, a allem ni gael datganiad gan y Gweinidog addysg i egluro cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol o ran yr hyn i'w wneud gyda lleoedd gwag yn ein hysgolion cynradd?

14:23 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I appreciate Andrew R.T. Davies's concerns about this issue, as I have been very concerned, as the local Assembly Member in the Vale of Glamorgan. I have sought to clarify the information with the Minister, as I am sure you will do. Of course, a statement of information last year clarified the position. I am sure that Andrew R.T. Davies would join me today in welcoming the good news that, in fact, the Vale of Glamorgan Council cabinet member, Chris Elmore, is not going to proceed with the closure of two schools in the Vale of Glamorgan: Llancarfan and Llanfair.

Rwy'n gwerthfawrogi pryderon Andrew R.T. Davies am y mater hwn, gan fy mod i wedi bod yn bryderus iawn, fel yr Aelod Cynulliad lleol ym Mro Morgannwg. Rwyf wedi ceisio egluro'r wybodaeth gyda'r Gweinidog, fel rwy'n siŵr y byddwch chithau yn ei wneud. Wrth gwrs, eglurwyd y sefyllfa drwy ddatganiad o wybodaeth y llynedd. Rwy'n siŵr y bydd Andrew R.T. Davies yn ymuno â mi heddiw i groesawu'r newyddion da nad yw'r aelod o gabinet Cyngor Bro Morgannwg, Chris Elmore, yn mynd i barhau â'r bwriad o gau dwy ysgol ym Mro Morgannwg: Llancarfan a Llanfair, mewn gwirionedd.

14:23 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gaf ofyn am ddau ddatganiad gan y Gweinidog llywodraeth leol a thrafnidiaeth? Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r diwydiant twristiaeth. Mae'r Llywodraeth wedi dweud bod ymchwil yn digwydd ynglŷn â rheoliadau ynglŷn â'r arwyddion brown ar ffyrdd Cymru. Mae datganiadau wedi cael eu gwneud yn y Siambr hon sy'n awgrymu bod yr ymgynghoriad hwn wedi bod yn mynd ymlaen ers tua blwyddyn, ac mae'r diwydiant yn rhwystredig iawn erbyn hyn. Hoffwn ddatganiad sydd yn datgan yr amserlen a safbwynt y Llywodraeth.

May I ask for two statements from the Minister for local government and transport? The first appertains to the tourism industry. The Government has said that research is taking place as regards the regulations for the white-on-brown signs on Welsh roads. Statements have been made in this Chamber that suggest that this consultation has been ongoing for about a year, and the industry is very frustrated indeed by now. I would like a statement setting out the timetable and the Government's stance on this.

Yr ail fater y mae angen datganiad arno yw cynllun ffordd osgoi Bontnewydd a Chaernarfon. Mae tair blynedd ers y ddau ymgynghoriad cyhoeddus a naw mis, rwy'n credu, ers i'r Gweinidog wneud cyhoeddiad am lwybr tebygol y ffordd. Mae tirfeddianwyr a pherchnogion tai ar hyd y llwybr hwnnw yn teimlo'n rhwystredig iawn achos, ar wahân i'r ffaith bod rhai'n ei wrthwynebu, mae'n golygu bod eu heiddo bellach wedi'i gloi mewn, achos does neb yn mynd i brynu tir heb wybod yn union beth fydd yn digwydd. Felly, mae cam nesaf y broses yn bwysig a hoffwn gael amserlen glir gan y Gweinidog ynglŷn â hynny.

The second matter that we need a statement on is the Bontnewydd and Caernarfon bypass. Three years have passed since the two public consultations and it is nine months, I believe, since the Minister made an announcement about the proposed route. Landowners and householders along that route are now feeling very frustrated because, apart from the fact that some oppose it, it means that their properties are locked in, because no-one is going to purchase land without knowing exactly what the future holds. Therefore, the next step of the process is important and I would like to have a clear timetable from the Minister on that.

14:25 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Those are certainly two very important issues that Alun Ffred Jones has brought to the Chamber, which are about timelines and when the consultations will be concluded on the issue of the brown signs and on the prospects of the Bontnewydd bypass. So, I will make sure that we clarify those points.

Mae'r rheini'n sicr yn ddau fater pwysig iawn y mae Alun Ffred Jones wedi eu cyflwyno i'r Siambr, sy'n ymwneud ag amserlenni a phryd y bydd yr ymgynghoriadau'n cael eu cwblhau ar fater yr arwyddion brown ac ar ragolygon ffordd osgoi Bontnewydd. Felly, byddaf yn gwneud yn siŵr ein bod yn egluro'r pwyntiau hynny.

14:25 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, may I request two statements? The first would be an update from the Minister for Health and Social Services on residential care for veterans and emergency services personnel with post-traumatic stress disorder. I understand that there is a view being undertaken at the moment and I would like to know when we might see a result from that. Secondly, I would like a statement on the closure of the Genesis Cymru Wales programme, which was announced over the half-term period. We are given to understand that, since 2008, it has created fewer than 800 jobs. I understand that the Welsh Government has decided to de-commit funding from that programme and I am sure that we all welcome that. As Mark Drakeford, as chair of the Wales European Funding Office programme monitoring committee has said, there are undoubtedly lessons to learn, and I would welcome a statement so that we can share some of those lessons.

Weinidog, a gaf i ofyn am ddau ddatganiad? Byddai'r cyntaf yn ddiweddariad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ofal preswyl i gyn-filwyr a phersonél gwasanaethau brys sydd ag anhwylder straen ôl-drawmatig. Rwy'n deall bod adolygiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd a hoffwn wybod pryd y gallem weld canlyniad hynny. Yn ail, hoffwn gael datganiad ar gau rhaglen Genesis Cymru Wales, a gyhoeddwyd dros yr hanner tymor. Rydym wedi cael ar ddeall ei fod wedi creu llai na 800 o swyddi ers 2008. Rwy'n deall bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu dad-ymrwymo cyllid o'r rhaglen honno, ac rwy'n siŵr ein bod i gyd yn croesawu hynny. Fel y mae Mark Drakeford, yn ei swyddogaeth o fod yn gadeirydd pwyllgor monitro rhaglenni Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi ei ddweud, nid oes amheuaeth bod gwersi i'w dysgu, a byddwn yn croesawu datganiad fel y gallwn rannu rhai o'r gwersi hynny.

14:26 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Eluned Parrott for those questions. Clearly, these are points in terms of information, consultation, feedback and lessons learned, and I will make sure that Ministers respond accordingly.

Diolch i Eluned Parrott am y cwestiynau yna. Yn amlwg, mae'r rhain yn bwyntiau sy'n ymwneud â gwybodaeth, ymgynghori, adborth a gwersi a ddysgwyd, a byddaf yn gwneud yn siŵr bod Gweinidogion yn ymateb yn unol â hynny.

14:26 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Earlier today, I sponsored the launch of a new report from Save the Children, which has been researched and written by young people. The report, called 'Small Voice: Big Story', shows how young people share the Assembly's vision that everyone should have an equal chance to succeed in school regardless of their backgrounds. Some young people said that not having enough money affected their hopes for the future, their confidence, their self-esteem and what activities that they could take part in. Therefore, I would welcome a statement from the Government on the progress that you are making towards breaking that link between poverty and attainment, and an opportunity to explore how we can ensure that young people's voices are still at the centre of this debate.

Yn gynharach heddiw, noddais lansiad adroddiad newydd gan Achub y Plant, sydd wedi cael ei ymchwilio a'i ysgrifennu gan bobl ifanc. Mae'r adroddiad, o'r enw 'Llais Bach: Stori Fawr', yn dangos sut mae pobl ifanc yn rhannu gweledigaeth y Cynulliad y dylai pawb gael cyfle cyfartal i lwyddo yn yr ysgol waeth beth fo'u cefndir. Dywedodd rhai pobl ifanc fod heb fod â digon o arian yn effeithio ar eu gobeithion ar gyfer y dyfodol, eu hyder, eu hunan-barch a pha weithgareddau y gallent gymryd rhan ynddynt. Byddwn yn croesawu datganiad gan y Llywodraeth felly ar y cynnydd yr ydych chi'n ei wneud tuag at dorri'r cysylltiad yna rhwng tlodi a chyrhaeddiad, a chyfle i archwilio sut y gallwn sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn dal i fod yn ganolog i'r drafodaeth hon.

14:27 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is a very important event that took place today and I am glad that Rebecca Evans was able to go and hear the young people talking about the new report from Save the Children.

Mae hwnnw'n ddigwyddiad pwysig iawn a gynhaliwyd heddiw ac rwy'n falch bod Rebecca Evans wedi gallu mynd i glywed y bobl ifanc yn siarad am yr adroddiad newydd gan Achub y Plant.

Certainly, there will be messages to which the Government will want to respond, particularly in response to our work on addressing and promoting the strategy against poverty and the opportunities for young people, as we are doing, for example, with Jobs Growth Wales.

Yn sicr, bydd negeseuon y bydd y Llywodraeth yn dymuno ymateb iddynt, yn enwedig mewn ymateb i'n gwaith ar hyrwyddo a mynd i'r afael â'r strategaeth yn erbyn tlodi a'r cyfleoedd i bobl ifanc, fel rydym yn ei wneud gyda Thwf Swyddi Cymru, er enghraifft.

14:28 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leader of the House, in answer to earlier questions from Angela Burns and Rhodri Glyn Thomas, the First Minister said that it is for the Assembly to hold him to account on the effectiveness of the delivery unit. Given that there is, let us say, a degree of healthy scepticism surrounding the exact role of the delivery unit in progressing change in Wales, could we have that statement or update from the First Minister as a matter of urgency?

Arweinydd y Tŷ, wrth ateb cwestiynau cynharach gan Angela Burns a Rhodri Glyn Thomas, dywedodd y Prif Weinidog mai cyfrifoldeb y Cynulliad yw sicrhau ei fod yn atebol am effeithiolrwydd yr uned gyflawni. O gofio bod yna rywfaint, gadewch i ni ddweud, o amheuaeth iach o ran union swyddogaeth yr uned gyflawni wrth fwrw ymlaen â newid yng Nghymru, a allem ni gael y datganiad neu'r diweddariad hwnnw gan y Prif Weinidog fel mater o frys?

14:28 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It intrigues me when we get to a point when questions like this are asked of me, as business manager and Leader of the House, because, clearly, you have every opportunity to hold this Government to account in terms of our programme for government and the delivery of our manifesto of commitments. That, as the First Minister said in response to the questions earlier today, is what we are held to account for, and the delivery unit is there to help monitor how we are delivering on our promises and our plans.

Mae’n ennyn fy chwilfrydedd pan fyddwn yn cyrraedd pwynt pan fydd cwestiynau fel hyn yn cael eu gofyn i mi, fel y rheolwr busnes ac Arweinydd y Tŷ, oherwydd mae gennych, yn amlwg, bob cyfle i sicrhau bod y Llywodraeth yn atebol o ran ein rhaglen ar gyfer llywodraethu a darpariaeth ein maniffesto o ymrwymiadau. Dyna, fel y dywedodd y Prif Weinidog mewn ymateb i’r cwestiynau yn gynharach heddiw, yw’r hyn yr ydym yn atebol amdano, ac mae’r uned gyflawni yno i helpu i fonitro sut rydym yn cyflawni ein haddewidion a’n cynlluniau.

14:29 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, rydych yn dweud bod uned gyflawni’r Llywodraeth yno i fonitro'r modd rydych yn cyflawni; y cwestiwn rydym ni’n ei ofyn yw, sut y gallwn graffu ar ba mor effeithiol yw’r uned honno os nad ydych yn mynd i gyflwyno datganiad neu ddadl ar lawr y Cynulliad i’n galluogi i graffu arni. Heblaw hynny, rydych yn cuddio’r uned hon yn gyfan gwbl, ac unrhyw beth y mae’n ei gyflawni, os yw’n cyflawni unrhyw beth o gwbl. Nid oes modd i ni graffu heblaw eich bod chi, fel Arweinydd y Tŷ, yn cyflwyno datganiad neu ddadl ar lawr y Cynulliad hwn. Felly, os gwelwch yn dda, er mwyn ein caniatáu i graffu, a wnewch chi wneud hynny?

Minister, you state that the Government’s delivery unit is there to monitor how you deliver; the question that we are asking is, how can we scrutinise the effectiveness of that unit if you are not going to present a statement or a debate on the floor of the Assembly to allow us to scrutinise it. If you do not do that, you are hiding this unit entirely, and anything that it is delivering, if it is delivering anything at all. There is no way that we can scrutinise it unless you, as the Leader of the House, put forward a statement or a debate on the floor of this Assembly. Therefore, in order to allow us to carry out that scrutiny, will you please do that?

Yr ail bwynt sydd gennyf i godi gyda chi yw, cawsom ddatganiad gan y Prif Weinidog yr wythnos ddiwethaf yn amlinellu pa mor andwyol fyddai effaith cwtogi cyllideb yr Undeb Ewropeaidd ar economi Cymru. Cawsom ddatganiad cyffelyb gan y Gweinidog sy’n gyfrifol am gronfeydd ariannol Ewrop ddoe ddiwethaf. Mae amheuon yn codi ynglŷn â phwy yn union sy’n llefaru ar ran y Blaid Lafur: ai Llywodraeth Cymru, Aelodau Seneddol o Gymru, neu’r Blaid Lafur yn San Steffan? Fodd bynnag, y cwestiwn sylfaenol yw, os yw’r pwnc hwn mor bwysig ag y mae’r Prif Weinidog, a’r Dirprwy Weinidog sy’n gyfrifol am y cronfeydd hyn, yn ei ddweud, pam na chawn ddadl ar lawr y Cynulliad ar y sefyllfa sy’n wynebu Cymru o ganlyniad i’r cwtogi hwn?

The second point that I want to raise with you is, we had a statement last week from the First Minister outlining how detrimental the impact of cuts to the European Union budget would be to the Welsh economy. We had a similar statement from the Minister responsible for European structural funds just yesterday. Doubts have been raised as to who exactly is speaking on behalf of the Labour Party: is it the Welsh Government, Welsh MPs, or the Labour Party in Westminster? However, the fundamental question is, if this issue is as important as the First Minister, and the Deputy Minister responsible for these funds, say, why can we not have a debate on the floor of the Assembly on the situation facing Wales as a result of these cuts?

14:30 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is important—I know that Rhodri Glyn Thomas will understand this, having been in Government himself—that we are held to account as a Government. We are held to account through questions to Ministers in Plenary, as well as in committee. It is also important that we are clear and transparent about the delivery of our programme of government. The annual report is the opportunity to test and scrutinise how we are delivering. We are only too glad to update on our delivery, particularly our delivery, for example, of Jobs Growth Wales, which provides jobs and opportunities for young people, on doubling our Flying Start provision for some of the most disadvantaged children in Wales, and also on delivering on our commitment to our community support officers working in the community. Clearly, the Assembly has many opportunities to scrutinise us. The delivery unit helps Ministers deliver on our programme for government. That is the key role for it to play—it is a part of the civil service, and that is what it does.

Mae’n bwysig—gwn y bydd Rhodri Glyn Thomas yn deall hyn, ar ôl bod yn y Llywodraeth ei hun—ein bod yn cael ein dwyn i gyfrif fel Llywodraeth. Rydym yn cael ein dwyn i gyfrif trwy gwestiynau i Weinidogion yn y Cyfarfod Llawn, yn ogystal ag yn y pwyllgorau. Mae’n bwysig hefyd ein bod yn eglur ac yn dryloyw am ddarpariaeth ein rhaglen ar gyfer llywodraethu. Yr adroddiad blynyddol yw’r cyfle i brofi a chraffu ar sut yr ydym yn cyflawni. Rydym ond yn rhy falch i roi’r wybodaeth ddiweddaraf am ein darpariaeth yn enwedig, o Dwf Swyddi Cymru, er enghraifft, sy’n darparu swyddi a chyfleoedd i bobl ifanc, am ddyblu ein darpariaeth Dechrau’n Deg ar gyfer rhai o’r plant mwyaf difreintiedig yng Nghymru, a hefyd ar gyflawni ein hymrwymiad i’n swyddogion cymorth cymunedol sy’n gweithio yn y gymuned. Yn amlwg, mae gan y Cynulliad lawer o gyfleoedd i graffu arnom ni. Mae’r uned gyflawni yn helpu Gweinidogion i ddarparu ein rhaglen ar gyfer llywodraethu. Dyna’r swyddogaeth allweddol iddi ei chyflawni—mae’n rhan o’r gwasanaeth sifil, a dyna’r hyn y mae’n ei wneud.

Your second point is important, and there has been no shortage of opportunities for you to question the First Minister, as well as the Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes. Also, statements have been made, and we have made our position very clear, as indeed we have on an inter-governmental basis, and I support the Minister in that respect.

Mae eich ail bwynt yn bwysig, ac ni fu prinder o gyfleoedd i chi holi'r Prif Weinidog, yn ogystal â'r Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd. Gwnaed datganiadau hefyd, ac rydym wedi gwneud ein safbwynt yn eglur iawn, fel yr ydym wedi ei wneud ar sail rynglywodraethol mewn gwirionedd, ac rwy'n cefnogi'r Gweinidog yn hynny o beth.

14:32 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, during the half-term recess, the Westminster Government gave its response to the Dilnot inquiry into paying for long-term care. As you will know, that is a devolved area, and the Welsh Government is on record as saying that it would wait to see what the Westminster Government did before making an announcement about paying for care in Wales. Now that we have some clarity about what the system will be in England, when can we expect to hear from the Welsh Government what the system for paying for long-term care will be in Wales?

Weinidog, yn ystod y toriad hanner tymor, rhoddodd Lywodraeth San Steffan ei ymateb i ymchwiliad Dilnot i dalu am ofal hirdymor. Fel y gwyddoch, mae hwn yn faes datganoledig, a chofnodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi dweud y byddai'n disgwyl i weld beth fyddai Llywodraeth San Steffan yn ei wneud cyn gwneud cyhoeddiad am dalu am ofal yng Nghymru. Gan fod gennym rywfaint o eglurder erbyn hyn am yr hyn fydd y system yn Lloegr, pryd allwn ni ddisgwyl clywed gan Lywodraeth Cymru beth fydd y system ar gyfer talu am ofal hirdymor yng Nghymru?

14:32 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very glad to update Kirsty Williams, and the Assembly, on this matter. The Deputy Minister for Children and Social Services, Gwenda Thomas, is due to meet the Department of Health Minister on 27 February. That will be an initial discussion about the UK announcement. This is also about meeting her commitment to issue a written statement for Members on paying for care in Wales, subsequent to that meeting.

Rwy'n falch iawn o ddiweddaru Kirsty Williams, a'r Cynulliad, ar y mater hwn. Bydd y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas, yn cyfarfod â Gweinidog yr Adran Iechyd ar 27 Chwefror. Trafodaeth gychwynnol am gyhoeddiad y DU fydd honno. Mae hyn hefyd yn ymwneud â bodloni ei hymrwymiad i gyhoeddi datganiad ysgrifenedig i'r Aelodau ar dalu am ofal yng Nghymru, yn dilyn y cyfarfod hwnnw.

14:33 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, could we have a statement from the Minister for Health and Social Services on NHS finances? We are fast approaching the end of the financial year. Some local health boards have indicated that, even with the additional resources provided by the Welsh Government in early December last year, they are still unlikely to meet their financial obligations to break even. In interviews over the past few weeks, the Minister has indicated that some people might have to consider their positions in health boards if they are unable to meet their financial obligations. We need clarity on this, and we need to know precisely what action the Welsh Government will take in the event that health boards do not meet those financial obligations.

Weinidog, a allem ni gael datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyllid y GIG? Rydym yn prysur nesáu at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae rhai byrddau iechyd lleol wedi nodi eu bod yn dal yn annhebygol o allu bodloni eu rhwymedigaethau ariannol i adennill costau, hyd yn oed gyda'r adnoddau ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn gynnar ym mis Rhagfyr y llynedd. Mewn cyfweliadau yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae'r Gweinidog wedi dweud efallai y bydd yn rhaid i rai pobl ystyried eu sefyllfaoedd mewn byrddau iechyd os nad ydynt yn gallu bodloni eu rhwymedigaethau ariannol. Mae angen eglurder ar hyn, ac mae angen i ni wybod yn union pa gamau fydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd os na fydd byrddau iechyd yn bodloni'r rhwymedigaethau ariannol hynny.

14:34 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister has made her position very clear and I do not think that there is anything to add to that.

Mae'r Gweinidog wedi gwneud ei safbwynt yn eglur iawn ac nid wyf yn credu bod unrhyw beth i'w ychwanegu at hynny.

13:34

## Datganiad: Halogi Cynnyrch Cig Eidion

## Statement: Contamination of Beef Products

Senedd.tv
Fideo Video

### Alun Davies Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd / The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes*

I wish to update Members on the current position on incidents of horsemeat in processed beef products.

Hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y sefyllfa bresennol o ran achosion o gig ceffyl mewn cynhyrchion cig eidion wedi'u prosesu.

At its heart, this matter is one of crime for economic gain. I am assured by the Food Standards Agency that, on the basis of the evidence that it has collected to date, there is no risk to human health from these incidents. I must also say that I am assured that the meat supply chain here is robust, and that these recent incidents are not indicative of wider systemic failures in our food supply chain.

Yn y bôn, mater o droseddu am fudd economaidd yw hwn. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi fy sicrhau, ar sail y dystiolaeth y maent wedi'i chasglu hyd yn hyn, nad yw'r digwyddiadau hyn yn peri unrhyw risg i iechyd dynol. Rhaid imi hefyd ddweud fy mod wedi cael fy sicrhau bod y gadwyn cyflenwi cig yma yn gadarn, ac nad yw'r digwyddiadau diweddar yn arwydd o fethiannau systemig ehangach yn ein cadwyn cyflenwi bwyd.

There are suspected instances of horsemeat finding its way into the meat supply chain here in Wales, and across Europe. Along with other ministerial colleagues, I find this completely unacceptable. Investigations into these incidents are continuing and will be pursued to a satisfactory conclusion. Members will be particularly concerned by the allegations following investigations into a meat-processing business near Aberystwyth by the Food Standards Agency, the local authority and Dyfed-Powys Police.

Ceir achosion lle'r amheuir bod cig ceffyl wedi dod i mewn i'r gadwyn cyflenwi cig yma yng Nghymru, ac ar draws Ewrop. Ynghyd â Gweinidogion eraill, ystyriaf fod hyn yn hollol annerbyniol. Mae ymchwiliadau i'r digwyddiadau'n parhau, a chânt eu dilyn at gasgliad boddhaol. Bydd Aelodau'n arbennig o bryderus am yr honiadau yn dilyn ymchwiliadau i fusnes prosesu cig ger Aberystwyth gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, yr awdurdod lleol a Heddlu Dyfed-Powys.

This is a complex issue, which first came to our attention when, on 15 January, the Food Safety Authority of Ireland announced the results of a survey of processed beef products that found that in one product, a Tesco Everyday Value burger, there was gross adulteration with horsemeat. On the following day, the FSA announced a four-point plan to investigate the implications for UK products as well as UK consumers. That included robust and definitive studies of processed beef products on the UK market.

Mae hwn yn fater cymhleth. Daeth at ein sylw am y tro cyntaf ar 15 Ionawr, pan gyhoeddodd Awdurdod Diogelwch Bwyd Iwerddon ganlyniadau arolwg o gynhyrchion cig eidion wedi'u prosesu a ganfu fod un cynnyrch, byrgyr Everyday Value Tesco, wedi'i ddifwyno'n ddifrifol â chig ceffyl. Ar y diwrnod canlynol, cyhoeddodd yr FSA gynllun pedwar pwynt i ymchwilio i'r goblygiadau i gynhyrchion y DU yn ogystal â defnyddwyr yn y DU. Roedd hynny'n cynnwys astudiaethau cadarn a diffiniol o gynhyrchion cig eidion wedi'u prosesu ar y farchnad yn y DU.

On 31 January, the prison service of England and Wales notified the Food Standards Agency that traces of pork DNA had been found in a selection of meat pies labelled as Halal. While trace contamination does not necessarily indicate fraudulent activity, any contamination is clearly of significant concern to faith communities.

Ar 31 Ionawr, hysbysodd gwasanaeth carchardai Cymru a Lloegr yr Asiantaeth Safonau Bwyd fod olion o DNA porc wedi eu darganfod mewn detholiad o basteiod cig wedi'u labelu'n Halal. Er nad yw halogiad hybrin o reidrwydd yn nodi gweithgarwch twyllodrus, mae unrhyw halogiad yn amlwg yn destun pryder sylweddol i gymunedau ffydd.

On 6 February, Findus Foods informed the Food Standards Agency that it had confirmed gross contamination of frozen beef lasagne products with horsemeat. The lasagne was produced in Luxembourg by a French company, Comigel, with the meat supplied by another French company, Spanghero. This is now under active investigation by specialist fraud investigators in France.

Ar 6 Chwefror, rhoddodd Findus Foods wybod i'r Asiantaeth Safonau Bwyd eu bod wedi cadarnhau bod cynhyrchion lasagne cig eidion wedi'u rhewi wedi'u halogi'n ddifrifol â chig ceffyl. Roedd y lasagne yn cael ei gynhyrchu yn Lwcsembwrg gan gwmni o Ffrainc, Comigel, ac roedd y cig yn cael ei gyflenwi gan gwmni arall o Ffrainc, Spanghero. Mae hyn bellach yn destun ymchwiliad gweithredol gan ymchwilwyr twyll arbenigol yn Ffrainc.

In response to the report by Findus, which identified a supply chain issue completely separate from that which featured in the Irish survey, the FSA told UK food businesses that they should report the results of tests on all product lines of burgers, meatballs, lasagne and other similar processed foods available in the UK. On 15 February, the FSA published summary data from test results reported by the industry as of that date. Of 2,501 tests, 29, relating to seven food products, were positive for the presence of undeclared horse meat at or above a level of 1%. The test results for these seven products had each previously been reported to the FSA, and the food businesses responsible had taken appropriate action to remove the products from sale and to notify consumers. This work continues and the FSA plans to publish further results on Friday 22 February.

Wrth ymateb i adroddiad Findus, a nododd fater yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi a oedd yn hollol wahanol i'r un yn yr arolwg o Iwerddon, dywedodd yr FSA wrth fusnesau bwyd y DU y dylent adrodd am ganlyniadau profion ar bob llinell gynnyrch byrgyrs, pelenni cig, lasagne a bwydydd eraill tebyg wedi'u prosesu sydd ar gael yn y DU. Ar 15 Chwefror, cyhoeddodd yr FSA ddata crynhoi o ganlyniadau profion a adroddwyd gan y diwydiant hyd at y dyddiad hwnnw. O 2,501 o brofion, roedd 29, yn ymwneud â saith cynnyrch bwyd, yn dangos presenoldeb cig ceffyl heb ei ddatgan ar lefel o 1% neu fwy. Roedd canlyniadau profion y saith cynnyrch hyn wedi cael eu hadrodd i'r FSA yn flaenorol, ac roedd y busnesau bwyd a oedd yn gyfrifol wedi cymryd camau priodol i roi'r gorau i werthu'r cynnyrch ac i hysbysu defnyddwyr. Mae'r gwaith hwn yn parhau ac mae'r FSA yn bwriadu cyhoeddi canlyniadau pellach ddydd Gwener 22 Chwefror.

Separately, the FSA has audited the records of the five abattoirs in the UK approved for the slaughter of horses for food. As a result of this work, the FSA, supported by local authorities and police forces, has suspended the approvals of the Peter Boddy Licensed Slaughterhouse in Todmorden in Yorkshire, and Farmbox Meats Ltd in Llandre, Aberystwyth. I understand that three people have been arrested and interviewed and that detailed investigations will continue.

Ar wahân i hynny, mae'r FSA wedi archwilio cofnodion y pum lladd-dy yn y DU a gymeradwywyd i ladd ceffylau ar gyfer bwyd. O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae'r FSA, gyda chymorth awdurdodau lleol a heddluoedd, wedi atal cymeradwyaeth Lladd-dy Trwyddedig Peter Boddy yn Todmorden yn Swydd Efrog, a Farmbox Meats Cyf yn Llandre, Aberystwyth. Rwyf ar ddeall fod tri o bobl wedi cael eu harestio a'u cyfweld ac y bydd ymchwiliadau manwl yn parhau.

To date, this contamination and mislabelling incident has affected 16 member states. The Commission held meetings with member states in Brussels on 13 February to discuss the matter. This meeting was attended on our behalf by Owen Paterson, the Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs. The Secretary of State also attended a meeting on 14 February with Europol, which will be co-ordinating the evidence across Europe. Members will also be interested to know that SOCA, the Serious Organised Crime Agency, is now also involved in the investigation.

Hyd yma, mae'r digwyddiad halogi a chamlabelu hwn wedi effeithio ar 16 o aelod wladwriaethau. Cynhaliodd y Comisiwn gyfarfodydd ag aelod wladwriaethau ym Mrwsel ar 13 Chwefror i drafod y mater. Roedd Owen Paterson, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, yn bresennol yn y cyfarfod hwn ar ein rhan. Roedd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn bresennol mewn cyfarfod ar 14 Chwefror ag Europol, a fydd yn cyd-drefnu'r dystiolaeth ar draws Ewrop. Bydd gan yr Aelodau ddiddordeb hefyd mewn gwybod bod SOCA, yr Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol, nawr hefyd yn cymryd rhan yn yr ymchwiliad.

On 15 February, member states agreed a Commission recommendation to sample and DNA-test meat products across the European Union. This will be followed up with 'bute' testing if horsemeat is found. 'Bute' is a veterinary medicine used to treat horses after injury. The initial period of this testing will be for one month, with review and extension to three months if necessary. The Commission will be paying for 75% of the costs of this testing.

Ar 15 Chwefror, cytunodd aelod wladwriaethau ag argymhelliad gan y Comisiwn i samplu a phrofi DNA cynhyrchion cig ar draws yr Undeb Ewropeaidd. Caiff hyn ei ddilyn gan brofi 'bute' os ceir hyd i gig ceffyl. Meddyginiaeth filfeddygol a ddefnyddir i drin ceffylau ar ôl anaf yw 'bute'. Cynhelir y profion am gyfnod cychwynnol o fis, a cheir adolygiad ac estyniad i dri mis os bydd angen hynny. Bydd y Comisiwn yn talu am 75% o gostau'r profion hyn.

The lead responsibility for food safety, authenticity, composition and labelling in Wales rests with the Food Standards Agency, which reports to Welsh Ministers, while the Department for Environment, Food and Rural Affairs takes the lead on behalf of the UK within Europe. I am grateful to the FSA for the way in which we have been able to work closely together through the course of this incident and for its investigations. I have made it very clear that there needs to be openness and transparency in the system for the benefit of consumers. Retailers, food manufacturers and processors need to deliver on these commitments to reassure their customers.

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sy'n adrodd i Weinidogion Cymru, sydd â chyfrifoldeb arweiniol am ddiogelwch, dilysrwydd, cyfansoddiad a labelu bwyd yng Nghymru, tra bod Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn arwain ar ran y DU o fewn Ewrop. Rwyf yn ddiolchgar i'r FSA am y ffordd yr ydym wedi gallu cydweithio'n agos drwy gydol y digwyddiad hwn ac am eu hymchwiliadau. Rwyf wedi ei gwneud yn glir iawn fod angen i'r system fod yn agored ac yn dryloyw er budd defnyddwyr. Mae angen i adwerthwyr, gwneuthurwyr a phroseswyr bwyd gyflawni'r ymrwymiadau hyn er mwyn tawelu meddyliau eu cwsmeriaid.

I would also like to state clearly that the FSA has assured me that it currently has no evidence at all to suggest that any recalled products present a food safety risk. The advice of the UK Government's chief medical officer, Professor Dame Sally Davies, is that even if 'bute' is found to be present, there is a very low risk indeed that it would cause any harm to health.

Hoffwn hefyd ddatgan yn glir fod yr FSA wedi fy sicrhau nad oes ganddynt unrhyw dystiolaeth o gwbl ar hyn o bryd i awgrymu bod unrhyw gynnyrch sydd wedi'i alw'n ôl yn peri risg i ddiogelwch bwyd. Cyngor prif swyddog meddygol Llywodraeth y DU, yr Athro Fonesig Sally Davies, yw, hyd yn oed os gwelir bod 'bute' yn bresennol, fod y risg yn isel iawn y byddai'n achosi unrhyw niwed i iechyd.

I think it is worth mentioning at this point that Welsh beef has been awarded the European Union's protected geographical indication status. This presents Welsh beef as having unique properties from its method and place of rearing and allows us to promote this widely. Such meat must adhere to the highest possible standards throughout all stages of its journey—from the field to the customer. In practice, this means that only beef from cattle born and reared in Wales and slaughtered and processed in PGI-approved premises can be labelled as Welsh beef. It is a short and highly visible supply chain. Abattoirs and processing facilities have to comply with strict criteria before they can become PGI-accredited, and all products have to be fully traceable. Hybu Cig Cymru has done excellent work in promoting our Welsh beef, the quality of which is among the best in the world. Consumers should have every confidence in products labelled PGI Welsh beef, or, of course, Welsh lamb.

Credaf ei bod yn werth nodi yn y fan hon fod cig eidion Cymru wedi ennill statws dynodiad daearyddol gwarchodedig (PGI) yr Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn nodi bod gan gig eidion Cymru briodweddau unigryw oherwydd y ffordd y caiff ei fagu a'r lle y caiff ei fagu ac mae'n ein galluogi i hyrwyddo hyn yn eang. Rhaid i gig o'r fath gadw at y safonau uchaf posibl ar bob cam o'i daith—o'r cae at y cwsmer. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu mai dim ond cig eidion o wartheg sydd wedi'u geni a'u magu yng Nghymru, ac wedi'u lladd a'u prosesu mewn adeiladau wedi'u cymeradwyo gan PGI, all gael ei labelu fel cig eidion o Gymru. Mae'n gadwyn gyflenwi fer a hynod weladwy. Rhaid i ladd-dai a chyfleusterau prosesu gydymffurfio â meini prawf caeth cyn y gallant gael achrediad PGI, a rhaid i bob cynnyrch fod yn gwbl olrheiniadwy. Mae Hybu Cig Cymru wedi gwneud gwaith rhagorol wrth hyrwyddo cig eidion Cymru, ac mae ei ansawdd ymysg y gorau yn y byd. Dylai fod gan ddefnyddwyr bob hyder mewn cynhyrchion wedi'u labelu'n gig eidion Cymru PGI, neu, wrth gwrs, yn gig oen Cymru.

From the initial stages of this inquiry, there have been good and open communications and joint working between Ministers across the United Kingdom to ensure that appropriate actions are taken to address this serious issue. There has been intense collaboration across Europe so that all European consumers can have confidence in what we are buying. Yesterday, together with Owen Paterson and Ministers with responsibility for food throughout the UK, I met again with retailers, food manufacturers and technical experts to discuss what we have done to date and what now needs to be done. I will continue to pursue this issue to a satisfactory conclusion and do all that I can in Wales and with UK ministerial colleagues. I have held daily telephone conferences with the FSA and have established a ministerial group of key individuals together under a single umbrella to ensure that Wales's approach to this issue, now and in the future, is fully joined up. These individuals are pulled from Government, the FSA, Hybu Cig Cymru, local authorities and the police. I have also given a public statement regarding horsemeat found in beef and will make further statements as necessary.

Ers cychwyn yr ymchwiliad hwn, cafwyd cyfathrebu da ac agored a chydweithio rhwng Gweinidogion ar draws y Deyrnas Unedig i sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i ymdrin â'r mater difrifol hwn. Bu cydweithredu dwys ar draws Ewrop fel y gall holl ddefnyddwyr Ewrop fod yn hyderus yn yr hyn yr ydym yn ei brynu. Ddoe, ynghyd ag Owen Paterson a Gweinidogion sydd â chyfrifoldeb am fwyd ledled y DU, cefais gyfarfod eto ag adwerthwyr, gweithgynhyrchwyr bwyd ac arbenigwyr technegol i drafod yr hyn yr ydym wedi'i wneud hyd yma a'r hyn y mae angen ei wneud nawr. Byddaf yn parhau i ddilyn y mater hwn at gasgliad boddhaol ac yn gwneud popeth yn fy ngallu yng Nghymru a chyda Gweinidogion eraill y DU. Rwyf wedi cynnal cynadleddau ffôn dyddiol gyda'r FSA ac maent wedi sefydlu grŵp gweinidogol o unigolion allweddol o dan un ymbarél i sicrhau bod dulliau Cymru o ymdrin â'r mater hwn, nawr ac yn y dyfodol, yn gwbl gydgysylltiedig. Daw'r unigolion hyn o'r Llywodraeth, yr FSA, Hybu Cig Cymru, awdurdodau lleol a'r heddlu. Rwyf hefyd wedi gwneud datganiad cyhoeddus am y cig ceffyl sydd wedi'i ganfod mewn cig eidion a byddaf yn gwneud datganiadau pellach yn ôl yr angen.

The testing of products that is being carried out under the instruction of the FSA covers the entire supply chain. This includes suppliers to schools, hospitals and prisons, as well as to retailers. I would like to see retailers taking a more proactive role in reassuring their customers that there is a robust system in place that ensures their safety and that underpins confidence in their products. There is a three-month programme of random DNA testing of beef products across the EU that will begin on 1 March and the first results will be published on 15 April. This will complement a new intelligence-sharing system so that new information about the current investigations can be shared immediately. This will enable member states to act straight away if they have any suspicions that food businesses are not adhering to the law. I trust that investigations into suspected criminal activity can be conducted across Europe. These issues will be discussed at next week's meeting of EU agriculture Ministers, which I will attend.

Mae'r profion sy'n cael eu cynnal ar gynhyrchion dan gyfarwyddyd yr FSA yn cynnwys y gadwyn gyflenwi gyfan. Mae hyn yn cynnwys cyflenwyr i ysgolion, ysbytai a charchardai, yn ogystal ag i adwerthwyr. Hoffwn weld adwerthwyr yn chwarae rhan fwy rhagweithiol wrth dawelu meddyliau eu cwsmeriaid fod system gadarn ar waith sy'n sicrhau eu diogelwch ac sy'n tanategu hyder yn eu cynhyrchion. Bydd rhaglen tri mis o brofi DNA cynnyrch cig eidion ar hap ar draws yr UE yn dechrau ar 1 Mawrth a chaiff y canlyniadau cyntaf eu cyhoeddi ar 15 Ebrill. Bydd hyn yn ategu system newydd o rannu gwybodaeth fel y gellir rhannu gwybodaeth newydd am yr ymchwiliadau cyfredol ar unwaith. Bydd hyn yn galluogi aelod wladwriaethau i weithredu ar unwaith os oes ganddynt unrhyw amheuon nad yw busnesau bwyd yn cadw at y gyfraith. Hyderaf y gellir cynnal ymchwiliadau i amheuaeth o weithgarwch troseddol ledled Ewrop. Caiff y materion hyn eu trafod yng nghyfarfod Gweinidogion amaethyddiaeth yr UE yr wythnos nesaf, a byddaf yn bresennol yn y cyfarfod.

Presiding Officer, I shall ensure that Wales's interests are taken into account in all the EU's recommendations on labelling the origin of all processed meat, so that we can all see more clearly where our meat is coming from, and in all further discussions on the way forward. I have confidence in the food chain and am determined to address any identified weak points as they arise. Integrity and trust are fundamental to consumer confidence in the entire food chain.

Lywydd, byddaf yn sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried yn holl argymhellion yr UE ar labelu tarddiad pob cig wedi'i brosesu, fel y gallwn i gyd weld yn gliriach o ble y daw ein cig, ac ym mhob trafodaeth bellach am y ffordd ymlaen. Mae gennyf hyder yn y gadwyn fwyd ac rwyf yn benderfynol o unioni unrhyw bwyntiau gwan a nodir wrth iddynt godi. Mae uniondeb ac ymddiriedaeth yn hanfodol i hyder defnyddwyr yn y gadwyn fwyd gyfan.

14:43

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Minister. I have a long list of speakers. I remind Members that this is an opportunity to ask questions of the Deputy Minister and not to make long speeches.

Diolch, Ddirprwy Weinidog. Mae gennyf restr hir o siaradwyr. Rwyf yn atgoffa'r Aelodau mai cyfle i ofyn cwestiynau i'r Dirprwy Weinidog yw hwn, nid cyfle i wneud areithiau hir.

14:43

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Deputy Minister for his statement, for the written statement that was published last Friday and for the various assurances made today. This is an issue of great concern, not just to members of the public who have been deliberately misled by some unscrupulous producers and ignorant suppliers, but also to the industry, where the majority of small businesses are honest businesses that are having their reputations severely damaged because of the size and nature of this European contamination scandal. Consumers have the right to expect that food is exactly what it says on the label. This is fraud on a large scale, and it is clear that criminal elements have exploited a food supply system that is in desperate need of repair.

Diolchaf i'r Dirprwy Weinidog am ei ddatganiad, am y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ddydd Gwener diwethaf ac am bob sicrwydd a roddwyd heddiw. Mae hwn yn fater o bryder mawr, nid yn unig i aelodau'r cyhoedd sydd wedi cael eu camarwain yn fwriadol gan rai cynhyrchwyr diegwyddor a chyflenwyr anwybodus, ond hefyd i'r diwydiant, lle mae'r rhan fwyaf o fusnesau bach yn fusnesau gonest sy'n dioddef niwed difrifol i'w henw da oherwydd maint a natur y sgandal halogi Ewropeaidd hon. Mae gan ddefnyddwyr hawl i ddisgwyl bod bwyd yn union yr hyn y mae'n ei ddweud ar y label. Mae hwn yn dwyll ar raddfa fawr, ac mae'n amlwg bod elfennau troseddol wedi manteisio ar system gyflenwi bwyd y mae angen ei hatgyweirio'n ddybryd.

I have a number of questions, Deputy Minister. Welsh Ministers are fully responsible for food safety in Wales and, in particular, for the functions of the Food Standards Agency. Last summer, the FSA was warned by the Environment, Food and Rural Affairs Committee that mislabelling and contaminated meat were an issue when it published its report. Therefore, I was surprised to hear the FSA Wales director say on the BBC's 'Panorama' programme last night that the FSA did not have intelligence about possible contamination activity that would cause it to carry out testing. When was FSA Wales first made aware that there was growing concern about potential contamination in the Welsh food chain? Was it in the summer of 2012, and, if it was, why did it not start taking mitigating action in collaboration with the Welsh Government and Welsh local authorities at that point? Also, when did the Welsh Government first know about the contamination? Did it receive warnings before 15 January, and, if so, what were the reasons for not acting on them sooner?

Mae gennyf nifer o gwestiynau, Ddirprwy Weinidog. Gweinidogion Cymru sy'n gwbl gyfrifol am ddiogelwch bwyd yng Nghymru ac, yn benodol, am swyddogaethau'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Yr haf diwethaf, cafodd yr FSA rybudd gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig fod camlabelu a chig wedi'i halogi yn broblem pan gyhoeddwyd ei adroddiad. Felly, cefais syndod o glywed cyfarwyddwr FSA Cymru yn dweud ar raglen 'Panorama' y BBC neithiwr nad oedd gan yr FSA gudd-wybodaeth am weithgareddau halogi posibl a fyddai'n achosi iddynt gynnal profion. Pryd y cafodd FSA Cymru wybod am y tro cyntaf am bryder cynyddol ynghylch halogiad posibl yn y gadwyn fwyd yng Nghymru? Ai yn haf 2012 yr oedd hynny, ac, os felly, pam na ddechreuasant gymryd camau lliniaru ar y cyd â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Cymru ar y pryd? Hefyd, pryd y cafodd Llywodraeth Cymru wybod am yr halogi am y tro cyntaf? A gafodd rybuddion cyn 15 Ionawr, ac, os felly, beth oedd y rhesymau dros beidio â gweithredu arnynt yn gynt?

On the extent of the contamination, given that the food contaminated with horse DNA was delivered to 47 schools in Lancashire, what is the extent of the contamination in the Welsh public sector, particularly with regard to Welsh schools and hospitals?

O ran graddau'r halogi, o ystyried bod y bwyd wedi'i halogi â DNA ceffyl wedi'i ddarparu i 47 o ysgolion yn Swydd Gaerhirfryn, beth yw graddau'r halogi yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, yn enwedig o ran ysgolion ac ysbytai Cymru?

With regard to consumer trust, will the Welsh Government be commissioning research with Hybu Cig Cymru into the long-term effects on the market for Welsh red meat? What steps have been taken to protect the image of Welsh beef and lamb for consumers? I agree with the Deputy Minister's statement that Welsh meat is some of the best in the world. What is HCC doing to get that message out to the wider world?

O ran ymddiriedaeth defnyddwyr, a fydd Llywodraeth Cymru'n comisiynu ymchwil gyda Hybu Cig Cymru i'r effeithiau hirdymor ar y farchnad cig coch o Gymru? Pa gamau sydd wedi eu cymryd i warchod delwedd cig eidion a chig oen Cymru i ddefnyddwyr? Rwyf yn cytuno â datganiad y Dirprwy Weinidog fod cig Cymru ymhlith y gorau yn y byd. Beth mae Hybu Cig Cymru yn ei wneud i rannu'r neges honno â'r byd ehangach?

On testing, it is clear that an improved and vigorous testing regime will be at the heart of restoring industry integrity and public confidence. I was surprised to hear the Food Standards Agency in Wales stating that testing and routine inspections have decreased over recent years. What is the Welsh Government doing in collaboration with Welsh local authorities to strengthen inspection, sampling and analysis? Will the Deputy Minister be willing to publish the data that show the extent of inspection and testing in each local authority for the past five years?

O ran profi, mae'n amlwg y bydd cyfundrefn brofi well ac egnïol wrth wraidd adfer uniondeb y diwydiant a hyder y cyhoedd. Cefais fy synnu o glywed yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru yn nodi bod profion ac arolygiadau rheolaidd wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol Cymru i gryfhau arolygu, samplu a dadansoddi? A fydd y Dirprwy Weinidog yn fodlon cyhoeddi'r data sy'n dangos i ba raddau y mae arolygu a phrofi wedi digwydd ym mhob awdurdod lleol yn y pum mlynedd diwethaf?

Finally, on a wider issue, how will the Welsh Government make sure that public sector food procurement does not compromise on quality in the future?

Yn olaf, ar fater ehangach, sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud yn siŵr nad yw trefniadau caffael bwyd y sector cyhoeddus yn cyfaddawdu ar ansawdd yn y dyfodol?

14:47 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for that. I will take issue with the introduction to those questions from Russell George. I do not think that the food supply system is broken and in desperate need of repair. There has clearly been criminality, in my view. That is a matter for investigation, and investigations are taking place at present. We will wait for the authorities to conclude those investigations before we take a definitive view—before we have access to the knowledge associated with those investigations. This is a time for us to allow the authorities to carry out their investigations and for us to support those investigations, rather than try to prejudge their conclusions. If Russell George has evidence that the wider food supply chain is in need of repair—I certainly have seen no evidence—I think that it would be appropriate for him to share that evidence with the FSA and with those other authorities.

Diolch yn fawr iawn am hynna. Rwyf yn anghytuno â chyflwyniad Russell George i'r cwestiynau hynny. Nid wyf yn credu bod y system cyflenwi bwyd wedi torri a bod angen gwaith atgyweirio dybryd. Mae'n amlwg bod troseddu wedi digwydd, yn fy marn i. Mae hynny'n fater i ymchwilio iddo, ac mae ymchwiliadau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd. Arhoswn i'r awdurdodau ddod â'r ymchwiliadau hynny i ben cyn cymryd golwg ddiffiniol—cyn inni gael y wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r ymchwiliadau hynny. Rhaid i ni yn awr ganiatáu i'r awdurdodau gynnal eu hymchwiliadau a chefnogi'r ymchwiliadau hynny, yn hytrach na cheisio rhagfarnu eu casgliadau. Os oes gan Russell George dystiolaeth bod angen trwsio'r gadwyn cyflenwi bwyd ehangach—yn sicr nid wyf fi wedi gweld unrhyw dystiolaeth o hynny—credaf y byddai'n briodol iddo rannu'r dystiolaeth gyda'r FSA a chyda'r awdurdodau eraill hynny.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 2.48 p.m.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 2.48 p.m.*

14:48 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In terms of where we are today, with reference to the business in Llandre, outside Aberystwyth, I understand that the FSA was made aware of the linkages between the abattoir in Yorkshire and that business in Ceredigion as a result of investigations and an audit that had been carried out at that facility. It is my understanding that there were only a matter of days between that information coming to light and the police and the FSA investigators securing the premises in Aberystwyth. I was made aware of the situation by the FSA once those premises had been secured. That was on 12 February. Later that day I discussed the matter with the Secretary of State at DEFRA, Owen Paterson, and we agreed how we would approach it, as two Governments, by the end of that afternoon. Therefore, certainly, as UK administrations, we have been acting in concert with the FSA and others. I feel that the co-operation between all of the different institutions involved in this investigation has been very good.

O ran ein sefyllfa heddiw, gan gyfeirio at y busnes yn Llandre, y tu allan i Aberystwyth, rwyf ar ddeall y cafodd yr FSA wybod am y cysylltiadau rhwng y lladd-dy yn Swydd Efrog a'r busnes hwnnw yng Ngheredigion o ganlyniad i ymchwiliadau ac archwiliad a gynhaliwyd yn y cyfleuster hwnnw. Rwyf ar ddeall mai dim ond mater o ddyddiau oedd rhwng i'r wybodaeth ddod i'r amlwg ac i'r heddlu ac ymchwilwyr yr FSA gau'r eiddo yn Aberystwyth. Cefais wybod am y sefyllfa gan yr FSA unwaith yr oedd y safle wedi ei gau. Roedd hynny ar 12 Chwefror. Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw bûm yn trafod y mater gyda'r Ysgrifennydd Gwladol yn DEFRA, Owen Paterson, a gwnaethom gytuno sut y byddem yn ymdrin â'r mater, fel dwy Lywodraeth, erbyn diwedd y prynhawn hwnnw. Felly, yn sicr, fel gweinyddiaethau yn y DU, rydym wedi bod yn gweithredu ar y cyd â'r FSA ac eraill. Teimlaf fod y cydweithrediad rhwng yr holl wahanol sefydliadau sy'n rhan o'r ymchwiliad hwn wedi bod yn dda iawn.

In terms of the points that you made on intelligence, much of the work that the FSA and its investigators do is clearly based upon intelligence. It is my understanding that the FSA in Ireland was able to conduct its investigations based on an intelligence lead. From that, we were able to take things further within the United Kingdom. Therefore, I certainly do not have any evidence, but, again, if the Member has evidence to sustain his assertion that intelligence was available prior to these matters coming to light over the last month, perhaps the Member should share that evidence. However, I have no evidence to sustain any assertion that intelligence was missed, nor have I heard or seen any reported. It is important that we debate these matters based on the facts, and not based on assumptions.

O ran y pwyntiau a wnaethoch am gudd-wybodaeth, mae llawer o'r gwaith y mae'r FSA a'i ymchwilwyr yn ei wneud yn amlwg yn seiliedig ar gudd-wybodaeth. Rwyf ar ddeall fod yr FSA yn Iwerddon wedi gallu cynnal eu hymchwiliadau'n seiliedig ar gudd-wybodaeth. O hynny, roeddem yn gallu mynd â phethau ymhellach o fewn y Deyrnas Unedig. Felly, yn sicr nid oes gennyf dystiolaeth, ond, unwaith eto, os oes gan yr Aelod dystiolaeth i ategu ei honiad bod cudd-wybodaeth ar gael cyn i'r materion hyn ddod i'r amlwg yn ystod y mis diwethaf, efallai y dylai'r Aelod rannu'r dystiolaeth honno. Fodd bynnag, nid oes gennyf dystiolaeth i ategu unrhyw honiad bod cudd-wybodaeth wedi'i methu, ac nid wyf ychwaith wedi clywed na gweld adroddiad am dystiolaeth o'r fath. Mae'n bwysig ein bod yn trafod y materion hyn yn seiliedig ar y ffeithiau, ac nid yn seiliedig ar dybiaethau.

On the wider issues that he raises about the Welsh food chain and the public sector, the testing that is taking place, as I made clear in my oral statement, is across the whole product range. I think that it has been reported in the media, using the shorthand of the retailers and the supermarkets. While journalists may use that shorthand, it might also misrepresent what is actually taking place. Products throughout the supply chain are being investigated, including products that are sold in supermarkets and products that go directly to the catering industry and other elements of the food supply industry. That means that all products that are being supplied to any consumers, be they in catering, in the public sector or in supermarkets, are being tested at present. That includes products that are being supplied to the Welsh public sector market.

O ran y materion ehangach y mae'n eu codi am gadwyn fwyd Cymru a'r sector cyhoeddus, mae'r profion sy'n digwydd, fel yr eglurais yn fy natganiad llafar, ar draws ystod gyfan y cynnyrch. Credaf y soniwyd am hyn yn y cyfryngau, gan ddefnyddio llaw-fer yr adwerthwyr a'r archfarchnadoedd. Er y gall newyddiadurwyr ddefnyddio'r llaw-fer honno, efallai y bydd hynny hefyd yn camliwio'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd. Mae cynhyrchion ar draws y gadwyn gyflenwi yn cael eu harchwilio, gan gynnwys cynhyrchion sy'n cael eu gwerthu mewn archfarchnadoedd a chynhyrchion sy'n mynd yn uniongyrchol i'r diwydiant arlwyo ac elfennau eraill yn y diwydiant cyflenwi bwyd. Mae hynny'n golygu bod yr holl gynhyrchion sy'n cael eu cyflenwi i unrhyw ddefnyddwyr, boed ym maes arlwyo, yn y sector cyhoeddus neu mewn archfarchnadoedd, yn cael eu profi ar hyn o bryd. Mae hynny'n cynnwys cynhyrchion sy'n cael eu cyflenwi i farchnad sector cyhoeddus Cymru.

Today, as I speak, no evidence is available to me that there has been any hint of contamination involving any product that has been used in Welsh schools and hospitals. The Welsh Government wrote last Tuesday to all elements of the Welsh public sector involved in the procurement of food products to ask them to check their supply chains and to ensure that they had confidence in the products that were being purchased by their suppliers. We expect all local authorities and other public procurement bodies to ensure that their supply chains have the integrity that we would all expect. There is no evidence today to sustain any assumption that schools or hospitals have been supplied with any contaminated products.

Wrth imi siarad heddiw, nid oes tystiolaeth ar gael imi y bu unrhyw awgrym o halogi yn ymwneud ag unrhyw gynnyrch sydd wedi cael ei ddefnyddio yn ysgolion ac ysbytai Cymru. Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru ddydd Mawrth diwethaf at bob elfen o sector cyhoeddus Cymru sy'n ymwneud â chaffael cynhyrchion bwyd i ofyn iddynt wirio eu cadwyni cyflenwi a sicrhau bod ganddynt hyder yn y cynnyrch yr oedd eu cyflenwyr yn ei brynu. Rydym yn disgwyl i bob awdurdod lleol a phob corff caffael cyhoeddus arall sicrhau bod gan eu cadwyni cyflenwi'r uniondeb y byddem i gyd yn ei ddisgwyl. Nid oes tystiolaeth heddiw i gynnal unrhyw dybiaeth bod unrhyw gynnyrch halogedig wedi'i gyflenwi i ysgolion neu ysbytai.

As to where we are going in future, Hybu Cig Cymru is part of the group of people that I have been speaking to. Its representatives have been part of our daily telephone conference structure over the last 10 days or so. They play an integral role in ensuring that the integrity of Welsh red meat sector and market is not affected by these current investigations.

O ran ble'r ydym yn mynd yn y dyfodol, mae Hybu Cig Cymru yn rhan o grŵp o bobl yr wyf wedi bod yn siarad â hwy. Mae eu cynrychiolwyr wedi bod yn rhan o'n strwythur cynadleddau ffôn bob dydd yn ystod y 10 diwrnod diwethaf fwy neu lai. Maent yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau nad yw'r ymchwiliadau sy'n digwydd ar hyn o bryd yn effeithio ar uniondeb sector a marchnad cig coch Cymru.

With regard to how we take this forward with Welsh local authorities and others, at the moment, we are seeking to ensure that the investigations take place and that we learn lessons. There will be a time when we will need to apply those lessons, and we will do so.

O ran sut y byddwn yn bwrw ymlaen â hyn ag awdurdodau lleol Cymru ac eraill, ar hyn o bryd, rydym yn ceisio sicrhau bod yr ymchwiliadau'n digwydd a'n bod yn dysgu gwersi. Daw adeg pan fydd angen i ni roi'r gwersi hynny ar waith, a byddwn yn gwneud hynny.

14:52

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A fyddai'r Dirprwy Weinidog yn derbyn fy nghefnogaeth a chefnogaeth y meinciau hyn am y modd y mae'r mater wedi cael ei drin ganddo ef a chan Weinidogion eraill, megis y Gweinidog iechyd yn arbennig, sydd â chyfrifoldeb yn y meysydd hyn am ddiogelwch bwyd a sicrhau cyflenwad diogel i'r cyhoedd? Cyfeiriaf hefyd at Lywodraeth y Deyrnas Unedig ac, yn wir, y Comisiwn Ewropeaidd, sydd wedi dangos pwysigrwydd cydweithredu rhyngwladol yn y maes hwn.

Would the Deputy Minister accept my support and the support of these benches for the way in which the issue has been dealt with by him and by other Ministers, particularly the Minister for health, who has responsibility in these areas for food safety and ensuring a safe supply for the public? I also refer to the UK Government and, indeed, the European Commission, which has demonstrated the importance of international collaboration in this area.

A fyddai'r Dirprwy Weinidog yn cytuno nad oes unrhyw arwydd o afiechyd neu berygl o afiechyd i'r cyhoedd oherwydd y digwyddiadau troseddol posibl hyn sydd wedi digwydd mewn cysylltiad â phrosesu cig yng Nghymru?

Would the Deputy Minister agree that there is no sign of disease or a risk to human health because of these possible criminal activities that have happened in relation to meat processing in Wales?

A fyddai hefyd yn derbyn fy llongyfarchion ar alw ynghyd y grŵp gweinidogol newydd i sicrhau bod un agwedd tuag at y datblygiad yn y dyfodol, a bod hyn yn bwysig fel ffordd o sicrhau diogelwch i'r cyhoedd o ran ansawdd cig o Gymru?

Would he also accept my congratulations on bringing together a new ministerial group to ensure a single voice on future developments, and that this is important as a means of securing public safety in terms of the quality of meat from Wales?

A fyddai'r Dirprwy Weinidog yn cytuno bod yr wythnos a mwy diwethaf wedi bod yn enghraifft dda o'r modd y gall Llywodraethau ac, yn wir, asiantaethau, gydweithredu, gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn atebol i Weinidogion Cymru yn ogystal â bod yn rhan o'r sefydliad sy'n dwyn lot o gostau ymchwil a phrofi mewn labordai drwy'r Deyrnas Unedig? Mae hon yn system sydd wedi sicrhau diogelwch i'r cyhoedd ac i'r diwydiant yn y sefyllfa hon.

Would the Deputy Minister agree that the last week or so has been a very good example of how Governments, and, indeed, agencies, can collaborate, with the Food Standards Agency accountable to Welsh Ministers as well as being part of the institution that shoulders a lot of the cost of research and testing in laboratories throughout the UK? This is a system that has ensured safety for the public and the industry in this situation.

Felly, a fyddai'n derbyn ein bod yn cytuno â'i ddadansoddiad ef nad yn awr yw'r amser i edrych tua'r dyfodol, ond ei bod yn bwysig inni sicrhau'r gwersi ac ein bod yn gallu gofalu bod gennym gyfundrefn safadwy? Efallai y dylwn hefyd ei sicrhau ein bod ni fel pwyllgor yn cymryd cyfrifoldeb yr Asiantaeth Safonau Bwyd o ddifrif, ac mae'r asiantaeth wedi cytuno i ymddangos gerbron ein pwyllgor—ddydd Mercher nesaf, gobeithio.

Therefore, would he accept that we agree with his analysis that now is not the time to look to the future, but that it is important for us to learn lessons and that we can ensure that we have a robust system in place? Perhaps I should also assure him that we as a committee take the responsibility of the Food Standards Agency seriously, and the agency has agreed to appear before our committee—next Wednesday, we hope.

14:55 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Hoffwn ddiolch i'r Aelod am ei eiriau caredig iawn. Rwy'n falch o glywed y bydd yr FSA yn ymddangos gerbron y pwyllgor i ateb cwestiynau ar ei rôl ac ar yr hyn sydd wedi digwydd yn ystod yr wythnosau diwethaf. Buaswn hefyd yn hapus iawn i ymddangos gerbron y pwyllgor i drafod y materion hyn yn fwy manwl.

I thank the Member for his very kind words. I am pleased to hear that the FSA will appear before the committee to answer questions on its role and the events of the past few weeks. I would also be very happy to appear before the committee to discuss these matters in greater detail.

I ateb byrdwn cwestiynau'r Aelod, rwy'n cytuno'n fawr iawn â'i ddadansoddiad. Mae'r cydweithrediad Ewropeaidd a rhyngwladol wedi bod yn dda iawn dros yr wythnosau diwethaf. Hefyd, mae Owen Paterson, Ysgrifennydd Gwladol yn DEFRA, wedi gwneud job arbennig o dda o ran cysylltu a chyfathrebu â ni fel Gweinidogion ledled y Deyrnas Unedig, a sicrhau bod y gwaith sy'n mynd yn ei flaen yn Ewrop yn cael ei gydlynu. Rwy'n gwybod ei fod wedi cyfarfod â Simon Coveney, sy'n cynrychioli'r llywyddiaeth ar hyn o bryd, ar sawl achlysur. Mae wedi cydweithio'n agos gydag ef i sicrhau bod y cyfarfodydd Ewropeaidd wedi digwydd dros yr wythnosau diwethaf ac wedi arwain at weithrediad Ewropeaidd hefyd. Dylem oll ddiolch i Owen Paterson am y gwaith y mae wedi'i wneud yn y cyd-destun hwn.

To respond to the import of the Member's questions, I very much agree with his analysis. The collaboration at a European and international level has been very good over the past few weeks. Also, Owen Paterson, the Secretary of State in DEFRA, has done an exceptionally good job in terms of contacting and communicating with us as Ministers throughout the United Kingdom, and ensuring that the work that is being carried out in Europe is co-ordinated. I know that he has met Simon Coveney, who represents the presidency at present, on several occasions. He has worked closely with him to ensure that European meetings took place over the past few weeks and have led to action at a European level as well. We should all thank Owen Paterson for the work that he has done in this context.

Bu'r Aelod yn trafod y peryglon iechyd. Rwy'n cytuno nad oes unrhyw dystiolaeth o gwbl bod perygl i iechyd pobl Cymru oherwydd yr hyn yr ydym wedi'i weld dros yr wythnosau diwethaf. Nid yw'r hyn sydd wedi digwydd dros yr wythnosau diwethaf yn dderbyniol. Nid yw'n dderbyniol bod cig ceffyl yn ffeindio ei ffordd i mewn i fyrgyrs a bwydydd gwahanol sy'n cael eu labelu fel bîff. Nid yw'n dderbyniol o gwbl ac mae'n rhaid inni sicrhau nad yw'r math hwnnw o beth yn digwydd eto a bod y bobl sy'n gyfrifol amdano yn cael eu herlyn a'n bod yn cefnogi'r gwaith y mae'r heddlu a'r llysoedd yn ei wneud yng Nghymru, ym Mhrydain a ledled yr Undeb Ewropeaidd. Gobeithio y bydd pob un yn y Siambr yn cytuno â mi ac yn ymuno â mi wrth gefnogi'r gwaith y mae'r ymchwilwyr yn ei wneud.

The Member discussed the health risks. I agree that there is no evidence whatsoever of any risk to the health of the people of Wales because of what we have witnessed over the past few weeks. What has occurred over the past few weeks is not acceptable. It is not acceptable that horsemeat should find its way into burgers and various foods that are labelled as beef. It is not at all acceptable and we must ensure that this kind of thing does not happen again and that the people responsible are prosecuted and that we support the work that the police and the courts are doing in Wales, in Britain and across the European Union. I hope that everyone in the Chamber will agree with me and will join me in supporting the work that the investigators are undertaking.

Yng Nghymru, rydym yn lwcus iawn i gael cig o'r safon uchaf posibl. Mae cig oen a chig eidion o Gymru yn cael ei gydnabod ledled y byd fel cig o'r safon uchaf ac rwy'n mawr obeithio y bydd pobl yn credu yn ansawdd y bwyd yr ydym yn ei gynhyrchu yng Nghymru. Nid oes unrhyw reswm o gwbl i gwestiynu 'integrity' y gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghymru i gefnogi'r broses o gynhyrchu cig eidion neu gig oen. Fodd bynnag, mae gwersi i'w dysgu. Unwaith y daw'r cyfnod hwn o ymchwilio i ben, buaswn yn croesawu'r cyfle i edrych yn ôl, dysgu gwersi a gweld sut y gallwn symud ymlaen. Fel yr ydych wedi'i awgrymu, mae'r FSA yn ffynhonnell arbenigedd rhyngwladol. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod hynny a'r gwaith y mae wedi'i wneud. Efallai y bydd gwaith y pwyllgor yn ffordd o ddechrau'r broses o ddysgu'r gwersi hynny.

In Wales, we are very fortunate to have meat of the highest possible quality. Lamb and beef from Wales are acknowledged across the world as meat of the highest quality and I very much hope that people will believe in the quality of the food that we produce in Wales. There is no reason whatsoever to question the integrity of the work that is being done in Wales to support the process of producing beef or lamb. However, there are lessons to be learned. Once this period of investigation comes to an end, I would welcome the opportunity to reflect, learn lessons and see how we can move forward. As you have suggested, the FSA is a source of international expertise. It is important that we recognise that and the work that it has done. Perhaps the work of the committee will be a way of beginning the process of learning those lessons.

14:58

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, thank you for your statement and the clarification of support for the Welsh meat industry. As Dafydd Elis-Thomas has rightly said, it is good news that we are moving forward on the FSA's work.

Weinidog, diolch am eich datganiad a'r eglurhad o gefnogaeth i ddiwydiant cig Cymru. Roedd Dafydd Elis-Thomas yn gywir wrth ddweud ei bod yn newyddion da ein bod yn symud ymlaen o ran gwaith yr FSA.

To me, there are two issues here. There is the issue of whether the meat is contaminated because of products being labelled—or not labelled—and sold incorrectly as beef when they are not beef. There is also the second issue of products that are known to be horse meat being sold with excess levels of drugs in them. We know that some products have been exported to France with high levels of 'bute' contained within them.

I mi, mae dau fater yma. Un yw mater p'un a yw'r cig wedi'i halogi am fod cynnyrch yn cael ei labelu—neu am nad yw'n cael ei labelu—a'i werthu'n anghywir fel cig eidion pan nad cig eidion ydyw. Yr ail fater yw cynhyrchion y mae'n hysbys mai cig ceffyl ydynt ac sy'n cael eu gwerthu â lefelau gormodol o gyffuriau ynddynt. Rydym yn gwybod bod rhai cynhyrchion wedi cael eu hallforio i Ffrainc gyda lefelau uchel o 'bute' wedi'u cynnwys ynddynt.

You mentioned in your statement that the PGI status products will be fully traceable. That will clearly achieved through the passport system that is used across Europe. Will you be investigating what meat products have come from animals that have duly accredited passports? Have there been any tests on horsemeat to make sure that the passports associated with those horses match up? Will that be the future direction? Are you looking at matching the passport information with the test results to ensure that the passports are genuine and correctly reflect the meat being used?

Soniasoch yn eich datganiad y bydd y cynnyrch statws PGI yn gwbl olrheiniadwy. Cyflawnir hyn yn glir drwy'r system basbort sy'n cael ei defnyddio ledled Ewrop. A fyddwch yn ymchwilio i ba gynnyrch cig sydd wedi dod o anifeiliaid â phasbortau sydd wedi'u hachredu'n briodol? A fu unrhyw brofion ar gig ceffyl i wneud yn siŵr bod y pasbortau priodol yn gysylltiedig â'r ceffylau hynny? Ai dyna fydd y cyfeiriad yn y dyfodol? A ydych yn edrych ar gyfateb gwybodaeth y pasbortau â chanlyniadau'r profion i sicrhau bod y pasbortau'n ddilys ac yn adlewyrchu'n gywir y cig sy'n cael ei ddefnyddio?

15:00

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member is right to raise those issues. Clearly, there is a significant issue, and there is a difference between trace levels of DNA and the deliberate adulteration of food products. We need to recognise that this is an issue not only of mislabelling, but of potentially deliberate deceit and criminality, and that is a matter for the authorities to deal with.

Mae'r Aelod yn gywir wrth godi'r materion hynny. Yn amlwg, mae hwn yn fater o bwys, ac mae gwahaniaeth rhwng lefelau hybrin o DNA a difwyno cynhyrchion bwyd yn fwriadol. Mae angen inni gydnabod mai nid mater o gamlabelu yn unig yw hwn, ond y gallai fod yn fater o dwyll bwriadol a throseddoldeb, ac mae hynny'n fater i'r awdurdodau ymdrin ag ef.

In terms of the issue of traceability and passporting, clearly these are matters that are currently under investigation, and the Food Standards Agency, when these investigations are complete, will provide a clear analytical report of where the meat has come from and how it has entered the human food chain. I am not in a position this afternoon to update Members on some of these issues, because these are issues that are still a matter of live investigations, and as a consequence we are unable to give definitive answers on all aspects of this issue this afternoon.

O ran mater olrhain a defnyddio pasbortau, yn amlwg mae'r materion hyn yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd, a bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd, pan fydd yr ymchwiliadau hyn wedi'u cwblhau, yn darparu adroddiad dadansoddol clir i nodi o ble y daeth y cig a sut y mae wedi mynd i'r gadwyn fwyd ddynol. Nid wyf mewn sefyllfa y prynhawn yma i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ar rai o'r materion hyn, gan fod y rhain yn faterion sy'n dal i fod yn destun ymchwiliadau byw, ac o ganlyniad ni allwn roi atebion pendant ar bob agwedd ar y mater hwn y prynhawn yma.

I have concerns myself about our ability to hardwire traceability within the equine market. I wrote to the Department for Environment, Food and Rural Affairs some weeks ago expressing my disappointment with its decision to abolish the national equine database, which would have enabled us to ensure that traceability was far easier to record and to evidence. That database was abolished by DEFRA without reference to either this Government or other devolved administrations. It is not a decision that we support or that we would have taken. Clearly, there are issues around the identification of horses, and issues that we have already discussed in this place in debating fly-grazing and other matters of ownership. There are clearly significant issues around equine identification that we will need to address further in the future.

Mae gennyf bryderon fy hun am ein gallu i sicrhau gallu i olrhain o fewn y farchnad geffylau. Ysgrifennais at Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig rai wythnosau'n ôl i fynegi fy siom ynghylch eu penderfyniad i ddiddymu'r gronfa ddata ceffylau genedlaethol, a fyddai wedi ein galluogi i sicrhau bod y gallu i olrhain yn llawer haws ei gofnodi a'i dystiolaethu. Cafodd y gronfa ddata honno ei diddymu gan DEFRA heb gyfeirio at y Llywodraeth hon nac at weinyddiaethau datganoledig eraill. Nid yw'n benderfyniad yr ydym yn ei gefnogi nac yn un y byddem wedi ei wneud. Yn amlwg, ceir materion yn ymwneud ag adnabod ceffylau, a materion yr ydym eisoes wedi'u trafod yn y lle hwn wrth drafod pori anghyfreithlon a materion eraill yn ymwneud â pherchnogaeth. Yn amlwg, mae materion sylweddol ynghylch adnabod ceffylau y bydd angen inni ymdrin â hwy ymhellach yn y dyfodol.

15:02

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Deputy Minister for making a statement today and for the written statement that he issued just last Friday afternoon. In the past few weeks, as the Deputy Minister has said, it has become abundantly clear that what began as an isolated case in the Republic of Ireland has grown into a pan-European scandal involving criminality of the worst kind, as well as shortcomings across several levels of Government and regulatory agencies. Now that the contamination has really hit home, with the allegations coming to us from Ceredigion, it is only appropriate that, in this institution, we are resolute in our response, as Members have been today. I warmly welcome the urgency the Deputy Minister has shown in his dealings with UK Ministers and officials on this matter. Indeed, I welcome the increased level of collaboration that is evident with the Secretary of State at DEFRA. I also welcome that Secretary of State's conversion to the urgency and importance of regulation of these criminal issues at a pan-European level. That should also be said.

Diolchaf i'r Dirprwy Weinidog am wneud datganiad heddiw ac am y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ganddo brynhawn dydd Gwener diwethaf. Yn yr wythnosau diwethaf, fel y dywedodd y Dirprwy Weinidog, mae wedi dod yn gwbl amlwg bod yr hyn a ddechreuodd fel achos ynysig yng Ngweriniaeth Iwerddon wedi tyfu'n sgandal draws-Ewropeaidd sy'n ymwneud â throseddoldeb o'r math gwaethaf, yn ogystal â diffygion ar draws sawl lefel o Lywodraeth ac asiantaethau rheoleiddio. Gan fod yr halogiad wedi ein taro yng Nghymru erbyn hyn, gyda honiadau'n dod atom o Geredigion, mae'n ddigon priodol, yn y sefydliad hwn, ein bod yn ymateb yn benderfynol, fel y mae Aelodau wedi ei wneud heddiw. Rwyf yn croesawu'n fawr y brys y mae'r Dirprwy Weinidog wedi'i ddangos wrth ymwneud â Gweinidogion a swyddogion y DU ar y mater hwn. Yn wir, croesawaf y lefel uwch o gydweithio sy'n amlwg gyda'r Ysgrifennydd Gwladol yn DEFRA. Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi cydnabod anghenraid a phwysigrwydd rheoleiddio'r materion troseddol hyn ar lefel draws-Ewropeaidd. Dylid dweud hynny hefyd.

It would be helpful if the Deputy Minister could expand further on the role he personally intends to undertake within the UK delegation to the European Union when the matter goes before the council of agriculture Ministers on 25 February, I believe. As I am sure the Deputy Minister will agree, such an issue is too serious for there to be scaremongering, finger-pointing and the attribution of blame. The reassurance that he has offered today has been welcome, and will be widely welcomed across this country.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Dirprwy Weinidog ymhelaethu ymhellach am y swyddogaeth y mae ef yn bwriadu ymgymryd â hi'n bersonol o fewn cynrychiolaeth y DU i'r Undeb Ewropeaidd pan aiff y mater gerbron y cyngor Gweinidogion amaethyddiaeth ar 25 Chwefror, mi gredaf. Fel yr wyf yn siŵr y bydd y Dirprwy Weinidog yn cytuno, mae'r mater hwn yn rhy ddifrifol i godi bwganod, pwyntio bys a bwrw bai amdano. Mae'r sicrwydd y mae wedi'i gynnig heddiw wedi cael croeso, a chaiff groeso eang ledled y wlad.

To this end, would the Deputy Minister please outline the steps he will be taking in the coming weeks to further reassure consumers both here and abroad that the quality of our premium Welsh produce is not in question? I am thinking particularly of the long-term impact of reputational harm that British beef products previously suffered, which involved the Russian market being closed to us for many years, and of the cost that that incurred to this country and our agriculture sector.

I'r perwyl hwn, a wnaiff y Dirprwy Weinidog amlinellu'r camau y bydd yn eu cymryd yn yr wythnosau nesaf i roi mwy o sicrwydd i ddefnyddwyr, yma a thramor, nad oes amheuaeth am ansawdd ein cynnyrch premiwm o Gymru? Rwyf yn meddwl yn benodol am effaith hirdymor y niwed y mae enw da cynhyrchion cig eidion Prydain wedi'i ddioddef o'r blaen, a achosodd i farchnad Rwsia fod ar gau inni am flynyddoedd lawer, ac am gost hynny i'r wlad hon ac i'n sector amaethyddiaeth.

Finally, a great deal has been said in recent days regarding the extension of the tripartite agreement by the UK Government in the last decade and its potential to enable the trading of horses for meat without the necessary safeguards. Minister, will you outline the Welsh Government's position on these allegations? Do you intend to make any representations on the matter to the present UK Government? Given the abolition of the equine database, which you mentioned earlier, have you given any consideration to the establishment of a discrete Welsh database in this area?

Yn olaf, mae llawer wedi ei ddweud yn y dyddiau diwethaf ynglŷn ag ymestyn y cytundeb teiran gan Lywodraeth y DU yn ystod y degawd diwethaf, a'i botensial i alluogi masnachu ceffylau ar gyfer cig heb y mesurau diogelu angenrheidiol. Weinidog, a wnewch chi amlinellu safbwynt Llywodraeth Cymru ar yr honiadau hyn? A ydych yn bwriadu gwneud unrhyw sylwadau am y mater i Lywodraeth bresennol y DU? O ystyried diddymu'r gronfa ddata ceffylau, a grybwyllwyd gennych yn gynharach, a ydych wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i sefydlu cronfa ddata ar wahân yng Nghymru yn y maes hwn?

15:05

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

In answer to your final point, I have given this some consideration, but I am not convinced that we would be able to maintain its integrity. There is a significant cross-border market and I am not convinced that a Wales-only database would deliver the levels of security that we wish to maintain. While I have given it some consideration, it is not my chosen or preferred way of moving forward.

I ateb eich pwynt olaf, rwyf wedi rhoi rhywfaint o ystyriaeth i hyn, ond nid wyf yn argyhoeddedig y byddem yn gallu cynnal ei uniondeb. Ceir marchnad drawsffiniol sylweddol ac nid wyf yn argyhoeddedig y byddai cronfa ddata i Gymru'n unig yn rhoi'r lefelau diogelwch yr hoffem eu cynnal. Er fy mod wedi rhoi rhywfaint o ystyriaeth i hyn, nid dyma'r ffordd y byddwn yn dewis symud ymlaen.

In terms of the role I will play at the Council of Ministers next Monday, we are meeting as a UK ministerial team in Brussels and will discuss the way forward. The council, next Monday, will discuss these matters. We are meeting to discuss, as you can imagine, the proposals for the common agricultural policy reform, but there will be time for a conversation around what is happening across the European Union in terms of the response of the European Commission and individual member states to the issues that have unfolded over the last few weeks. My role there will be to play the role I play every month, which is to be a part of the United Kingdom delegation. We will, as a delegation, and as a group of Ministers, determine what our views are when we meet on Monday morning.

O ran fy swyddogaeth yng Nghyngor y Gweinidogion ddydd Llun nesaf, rydym yn cyfarfod fel tîm gweinidogol y DU ym Mrwsel a byddwn yn trafod y ffordd ymlaen. Bydd y cyngor, ddydd Llun nesaf, yn trafod y materion hyn. Rydym yn cyfarfod i drafod, fel y gallwch ddychmygu, y cynigion i ddiwygio'r polisi amaethyddol cyffredin, ond ceir digon o amser am sgwrs am yr hyn sy'n digwydd ar draws yr Undeb Ewropeaidd o ran ymateb y Comisiwn Ewropeaidd ac aelod wladwriaethau unigol i'r materion sydd wedi dod i'r amlwg dros yr wythnosau diwethaf. Fy swyddogaeth i yno fydd yr un sydd gennyf bob mis, sef bod yn rhan o ddirprwyaeth y Deyrnas Unedig. Byddwn, fel dirprwyaeth, ac fel grŵp o Weinidogion, yn penderfynu beth yw ein barn pan fyddwn yn cyfarfod fore Llun.

To date, the collaboration and co-ordination between all four UK administrations has been exemplary. I have been very happy with the contact and information flowing from the DEFRA to ourselves. We have shared information freely among all four administrations, and all four have worked well together over the last few weeks.

Hyd yma, mae'r cydweithio a'r cyd-drefnu rhwng pob un o'r pedair gweinyddiaeth yn y DU wedi bod yn rhagorol. Rwyf wedi bod yn hapus iawn â'r cyswllt a'r wybodaeth a gawn gan DEFRA. Rydym wedi rhannu gwybodaeth yn rhydd ymhlith pob un o'r pedair gweinyddiaeth, ac mae pob un o'r pedair wedi cydweithio'n dda dros yr wythnosau diwethaf.

In terms of reassuring consumers, one of the reasons I have asked Hybu Cig Cymru to join my ministerial group looking at how we handle this matter is so that we keep a firm eye on the market and retain our market-focused and market-facing approach to what is happening here. At the meeting with the industry yesterday in London, I and other Ministers made it clear to retailers and the wider food industry that they have a very significant role to play in ensuring confidence in their products and systems.

O ran tawelu meddyliau defnyddwyr, un o'r rhesymau pam yr wyf wedi gofyn i Hybu Cig Cymru ymuno â'm grŵp gweinidogol sy'n edrych ar y ffordd yr ydym yn trin y mater hwn yw er mwyn inni allu cadw llygad barcud ar y farchnad a chadw ein dulliau sy'n canolbwyntio ar y farchnad ac yn wynebu'r farchnad yn hyn o beth. Yn y cyfarfod gyda'r diwydiant ddoe yn Llundain, dywedais i a'r Gweinidogion eraill yn glir wrth adwerthwyr a'r diwydiant bwyd ehangach fod ganddynt swyddogaeth bwysig o ran sicrhau hyder yn eu cynhyrchion a'u systemau.

When we discuss these issues, there is a tendency to focus on the negative issues. Food in the United Kingdom is very safe. Food poisoning levels are very low. The amount of contamination and adulteration is very small. Consumers have every reason to have every confidence in the food that they buy and provide for their families. I made a clear public statement last Wednesday, which I felt was necessary given the offence in Llandre, that this Government believes in the integrity of the food supply chain in Wales and believes in the integrity of Welsh beef and red meat products. We need to do that, support the industry and do what we can to maintain consumer confidence while, at the same time, supporting all the key investigations that are taking place into this issue and working hard to resolve the issues that caused the investigations in the first place.

Wrth drafod y materion hyn, rydym yn tueddu i ganolbwyntio ar y materion negyddol. Mae bwyd yn y Deyrnas Unedig yn ddiogel iawn. Mae lefelau gwenwyn bwyd yn isel iawn. Ychydig iawn o halogi a difwyno sy'n digwydd. Mae gan ddefnyddwyr bob rheswm i fod â phob hyder yn y bwyd y maent yn ei brynu ac yn ei ddarparu i'w teuluoedd. Gwneuthum ddatganiad cyhoeddus clir ddydd Mercher diwethaf—roeddwn yn teimlo bod angen gwneud hynny ac ystyried y tramgwydd a fu yn Llandre—fod y Llywodraeth hon yn credu yn uniondeb y gadwyn cyflenwi bwyd yng Nghymru ac yn credu yn uniondeb cig eidion a chynhyrchion cig coch Cymru. Mae angen inni wneud hynny, cefnogi'r diwydiant a gwneud yr hyn a allwn i gynnal hyder defnyddwyr, ac ar yr un pryd, cefnogi'r holl ymchwiliadau allweddol sy'n cael eu cynnal i'r mater hwn a gweithio'n galed i ddatrys y materion a achosodd yr ymchwiliadau yn y lle cyntaf.

15:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Given the importance of this item, I will extend the time for this statement. However, there is now just one minute each for remaining Members to ask succinct questions.

O ystyried pwysigrwydd yr eitem hon, rwyf am ymestyn yr amser ar gyfer y datganiad hwn. Fodd bynnag, dim ond un munud yr un a gaiff gweddill yr Aelodau i ofyn cwestiynau cryno.

15:09

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful for the Minister's assurances that these rogue incidents are not indicative of anything wider in the food supply chain. However, there is no getting away from the fact that the scandal has badly shaken confidence in meat processing across Europe. You are clear in your statement that criminality is involved. However, when criminals show such scant regard for humans, we can be fairly sure that animal welfare is not very high on their list of priorities either. As Governments across Europe work to try to restore confidence in the industry, will you explore with the Minister for Environment and Sustainable Development what we can do here to give consumers full confidence that when they buy Welsh meat, they can be sure that it has been reared and slaughtered to the highest animal welfare standards?

Rwyf yn ddiolchgar am sicrwydd y Gweinidog nad yw'r digwyddiadau anffodus hyn yn arwydd o unrhyw beth ehangach yn y gadwyn cyflenwi bwyd. Fodd bynnag, nid oes dianc rhag y ffaith bod y sgandal wedi rhoi ysgytwad mawr i hyder pobl mewn prosesu cig ar draws Ewrop. Rydych yn glir yn eich datganiad bod trosedd wedi digwydd. Fodd bynnag, pan fydd troseddwyr yn dangos cryn ddiffyg ystyriaeth i fodau dynol, gallwn fod yn weddol siŵr nad yw lles anifeiliaid yn uchel iawn ar eu rhestr o flaenoriaethau ychwaith. Wrth i Lywodraethau ledled Ewrop weithio i geisio adfer hyder yn y diwydiant, a wnewch chi archwilio gyda Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy i'r hyn y gallwn ei wneud yma i roi hyder llawn i ddefnyddwyr, pan fyddant yn prynu cig o Gymru, y gallant fod yn siŵr ei fod wedi cael ei fagu a'i ladd gan gadw at y safonau uchaf o ran lles anifeiliaid?

15:10

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Consumers can have that confidence. There is no evidence here at all that there are any systemic problems in the Welsh food chain. It is clear that there are investigations into potential criminality in some elements of some parts of a particular supply chain. There is no evidence at all—no evidence has been provided to any authority—that there are any systemic problems.

Gall defnyddwyr fod â'r hyder hwnnw. Nid oes tystiolaeth yma o gwbl o unrhyw broblemau systemig yng nghadwyn fwyd Cymru. Mae'n amlwg bod ymchwiliadau i droseddu posibl yn rhai o elfennau rhai rhannau o un gadwyn gyflenwi benodol. Nid oes tystiolaeth o gwbl—nid oes tystiolaeth wedi'i rhoi i unrhyw awdurdod—o unrhyw broblemau systemig.

With regard to wider animal husbandry issues, again, there is no evidence at all—no evidence has been provided to me or anyone else, as far as I know—that there are wider issues about which people need to have real concerns. If the Member has evidence of any such issues, she must, of course, bring it to my attention or that of the relevant authorities.

O ran materion ehangach magu anifeiliaid, unwaith eto, nid oes tystiolaeth o gwbl—dim tystiolaeth wedi'i rhoi i mi nac i neb arall, hyd y gwn i—o faterion ehangach y mae angen i bobl fod â phryderon go iawn amdanynt. Os oes gan yr Aelod dystiolaeth o unrhyw faterion o'r fath, mae'n rhaid iddi, wrth gwrs, dynnu fy sylw i neu sylw'r awdurdodau perthnasol atynt.

15:11 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n cytuno â'ch neges am ansawdd a safon y diwydiant cig coch yng Nghymru. Yr wythnos diwethaf, dechreuodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ymchwiliad cyhoeddus iawn i gwmni Farmbox Meats Ltd yn fy etholaeth. Roedd y cwmni hwnnw'n cyflogi 18 o bobl, ac mae'r 18 o unigolion hynny heddiw heb waith. Rwy'n cytuno â chi na allwn drafod yr achos hwn yn awr, ac, os bydd cyhuddiad o droseddu yn erbyn Farmbox Meats Ltd, yna bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd i'w chanmol yn fawr am ddechrau'r gweithredu a'r ymchwiliad hyn. Fodd bynnag, os na fydd achos o ddrwgweithredu, bydd cwestiynau i'w gofyn i'r Asiantaeth Safonau Bwyd ac i Owen Paterson, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, nid am ddechrau'r ymchwiliad—dyna oedd y peth iawn i'w wneud, wrth gwrs—ond am wneud hynny mewn ffordd mor gyhoeddus yr wythnos diwethaf drwy gynnal cynadleddau i'r wasg.

I agree with your comments on the quality and standard of red meat production here in Wales. Last week, the Food Standards Agency started a very public investigation into Farmbox Meats Ltd in my constituency. This company employed 18 people, and those 18 individuals are today unemployed. I agree with you that we cannot discuss the individual case at present, and, if criminal charges are brought against Farmbox Meats Ltd, then the Food Standards Agency should be very much applauded for initiating the action and investigation. However, if no such charges are brought, questions will have to be asked of the Food Standards Agency and Owen Paterson, the Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs, not because they initiated the investigation—that was, of course, the right thing to do—but for doing it in such a public manner as was the case last week when they held press conferences.

O ran y toriadau yn y gyllideb i'r Asiantaeth Safonau Bwyd a'r effaith ar weithlu'r asiantaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a ydych chi wedi cael cyfle dros y ddwy flynedd ddiweddaf, neu a ydych yn cymryd y cyfle yn awr, i godi consýrn ynglŷn â'r toriadau hynny gan Lywodraeth San Steffan ac am y neges y mae'r toriadau a'r gostyngiad yn nifer yr ymchwiliadau yn ei hanfon i'r diwydiant bwyd a'r archfarchnadoedd?

In relation to the funding cuts to the Food Standards Agency and the impact on the FSA workforce over the past two years, have you had the opportunity over the past two years, or are you taking the opportunity now, to raise concerns about the funding cuts imposed by the Westminster Government and about the message that the cuts and the reduction in the number of investigations sends to the food industry and to supermarkets?

15:12 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Nid wyf yn dymuno, mewn unrhyw ffordd, gwneud unrhyw sylwadau y prynhawn yma am yr hyn sy'n digwydd yn Llandre. Rwy'n gwybod eich bod yn ymwybodol o gefndir yr hyn sy'n digwydd a gwaith yr FSA ar yr ymchwiliad sy'n digwydd mewn perthynas â chwmni Farmbox Meats Ltd. Nid wyf eisiau gwneud unrhyw sylwadau pellach am hynny'r prynhawn yma.

I do not wish, in any way, to make any particular comment on the events in Llandre. I know that you are aware of the background and the work of the FSA in relation to the investigation into Farmbox Meats Ltd. I do not wish to make any further comment on that this afternoon.

O ran y materion polisi ehangach mewn perthynas â'r FSA, ni fyddwch yn synnu wrth glywed nad fi yw ffan fwyaf polisi cyllidebol Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Nid wyf wedi cefnogi nifer o'i chynigion polisi dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Fel Gweinidogion yn uniongyrchol, ac fel Llywodraeth, rydym wedi cynnal trafodaeth â'r FSA yng Nghymru a'r FSA yn y Deyrnas Unedig. Ymhlith y pynciau trafod oedd dyfodol lladd-dai bach yng Nghymru a sawl mater sy'n ymwneud â diogelwch bwyd ledled Cymru. Rydym yn trafod llawer o faterion polisi gyda'r FSA yn ystod ein cyfarfodydd. Nid wyf yn teimlo mai yn awr yw'r amser i drafod polisi cyllidebol Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Os oes unrhyw dystiolaeth fod yr FSA wedi cael ei dal yn ôl yn y ffordd y mae'n gallu symud ymlaen gyda'r ymchwiliad oherwydd y materion y mae'r Aelod wedi'u codi, efallai fod hynny'n rhywbeth y dylai godi gyda'i chyd-Aelod, sef Cadeirydd y pwyllgor a fydd yn gofyn y cwestiynau hyn i'r FSA.

As regards the wider policy issues in relation to the FSA, you will not be surprised to hear that I am not the greatest fan of the United Kingdom Government's fiscal policy. I have not supported a number of its policy proposals over the past two years. Directly as Ministers, and as a Government, we have held discussions with the FSA in Wales and the FSA on a UK level. The future of small abattoirs in Wales and several matters related to food security across Wales have been among the topics of discussion. We discuss several policy issues with the FSA during our meetings. I do not believe that now is the time to discuss the fiscal policy of the United Kingdom Government. If there is any evidence that the FSA has been hindered in proceeding with its investigation because of the matters that the Member has raised, perhaps that is something that she should raise with her colleague, the Chair of the committee that will be posing these questions to the FSA.

15:15

## Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

What worries me particularly about this incident is the kind of food involved and the sort of people who will buy them. Principally, they are budget foods. The people who are going to be affected most by this are those who probably need the most nutrition for the lowest cost. Clearly, what they have here is not what is says on the label at all. I will take the advice of the chief medical officer, Professor Dame Sally Davies, that the 'bute' levels found are not enough to harm human health. I also remember, during the BSE crisis, that UK Ministers were feeding burgers to their children. How are we going to restore faith in the meat industry in Wales—which is excellent—against this backdrop of absolute fear among the public?

Yr hyn sy'n fy mhoeni'n arbennig am y digwyddiad hwn yw'r math o fwyd dan sylw a'r math o bobl a fydd yn ei brynu. Yn bennaf, bwydydd rhad ydynt. Mae'n debygol mai'r bobl y bydd hyn yn effeithio fwyaf arnynt yw'r rhai y mae angen y maeth mwyaf arnynt am y gost isaf. Yn amlwg, yn yr achos hwn nid ydynt yn cael yr hyn y mae'n ei ddweud ar y label o gwbl. Cymeraf gyngor y prif swyddog meddygol, yr Athro Fonesig Sally Davies, nad yw'r lefelau 'bute' a ganfuwyd yn ddigon i niweidio iechyd dynol. Cofiaf hefyd, yn ystod yr argyfwng BSE, fod Gweinidogion y DU yn bwydo byrgyrs i'w plant. Sut yr ydym yn mynd i adfer ffydd yn y diwydiant cig yng Nghymru—sydd yn ardderchog—yn erbyn y cefndir hwn o ofn llwyr ymhlith y cyhoedd?

15:16

## Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Members of the public are taking purchasing decisions based on the media coverage of these investigations and issues. You mentioned the evidence of the United Kingdom's chief medical officer, which is supported by the view of the chief medical officer in Wales. It is a view that this Government takes as well with regard to public safety and public health issues. I agree with the point raised by the Member regarding the category of foods that have been largely affected by this issue. It should not matter at all which foods are affected. All food, no matter where it is or in whichever category it is in the supermarket, retailer or wherever you buy it, should be as labelled and should be what people presume they are buying based on the label on that product. This is a matter of mislabelling. It is a matter of potential criminality for economic gain. This is something that we need to address. There is no evidence of any systemic problem within the food supply chain. I have made it clear in my public statements over the last few weeks and days that consumers can have confidence in the products that they buy. The test results have been very clear in providing more reassurance for consumers and customers. When the testing of products is completed in the next few weeks, I hope that customers and consumers will have complete confidence in what they are buying and the puchases that they make for their families. This is not a matter that raises the same issues as BSE or anything else. This is not an issue about disease in the supply chain. It is an issue of potential criminality and wrongdoing.

Mae aelodau o'r cyhoedd yn gwneud penderfyniadau prynu yn seiliedig ar y sylw yn y cyfryngau i'r ymchwiliadau a'r materion hyn. Soniasoch am dystiolaeth prif swyddog meddygol y Deyrnas Unedig, a gefnogir gan farn y prif swyddog meddygol yng Nghymru. Mae'n farn y mae'r Llywodraeth hon hefyd yn ei rhannu o ran diogelwch y cyhoedd a materion iechyd y cyhoedd. Cytunaf â'r pwynt a gododd yr Aelod ynghylch categori'r bwydydd y mae'r mater hwn wedi effeithio arnynt i raddau helaeth. Ni ddylai fod ots o gwbl ar ba fwydydd y mae'n effeithio. Dylai pob bwyd, ni waeth ble y mae neu ym mha gategori y mae mewn archfarchnad, gydag adwerthwr neu ble bynnag yr ydych yn ei brynu, fod yr hyn a nodir ar ei label a'r hyn y mae pobl yn tybio eu bod yn ei brynu yn seiliedig ar y label ar y cynnyrch hwnnw. Mater o gamlabelu yw hwn. Mae'n fater o droseddu posibl ar gyfer budd economaidd. Mae hyn yn rhywbeth y mae angen inni roi sylw iddo. Nid oes tystiolaeth o unrhyw broblem systemig o fewn y gadwyn cyflenwi bwyd. Rwyf wedi ei dweud yn glir yn fy natganiadau cyhoeddus dros yr wythnosau a'r dyddiau diwethaf y gall defnyddwyr fod yn hyderus yn y cynnyrch y maent yn ei brynu. Mae canlyniadau'r profion wedi bod yn glir iawn o ran darparu mwy o sicrwydd i ddefnyddwyr a chwsmeriaid. Pan fydd profi'r cynnyrch yn cael ei gwblhau yn ystod yr wythnosau nesaf, rwyf yn gobeithio y gall cwsmeriaid a defnyddwyr fod yn gwbl hyderus yn yr hyn y maent yn ei brynu a'r pryniadau a wnânt ar gyfer eu teuluoedd. Nid yw'r mater hwn yn codi'r un materion â BSE nac unrhyw beth arall. Nid mater o afiechyd yn y gadwyn gyflenwi yw hwn. Mater o droseddoldeb a chamwedd posibl ydyw.

15:18

## Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Iceland's chief executive, Malcolm Walker, seems to think that it is impractical for all food to be tested. Do you agree with me that all processed food retailers have an obligation to know where their products are sourced from? A particular concern of mine is that frozen meat carcasses are made into processed food, which is then frozen. Could you investigate how common that is and what the potential health implications are becausewe, as consumers, are told not to refreeze products?

Ymddengys fod prif weithredwr Iceland, Malcolm Walker, yn meddwl ei bod yn anymarferol profi pob bwyd. A ydych yn cytuno â mi bod holl adwerthwyr bwyd wedi'i brosesu dan rwymedigaeth i wybod o ble y daw eu cynnyrch? Un pryder penodol i mi yw bod carcasau cig wedi'u rhewi yn cael eu defnyddio i wneud bwyd wedi'i brosesu, sydd yna'n cael ei rewi. A wnewch chi ymchwilio i ba mor gyffredin yw hynny a beth yw'r goblygiadau iechyd posibl oherwydd dywedir wrthym ni, fel defnyddwyr, am beidio ag ailrewi cynnyrch?

15:19 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not have any information on that matter. If the Member writes to me, perhaps we could deal with it that way. I was in a meeting with Malcolm Walker in London yesterday, along with other retailers and representatives of the food industry. As I said in my earlier response to Russell George, the retailers and supermarkets are often used as shorthand for the whole of the food industry. They, of course, are not. There is a responsibility on all food businesses that supply food to the public to ensure that they understand the integrity of their suppliers and can confidently assure consumers regarding the food they offer for purchase. I believe that that is the case across the whole of the supply chain. There is no evidence to the contrary. While individual Members may have particular issues around the length of some supply chains and the methods used in some processing, there is no evidence that any of these methods present any threat to human health at all.

Nid oes gennyf wybodaeth am y mater hwnnw. Os gwnaiff yr Aelod ysgrifennu ataf, efallai y gallem ymdrin â'r mater fel yna. Roeddwn mewn cyfarfod gyda Malcolm Walker yn Llundain ddoe, ynghyd ag adwerthwyr eraill a chynrychiolwyr y diwydiant bwyd. Fel y dywedais yn fy ymateb cynharach i Russell George, yn aml caiff adwerthwyr ac archfarchnadoedd eu defnyddio fel llaw-fer ar gyfer y diwydiant bwyd i gyd. Wrth gwrs, nid yw hynny'n gywir. Mae cyfrifoldeb ar bob busnes bwyd sy'n cyflenwi bwyd i'r cyhoedd i sicrhau eu bod yn deall uniondeb eu cyflenwyr ac yn gallu bod yn hyderus wrth sicrhau defnyddwyr ynghylch y bwyd y maent yn ei gynnig i'w brynu. Credaf fod hynny'n wir ar draws y cyfan o'r gadwyn gyflenwi. Nid oes tystiolaeth i'r gwrthwyneb. Er y gall Aelodau unigol fod â materion penodol sy'n ymwneud â hyd rhai cadwyni cyflenwi a'r dulliau a ddefnyddir i brosesu ar adegau, nid oes tystiolaeth bod unrhyw un o'r dulliau hyn yn fygythiad i iechyd dynol o gwbl.

15:20

## Datganiad: Diwygio TGCh—Adolygu'r Rhaglen Dysgu Digidol

## Statement: ICT Reform—Review of Digital Learning

Senedd.tv Fideo Video

**Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

In September 2011, I set up an external task and finish group to consider which digital classroom delivery approaches should be adopted to transform learning and teaching for those aged three to 19. The group's report, 'Find it, make it, use it, share it: learning in digital Wales' was published in March 2012. Within this report, 10 headline recommendations were made. In June 2012, I announced the Welsh Government's response to the recommendations in the report. I am pleased to report today on the progress made against each of the key actions.

Ym mis Medi 2011, sefydlais grŵp gorchwyl a gorffen allanol i ystyried pa ddulliau cyflwyno digidol yn yr ystafell ddosbarth y dylid eu mabwysiadu i weddnewid dysgu ac addysgu ar gyfer rhai tair i 19 oed. Cyhoeddwyd adroddiad y grŵp, 'Canfod, gwneud, defnyddio, rhannu: dysgu yn y Gymru ddigidol', ym mis Mawrth 2012. Yn yr adroddiad hwn, gwnaethpwyd 10 prif argymhelliad. Ym mis Mehefin 2012, cyhoeddais ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr adroddiad. Rwyf yn falch o adrodd heddiw ar y cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r camau gweithredu allweddol.

In September 2012, I established the National Digital Learning Council to steer the implementation of the recommendations as identified in the digital classroom teaching report. The membership of the council has been drawn from education professionals in the school, further education and higher education sectors, representation from local authorities and the Association of Directors of Education in Wales. The council leads, promotes and supports the use of digital resources and technologies by learners and teachers.

Ym mis Medi 2012, sefydlais y Cyngor Dysgu Digidol Cenedlaethol i lywio'r broses o weithredu'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad ar ddulliau addysgu digidol yn yr ystafell ddosbarth. Mae aelodau'r cyngor yn cynnwys gweithwyr proffesiynol yn sectorau'r ysgolion, addysg bellach ac addysg uwch, cynrychiolwyr awdurdodau lleol a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru. Mae'r cyngor yn arwain, yn hyrwyddo ac yn cefnogi dysgwyr ac athrawon i ddefnyddio adnoddau a thechnolegau digidol.

In line with our programme for government commitment and in response to the task and finish group's report, we launched Hwb, the all-Wales learning platform in December 2012. This new virtual learning environment is designed to encourage, support and prepare teachers to operate in a digital environment and to share their digital practice. Hwb also provides a national repository for creating, storing and sharing digital resources, which can be accessed anywhere, at any time from any device. The Hwb platform allows us to host centrally e-safety resources, which are available for all three to 19 education stakeholders in Wales to access, and enables teachers to raise awareness around areas such as online safety with pupils and parents alike.

Yn unol â'n rhaglen ar gyfer ymrwymiad y llywodraeth ac mewn ymateb i adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen, lansiwyd Hwb, llwyfan dysgu Cymru gyfan ym mis Rhagfyr 2012. Mae'r amgylchedd dysgu rhithwir newydd hwn wedi'i gynllunio i annog, cefnogi a pharatoi athrawon i weithredu mewn amgylchedd digidol ac i rannu eu harferion digidol. Mae Hwb hefyd yn darparu storfa genedlaethol ar gyfer creu, storio a rhannu adnoddau digidol, y gellir ei gweld yn unrhyw le, ar unrhyw adeg o unrhyw ddyfais. Mae llwyfan Hwb yn caniatáu inni gynnal adnoddau e-ddiogelwch yn ganolog, sydd ar gael i holl randdeiliaid addysg tair i 19 oed yng Nghymru i gael mynediad atynt, ac yn galluogi athrawon i godi ymwybyddiaeth o feysydd megis diogelwch ar-lein gyda disgyblion a rhieni fel ei gilydd.

I am aware that developing a new online learning platform alone is not sufficient to make the desired improvements in the use of digital technology in schools. In order to ensure that technology is used effectively to improve learning outcomes, our investment in Hwb is being supported by a complete package of long-term initiatives. In January, the learning in digital Wales grant was announced by the First Minister. This £39 million investment will significantly improve broadband connectivity infrastructure for schools, and ensure that our learners have the very best access to online resources. The grant will also improve in-school connectivity, thus ensuring that all learners in schools in Wales have access to secure wi-fi systems.

Rwyf yn ymwybodol nad yw datblygu llwyfan dysgu ar-lein newydd yn unig yn ddigon i wneud y gwelliannau a ddymunir o ran defnyddio technoleg ddigidol mewn ysgolion. Er mwyn sicrhau bod technoleg yn cael ei defnyddio'n effeithiol i wella canlyniadau dysgu, caiff ein buddsoddiad yn Hwb ei ategu gan becyn cyflawn o fentrau hirdymor. Ym mis Ionawr, cyhoeddodd y Prif Weinidog y grant dysgu yn y Gymru ddigidol. Bydd y buddsoddiad gwerth £39 miliwn hwn yn gwella seilwaith cysylltedd band eang ysgolion yn sylweddol, ac yn sicrhau bod ein dysgwyr yn cael y mynediad gorau at adnoddau ar-lein. Bydd y grant hefyd yn gwella cysylltedd yn yr ysgol, gan sicrhau bod pob dysgwr yn ysgolion Cymru yn cael mynediad at systemau di-wifr diogel.

In order to drive forward improvements in the use of digital technology in schools, I have appointed a team of eight digital leaders to act as champions of digital technology in teaching and learning. The digital leader team has been tasked with supporting the implementation of Hwb, and is provided free of charge to consortia, local authorities and schools.

I sbarduno gwelliannau o ran defnyddio technoleg ddigidol mewn ysgolion, rwyf wedi penodi tîm o wyth o arweinwyr digidol i weithredu fel hyrwyddwyr technoleg ddigidol ym meysydd addysgu a dysgu. Mae'r tîm o arweinwyr digidol wedi cael y dasg o gefnogi rhoi Hwb ar waith, ac fe'i darperir yn rhad ac am ddim i gonsortia, awdurdodau lleol ac ysgolion.

I have been consistent in my message that safeguarding children is a key priority of this Government. We are working closely with the National Digital Learning Council and the UK Safer Internet Centre to ensure that our learners are given the best possible advice. This will allow our learners to develop the skills and understanding they need to manage their own risk as they use the internet independently, with expert advice on e-safety and digital citizenship to support the work of the council going forward. To mark Safer Internet Day on 5 February 2013, the Welsh Government joined the Children's Commissioner for Wales at Cadoxton Primary School in Barry. Through this event, we celebrated and promoted safe internet use with pupils from Ashgrove School, Barry Island Primary School, Cadoxton Primary School and Ysgol Gyfun Bro Morgannwg.

Rwyf wedi bod yn gyson yn fy neges bod diogelu plant yn flaenoriaeth allweddol i'r Llywodraeth hon. Rydym yn cydweithio'n agos â'r Cyngor Dysgu Digidol Cenedlaethol a Chanolfan Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel y DU i sicrhau bod ein dysgwyr yn cael y cyngor gorau posibl. Bydd hyn yn galluogi ein dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i reoli eu risg eu hunain wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd yn annibynnol, gyda chyngor arbenigol ar e-ddiogelwch a dinasyddiaeth ddigidol i ategu gwaith y cyngor wrth symud ymlaen. I nodi Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel ar 5 Chwefror 2013, ymunodd Llywodraeth Cymru â Chomisiynydd Plant Cymru yn Ysgol Gynradd Tregatwg yn y Barri. Drwy'r digwyddiad hwn, buom yn dathlu ac yn hyrwyddo defnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel gyda disgyblion o Ysgol Ashgrove, Ysgol Gynradd Ynys y Barri, Ysgol Gynradd Tregatwg ac Ysgol Gyfun Bro Morgannwg.

In January, I established a steering group to take forward consideration of the future of computer science and ICT in schools. The ICT steering group includes representatives from a range of stakeholders including schools, the National Digital Learning Council, further education, higher education, awarding organisations, industry and the media. The group will develop proposals in relation to ICT, computer science and digital literacy, and provide a report on the way forward. I have directed my officials to use this report as the basis for the CPD programme that we will be launching in September.

Ym mis Ionawr, sefydlais grŵp llywio i symud ymlaen ag ystyried dyfodol cyfrifiadureg a TGCh mewn ysgolion. Mae'r grŵp llywio TGCh yn cynnwys cynrychiolwyr o ystod o randdeiliaid gan gynnwys ysgolion, y Cyngor Dysgu Digidol Cenedlaethol, addysg bellach, addysg uwch, sefydliadau dyfarnu, diwydiant a'r cyfryngau. Bydd y grŵp yn datblygu cynigion mewn perthynas â TGCh, cyfrifiadureg a llythrennedd digidol, ac yn darparu adroddiad ar y ffordd ymlaen. Rwyf wedi cyfarwyddo fy swyddogion i ddefnyddio'r adroddiad hwn fel sail ar gyfer y rhaglen DPP y byddwn yn ei lansio ym mis Medi.

I am pleased to report that, over the last few months, a number of our schools have been awarded the Third Millennium Learning Award and some schools, including Casllwchwr Primary School in Swansea, have been recognised at a UK level for ICT excellence. Swansea's LIFE programme provides an excellent example of how digital technologies can be used innovatively to support the sharing of best practice and provide opportunities to enhance intergenerational learning. In recognition of the outstanding achievements of our schools, in June this year, we will be holding the inaugural national digital learning event. This event will provide teachers and learners in Wales with a platform to share best practice and showcase the world-class approaches that Wales has to offer.

Rwyf yn falch o adrodd bod nifer o'n hysgolion, dros y misoedd diwethaf, wedi ennill Gwobr Dysgu'r Trydydd Mileniwm a bod rhai ysgolion, gan gynnwys Ysgol Gynradd Casllwchwr yn Abertawe, wedi cael eu cydnabod ar lefel y DU am ragoriaeth ym maes TGCh. Mae rhaglen LIFE Abertawe yn enghraifft wych o sut y gellir defnyddio technolegau digidol yn arloesol i gefnogi rhannu arfer gorau a darparu cyfleoedd i wella dysgu rhwng cenedlaethau. I gydnabod llwyddiannau rhagorol ein hysgolion, ym mis Mehefin eleni, byddwn yn cynnal y digwyddiad dysgu digidol cenedlaethol cyntaf. Bydd y digwyddiad hwn yn rhoi llwyfan i athrawon a dysgwyr Cymru i rannu arfer gorau a dangos y dulliau o safon fyd-eang sydd gan Gymru i'w cynnig.

15:25

## Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

First Minister—[Laughter.] There we are; what can I say?

Prif Weinidog Cymru— [Chwerthin.] Dyna ni; beth allaf fi ei ddweud?

Minister, I thank you for this statement, which I welcome enormously and I am very pleased to see the progress that has been made on this subject. However, I have a couple of questions that I would like to ask you about it.

Weinidog, diolch am y datganiad hwn; rwyf yn ei groesawu'n fawr ac rwyf yn falch iawn o weld y cynnydd sydd wedi'i wneud ar y pwnc hwn. Fodd bynnag, mae gennyf ychydig o gwestiynau yr hoffwn eu gofyn ichi amdano.

You talk about looking at the continuous professional development programme and I would like to know whether you intend that to be a stand-alone programme or whether you are looking to feed it into the Master's programme to ensure that we raise the IT literacy of our teachers.

Rydych yn sôn am edrych ar y rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus a hoffwn wybod a ydych yn bwriadu iddi fod yn rhaglen annibynnol ynteu a ydych yn bwriadu ei bwydo i mewn i'r rhaglen Meistr i sicrhau ein bod yn gwella llythrennedd TG ein hathrawon.

I welcome enormously the £39 million learning in digital Wales grant. My only comment is to ask that you ensure that it tries to reach as many schools as possible, because I know of schools in areas where broadband is exceptionally difficult to get, and I would not like to see those schools miss out on such a valuable opportunity.

Rwyf yn croesawu'n fawr y grant dysgu yn y Gymru ddigidol gwerth £39 miliwn. Fy unig sylw yw gofyn ichi sicrhau ei fod yn ceisio cyrraedd cynifer o ysgolion ag y bo modd, oherwydd gwn am ysgolion mewn ardaloedd lle mae band eang yn eithriadol o anodd ei gael, ac ni hoffwn weld yr ysgolion hynny'n colli cyfle mor werthfawr.

You mention that you have been consistent in your message that safeguarding children is a key priority of this Government and it is one with which we would all agree. I want to make the observation that, as these reforms and changes occur, we must keep pace with any reform of ICT and particularly cyber bullying in schools. I am quite sure that almost every Assembly Member could share stories of children in their areas who have suffered shockingly from cyber bullying. In my own patch, there are a number of dreadful cases that have happened only too recently.

Soniwch eich bod wedi bod yn gyson yn eich neges bod diogelu plant yn flaenoriaeth allweddol i'r Llywodraeth hon ac mae'n un y byddem i gyd yn cytuno â hi. Rwyf am wneud y sylw, wrth i'r diwygiadau a'r newidiadau hyn ddigwydd, bod rhaid inni aros gyfuwch ag unrhyw ddiwygio TGCh ac yn enwedig seiber fwlio mewn ysgolion. Rwyf yn eithaf siŵr y gallai bron bob Aelod Cynulliad rannu storïau am blant yn eu hardaloedd sydd wedi dioddef seiber fwlio ofnadwy. Yn fy ardal fy hun, mae nifer o achosion erchyll wedi digwydd yn ddiweddar iawn.

I want to pick up on your comments about establishing a steering group to take forward consideration of the future of computer science and ICT in schools. This is a key area; it is not enough for us just to teach young people word processing. In fact, I know that David Rees's cross-party group has done some work on the need to improve the way in which we handle computer science within our schools and the way in which we should encourage young people into computer science in its purer form, especially young women. Therefore, I would be interested to see how that steering group develops this theme, because we all recognise that ICT is one of the key languages of the future.

Hoffwn gyfeirio at eich sylwadau am sefydlu grŵp llywio i symud ymlaen ag ystyried dyfodol cyfrifiadureg a TGCh mewn ysgolion. Mae hwn yn faes allweddol; nid yw dysgu pobl ifanc i brosesu geiriau'n unig yn ddigon. Yn wir, gwn fod grŵp trawsbleidiol David Rees wedi gwneud rhywfaint o waith ar yr angen i wella'r ffordd yr ydym yn ymdrin â chyfrifiadureg yn ein hysgolion a'r ffordd y dylem annog pobl ifanc at gyfrifiadureg yn ei ffurf bur, yn enwedig menywod ifanc. Felly, byddai gennyf ddiddordeb mewn gweld sut y bydd y grŵp llywio hwnnw'n datblygu'r thema hon, oherwydd rydym i gyd yn cydnabod bod TGCh yn un o ieithoedd allweddol y dyfodol.

Finally, Minister, I seek clarification on how all of this ties in with the findings of the qualifications review and how it will underpin that review, going forward.

Yn olaf, Weinidog, hoffwn eglurhad o sut y mae hyn i gyd yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r adolygiad o gymwysterau a sut y bydd yn tanategu'r adolygiad hwnnw yn y dyfodol.

15:28

## Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the leader of the opposition for her comments today. [Laughter.] I will start by saying that the CPD programme will be a stand-alone programme specifically dedicated to this area.

Diolch i arweinydd yr wrthblaid am ei sylwadau heddiw. [Chwerthin.] Dechreuaf drwy ddweud y bydd y rhaglen DPP yn rhaglen annibynnol ac yn benodol i'r maes hwn.

As we look to the current review of initial teacher training, one of the issues that we want to ensure is that the teachers who are coming through those programmes have the appropriate digital skills. That will be increasingly important in the future. We have had a significant take-up in the Masters programme from newly qualified teachers; over 50% of NQTs this year have already enrolled in the programme and they will look at digital modules on their courses.

In respect of learning in digital Wales, this programme extends to the whole of Wales, with the exception of Torfaen and Monmouthshire for reasons with which the Member will be familiar. It is designed to ensure that, by 2020, all primary schools will have 100 MB capability and all secondary schools will have 1GB capability, so it is a very significant and targeted investment. It will ensure that our schools are as well-equipped as schools anywhere in the UK in terms of the provision available to them.

The Member rightly raises the issue of cyber bullying and safeguarding. She will recall that we have worked closely with the organisation Wise Kids throughout, and Sangeet Bhullar from Wise Kids was a representative on the original digital classroom teaching group. Cyber bullying issues are incorporated in the bullying guidance that we produced 18 months or so ago.

In respect of computer science in schools, this is an exciting area, and one that has immense promise. We held a seminar on this issue before Christmas, with, as I said, representatives from not only the education sector—further and higher education, schools, and awarding bodies—but also representatives of the media and industry. I have established a group that is working with Computing at School, as well as with other groups, to take forward the curriculum. We have also met with the NextGen group to look at these issues, and I think that there is real enthusiasm for how we ensure that we develop coding skills at a young age in the curriculum. Just today, I have been in correspondence with one of those individuals who is helping to take a lead from industry with us on this, namely Stuart Arthur from Box UK, who is himself, through his own businesses, piloting coding classes in schools.

You mentioned the issue of ensuring that young women, particularly, are brought into learning coding and computing skills. I am pleased that one of the co-chairs of this work is Janet Hayward, who chaired the original digital classroom teaching group. She is a headteacher in Barry; she is a headteacher, interestingly, who has a computing science degree.

Wrth inni edrych at yr adolygiad cyfredol o hyfforddiant cychwynnol i athrawon, un o'r pethau yr ydym am ei sicrhau yw bod yr athrawon sy'n dod drwy'r rhaglenni hynny'n meddu ar y sgiliau digidol priodol. Bydd hynny'n gynyddol bwysig yn y dyfodol. Mae llawer o athrawon newydd gymhwyso wedi cofrestru ar y rhaglen Meistr; mae dros 50% o ANG eleni eisoes wedi cofrestru yn y rhaglen a byddant yn edrych ar fodiwlau digidol ar eu cyrsiau.

O ran dysgu yn y Gymru ddigidol, mae'r rhaglen hon yn ymestyn i Gymru gyfan, ac eithrio Torfaen a Sir Fynwy am resymau y bydd yr Aelod yn gyfarwydd â hwy. Mae wedi'i chynllunio i sicrhau, erbyn 2020, y bydd gan bob ysgol gynradd allu 100 MB ac y bydd gan bob ysgol uwchradd allu 1GB, felly mae'n fuddsoddiad sylweddol iawn sydd wedi'i dargedu. Bydd yn sicrhau bod gan ein hysgolion offer cystal ag unman yn y DU o ran y ddarpariaeth sydd ar gael iddynt.

Mae'r Aelod yn gywir i godi mater seiber fwlio a diogelu. Bydd yn cofio ein bod wedi cydweithio'n agos â'r sefydliad Wise Kids drwy gydol y broses, ac roedd Sangeet Bhullar o Wise Kids yn gynrychiolydd ar y grŵp gwreiddiol ar ddulliau addysgu digidol yn yr ystafell ddosbarth. Mae materion seiber fwlio wedi'u hymgorffori yn y canllawiau bwlio a gynhyrchwyd gennym 18 mis yn ôl.

O ran cyfrifiadureg mewn ysgolion, mae hwn yn faes cyffrous, ac yn un ag addewid enfawr. Cynhaliwyd seminar ar y mater hwn cyn y Nadolig, gyda chynrychiolwyr, fel y dywedais, nid yn unig o'r sector addysg—addysg bellach ac addysg uwch, ysgolion, a chyrff dyfarnu—ond hefyd o'r cyfryngau a diwydiant. Rwyf wedi sefydlu grŵp sy'n gweithio gyda phrosiect Cyfrifiadura yn yr Ysgol, yn ogystal â chyda grwpiau eraill, i fwrw ymlaen â'r cwricwlwm. Rydym hefyd wedi cyfarfod â'r grŵp NextGen i edrych ar y materion hyn, a chredaf fod brwdfrydedd go iawn am y ffordd yr ydym yn sicrhau ein bod yn datblygu sgiliau codio i blant ifanc yn y cwricwlwm. Rwyf wedi bod yn gohebu heddiw ag un o'r unigolion hynny sy'n ein helpu i gymryd arweiniad gan ddiwydiant ar hyn, sef Stuart Arthur o Box UK, sydd yntau, drwy ei fusnesau ei hun, yn treialu dosbarthiadau codio mewn ysgolion.

Soniasoch am fater sicrhau bod merched ifanc, yn enwedig, yn cael eu dwyn i mewn i ddysgu codio a sgiliau cyfrifiadurol. Rwyf yn falch mai un o gyd-gadeiryddion y gwaith hwn yw Janet Hayward, a gadeiriodd y grŵp gwreiddiol ar ddulliau addysgu digidol yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n bennaeth yn y Barri; pennaeth, yn ddiddorol, a chanddi radd mewn cyfrifiadureg.

15:31 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Weinidog, am y datganiad hwn heddiw. Mae Plaid Cymru yn croesawu popeth yn y datganiad, ac yn croesawu'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn y maes hwn. Rydym yn cydnabod bod y maes hwn yn bwysig i'n hysgolion ac i'n system addysg. Rydym yn gweld bod llythrennedd mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yr un mor bwysig â llythrennedd mewn darllen ac ysgrifennu arferol, yn ogystal â rhifedd, i'n holl blant, o'r cyfnod sylfaen i fyny. Hefyd, rydym yn credu bod cyflwyno'r sgiliau hyn yn gynnar yn ystod twf plentyn yn hollbwysig, ac y caiff hyn ei adlewyrchu yn y pen draw mewn gwellhad yn eu sgiliau yn gyffredinol yn y dosbarth. Felly, rydym yn croesawu popeth yn y datganiad hwn.

Thank you, Minister, for today's statement. Plaid Cymru welcomes everything contained within, and the progress that has been made in this area. We recognise that this is important for our schools and our education system. We recognise that literacy in ICT is just as important as literacy in normal reading and writing, as well as numeracy, for all our children, from the foundation phase upwards. Also, we believe that introducing these skills at the very earliest stages during child development is crucially important, and that it is reflected ultimately in improvements in their all-round skills in a classroom setting. Therefore, we welcome everything contained in the statement.

Nid af ar ôl pob dim felly, ond, yn hytrach, hoffwn danlinellu pa mor bwysig yw hi fod sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn mynd law yn llaw â sgiliau mwy traddodiadol, megis llythrennedd a rhifeddeg. Rydych yn sôn yn y datganiad, Weinidog, am ysgol yng Nghasllwchwr, rwy'n meddwl, a'r arfer da sydd wedi bod yno, sydd wedi cael ei gydnabod yng Nghymru a Lloegr. Mae'n ddiddorol gweld yn astudiaeth Estyn o'r ysgol honno bod llythrennedd wedi cynyddu bron 20%—o 71% i 90%—mewn tair blynedd ar ôl cyflwyno'r math hwn o ddysgu yn y dosbarth. Mae hynny'n tanlinellu'r potensial sy'n bodoli ar draws Cymru ar gyfer y math hwn o ddysgu.

I will not question you on everything in the statement, but I would like to underline how important it is that ICT skills go hand in hand with more traditional skills, such as literacy and numeracy. You mentioned in the statement, Minister, a school in Loughor, I think, and the good practice that exists there, which is recognised in Wales and in England. It is interesting to see in Estyn's inspection of that school that literacy has increased by almost 20%—from 71% to 90%—in three years, after the introduction of this kind of learning in the classroom. That highlights the potential that exists across Wales for this kind of learning.

Hoffwn ofyn dau gwestiwn. Yn gyntaf, sut mae sicrhau bod y sgiliau a'r gallu i fanteisio ar y dysgu hwn ar gael i bob plentyn, yn enwedig i blant o gefndir mwy difreintiedig? Wrth sôn ym mis Rhagfyr am ddatblygiad Hwb, dywedasoch yn glir ei fod yn fwriad gennych bod Hwb ar gael dros bob math o dechnoleg—yr iPad, cyfrifiaduron, gliniaduron, ffonau, ac yn y blaen. Er bod peth o'r dechnoleg hon ar gael i bob plentyn—mae ffonau, er enghraifft, ar gael i bron bob plentyn erbyn hyn—efallai nad yw rhai o'r technolegau hynny ar gael i bob plentyn o gefndir difreintiedig neu gefndir amddifad. Byddwch yn cofio'r hen gynllun 'laptops' a oedd gan Lywodraeth Cymru'n Un. Mae'n resyn gennym ni ym Mhlaid Cymru eich bod wedi dod â'r cynllun hwnnw i ben, yn hytrach na'i esblygu i mewn i'r system ddysgu digidol hon. Yr oedd y cynllun hwnnw yn trio mynd i'r afael yn benodol â hygyrchedd plant o gefndir difreintiedig i ddysgu digidol. Hoffwn glywed mwy am sut yr ydych am sicrhau y bydd y cynlluniau newydd hyn ar gael i bob plentyn, ac y bydd cefnogaeth i blant i ddefnyddio'r dechnoleg fwyaf modern, ac na fydd yr un plentyn, felly, yn colli mas ar ddefnyddio dysgu digidol.

I would like to ask two questions. First, how can we ensure that the skills and ability to take advantage of these opportunities are available to all children, particularly children from a more disadvantaged background? When making a statement on the development of Hwb back in December, you said clearly that it is the intention that Hwb will be available on all sorts of technologies—the iPad, computers, laptops, phones, and so on. Although some of those technologies are available to all children—for example, phones are available to most children these days—some of those technologies are not available to all children from disadvantaged or deprived backgrounds. You will recall the old laptops programme that the One Wales Government espoused. We in Plaid Cymru regret the fact that you wound up that scheme, rather than developing it into this digital learning system. That scheme endeavoured to address the accessibility of digital learning to children from disadvantaged backgrounds. I would like to hear more about how you will ensure that these new schemes will be available to all children, and that there will be support for children in using the most modern technologies, and that no child will lose out in terms of digital learning.

Yn ail, ar hyfforddiant athrawon, mae adroddiad blynyddol Estyn eleni yn ei gwneud yn glir bod gormod o amrywiaeth o ran dysgu'r sgiliau technoleg hyn i athrawon er mwyn iddynt allu addysgu disgyblion, yn eu tro, yn y sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae gormod o amrywiaeth, yn enwedig yn y system addysg uwchradd. Mae adroddiad Estyn yn dweud bod gormod o amrywiaeth o ran hyn, ac felly mae dyn yn dehongli nad oes digon o gysondeb efallai yn y ffordd mae'n hathrawon ni yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio technoleg yn y dosbarth. Felly, hoffwn wybod tipyn bach mwy hefyd ar sut rydych yn mynd i wneud yn siŵr bod ein hathrawon yn barod ac wedi addysgu'u hunain yn y ffordd hon o ddysgu.

Secondly, on teacher training, the Estyn annual report for this year makes it clear that there is too much divergence in terms of teaching these technology skills to teachers so that they, in turn, can take those ICT skills into the classroom. There is too much divergence, especially in the secondary sector. The Estyn report states that there is too much variation, and therefore one interprets that as meaning that there may not be enough consistency in the way that our teachers are trained to use technology in the classroom. Therefore, I would like to know a little more about how you are going to ensure that our teachers are prepared and properly trained in this method of teaching.

15:35 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Plaid Cymru spokesperson for his welcome for what we are doing. He started by mentioning Casllwchwr Primary School in Swansea. I visited the school some time ago and I have encouraged a lot of schools to talk with the headteacher there, Simon Pridham, and to learn from what has been done there, and I would certainly encourage other Members to visit. What it has achieved in respect of raising literacy and improving boys' engagement and so on is well worth seeing. It has also developed policies in relation to pupils bringing their own devices into school and it is co-operating through the life programme in Swansea now with other schools, including schools in more disadvantaged areas of Swansea, to ensure that technology is used to boost improvement overall.

Diolch i lefarydd Plaid Cymru am ei groeso i'r hyn yr ydym yn ei wneud. Dechreuodd drwy sôn am Ysgol Gynradd Casllwchwr yn Abertawe. Ymwelais â'r ysgol beth amser yn ôl ac rwyf wedi annog llawer o ysgolion i siarad â'r pennaeth yno, Simon Pridham, ac i ddysgu oddi wrth yr hyn sydd wedi'i wneud yno, a byddwn yn sicr yn annog Aelodau eraill i ymweld. Mae'n werth gweld yr hyn y mae wedi'i gyflawni o ran codi llythrennedd a gwella ymgysylltiad bechgyn ac yn y blaen. Mae hefyd wedi datblygu polisïau ynghylch disgyblion sy'n dod â'u dyfeisiau eu hunain i'r ysgol, ac mae bellach yn cydweithredu drwy'r rhaglen LIFE yn Abertawe gydag ysgolion eraill, gan gynnwys ysgolion mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn Abertawe, i sicrhau y caiff technoleg ei defnyddio i hybu gwelliant yn gyffredinol.

The issue for us in terms of ensuring access is that we recognise that there are going to be some pupils who will not have access to technology outside the school environment and, therefore, there are a number of things that can be done by schools. Some schools are moving to programmes where they themselves will ensure that young people in particular age groups are provided with tablet devices. I have seen that in my own constituency in Tonypandy Community College in respect of some year groups. I was visiting the constituency of my colleague the Member for Ogmore just two weeks ago, where a school there has a plan for tablet devices for all its pupils, and some very innovative approaches are now being developed.

Y mater i ni ei ystyried o ran sicrhau mynediad yw ein bod yn cydnabod y bydd rhai disgyblion heb fynediad at dechnoleg y tu allan i amgylchedd yr ysgol a, felly, fod nifer o bethau y gall ysgolion eu gwneud. Mae rhai ysgolion yn symud at raglenni lle y byddant eu hunain yn sicrhau bod pobl ifanc yn y grwpiau oedran penodol yn cael dyfeisiau tabled. Rwyf wedi gweld hynny yn fy etholaeth fy hun yng Ngholeg Cymunedol Tonypandy mewn rhai grwpiau blwyddyn. Roeddwn yn ymweld ag etholaeth fy nghydweithiwr, Aelod Ogwr, gwta bythefnos yn ôl, lle mae gan ysgol gynllun i roi dyfeisiau tabled i'w holl ddisgyblion, ac mae rhai dulliau arloesol iawn yn cael eu datblygu.

Unfortunately, the problem with the laptop programme was that it was wedded to a single form of technology, when, in fact, there is considerable mobility and portability with a range of devices, which allows more experimentation by schools. We are obviously investing significantly more than was invested in the original laptop programme. It is also important that we ensure that local authorities are working through the library system to ensure that young people can have access to the internet and computers outside the classroom through public facilities such as those.

Yn anffodus, y broblem gyda'r rhaglen liniaduron oedd ei bod yn gaeth i un math o dechnoleg, pan, mewn gwirionedd, fo amrywiaeth o ddyfeisiau sy'n rhoi symudedd a hygludedd sylweddol, sy'n caniatáu mwy o arbrofi gan ysgolion. Rydym yn amlwg yn buddsoddi llawer mwy na'r hyn a fuddsoddwyd yn y rhaglen liniaduron wreiddiol. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gweithio drwy'r system lyfrgelloedd i sicrhau y gall pobl ifanc gael mynediad i'r rhyngrwyd a chyfrifiaduron y tu allan i'r ystafell ddosbarth drwy gyfleusterau cyhoeddus fel y rhain.

In respect of teacher training, I mentioned the national digital learning council and the digital leaders who are working with teachers across Wales in the development of materials. We have obviously invested in Hwb and we will be ensuring that there is support through initial teacher training for digital learning among teachers, and it is important that continuous professional development programmes take account of teachers' digital learning needs as well. A considerable amount is already being done by some of the most advanced teachers to spread best practice in this area, such as the network that operates online among a variety of digitally advanced teachers on a Tuesday evening, and Members are encouraged to join in.

O ran hyfforddi athrawon, soniais am y cyngor dysgu digidol cenedlaethol a'r arweinwyr digidol sy'n cydweithio ag athrawon ledled Cymru i ddatblygu deunyddiau. Rydym yn amlwg wedi buddsoddi yn Hwb a byddwn yn sicrhau bod cefnogaeth ar gael drwy hyfforddiant cychwynnol athrawon i ddysgu digidol ymysg athrawon, ac mae'n bwysig bod rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus yn ystyried anghenion dysgu digidol athrawon hefyd. Mae cryn dipyn eisoes yn cael ei wneud gan rai o'r athrawon mwyaf datblygedig i ledaenu arfer gorau yn y maes hwn, megis y rhwydwaith sy'n gweithredu ar-lein ymhlith amrywiaeth o athrawon â sgiliau digidol uwch ar nos Fawrth, ac anogir Aelodau i ymuno â hwy.

15:39

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwyf hefyd yn croesawu'ch datganiad, ac fel y dywedodd Simon Thomas, rydym yn ddigon parod fel grŵp i ddweud ein bod yn cefnogi'n llwyr eich mesurau o ran technoleg gwybodaeth. Hefyd, rwy'n credu bod llythrennedd mewn technoleg gwybodaeth yn hollbwysig, a hwyrach ei fod yn arf pwysicach rŵan i ni fynd i'r afael â phroblemau llythrennedd a rhifedd cyffredinol o fewn ein hysgolion.

I also welcome your statement, and as Simon Thomas said, we are also willing as a group to say that we fully support the measures that you are taking in the field of information technology. I also believe that literacy in IT is crucial, and perhaps it is an ever more important tool in order to address the general problems of literacy and numeracy within our schools.

Yn fyr, gofynnaf nifer o gwestiynau ynglŷn â threfniadau caffael o ran y grant £39 miliwn. Byddwch yn ymwybodol bod nifer o adroddiadau ar lefel Prydeinig, yn hytrach nag yma yng Nghymru, wedi bod yn feirniadol o drefniadau caffael o fewn ysgolion o ran cyfrifiaduron a meddalwedd. Rwy'n deall mai rhaglen i wella 'access' a band eang yw hwn i ryw raddau, ond a fydd yr holl drefniadau hynny'n cael eu gwireddu gan Lywodraeth Cymru neu gan lywodraeth leol? Hefyd, a yw'r wyth arweinydd digidol yr ydych wedi eu penodi yn staff y consortia neu a ydynt yn cael eu rheoli yn ganolog? Os felly, a ydynt yn cael eu dosbarthu ar draws Cymru? Rwy'n ymwybodol bod staff technoleg gwybodaeth nifer fawr o gynghorau erbyn hyn wedi cael eu trosglwyddo i'r consortia a hwyrach bod lleihad yn yr arbenigedd ar lefel leol. Yn fyr iawn, ar hynny, a fyddwch yn gwneud yn siŵr bod yr holl ddatblygiadau hyn o ran meddalwedd a'r rhaglenni rydych yn eu cyflwyno i ni heddiw ar gael yn ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf?

Briefly, I will ask a few questions regarding procurement systems for the grant of £39 million. You will be aware that there are many reports on a UK level, rather than here in Wales, that have been critical of the procurement processes within schools as regards computers and software. I understand that this is a programme to improve access and broadband to some extent, but will all those arrangements be delivered by the Welsh Government or local government? Also, are the eight digital leaders that you have appointed consortia staff or are they being managed centrally? If so, will they be distributed across Wales? I understand that many IT staff from councils have been transferred to the consortia and maybe there has been a reduction in expertise at the local level. Very briefly, on that, will you be ensuring that all these developments in terms of software and the programmes that you are introducing today will be available bilingually right from the outset?

I ategu'r hyn a ddywedodd Simon Thomas o ran anghysondeb darpariaeth o fewn ysgolion, a'r ffaith bod llawer o hyn yn dibynnu ar lefelau sgiliau athrawon unigol, rwy'n llywodraethwr dwy ysgol gynradd, ac rwy'n ymwybodol ein bod yn ffodus iawn mewn un ysgol bod gan un athro'r sgiliau sy'n rhaid eu cael ar gyfer y rhaglenni hyn, ond bod diffyg darpariaeth yn yr ysgol arall. Felly, rwy'n credu bod y pethau rydych wedi eu dweud heddiw ynglŷn â'r gefnogaeth sydd ar gael i athrawon unigol i ddatblygu'n broffesiynol yn hollbwysig os ydym i wireddu'r freuddwyd hon.

To endorse what Simon Thomas said in terms of inconsistency of provision in schools, and the fact that much of this is dependent on the skill levels of individual teachers, I am a governor of two primary schools, and I am aware that we are very fortunate in one school that one teacher has the skills that are needed to implement these programmes, but there is a lack of provision in the other school. Therefore, I think that what you have said today about the support that is available to individual teachers to develop professionally is crucial if we are to realise this dream.

15:41

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Again, I thank the Liberal Democrat spokesperson for his welcome for what we are doing. In respect of ICT procurement, there are some authorities that have done well in securing improvements in the quality of the hardware and software contracts that are operated by schools within their areas and have improved the availability of digital learning technologies in their schools. In respect of our programme, the £39 million investment is designed to improve bandwidth significantly and then, subsequently, through the reprocurement of the public sector broadband aggregation contract, we will look to develop broadband availability to the levels that I mentioned of 100 Mbps for primary schools and 1 Gps for secondary schools by 2020.

Unwaith eto, diolch i lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol am ei groeso i'r hyn yr ydym yn ei wneud. O ran caffael TGCh, mae rhai awdurdodau wedi gwneud yn dda i sicrhau gwelliannau yn ansawdd y contractau caledwedd a meddalwedd a weithredir gan ysgolion yn eu hardaloedd ac sydd wedi gwella argaeledd technolegau dysgu digidol yn eu hysgolion. O ran ein rhaglen, mae'r buddsoddiad gwerth £39 miliwn wedi'i gynllunio i wella lled band yn sylweddol ac yna, yn dilyn hynny, drwy ailgaffael contract cydgasglu band eang y sector cyhoeddus, byddwn yn awyddus i ddatblygu'r band eang sydd ar gael at y lefelau y soniais amdanynt, sef 100 Mbps i ysgolion cynradd ac 1 Gbps i ysgolion uwchradd erbyn 2020.

In respect of the eight digital leaders, they were centrally recruited by us. Their role is not to operate local authority ICT systems, but to assist in the development of material for Hwb and to ensure that we are spreading best practice across the system. I am not sure that I agree with him about there being much expertise, bluntly, in local authorities in relation to education ICT. One of the major problems that schools have faced has been the lack of understanding by corporate ICT directors in local authorities of the specific needs of schools, which is why we have had to make a £39 million intervention to ensure the effective delivery of broadband across schools in Wales.

O ran yr wyth arweinydd digidol, cawsant eu recriwtio'n ganolog gennym. Nid gweithredu systemau TGCh awdurdodau lleol yw eu swyddogaeth, ond cynorthwyo i ddatblygu deunydd ar gyfer Hwb a sicrhau ein bod yn lledaenu arfer gorau ar draws y system. Nid wyf yn siŵr a wyf yn cytuno ag ef am y ffaith bod llawer o arbenigedd, a dweud y gwir, mewn awdurdodau lleol mewn perthynas ag addysg TGCh. Un o'r prif broblemau y mae ysgolion wedi'u hwynebu yw'r diffyg dealltwriaeth gan gyfarwyddwyr TGCh corfforaethol mewn awdurdodau lleol o anghenion penodol ysgolion, a dyna pam yr ydym wedi gorfod gwneud ymyriad gwerth £39 miliwn i sicrhau y caiff band eang ei gyflwyno'n effeithiol ar draws ysgolion Cymru.

In respect of Hwb, the materials will be bilingual apart from where we are teaching through the medium of Welsh, where the materials will naturally be through the medium of Welsh only.

O ran Hwb, bydd y deunyddiau yn ddwyieithog ac eithrio lle'r ydym yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, lle bydd y deunyddiau, wrth reswm, drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig.

15:43

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your statement today, Minister. As someone who started his education career as a teacher of mathematics and computer science, I am pleased to see that computer science is coming back and not just ICT, because it is important. I also welcome the appointment of Dr Tom Crick from Cardiff Metropolitan University, who has been a strong advocate of computer science in the curriculum for many years.

Diolch am eich datganiad heddiw, Weinidog. Fel rhywun a ddechreuodd ei yrfa addysg fel athro mathemateg a chyfrifiadureg, rwyf yn falch o weld bod cyfrifiadureg yn dod yn ôl ac nid dim ond TGCh, oherwydd mae'n bwysig. Rwyf hefyd yn croesawu penodiad Dr Tom Crick o Brifysgol Fetropolitan Caerdydd, sydd wedi bod yn eiriolwr cryf dros gyfrifiadureg yn y cwricwlwm ers blynyddoedd lawer.

In relation to CPD, it is important to recognise that there are skills involved, but there also needs to be enthusiasm. We sometimes find that these programmes are driven by those who are enthusiastic, and it is about getting that enthusiasm into the staff to drive the programme. I think that this initiative will do that. There have been changes; in my day, it was about writing programmes, but now we are talking about modding, games, apps for iPads and phones and programmes, as well as software development. It has dramatically changed from the way it was.

O ran DPP, mae'n bwysig cydnabod bod sgiliau ynghlwm â hyn, ond mae angen brwdfrydedd hefyd. Ar adegau, gwelwn fod y rhaglenni hyn yn cael eu gyrru gan bobl frwdfrydig, ac mae'n fater o roi'r brwdfrydedd hwnnw i'r staff i yrru'r rhaglen. Credaf y bydd y fenter hon yn gwneud hynny. Mae newidiadau wedi bod; yn fy nyddiau i, ysgrifennu rhaglenni oedd popeth, ond nawr rydym yn sôn am addasu, gemau, apiau ar gyfer iPads a ffonau a rhaglenni, yn ogystal â datblygu meddalwedd. Mae pethau wedi newid yn ddramatig.

May I go back to the £39 million for the learning in digital Wales grant that you announced? That is clearly for infrastructure. It is all well and good to have a repository, but what goes into that repository to be used is important. Is there any funding that can be allocated for supporting individuals to develop the course content—the course material—to go into that repository, and what support can be given to those building and producing that? We think of our ICT and teaching computer science as one thing, but it is actually about using computers as well. Digital literacy is not just about writing programs or apps, but about being able to use them effectively in the learning process so that there is a complete picture across the curriculum, and how we support teachers in developing those materials is critical.

A gaf ddychwelyd at y grant o £39 miliwn ar gyfer dysgu yn y Gymru ddigidol a gyhoeddwyd gennych? Mae hwnnw'n amlwg ar gyfer seilwaith. Mae'n berffaith iawn cael ystorfa, ond mae'r hyn sy'n mynd i mewn i'r ystorfa i gael ei ddefnyddio'n bwysig. A oes unrhyw gyllid y gellir ei ddyrannu i gynorthwyo unigolion i ddatblygu cynnwys y cwrs—y deunydd cwrs—i fynd i mewn i'r ystorfa, a pha gymorth y gellir ei roi i'r rheini sy'n adeiladu ac yn cynhyrchu'r deunydd hwnnw? Rydym yn meddwl am ein TGCh ac addysgu cyfrifiadureg fel un peth, ond mewn gwirionedd mae'n ymwneud â defnyddio cyfrifiaduron hefyd. Nid yw llythrennedd digidol yn fater o ysgrifennu rhaglenni neu apiau yn unig; mae'n fater o allu eu defnyddio'n effeithiol yn y broses ddysgu i roi darlun cyflawn ar draws y cwricwlwm, ac mae'r ffordd yr ydym yn cefnogi athrawon wrth ddatblygu'r deunyddiau hynny'n hollbwysig.

Could you also give us a timescale for continuous professional development so that we can see how long a timescale we are looking at to develop those skills within the teaching profession?

A wnewch chi hefyd roi amserlen inni ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus fel y gallwn weld pa mor hir yw'r amserlen yr ydym yn edrych arni i ddatblygu'r sgiliau hynny o fewn y proffesiwn addysgu?

15:45 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank my colleague, the Member for Aberavon, who obviously knows this issue inside out. He is absolutely right to talk about the way in which the teaching of computing science has developed from the days of games to pupils themselves now developing apps—we have schools in Wales developing their own apps, in fact, which is great to see. I am also delighted that the Raspberry Pi is being made in Wales. I look forward to visiting the Sony centre later this week to see that. He is right to draw attention to the excellent work of Dr Tom Crick, who has been involved in the Computing at School project for some time and brings huge enthusiasm to this whole approach.

Diolch i fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Aberafan, sydd yn amlwg yn deall y mater hwn yn drwyadl. Mae'n hollol gywir wrth siarad am y ffordd y mae addysgu cyfrifiadureg wedi datblygu o ddyddiau gemau i sefyllfa lle mae disgyblion eu hunain yn awr yn datblygu apiau—yn wir, mae gennym ysgolion yng Nghymru sy'n datblygu eu hapiau eu hunain, sy'n beth gwych i'w weld. Rwyf hefyd yn falch bod y Raspberry Pi yn cael ei wneud yng Nghymru. Rwyf yn edrych ymlaen at ymweld â chanolfan Sony yn ddiweddarach yr wythnos yma i weld hynny. Mae'n gywir i dynnu sylw at waith rhagorol Dr Tom Crick, sydd wedi bod yn rhan o'r prosiect Cyfrifiadura yn yr Ysgol ers cryn amser ac sy'n dod â brwdfrydedd mawr i'r holl ddull hwn.

In terms of the money that is available, it is important to say that the £39 million is not just about infrastructure. There is capital investment within that, but there is also ongoing revenue support as part of that £39 million. Then again it is separate from the money that we have already committed to investing in Hwb. There is around £4.5 million specifically for Hwb, which is the successor to the national grid for learning and includes the specific online digital content. There is a further £3 million, which I announced in June 2012 for improving the teaching of digital literacy, ICT and computing in schools, and there is £1.5 million specifically for new original content to be hosted on Hwb. So, we are making a very significant investment centrally in this, because we see this as the way forward for schools. Clearly, we will be working, within the context of the ITT review to look at how this is being dealt with in the context of initial teacher training. Much of the best CPD, bluntly, is being developed by schools themselves.

O ran yr arian sydd ar gael, mae'n bwysig dweud nad yw'r £39 miliwn ar gyfer seilwaith yn unig. Ceir buddsoddi cyfalaf o fewn hynny, ond ceir cymorth refeniw parhaus hefyd fel rhan o'r £39 miliwn. Ac eto, mae ar wahân i'r arian yr ydym eisoes wedi ymrwymo i'w fuddsoddi yn Hwb. Mae tua £4.5 miliwn yn benodol ar gyfer Hwb, sef yr olynydd i'r grid cenedlaethol ar gyfer dysgu lle ceir y cynnwys digidol ar-lein penodol. Mae £3 miliwn pellach, a gyhoeddais ym mis Mehefin 2012 ar gyfer gwella addysgu llythrennedd digidol, TGCh a chyfrifiadura mewn ysgolion, ac mae £1.5 miliwn yn benodol ar gyfer cynnal cynnwys gwreiddiol newydd ar Hwb. Felly, rydym yn gwneud buddsoddiad canolog sylweddol iawn yn hyn, oherwydd credwn mai dyma'r ffordd ymlaen i ysgolion. Yn amlwg, byddwn yn gweithio o fewn cyd-destun yr adolygiad o hyfforddiant cychwynnol i athrawon i edrych ar y ffordd yr ymdrinnir â hyn yng nghyd-destun hyfforddiant cychwynnol i athrawon. Mae llawer o'r DPP gorau, a dweud y gwir, yn cael ei ddatblygu gan yr ysgolion eu hunain.

15:47

## Datganiad: Cyflwyno'r Bil Teithio Llesol (Cymru)

## Statement: Introduction of the Active Travel (Wales) Bill

Senedd.tv Fideo Video

**Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau / The Minister for Local Government and Communities*

Wales is starting a radical and ambitious programme to influence the culture of cycling by using legislation. We are using legislation to make cycling safer and more practical for people in Wales, and to get the tools in place to support behaviour change.

Mae Cymru yn dechrau ar raglen radical ac uchelgeisiol i ddylanwadu ar y diwylliant beicio trwy ddefnyddio deddfwriaeth. Rydym yn defnyddio deddfwriaeth i wneud beicio yn fwy diogel ac yn fwy ymarferol i bobl yng Nghymru, ac i gael yr offer yn eu lle i gefnogi newidiadau mewn ymddygiad.

The Active Travel (Wales) Bill is the lynchpin of the Welsh Government's active travel programme, which aims to change culture through hard and soft measures. Funding for infrastructure will be shaped to deliver the infrastructure mandated by the Bill, and there will be a broader work programme to make sure that the information provision is maximised, and people are encouraged to use the enhanced infrastructure provision. We are also bringing forward new design guidance for active travel provision to ensure a consistent and high-quality standard of infrastructure across Wales.

Y Bil Teithio Llesol (Cymru) yw conglfaen rhaglen teithio llesol Llywodraeth Cymru, sydd â'r nod o newid diwylliant drwy fesurau caled a meddal. Bydd cyllid ar gyfer seilwaith yn cael ei lunio i ddarparu'r seilwaith sy'n cael ei orfodi gan y Bil, a sefydlir rhaglen waith ehangach i sicrhau y darperir cymaint o wybodaeth â phosibl, a bod pobl yn cael eu hannog i ddefnyddio'r seilwaith gwell. Rydym hefyd yn cyflwyno canllawiau dylunio newydd ar gyfer darpariaeth teithio llesol i sicrhau seilwaith o safon gyson ac ansawdd uchel ar draws Cymru.

We are doing this because we want to make walking and cycling the most natural and normal way of getting about. We want to do this so that more people can experience the health benefits, we can reduce greenhouse gas emissions, and we can help address poverty and disadvantage. At the same time, we can unlock issues to grow our economy, and take steps to unlock a sustainable economic growth package. The active travel approach in Wales draws on the experience of what works and shows our willingness to innovate.

Rydym yn gwneud hyn oherwydd ein bod am wneud cerdded a beicio y ffordd fwyaf naturiol ac arferol o fynd o gwmpas. Rydym yn awyddus i wneud hyn fel y gall mwy o bobl brofi'r manteision iechyd, ac fel y gallwn leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, a helpu i ymdrin â thlodi ac anfantais. Ar yr un pryd, gallwn ddatgloi materion i dyfu ein heconomi, a chymryd camau i ddatgloi pecyn twf economaidd cynaliadwy. Mae'r ymdriniaeth ym maes teithio llesol yng Nghymru yn manteisio ar y profiad o'r hyn sy'n gweithio ac yn dangos ein parodrwydd i arloesi.

The Active Travel (Wales) Bill covers infrastructure improvements and information provision. It will require local authorities in Wales to make continuous improvements in the range and quality of infrastructure for active travel—walking and cycling—to provide maps of appropriate routes for active travel, and to set out their plans for active travel infrastructure for the next 15 years in the form of a map. It will also require the Welsh Government and local highway authorities to consider how pedestrian and cycling facilities can be enhanced as part of new road schemes.

Mae'r Bil Teithio Llesol (Cymru) yn cwmpasu gwelliannau seilwaith a darpariaeth gwybodaeth. Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru gyflwyno gwelliannau parhaus yn amrediad ac ansawdd y seilwaith ar gyfer teithio llesol—cerdded a beicio—i ddarparu mapiau o lwybrau priodol ar gyfer teithio llesol, ac i nodi eu cynlluniau ar gyfer seilwaith teithio llesol ar gyfer y 15 mlynedd nesaf ar ffurf map. Bydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau priffyrdd lleol ystyried sut y gellir gwella cyfleusterau i gerddwyr a beicwyr fel rhan o gynlluniau ffyrdd newydd.

Specifically, the Bill makes provision for approved maps of existing active travel routes and related facilities, approved integrated network maps of the new and improved active travel routes and related facilities needed to create the integrated network, and requires local authorities to have regard to integrated network mapping in preparing transport policies and to make continuous improvements in the range and quality of active travel routes. It will also require the Welsh Ministers and local authorities, in constructing and improving highways, to have regard to the desirability of provision for walking and cycling. Enshrining this commitment in primary legislation will mean that it remains in place until it is deliberately overturned by new legislation. This means that the proposals for creating an integrated network are most likely to remain in force for the timescale that would be required to make significant differences to infrastructure.

Yn benodol, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer mapiau a gymeradwywyd o lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig, mapiau rhwydwaith integredig a gymeradwywyd o'r llwybrau teithio llesol newydd a gwell a chyfleusterau cysylltiedig sydd eu hangen i greu'r rhwydwaith integredig. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i fapio rhwydwaith integredig wrth baratoi polisïau trafnidiaeth a gwneud gwelliannau parhaus yn amrediad ac ansawdd y llwybrau teithio llesol. Bydd hefyd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol, wrth adeiladu a gwella priffyrdd, roi sylw i ba mor ddymunol yw sicrhau darpariaeth ar gyfer cerdded a beicio. Trwy ymgorffori'r ymrwymiad hwn mewn deddfwriaeth sylfaenol, bydd yn parhau mewn grym nes iddo gael ei wyrdroi yn fwriadol gan ddeddfwriaeth newydd. Mae hyn yn golygu bod y cynigion ar gyfer creu rhwydwaith integredig yn fwyaf tebygol o aros mewn grym am yr amserlen y byddai ei hangen i wneud gwahaniaeth sylweddol i seilwaith.

We have already seen an increase in cycling throughout Wales, particularly because of the excitement generated by Britain's success at the Olympics and the Tour de France, but also because more and more people are realising that cycling is a smarter choice for getting about. However, for that increase to be sustained, we need people's first experience of cycling to be a positive one. That means providing routes that are safe. Our previous walking and cycling action plan did not deliver the sustained increase in active travel we wanted and I am convinced that that was due to insufficient targeting of resources to ensure that walking and cycling was made as safe and easy as possible—we have to ensure that we do this now. We have all seen cycle routes that are just painted red on the side of the road and peter out, leaving cyclists vulnerable on a busy road. The Bill is designed to create effective networks that will allow people to make real journeys to work, school, the shops or to visit friends.

Rydym eisoes wedi gweld cynnydd mewn beicio ledled Cymru, yn enwedig oherwydd y cyffro a grëwyd gan lwyddiant Prydain yn y Gemau Olympaidd a'r Tour de France, ond hefyd oherwydd bod mwy a mwy o bobl yn sylweddoli bod beicio yn ddewis callach ar gyfer symud o gwmpas. Fodd bynnag, er mwyn cynnal y cynnydd hwnnw, mae angen i brofiad cyntaf pobl o feicio fod yn un cadarnhaol. Mae hynny'n golygu darparu llwybrau sy'n ddiogel. Ni lwyddodd ein cynllun gweithredu blaenorol ym maes cerdded a beicio i arwain at y cynnydd parhaus mewn teithio llesol yr oeddem ei eisiau ac rwyf yn argyhoeddedig mai'r rheswm am hynny oedd na chafodd adnoddau eu targedu'n ddigonol i sicrhau bod cerdded a beicio mor ddiogel a hawdd â phosibl—rhaid i ni sicrhau ein bod yn gwneud hyn yn awr. Rydym i gyd wedi gweld llwybrau beicio sydd wedi eu paentio'n goch ar ochr y ffordd ac sy'n diflannu, gan adael beicwyr yn agored i niwed ar ffordd brysur. Mae'r Bil wedi'i gynllunio i greu rhwydweithiau effeithiol a fydd yn caniatáu i bobl wneud teithiau go iawn i'r gwaith, i'r ysgol, i'r siopau neu i ymweld â ffrindiau.

The Bill is not just for people who want to race around on carbon fibre bikes, or, indeed, for people who want to set a record time for walking up Snowdon: it is for those people who cannot afford to insure their car and need a safe and easy way to get to college or work, and it is for the mobility impaired who have taken one of the inspirational courses at Pedal Power in Cardiff and now want to use a tricycle to get to the shops. I am afraid that it is not for equestrians, and that is because we have not been able to find evidence that people use horses for the types of journey that this Bill covers. I am committed to looking at road safety issues for horse riders, but not in this Bill.

Nid yw'r Bil wedi'i fwriadu'n unig ar gyfer pobl sydd eisiau rasio o gwmpas ar feiciau ffibr carbon, nac, yn wir, ar gyfer pobl sydd am osod record ar gyfer cerdded i fyny'r Wyddfa: mae ar gyfer y bobl hynny nad ydynt yn gallu fforddio yswirio eu car ac sydd angen ffordd ddiogel a hawdd i fynd i'r coleg neu'r gwaith, a phobl â nam symudedd sydd wedi eu hysbrydoli trwy gymryd un o'r cyrsiau yn Pedal Power yng Nghaerdydd ac sydd nawr eisiau defnyddio beic tair olwyn i gyrraedd y siopau. Rwy'n ofni nad yw ar gyfer marchogion ceffylau, ac mae hynny oherwydd nad ydym wedi gallu dod o hyd i dystiolaeth bod pobl yn defnyddio ceffylau ar gyfer y mathau o daith y mae'r Bil hwn yn ei gwmpasu. Rwyf wedi ymrwymo i edrych ar faterion diogelwch ar y ffyrdd ar gyfer marchogion ceffylau, ond nid yn y Bil hwn.

We want to encourage local authorities to develop ambitious proposals for an integrated network. The process of developing the networks will require consultation, and it is essential that local people are engaged in that process to ensure that the routes genuinely reflect local need and their ambitions. There is a long-standing commitment that the Welsh Government will not place a duty on local authorities without making sure that there is sufficient funding in place to meet that duty. During the development of the Bill, the Welsh Government has worked closely with local government and alongside other stakeholders to ensure that this principle has been maintained. Through this close working relationship, my officials have identified funding streams to support the delivery of this Bill, both for the development of the maps and for the subsequent improvement works. The Welsh Government is already supporting local authorities to develop and invest in walking and cycling facilities through funding for the regional travel consortia and provision for Safe Routes in Communities, along with our own direct investment in walking and cycling associated with the trunk road network. This funding will now be used more strategically and effectively to support the delivery of this Bill, subject to its being passed. The Bill is just one tool for delivering an increase in walking and cycling, and it will be supported by a range of activities that the Welsh Government and local government provide.

Rydym yn awyddus i annog awdurdodau lleol i ddatblygu cynigion uchelgeisiol ar gyfer rhwydwaith integredig. Bydd angen ymgynghori ar y broses o ddatblygu'r rhwydweithiau, ac mae'n hanfodol bod pobl leol yn cymryd rhan yn y broses honno i sicrhau bod y llwybrau yn wirioneddol adlewyrchu anghenion lleol ac uchelgeisiau pobl leol. Ceir ymrwymiad hirsefydlog na fydd Llywodraeth Cymru yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol heb wneud yn siŵr y darperir cyllid digonol i gyflawni'r ddyletswydd. Yn ystod datblygiad y Bil, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda llywodraeth leol ac ochr yn ochr â rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod yr egwyddor hon wedi cael ei chynnal. Trwy gyfrwng y berthynas waith agos hon, mae fy swyddogion wedi nodi ffrydiau ariannu i gefnogi'r broses o roi'r Bil hwn ar waith, ar gyfer datblygiad y mapiau ac ar gyfer y gwaith gwella dilynol. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu a buddsoddi mewn cyfleusterau cerdded a beicio trwy gyllid ar gyfer y consortia teithio rhanbarthol a darpariaeth ar gyfer Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, ynghyd â'n buddsoddiad uniongyrchol ein hunain mewn cerdded a beicio sy'n gysylltiedig â'r rhwydwaith cefnffyrdd. Bydd y cyllid hwn yn awr yn cael ei ddefnyddio'n fwy strategol ac effeithiol i gefnogi'r broses o roi'r Bil hwn ar waith, os caiff ei basio. Un offeryn yn unig yw'r Bil ar gyfer sicrhau cynnydd yn nifer y bobl sy'n cerdded a beicio, a bydd yn cael ei gefnogi gan ystod o weithgareddau y mae'r Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn eu darparu.

Alongside the Bill, we intend to produce new design guidance and standards for pedestrian and cycling routes—on-road and traffic-free—and for street design to enforce the hierarchy of road users and ensure that new infrastructure that is created for active travel is suitable for users. Ultimately, the Active Travel (Wales) Bill is a step forward in making it easier and safer to walk and cycle in Wales. It is a step forward in achieving our ambitions for Wales. I want to see a Wales in which people are healthier and more active, a Wales with lower greenhouse gas emissions, and a Wales in which poverty and disadvantage are tackled. I want to see a Wales in which businesses can flourish, the economy can grow and communities can be strengthened. I am grateful for the support that I have received already from colleagues around the Chamber and look forward to working with Assembly Members and others who have an interest in the Active Travel (Wales) Bill and to how scrutiny will take the Bill forward.

Ochr yn ochr â'r Bil, rydym yn bwriadu paratoi canllawiau dylunio newydd a safonau ar gyfer llwybrau cerddwyr a beicio—ar y ffordd a di-draffig—ac ar gyfer dylunio strydoedd er mwyn gorfodi'r hierarchaeth defnyddwyr ffyrdd a sicrhau bod y seilwaith newydd sy'n cael ei greu ar gyfer teithio llesol yn addas ar gyfer defnyddwyr. Yn y pen draw, mae'r Bil Teithio Llesol (Cymru) yn gam ymlaen o ran ei gwneud yn haws ac yn fwy diogel i gerdded a beicio yng Nghymru. Mae'n gam ymlaen tuag at gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer Cymru. Rwyf am weld Cymru lle mae pobl yn iachach ac yn fwy gweithgar, Cymru â llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr, a Chymru lle'r eir i'r afael â thlodi ac anfantais. Rwyf am weld Cymru lle gall busnesau ffynnu, lle gall yr economi dyfu a lle gellir cryfhau cymunedau. Rwyf yn ddiolchgar am y gefnogaeth yr wyf eisoes wedi ei derbyn gan gydweithwyr o amgylch y Siambr ac edrychaf ymlaen at weithio gydag Aelodau'r Cynulliad ac eraill sydd â diddordeb yn y Bil Teithio Llesol (Cymru) a sut y bydd y broses graffu yn mynd â'r Bil yn ei flaen.

15:55 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister, for the statement. I am grateful to have this opportunity to draw attention to a couple of topics within the Bill and to draw out a response from the Minister, namely with regard to engineering guidance, soft measures to accompany the Bill and funding.

Diolch i chi, Weinidog, am y datganiad. Rwyf yn ddiolchgar i gael y cyfle hwn i dynnu sylw at un neu ddau o bynciau o fewn y Bil ac i gael ymateb gan y Gweinidog, sef canllawiau ym maes peirianneg, mesurau meddal i gyd-fynd â'r Bil a chyllid.

Generally speaking, we on this side of the Chamber support the Bill. Prior to addressing those topics, though, I want to acknowledge the emphasis on mapping new routes, which, while necessary, is not sufficient to achieve the ambitions of the White Paper. I want to put on record that the Bill cannot end up just producing a new, ambitious map for the Minister's office. We need physical routes on the ground, not lines on a wall. Do not get me wrong: I wholeheartedly support the intent of the Bill to enable more people to walk and cycle and generally travel by non-motorised transport. However, the ambition and intent must be supported by funding and targets. I would like to know specifically how the Active Travel (Wales) Bill will interlink with your Government's targets within the walking and cycling action plan. For example, with regard to your target of tripling the percentage of adults whose main mode of travel to work is cycling from a baseline of 1.4% by next year, the progress report noted that, in 2010, the figure stood at just 1.6%. A further target is to increase the number of people undertaking walking for recreation to 50% from a baseline of 40%. The latest available data shows that the proportion of adults who have done any walking over two miles has fallen to 34%.

A siarad yn gyffredinol, rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn cefnogi'r Bil. Cyn rhoi sylw i'r pynciau hynny, fodd bynnag, rwy'n awyddus i gydnabod y pwyslais ar fapio llwybrau newydd. Er bod hynny'n angenrheidiol, ni fydd yn ddigon i gyflawni uchelgeisiau'r Papur Gwyn. Rwyf am ddweud ar goedd bod rhaid i'r Bil yn y pen draw wneud mwy na dim ond cynhyrchu map newydd, uchelgeisiol ar gyfer swyddfa'r Gweinidog. Mae angen llwybrau go iawn ar y ddaear, nid llinellau ar wal. Peidiwch â'm camddeall: rwyf yn llwyr gefnogi bwriad y Bil i alluogi mwy o bobl i gerdded a beicio a theithio'n gyffredinol trwy ddulliau di-fodur. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r uchelgais a'r bwriad gael eu cefnogi gan gyllid a thargedau. Hoffwn wybod yn benodol sut y bydd y Bil Teithio Llesol (Cymru) yn cydgysylltu â thargedau eich Llywodraeth o fewn y cynllun gweithredu ym maes cerdded a beicio. Er enghraifft, o ran eich targed o dreblu canran yr oedolion sy'n defnyddio beic fel eu prif ddull o deithio i'r gwaith o linell sylfaen o 1.4% erbyn y flwyddyn nesaf, roedd yr adroddiad cynnydd yn nodi mai dim ond 1.6% oedd y ffigur yn 2010. Targed arall yw cynyddu nifer y bobl sy'n cerdded ar gyfer hamdden i 50%, o linell sylfaen o 40%. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn dangos bod cyfran yr oedolion sydd wedi gwneud unrhyw gerdded dros ddwy filltir wedi gostwng i 34%.

We recognise that the Bill is a step forward and that there is political consensus around the topic, but turning that political consensus into real action is a concern, so is it a challenge too far, given the issue of funding? I do not want to sound too negative, but I open with these important concerns because we cannot be complacent. The Bill will commission many new maps but if those maps do not turn into plans and those plans do not receive funding—not to mention if those projects do not attract any new cyclists or walkers, because no-one knows about them due to there being no information alongside them—this will all be for nothing.

Rydym yn cydnabod bod y Bil yn gam ymlaen a bod consensws gwleidyddol ynghylch y pwnc, ond mae troi'r consensws gwleidyddol yn weithredu go iawn yn bryder, felly a yw'n ormod o her, o ystyried y cyllid sydd ei angen? Nid wyf am swnio'n rhy negyddol, ond rwyf yn agor gyda'r pryderon pwysig hyn oherwydd na allwn fod yn hunanfodlon. Bydd y Bil yn comisiynu llawer o fapiau newydd, ond os nad yw'r mapiau hynny'n troi'n gynlluniau ac os nad yw'r cynlluniau hynny'n cael eu cyllido—heb sôn am os nad yw'r prosiectau yn denu unrhyw feicwyr neu gerddwyr newydd, oherwydd nad oes neb yn gwybod amdanynt oherwydd nad oes unrhyw wybodaeth ochr yn ochr â nhw—bydd hyn i gyd yn ofer.

Moving on, one measure that I welcome is the requirement for Welsh Ministers and local authorities constructing and improving highways to have regard to the desirability of enhancing the provision made for walking and cycling. That is a huge step forward, as currently highways engineers build to the design manual for roads and bridges, which is not suitable for walking and cycling routes and fails to cater for the users of these new routes.

Gan symud ymlaen, un mesur a groesawaf yw'r gofyniad i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol sy'n adeiladu a gwella priffyrdd ystyried pa mor ddymunol yw gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cerdded a beicio. Mae hynny'n gam mawr ymlaen, oherwydd bod peirianwyr priffyrdd ar hyn o bryd yn adeiladu yn ôl y llawlyfr dylunio ar gyfer ffyrdd a phontydd, nad yw'n addas ar gyfer cerdded a beicio ac nad yw'n darparu ar gyfer defnyddwyr y llwybrau newydd hyn.

Before moving on to funding, I will touch on investment outside of infrastructure, which must happen alongside routes and needs appreciation in the Bill. Does the Minister agree that it is crucial that the Bill contains reference to the importance of soft measures and the need for them to sit alongside the new routes? Experience in both Europe and the UK shows quite clearly that delivering new routes is not enough. For many, the barriers to active travel are a lack of information about routes and an inability to cycle. The interim results from Sustrans's personalised travel planning projects in Cardiff, which simply give people tailored information about options for their journey, show an almost 200% increase in cycling levels. I also believe that there is a need, as I am sure the Minister will agree, for an emphasis on funding for measures to get people using the paths. For example, the highly successful Bike It project has tripled the number of children cycling to school, but the funding is about to come to an end and there is no clear way of funding its continuation. Given its success in five local authorities, we should be looking to expand it, but the active travel funding for the consortia is restricted to infrastructure work.

Cyn symud ymlaen at gyllid, byddaf yn crybwyll buddsoddi mewn meysydd ar wahân i isadeiledd. Mae'n rhaid gwneud hyn ochr yn ochr â buddsoddi yn y llwybrau a rhaid rhoi sylw i'r mater yn y Bil. A yw'r Gweinidog yn cytuno ei bod yn hanfodol bod y Bil yn cynnwys cyfeiriad at bwysigrwydd mesurau meddal a'r angen i'w gweithredu ochr yn ochr â'r llwybrau newydd? Mae profiad yn Ewrop a'r DU yn dangos yn glir nad yw darparu llwybrau newydd yn ddigon. I lawer, yr hyn sy'n rhwystro teithio llesol yw diffyg gwybodaeth am lwybrau ac anallu i feicio. Mae'r canlyniadau interim o brosiectau cynlluniau teithio personol Sustrans yng Nghaerdydd, sy'n rhoi gwybodaeth wedi'i theilwra i bobl am opsiynau ar gyfer eu taith, yn dangos cynnydd o bron i 200% mewn lefelau beicio. Rwyf hefyd yn credu, ac rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn cytuno, bod angen rhoi pwyslais ar gyllido mesurau i gael pobl i ddefnyddio'r llwybrau. Er enghraifft, mae'r prosiect hynod lwyddiannus Beiciwch Hi wedi treblu nifer y plant sy'n beicio i'r ysgol, ond mae'r cyllid ar fin dod i ben ac nid oes unrhyw ffordd glir o ariannu ei barhad. O ystyried ei lwyddiant mewn pum awdurdod lleol, dylem fod yn ystyried ei ehangu, ond mae'r arian teithio llesol ar gyfer y consortia yn cael ei gyfyngu i waith seilwaith.

To close on the subject of funding, Minister, you have made it very plain that there will be no new money to fund active travel. While the Bill will help us to spend existing money more strategically, Wales currently spends only £3.30 per head on walking and cycling. The Netherlands has spent £19 per head over a generation. That is equivalent to roughly £60 million a year in Wales—the equivalent of building some three miles of road. The White Paper is ambitious and talks of a change in culture. The international evidence suggests that that requires greater resources than we have currently set aside for active travel. Given the high cost of ill health to the Welsh economy, the question of funding for preventative intervention such as active travel needs to be addressed. Minister, I realise that I have raised some detailed concerns, which I know will not have taken you by surprise, but the ambition and intent of the Bill will, I am sure, receive acclaim from across the Chamber. However, the test of any piece of legislation, as with any home-made cake, is in the eating.

I gloi ar bwnc cyllid, Weinidog, rydych wedi nodi'n glir iawn na fydd unrhyw arian newydd ar gael i ariannu teithio llesol. Er y bydd y Bil yn ein helpu ni i wario arian presennol yn fwy strategol, dim ond £3.30 y pen y mae Cymru yn ei wario ar hyn o bryd ar gerdded a beicio. Mae'r Iseldiroedd wedi gwario £19 y pen dros genhedlaeth. Mae hynny'n cyfateb i tua £60 miliwn y flwyddyn yng Nghymru—sy'n cyfateb i adeiladu rhyw dair milltir o ffordd. Mae'r Papur Gwyn yn uchelgeisiol ac yn sôn am newid mewn diwylliant. Mae'r dystiolaeth ryngwladol yn awgrymu bod angen mwy o adnoddau nag yr ydym wedi'u neilltuo ar hyn o bryd ar gyfer teithio llesol. O ystyried cost uchel iechyd gwael i economi Cymru, mae angen mynd i'r afael â'r cwestiwn o gyllid ar gyfer ymyriad ataliol megis teithio llesol. Weinidog, rwy'n sylweddoli fy mod wedi codi rhai pryderon manwl, ac rwyf yn gwybod na fyddent wedi bod yn syndod i chi, ond bydd uchelgais a bwriad y Bil, rwy'n sicr, yn derbyn canmoliaeth o bob rhan o'r Siambr. Fodd bynnag, wrth ei flas mae profi pwdin, ac mae'r un peth yn wir am unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth.

I pay tribute to the way that the Government and organisations such as Sustrans have worked together to deliver this piece of legislation. I am sure that there have been compromises, but there can be no doubting that this is a step forward. We now need to debate how far that step takes us, and how big a stride remains. I look forward to your addressing the issues that I have raised.

Talaf deyrnged i'r ffordd y mae'r Llywodraeth a sefydliadau fel Sustrans wedi gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno'r darn hwn o ddeddfwriaeth. Rwyf yn siŵr y bu cyfaddawdu, ond ni ellir amau bod hwn yn gam ymlaen. Nawr mae angen i ni drafod pa mor bell y mae'r cam hwn yn mynd â ni, a pha mor fawr yw'r cam sy'n dal ar ôl. Rwyf yn edrych ymlaen at eich sylw i'r materion yr wyf wedi'u codi.

16:00

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for his broadly supportive statement and welcome the support from the Conservative group in taking this forward. Of course, I mentioned in my statement that the walking and cycling strategy just has not delivered what we were expecting to happen, and that is why we have introduced legislation. This is groundbreaking legislation. People are looking at this across the globe, looking at what we can do to enhance the quality of facilities for walking and cycling, and providing safe routes.

Diolch i'r Aelod am ei ddatganiad cefnogol ar y cyfan ac rwy'n croesawu'r gefnogaeth gan grŵp y Ceidwadwyr wrth fwrw ymlaen â hyn. Wrth gwrs, soniais yn fy natganiad nad yw'r strategaeth cerdded a beicio wedi cyflawni'r hyn yr oeddem yn ei ddisgwyl, a dyna pam yr ydym wedi cyflwyno deddfwriaeth. Mae hon yn ddeddfwriaeth arloesol. Mae pobl yn edrych ar hyn ar draws y byd, gan edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud i wella ansawdd cyfleusterau ar gyfer cerdded a beicio, a darparu llwybrau diogel.

Interestingly, the Member raises the issue of finance, and that is always the first question that the Minister for Finance asks when we bring new legislation forward. We do not have any new money for this programme, but we are making sure that the money that we invest is working effectively. The Member will be aware of the tight financial settlement in which we find ourselves, but nevertheless, we must continue positively to ensure that we can deliver something that is right for Wales and for people who are keen to make the most of the new network that will be. The design of the programme and the mapping guidance will be really important to ensure that local authorities and Welsh Government Ministers comply with the proposal. I was in a school in Cardiff yesterday where the young people involved in the Bike It scheme were very impressive in the work that they did alongside members of Sustrans, who were again very helpful in the promotion of the Bill as we take it forward.

Yn ddiddorol, mae'r Aelod yn crybwyll cyllid, a dyna bob amser yw'r cwestiwn cyntaf y mae'r Gweinidog Cyllid yn ei ofyn pan fyddwn yn cyflwyno deddfwriaeth newydd. Nid oes gennym unrhyw arian newydd ar gyfer y rhaglen hon, ond rydym yn gwneud yn siŵr bod yr arian yr ydym yn ei fuddsoddi yn gweithio'n effeithiol. Bydd yr Aelod yn ymwybodol o'r setliad ariannol tynn sydd gennym, ond serch hynny, mae'n rhaid i ni barhau yn gadarnhaol i sicrhau y gallwn gyflawni rhywbeth sy'n addas i Gymru ac i bobl sy'n awyddus i wneud y gorau o'r rhwydwaith newydd sydd ar y gweill. Bydd dyluniad y rhaglen a'r canllawiau mapio yn wirioneddol bwysig i sicrhau bod awdurdodau lleol a Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio â'r cynnig. Roeddwn mewn ysgol yng Nghaerdydd ddoe, ac fe wnaeth y bobl ifanc a oedd yn cymryd rhan yn y cynllun Beiciwch Hi argraff fawr iawn o ran y gwaith a wnaethant ochr yn ochr ag aelodau o Sustrans. Mae'r sefydliad hwn unwaith eto wedi bod yn barod iawn eu cymorth er mwyn hyrwyddo'r Bil wrth i ni ei ddatblygu.

16:02

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Hoffwn innau hefyd groesawu'r Bil hwn yn fawr iawn. Fel y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud, mae'r Bil hwn yn mynd i dir newydd, a gallai, yn sicr, fod yn chwyldroadol o ran ei effeithiau. Mawr obeithiaf y bydd hynny yn digwydd. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog yn cydnabod yn ei bapur bod rhaid newid diwylliant ochr yn ochr â chyflwyno'r Bil hwn.

I would also like to welcome this Bill very warmly. As the Minister has said, this Bill breaks new ground, and it could certainly be revolutionary in terms of its impacts. I very much hope that that will be the case. However, the Minister recognises in his statement that there needs to be a culture shift alongside the introduction of this Bill.

I fynd yn ôl at rai o'r pwyntiau a gododd Byron Davies, yng nghyd-destun yr hyn a ddywedodd am y mesurau meddal sy'n mynd ochr yn ochr â'r Bil, cyfeiriodd at brosiect cynllunio taith bersonol Sustrans yng Nghaerdydd. Dylwn gydnabod diddordeb yn hyn o beth gan fy mod yn aelod o Sustrans. Yr hyn sy'n digwydd yw bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i bobl i'w galluogi i ymgymryd â'r teithiau hyn, ac mae'r dystiolaeth yn profi'n glir iawn fod pobl, pan nad oes cymhelliad a chymorth ymarferol o'r fath ar gael, yn ymatal rhag defnyddio'r cyfleusterau hyn, hyd yn oed pan maent yn eu lle. Yn yr un modd, mae darnau o lwybr sydd heb eu datblygu, llwybrau anaddas neu lwybrau heb eu clirio yn iawn hefyd yn gallu bod yn rhwystr. Sut fyddwch yn sicrhau cydweithio gydag awdurdodau lleol ag asiantaethau eraill megis yr heddlu i sicrhau bod y llwybrau hyn nid yn unig ar gael, ond yn addas i gael eu defnyddio?

To return to some of the points raised by Byron Davies, in the context of what he said about the soft measures that need to run alongside the Bill, he mentioned Sustrans's personal travel planning project in Cardiff. I should declare an interest as I am a member of Sustrans. What happens is that information is provided to people to enable them to undertake their journeys, and the evidence has demonstrated very clearly that people, when there is no incentive or practical support available, desist from using these facilities, even when they are in place. Likewise, sections of a route that have not been developed, inappropriate routes or routes that have not been properly cleared can also be a barrier. How will you ensure collaboration with local authorities and other agencies such as the police to ensure that these routes are not only available, but that they are appropriate for use?

Ynghylch targedau, Weinidog, cyfeirioch at y ffaith nad yw'r mesurau a roddwyd mewn lle yn y gorffennol wedi gweithio. Yr hyn y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud yn y gorffennol wrth i darged fethu yw gosod targed arall yn ei le. Nid yw hynny'n cyflawni rhyw lawer heblaw creu targed newydd. Sut fyddwch yn sicrhau bod eich gobeithion yn cael eu gwireddu o ran y Bil hwn, yn enwedig gan eich bod yn dweud nad oes arian ychwanegol ar gael? Rwy'n gwybod eich bod wedi sôn am ddefnyddio arian yn fwy effeithiol, ond dyna sydd wastad yn cael ei ddweud er mwyn osgoi rhoi mwy o arian newydd i mewn i brosiect. Fodd bynnag, rhaid i chi gydnabod bod esiampl yr Iseldiroedd yn un y gall pawb ei gweld. Os ymwelwch â'r Iseldiroedd, gwelwch fwy o bobl yn defnyddio beiciau ac yn cerdded na'n teithio mewn ceir. Heb yr arian ychwanegol, sut fyddwch yn sicrhau bod hynny'n digwydd gyda'r Bil hwn?

In terms of targets, Minister, you mentioned that some of the steps taken in the past have not worked. What the Government has done in the past, when there is a failure to reach a target, is to set another one in its place. That does not achieve much apart from the creation of a new target. How will you ensure that your aspirations are realised in terms of this Bill, particularly as you say that there is no additional funding available? I know that you have said that moneys can be used more effectively, but that is what is always said in order to justify not providing new funds for a project. However, you must acknowledge that the example from the Netherlands is clear for everyone to see. If you visit the Netherlands, you will see for yourself that more people are cycling and walking than using their cars. Without additional funding, how can you ensure that that will also be the case as a result of this Bill?

Yn olaf, cyfeiriaf at y ffaith i chi ddweud na fyddwch yn cyflwyno unrhyw beth penodol yn y Bil hwn ar gyfer pobl sy'n marchogaeth ceffylau. Rwy'n falch eich bod yn cydnabod bod angen mynd i'r afael â hynny hefyd. Gwyddoch fod nifer helaeth o ddamweiniau'n digwydd ar ein ffyrdd o ganlyniad i'r ffaith nad oes llwybrau addas ar gyfer pobl sy'n marchogaeth ceffylau. Derbyniaf yr hyn rydych yn ei ddweud ynglŷn â'r dystiolaeth nad yw marchogaeth ceffylau yn syrthio'n gysurus i mewn i'r Bil hwn a'i ofynion, ond rwy'n mawr obeithio y cawn ddatganiad buan gennych ynglŷn â'r hyn rydych yn ei wneud i sicrhau bod llwybrau diogel ar gyfer pobl sy'n marchogaeth ceffylau.

Finally, I refer to the fact that you have said that you will not be introducing anything specific in this Bill for people who ride horses. I am pleased that you have acknowledged that we need to get to grips with that issue too. You will know that there are a number of accidents on our roads as a result of the fact that there are no appropriate bridle ways for people who ride horses. I accept what you say on the evidence that horse riding does no fall comfortably within the remit and requirements of this Bill, but I very much hope that we will receive an early statement from you in terms of what you are doing to ensure that there are safe routes for people who ride horses.

16:06

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member and Plaid Cymru for supporting the progression of this Bill. Byron Davies and the Member are right that this is about a package of opportunities, including personalised journey planning tools and other soft measures, to change the way that people perceive travel. That is why, in part, the walking and cycling strategy failed. Having targets and expecting people to walk and ride their bike more is not the most effective way of encouraging people into a different way of travel.

Diolch i'r Aelod a Phlaid Cymru am gefnogi datblygiad y Bil hwn. Mae Byron Davies a'r Aelod yn iawn fod hyn yn ymwneud â phecyn o gyfleoedd, gan gynnwys offer cynllunio teithiau personol a mesurau meddal eraill, i newid y ffordd y mae pobl yn gweld teithio. Dyna pam, yn rhannol, y mae'r strategaeth cerdded a beicio wedi methu. Nid y ffordd fwyaf effeithiol o annog pobl i ddefnyddio dulliau gwahanol o deithio yw pennu targedau a disgwyl i bobl gerdded a defnyddio eu beic yn amlach.

With this Bill, we are planning to ensure that we create safe routes. The priority for somebody going out on their bike for the first time—I have recently experience that—is to feel confident and safe, otherwise the bike probably goes back in the shed and does not come back out for some time. We are trying to change the ethos and the way that people think about opportunities to walk and cycle safely. This is a preventative spend Bill, and certainly supports my colleagues in the health department. The most convincing justification for spending public money on enabling people to walk and cycle comes from a World Health Organization report in 2002, which estimates that physical inactivity is responsible for around 10% of strokes, 20% of coronary heart attacks and 10% of all non-smoker cancer deaths in developed countries. It is estimated that the NHS in Wales spends around £73 million a year on treating diseases relating to obesity. If we get this right, there will be huge long-term health benefits for our nation.

Gyda'r Bil hwn, rydym yn bwriadu sicrhau ein bod yn creu llwybrau diogel. Y flaenoriaeth i rywun sy'n mynd allan ar ei feic am y tro cyntaf—rwyf wedi cael profiad o hynny'n ddiweddar—yw teimlo'n hyderus ac yn ddiogel, fel arall, mae'r beic yn ôl pob tebyg yn mynd yn ôl yn y sied ac yn aros yno am beth amser. Rydym yn ceisio newid yr ethos a'r ffordd y mae pobl yn meddwl am gyfleoedd i gerdded a beicio yn ddiogel. Bil gwariant ataliol yw hwn, ac yn sicr mae'n cefnogi fy nghydweithwyr yn yr adran iechyd. Mae'r cyfiawnhad mwyaf argyhoeddiadol dros wario arian cyhoeddus ar alluogi pobl i gerdded a beicio yn dod mewn adroddiad gan Sefydliad Iechyd y Byd yn 2002, sy'n amcangyfrif bod anweithgarwch corfforol yn gyfrifol am tua 10% o strôcs, 20% o drawiadau coronaidd ar y galon a 10% o'r holl farwolaethau canser ymhlith pobl nad ydynt yn ysmygu mewn gwledydd datblygedig. Amcangyfrifir bod y GIG yng Nghymru yn gwario tua £73 miliwn y flwyddyn ar drin clefydau sy'n ymwneud â gordewdra. Os byddwn yn cael hyn yn iawn, ceir manteision iechyd enfawr yn y tymor hir ar gyfer ein cenedl.

I am grateful for the Member's comments on the equine industry. I have made it clear that I support the principle of the safety of horse users on the network. However, I have looked at this very carefully and, on balance, I do not believe that it is justifiable to introduce a duty to cover horse-related activity in this Bill too. I am trying to encourage more people to use bikes and to walk to the shops and to work. I accept that there are people, in some of our rural communities, who use horses on a daily basis. However, in terms of the mass of the population across Wales, I do not often see people going to the dentist on a horse. I wish to encourage people to go to their dentist on their bike or to walk. I recognise the Member's concern and I will work with him and colleagues to try to identify support to protect vulnerable horse users on bridleways and on the road network.

Rwy'n ddiolchgar am sylwadau'r Aelodau ar y diwydiant ceffylau. Rwyf wedi ei gwneud yn glir fy mod yn cefnogi egwyddor diogelwch defnyddwyr ceffylau ar y rhwydwaith. Fodd bynnag, rwyf wedi edrych ar hyn yn ofalus iawn ac, ar y cyfan, nid wyf yn credu y gellir cyfiawnhau cyflwyno dyletswydd i ymdrin â gweithgarwch cysylltiedig â cheffylau yn y Bil hwn hefyd. Rwyf yn ceisio annog mwy o bobl i ddefnyddio beiciau ac i gerdded i'r siopau ac i'r gwaith. Rwyf yn derbyn bod pobl, yn rhai o'n cymunedau gwledig, sy'n defnyddio ceffylau o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, o ran crynswth y boblogaeth ar draws Cymru, nid wyf yn aml yn gweld pobl yn mynd at y deintydd ar gefn ceffyl. Hoffwn annog pobl i fynd at eu deintydd ar eu beic neu i gerdded yno. Rwyf yn cydnabod pryder yr Aelod a byddaf yn gweithio gydag ef a chydweithwyr i geisio nodi cefnogaeth i ddiogelu defnyddwyr ceffylau sy'n agored i niwed ar lwybrau ceffylau ac ar y rhwydwaith ffyrdd.

16:10 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome this Bill. I think that it is a really good step forward to encourage walking and cycling. As the Minister said, the main thing is to normalise these things, so that if you are thinking of making a local journey, you will think, 'I am going to walk or go on my bike'; that is the sort of culture that we have to achieve. This Bill is definitely a step forward in doing that. Countries such as Holland and Denmark have a very high rate of people who cycle in particular, and I was trying to think about why they manage to do it so much more than we do. Obviously, one reason is that it is much flatter in those places. We cannot get rid of our hills, but we can make it much easier and safer for people to cycle and walk.

Croesawaf y Bil hwn. Credaf ei fod yn gam da iawn ymlaen i annog pobl i gerdded a beicio. Fel y dywedodd y Gweinidog, y peth pwysicaf yw normaleiddio'r pethau hyn, fel eich bod yn meddwl, wrth ystyried gwneud siwrnai leol, 'Dw i'n mynd i gerdded neu fynd ar fy meic'; dyna'r math o ddiwylliant y mae'n rhaid i ni ei sefydlu. Mae'r Bil hwn yn sicr yn gam ymlaen yn hynny o beth. Mae gan wledydd fel yr Iseldiroedd a Denmarc gyfradd uchel iawn o bobl sy'n beicio yn benodol, ac roeddwn i'n ceisio meddwl pam eu bod yn llwyddo i wneud cymaint yn fwy nag yr ydym ni'n ei wneud. Yn amlwg, un rheswm yw ei bod yn llawer mwy gwastad yn y lleoedd hynny. Ni allwn gael gwared ar ein bryniau, ond gallwn ei gwneud yn llawer haws a mwy diogel i bobl i feicio a cherdded.

In addition to the infrastructure that the Minister has suggested, there are some issues that would encourage people to cycle and feel safer. These things include providing safe storage for bikes. We have a good model for this at the Assembly, where we have a bike shed that is secure and well used. In London, I have seen terraced streets where there are bike sheds along the pavements in front of the terraces, which also counts as infrastructure. I wonder whether the Minister thinks that there is any scope to develop anything like that here.

Yn ychwanegol at y seilwaith y mae'r Gweinidog wedi ei awgrymu, ceir rhai materion a fyddai'n annog pobl i feicio a theimlo'n fwy diogel. Mae'r pethau hyn yn cynnwys darparu dull storio diogel ar gyfer beiciau. Mae gennym fodel da ar gyfer hyn yn y Cynulliad, lle mae gennym sied beiciau ddiogel, a gwneir defnydd da ohoni. Yn Llundain, rwyf wedi gweld strydoedd teras lle ceir siediau beic ar hyd y palmentydd o flaen y terasau, sydd hefyd yn cyfrif fel seilwaith. Tybed a yw'r Gweinidog yn meddwl bod unrhyw le i ddatblygu rhywbeth fel hynny yma?

Individualised travel planning has been mentioned several times today by other Members. I was involved in that when it was launched in Cardiff North. I know that it has had a very good result. Maps were produced with cycle routes on them, and I think that that has made a huge difference to people regarding the use of their bikes.

Mae'r syniad o gynllunio teithiau unigol wedi cael ei grybwyll sawl gwaith heddiw gan Aelodau eraill. Roeddwn yn ymwneud â hynny pan gafodd ei lansio yng Ngogledd Caerdydd. Gwn ei fod wedi cael canlyniad da iawn. Paratowyd mapiau gyda llwybrau beicio arnynt, a chredaf fod hynny wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i bobl o ran defnyddio eu beiciau.

I know that this Bill concentrates on infrastructure, but what can we do with regard to making more bicycles available for people to hire? I campaigned in Cardiff to try to keep the OYBike scheme, which the Minister might remember. That was in 2011, but, unfortunately, the campaign was not supported by the council at the time and the scheme folded. The scheme was a huge success, with many people using it. I was in London last week and saw how many people were using the cycle-hire scheme in London—the racks were three-quarters empty when I was travelling around. Is there anything that the Minister could suggest for us to get more cycle schemes to operate in Wales? That might be the first opportunity for people to use a bike without having the expense of buying their own; it is also often much more convenient.

Gwn fod y Bil hwn yn canolbwyntio ar seilwaith, ond beth allwn ni ei wneud o ran sicrhau bod mwy o feiciau ar gael i bobl i'w llogi? Ymgyrchais yng Nghaerdydd i geisio cadw'r cynllun OYBike, fel y bydd y Gweinidog yn ei gofio efallai. Roedd hynny yn 2011, ond, yn anffodus, ni chafodd yr ymgyrch gefnogaeth y cyngor ar y pryd a daeth y cynllun i ben. Roedd y cynllun yn llwyddiant enfawr, gyda llawer o bobl yn ei ddefnyddio. Roeddwn yn Llundain yr wythnos diwethaf a gwelais faint o bobl oedd yn defnyddio'r cynllun llogi beiciau yn Llundain—roedd y raciau dri chwarter gwag pan oeddwn yn teithio o gwmpas. A oes unrhyw beth y gallai'r Gweinidog awgrymu i ni gael mwy o gynlluniau beicio i weithredu yng Nghymru? Gallai hynny fod y cyfle cyntaf i bobl ddefnyddio beic heb orfod wynebu'r gost o brynu un eu hunain; mae hefyd yn aml yn llawer mwy cyfleus.

I congratulate the Minister on this great step forward; it is groundbreaking. However, this must fit into a culture that normalises the use of a bike and of walking, and there are other things that we could do to help that along.

Hoffwn longyfarch y Gweinidog ar y cam mawr hwn ymlaen; mae'n torri tir newydd. Fodd bynnag, mae'n rhaid i hyn gyd-fynd â diwylliant sy'n normaleiddio'r defnydd o feic a cherdded, ac mae pethau eraill y gallem eu gwneud i helpu hynny yn ei flaen.

16:13 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am grateful to the Member for her support. I am aware that she is already a great supporter of active travel with regard to biking schemes and personalised journey planning—I attended the launch of the latter with the Member. I am also grateful for the Member's realistic approach. I get many challenges in the Chamber; removing the hills of Wales is probably just about beyond me. However, this Bill will be about the smaller journeys. There will be an expectation that people should feel comfortable in the journey planning process, to understand what the network is and how to get from A to B. Part of the planning exercise will be about looking at places of interest, whether they be workplaces, schools or hospitals, and so on, and how we can create those safe routes within a community.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod am ei chefnogaeth. Rwyf yn ymwybodol ei bod eisoes yn gefnogwr mawr o deithio llesol o ran cynlluniau beicio a chynllunio teithiau personol—mynychais lansiad yr olaf gyda'r Aelod. Rwyf hefyd yn ddiolchgar am agwedd realistig yr Aelod. Rwyf yn cael llawer o heriau yn y Siambr; mae cael gwared ar fryniau Cymru yn ôl pob tebyg ychydig y tu hwnt i mi. Fodd bynnag, bydd y Bil hwn yn ymwneud â'r siwrneiau byrrach. Bydd disgwyliad y dylai pobl deimlo'n gyfforddus â'r broses o gynllunio taith, gan ddeall y rhwydwaith a sut i fynd o A i B. Bydd rhan o'r ymarfer cynllunio yn ymwneud ag edrych ar fannau o ddiddordeb, boed hynny'n weithleoedd, ysgolion neu ysbytai, ac yn y blaen, a sut y gallwn greu'r llwybrau diogel hynny mewn cymuned.

I share the Member's disappointment regarding the bicycle hire scheme that failed in Cardiff; I was surprised by that, as was the Member. I see that the uptake of the 'Boris bikes' scheme in London is very positive. I would encourage cities across Wales to consider that. I would also encourage them to try to develop a new approach to this, because it works in many major cities. I do not understand why it did not work properly in Cardiff. The Member raises an important point on access to bikes. As I said earlier, there are many people with bikes who do not use them because of the safety implications or because they have moved on to a different mode of transport, usually motorised. What we have to try to do is reverse this and encourage people to get their bikes out of their sheds. If they do not want them, we should encourage them to send them to be recycled so that the network can re-use them. I will also ask my communities department to look at whether there are any opportunities along those lines.

Rwyf yn rhannu siom yr Aelod ynghylch y cynllun llogi beic a fethodd yng Nghaerdydd; roeddwn yn synnu at hynny, fel yr oedd yr Aelod. Gwelaf fod y nifer sy'n manteisio ar y cynllun 'beiciau Boris' yn Llundain yn gadarnhaol iawn. Byddwn yn annog dinasoedd ledled Cymru i ystyried hynny. Byddwn hefyd yn eu hannog i geisio datblygu ymdriniaeth newydd, gan ei bod yn gweithio mewn llawer o ddinasoedd mawr. Nid wyf yn deall pam nad oedd yn gweithio'n iawn yng Nghaerdydd. Mae'r Aelod yn codi pwynt pwysig ynglŷn â mynediad at feiciau. Fel y dywedais yn gynharach, mae gan lawer o bobl feiciau nad ydynt yn eu defnyddio oherwydd y goblygiadau o ran diogelwch neu oherwydd eu bod wedi symud ymlaen i ddull gwahanol o gludiant, modur fel arfer. Yr hyn y mae'n rhaid i ni geisio ei wneud yw newid y sefyllfa hon ac annog pobl i gael eu beiciau allan o'u siediau. Os nad ydynt yn dymuno eu cadw, dylem eu hannog i'w hanfon i gael eu hailgylchu fel y gall y rhwydwaith eu hailddefnyddio. Byddaf hefyd yn gofyn i'm hadran gymunedau ystyried a oes unrhyw gyfleoedd i'r perwyl hwnnw.

The Member has always been supportive of the progress we are making with active travel. I would like to thank the Member for her ongoing support in taking this Bill forward.

Mae'r Aelod wedi bod yn gefnogol erioed i'r hyn yr ydym yn ei wneud gyda theithio llesol. Hoffwn ddiolch i'r Aelod am ei chefnogaeth barhaus i ddatblygu'r Bil.

16:16 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I would like to thank the Minister for his statement today and welcome the publication of the Active Travel (Wales) Bill. The Minister will know that my party is extremely supportive of the policy objectives that he is trying to achieve here. We all know the environmental benefits of getting people out of their cars. We all know the health benefits not just for the individual in being more active in their travel, but for society as a result of a reduction in emissions. The issue in my mind is that we all know those benefits, and yet, as individuals in our society, people do not act. People are not acting. The question that springs to my mind is: will this Bill change that? Will it move people from knowing about these issues but not acting, to getting them to change their behaviour? What we need to effect here is a radical change in the culture associated with the way people approach their journeys. That is going to take time and a huge amount of commitment from this Welsh Government in deeds and not just in words.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw ac rwyf yn croesawu cyhoeddi'r Bil Teithio Llesol (Cymru). Bydd y Gweinidog yn gwybod bod fy mhlaid yn hynod gefnogol i'r amcanion polisi y mae'n ceisio eu cyflawni yma. Rydym i gyd yn gyfarwydd â'r manteision amgylcheddol wrth gael pobl allan o'u ceir. Rydym i gyd yn gyfarwydd â'r manteision nid yn unig i iechyd yr unigolyn trwy fod yn fwy egnïol wrth deithio, ond hefyd i gymdeithas o ganlyniad i ostwng allyriadau. Y broblem yn fy marn i yw ein bod i gyd yn ymwybodol o'r buddion hynny, ac eto, fel unigolion yn ein cymdeithas, nid yw pobl yn gweithredu. Nid yw pobl yn gweithredu. Y cwestiwn sy'n dod i fy meddwl i yw: a fydd y Bil hwn yn newid hynny? A fydd yn symud pobl o wybod am y materion hyn ond heb weithredu, at eu gweld yn newid eu hymddygiad? Yr hyn y mae angen i ni ei gyflawni yma yw newid radical yn y diwylliant sy'n gysylltiedig â'r modd y mae pobl yn ystyried eu teithiau. Mae hynny yn mynd i gymryd amser a llawer iawn o ymroddiad gan y Llywodraeth hon yng Nghymru, a hynny mewn gweithredoedd ac nid mewn geiriau yn unig.

That is where we come to the issue of money, because we have to commit money to this. People use Copenhagen as an example of excellence in this area on a regular basis. However, what we are looking at in that example is 30 years of serious investment in the infrastructure, and in the soft infrastructure such as education, to encourage people to travel in a more active and sustainable way. You recognise in your statement that there is no additional resource and that what you are looking for is a refocusing of the resource that we have. The truth is that local authorities have duties already. If you want to add something to some parts of the local authorities' programme, what parts are you expecting them to take away and where will the money come from? If you are focusing here, what are you no longer focusing on?

Dyna lle'r ydym yn dod at fater arian, oherwydd bod yn rhaid inni ymrwymo arian i hyn. Mae pobl yn defnyddio Copenhagen fel enghraifft o ragoriaeth yn y maes hwn yn rheolaidd. Fodd bynnag, yr hyn yr ydym yn edrych arno yn yr enghraifft honno yw 30 mlynedd o fuddsoddi o ddifrif yn y seilwaith, ac yn y seilwaith meddal megis addysg, i annog pobl i deithio mewn modd mwy llesol a chynaliadwy. Rydych yn cydnabod yn eich datganiad nad oes unrhyw adnoddau ychwanegol ac mai'r hyn yr ydych yn dymuno'i wneud yw newid pwyslais yr adnoddau sydd gennym. Y gwir yw bod gan awdurdodau lleol ddyletswyddau yn barod. Os ydych chi eisiau ychwanegu rhywbeth at rai rhannau o raglen yr awdurdodau lleol, pa rannau ydych chi'n disgwyl iddynt gael gwared arnynt, ac o ble y daw'r arian? Os ydych yn canolbwyntio yma, beth ydych chi'n rhoi'r gorau i ganolbwyntio arno?

I mentioned education and, with regard to culture change, a long-term commitment is one thing, while providing the infrastructure is another. However, educating people and making sure that they know what is going on is very important. I would like to know what provisions you have for education programmes. I note in your statement that you mention a broader work programme to ensure that information provision is maximised. Is that broader work programme something that local authorities will be expected to deliver or is it something that the Welsh Government will lead on?

Soniais am addysg ac, o ran newid diwylliant, mae ymrwymiad tymor hir yn un peth, tra bod darparu'r isadeiledd yn beth arall. Fodd bynnag, mae addysgu pobl a gwneud yn siŵr eu bod yn gwybod beth sy'n digwydd yn bwysig iawn. Hoffwn wybod pa ddarpariaethau sydd gennych ar gyfer rhaglenni addysg. Rwy'n sylwi yn eich datganiad eich bod yn sôn am raglen waith ehangach i sicrhau y darperir cymaint o wybodaeth â phosibl. A yw'r rhaglen waith ehangach honno'n rhywbeth y bydd disgwyl i awdurdodau lleol ei chyflawni ynteu a yw'n rhywbeth y bydd Llywodraeth Cymru yn arwain arni?

Something else that you mention in your statement is the way in which local highway authorities are required to consider how pedestrian and cycling facilities can be enhanced as part of new road schemes. Of course, the evidence shows us that cycling and pedestrian routes work best when they are planned as specific schemes, not as bolt-ons to major highway developments. We have a real issue with our thinking around pleasant walkways and cycle paths. It is not pleasant to walk or cycle along the side of a major road, and the most popular cycle ways are the ones that do not require people to do that. We do not have compulsory purchase powers for things like cycle ways and footpaths. I wonder what consideration you have given to that and whether it is something that you have looked at in the scope of this Bill.

Rhywbeth arall yr ydych yn sôn amdano yn eich datganiad yw'r ffordd y mae'n ofynnol i awdurdodau priffyrdd lleol ystyried sut y gellir gwella cyfleusterau i gerddwyr a beicwyr fel rhan o gynlluniau ffyrdd newydd. Wrth gwrs, mae'r dystiolaeth yn dangos i ni fod llwybrau seiclo a cherddwyr yn gweithio orau pan fyddant yn cael eu cynllunio fel cynlluniau penodol, nid fel ychwanegion i ddatblygiadau priffyrdd mawr. Mae gennym broblem go iawn o ran ein ffordd o feddwl ynghylch llwybrau cerdded a llwybrau beicio dymunol. Nid yw'n ddymunol i gerdded neu feicio ar hyd ochr y ffordd fawr, a'r llwybrau beicio mwyaf poblogaidd yw'r rhai nad ydynt yn gofyn i bobl wneud hynny. Nid oes gennym bwerau prynu gorfodol ar gyfer pethau fel llwybrau beicio a llwybrau troed. Tybed pa ystyriaeth ydych chi wedi'i rhoi i hynny ac a yw'n rhywbeth yr ydych wedi edrych arno yng nghwmpas y Bil hwn?

With regard to other unanswered questions, I would like to turn to integration. The Bill places duties on local authorities to produce maps. What duties do you expect them to conform to in order to liaise across local authority and transport consortia boundaries to ensure that there is national co-ordination and a national strategy for the provision of cycle and footpaths? I also wonder about the interface between active travel and other forms of public transport. Julie Morgan mentioned secure storage at railway stations, which is a very important and pertinent issue for people. The ability to take your bike onto a train or bus and use it again at the other end is also a very relevant issue for people who wish to use more active forms of transport on a regular basis.

O ran cwestiynau eraill heb eu hateb, hoffwn droi at integreiddio. Mae'r Bil yn rhoi dyletswyddau ar awdurdodau lleol i gynhyrchu mapiau. Pa ddyletswyddau ydych chi'n disgwyl iddynt gydymffurfio â nhw er mwyn cysylltu ar draws ffiniau awdurdodau lleol a chonsortia trafnidiaeth er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gydgysylltu'n genedlaethol ac y ceir strategaeth genedlaethol ar gyfer darparu llwybrau beicio a llwybrau troed? Rwyf yn ystyried hefyd y rhyngwyneb rhwng teithio llesol a mathau eraill o drafnidiaeth gyhoeddus. Crybwyllodd Julie Morgan storfeydd diogel mewn gorsafoedd rheilffordd, sy'n fater pwysig a pherthnasol iawn i bobl. Mae'r gallu i fynd â'ch beic ar drên neu fws a'i ddefnyddio eto ar y pen arall hefyd yn fater perthnasol iawn i bobl sy'n dymuno defnyddio dulliau mwy llesol o deithio yn rheolaidd.

Finally, as a more general point, much in this Bill will be delivered by guidance rather than by regulation or by placing duties, including street design and consideration of disabled access, which are critical. Do you think that this is sufficiently firm to get the results you want?

Yn olaf, fel pwynt mwy cyffredinol, bydd llawer yn y Bil hwn yn cael ei gyflwyno gan arweiniad yn hytrach na thrwy reoliad neu drwy osod dyletswyddau, gan gynnwys dylunio strydoedd ac ystyried mynediad i'r anabl, sy'n hollbwysig. A ydych chi'n meddwl fod hyn yn ddigon cadarn i gael y canlyniadau yr ydych eu heisiau?

16:20 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for her positive support for the broad thrust of the Bill. This is not going to be easy—change is not easy—but we recognised that the walking and cycling strategy was not achieving what it should have done. You are absolutely right that this is about changing people's attitude to the way in which they plan their journeys.

Diolch i'r Aelod am ei chefnogaeth gadarnhaol i fwyafrif helaeth y Bil. Nid yw hyn yn mynd i fod yn hawdd—nid yw newid yn hawdd—ond roeddem yn cydnabod nad oedd y strategaeth cerdded a beicio yn cyflawni'r hyn y dylai fod wedi'i gyflawni. Rydych yn llygad eich lle bod hyn yn ymwneud â newid agwedd pobl at y ffordd y maent yn cynllunio eu teithiau.

We hope that this Bill will give encouragement and support for people who want to make that change. We can drive that at a very young age; I made reference to the school I visited yesterday, where there were really enthusiastic young people making plans for their journeys around the Bike It programme, and looking at the provision that they think is important to them, in the context of safe routes. Some of those routes cross major roads, but if they do this safely and the provision is put in place to support them, it makes a better experience for all.

Rydym yn gobeithio y bydd y Bil yn rhoi anogaeth a chymorth i bobl sydd eisiau gwneud y newid hwnnw. Gallwn hybu hynny ar oedran ifanc iawn; cyfeiriais at ysgol yr ymwelais â hi ddoe, lle'r oedd pobl ifanc wirioneddol frwdfrydig yn gwneud cynlluniau ar gyfer eu teithiau o amgylch y rhaglen Beiciwch Hi, ac yn edrych ar y ddarpariaeth y maent yn credu sy'n bwysig iddynt hwy, yng nghyd-destun llwybrau diogel. Mae rhai o'r llwybrau'n croesi prif ffyrdd, ond os ydynt yn gwneud hyn yn ddiogel ac os yw'r ddarpariaeth yn cael ei rhoi ar waith i'w cefnogi, mae'n brofiad gwell i bawb.

The Member is right to raise the issue around national planning. The 22 local authorities will create these route-maps, but they are imaginary boundaries when you are walking and cycling. Therefore, it is important that the regional transport consortia ensure that there are discussions between all authorities in that planning exercise.

Mae'r Aelod yn iawn i godi'r mater ynghylch cynllunio cenedlaethol. Bydd y 22 awdurdod lleol yn creu'r mapiau llwybrau hyn, ond ffiniau dychmygol ydynt pan fyddwch yn cerdded a beicio. Felly, mae'n bwysig bod y consortia trafnidiaeth rhanbarthol yn sicrhau y cynhelir trafodaethau rhwng yr holl awdurdodau yn yr ymarfer cynllunio hwnnw.

This is just part of a suite of tools within the transport department that will make a real difference to transport in Wales. We have the Active Travel (Wales) Bill, but, as the Member will be aware, we have also changed the way in which we fund bus operations so that we have more flexibility as to how services will run. We have the train franchise coming up in 2018 and the new national transport plan in 2015. These will all fit nicely into place so that we can get a truly integrated travel plan for the whole of Wales. This Bill plays a fundamental part in the walking and cycling provision on the integrated network that we seek to deliver for Wales. So, I recognise the issues that the Member raises.

Dim ond rhan yn unig yw hwn o gyfres o gamau o fewn yr adran drafnidiaeth a fydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i drafnidiaeth yng Nghymru. Mae gennym y Bil Teithio Llesol (Cymru), ond, fel y bydd yr Aelod yn ymwybodol, rydym hefyd wedi newid y ffordd yr ydym yn ariannu gweithrediadau bws fel bod gennym fwy o hyblygrwydd yn y modd y bydd gwasanaethau'n rhedeg. Bydd yn bryd penderfynu ar fasnachfraint y trenau yn 2018, a'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol newydd yn 2015. Bydd y rhain yn cyd-fynd yn dda fel y gallwn gael cynllun teithio gwirioneddol integredig ar gyfer Cymru gyfan. Mae'r Bil hwn yn chwarae rhan sylfaenol yn y ddarpariaeth ar gyfer cerdded a beicio yn y rhwydwaith integredig yr ydym yn ceisio ei sefydlu ledled Cymru. Felly, rwy'n cydnabod y materion y mae'r Aelod yn eu codi.

With regard to the detail of the Bill, we believe that we have provided the appropriate route for the legislative programme, whether that is through guidance or on the face of the Bill. Through the committee's scrutiny, I will welcome Members' comments on that process in order to ensure that we get it right. As the Minister responsible for taking this forward, I will listen very carefully to the comments made by Members in order to maximise the opportunities provided by this Bill.

O ran manylion y Bil, credwn ein bod wedi darparu llwybr priodol ar gyfer y rhaglen ddeddfwriaethol, boed hynny drwy ganllawiau neu ar wyneb y Bil. Drwy waith craffu'r pwyllgor, byddaf yn croesawu sylwadau'r Aelodau ar y broses honno er mwyn sicrhau ein bod yn ei chael yn iawn. Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am fwrw ymlaen â hyn, byddaf yn gwrando'n astud ar y sylwadau a wneir gan Aelodau er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddarperir gan y Bil hwn.

16:23 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the statement on the Bill and the importance that many Members have placed on it. Minister, you have previously conveyed that disabled active travellers are arguably one group that could benefit the most from enhanced active travel provision, as well as being the group that could be most disadvantaged by poor-quality provision. I make a plea again with regard to shared surfaces. I can see people getting excited about having cycle paths and ways in which we can have people back on cycles, but shared surfaces are a problem for many people, particularly those with a disability of a hidden nature, such as those who are deaf. If you are deaf, you cannot hear a cyclist coming up behind you, whether that cyclist rings the bell, shouts, hollers or does whatever—you just have no way of hearing that person. That is always a big problem with shared surfaces. Planners seem to think that shared surfaces are the answer, and I would argue strongly against that.

Croesawaf y datganiad ar y Bil a'r pwysigrwydd y mae llawer o Aelodau wedi ei roi iddo. Weinidog, rydych wedi cyfleu'n flaenorol bod teithwyr llesol anabl o bosibl yn un grŵp a allai elwa fwyaf o ddarpariaeth teithio llesol gwell, yn ogystal â bod y grŵp a allai fod dan yr anfantais fwyaf oherwydd darpariaeth o ansawdd gwael. Erfyniaf eto o ran rhannu arwynebau. Gallaf weld pobl yn cael eu cyffroi ynglŷn â chael llwybrau beicio a ffyrdd o gael pobl yn ôl ar gefn beiciau, ond mae arwynebau a rennir yn broblem i lawer o bobl, yn enwedig y rhai sydd ag anabledd o natur gudd, megis y rhai sy'n fyddar. Os ydych yn fyddar, nid ydych yn gallu clywed beiciwr yn dod i fyny y tu ôl i chi, p'un a yw'r beiciwr yn canu'r gloch, yn gweiddi, neu'n bloeddio neu beth bynnag—nid oes gennych unrhyw ffordd o glywed y person hwnnw. Mae hynny bob amser yn broblem fawr wrth rannu arwynebau. Mae'n ymddangos bod cynllunwyr yn meddwl mai rhannu arwynebau yw'r ateb, a byddwn yn dadlau yn gryf yn erbyn hynny.

I also raise the issue of whether cyclists should have some insurance, so should an accident take place, the people involved—the third party—have legal recourse to some sort of compensation. I believe that cycling is the only form of transport for which you are not required to have insurance on the roads. If we are looking at cycle paths and tracks that are shared surfaces, I would want some guarantees that people would not be disadvantaged.

Rwyf hefyd yn codi'r cwestiwn a ddylai beicwyr gael rhyw fath o yswiriant, fel y gall y bobl dan sylw—y trydydd parti—droi at y gyfraith am ryw fath o iawndal os bydd damwain yn digwydd. Rwyf yn credu mai beicio yw'r unig fath o gludiant lle nad oes gofyn i chi gael yswiriant ar y ffyrdd. Os ydym yn edrych ar lwybrau beicio a llwybrau sy'n rhannu arwynebau, byddai arnaf eisiau rhywfaint o sicrwydd na fyddai pobl dan anfantais.

On the whole, I think that this is to be welcomed, but I want to see more work being done on the issue of disabled groups to ensure that they are not disadvantaged by any plans.

Ar y cyfan, rwyf yn meddwl bod hyn i'w groesawu, ond rwyf am weld mwy o waith yn cael ei wneud ynglŷn â grwpiau anabl er mwyn sicrhau nad ydynt dan anfantais oherwydd unrhyw gynlluniau.

16:25 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for her very important questions today. I refer the Member to Sustrans's recently issued guidance that I very much support, which refers to the primacy of the pedestrian and to the fact that cyclists should give way at all times to pedestrians in that process, notwithstanding the important message that the Member raised about disabled or hard-of-hearing people using shared surfaces.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiynau pwysig iawn heddiw. Cyfeiriaf yr Aelod at ganllawiau Sustrans a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac rwyf yn eu cefnogi'n fawr iawn. Mae'r rhain yn cyfeirio at uchafiaeth y cerddwyr ac at y ffaith y dylai beicwyr ildio bob amser i gerddwyr yn y broses honno, er gwaethaf y neges bwysig a gododd yr Aelod ynghylch pobl anabl neu drwm eu clyw yn defnyddio arwynebau a rennir.

During the process of the Bill, we have had advice, for which we are very grateful, from groups such as Disability Wales and Guide Dogs for the Blind on the provision of this, and I would welcome their further comments and those of Members to ensure that safety is a paramount aspect, for all to take part in what I believe is a new opportunity for Wales to take active travel seriously; and when I say 'all', I mean 'all'.

Yn ystod proses y Bil, rydym wedi cael cyngor, ac rydym yn ddiolchgar iawn am hynny, gan grwpiau megis Anabledd Cymru a Chŵn Tywys y Deillion ar y ddarpariaeth hon, a byddwn yn croesawu rhagor o sylwadau ganddynt a sylwadau gan Aelodau i sicrhau bod diogelwch yn agwedd hollbwysig, fel y gall pawb gymryd rhan yn yr hyn sydd, yn fy marn i, yn gyfle newydd i Gymru i gymryd teithio llesol o ddifrif; a phan ddywedaf 'pawb', rwyf yn golygu 'pawb'.

16:26 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I thank you for your statement today and I warmly welcome the introduction of the Active Travel (Wales) Bill. It is a very exciting Bill, which has the potential to deliver considerable societal benefits for people of all ages.

Weinidog, diolch ichi am eich datganiad heddiw, ac rwyf yn croesawu'r Bil Teithio Llesol (Cymru). Mae'n Fil cyffrous iawn, sydd â'r potensial i sicrhau manteision cymdeithasol sylweddol ar gyfer pobl o bob oed.

During the Enterprise and Business Committee’s inquiry into integrated travel, I have been struck by how this Bill has the potential to generate a very big cultural shift in transport structures in Wales and particularly to shift people away from cars. It represents a real opportunity to reduce congestion by tackling the large number of short journeys undertaken in Wales, particularly when 20% of all car journeys are under a mile long.

Yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i deithio integredig, trawyd fi gan y potensial sydd i’r Bil hwn greu newid diwylliannol mawr iawn mewn strwythurau trafnidiaeth yng Nghymru ac yn enwedig i symud pobl i ffwrdd oddi wrth geir. Mae’n gyfle gwirioneddol i leihau tagfeydd trwy fynd i’r afael â’r nifer fawr o deithiau byr a wneir yng Nghymru, yn enwedig pan fo 20% o’r holl deithiau mewn car o dan filltir o hyd.

As I look forward to scrutinising the Bill at committee stage, I have two questions today. First, one of the issues that emerged in our integrated transport inquiry is the concern of those such as Sustrans and Professor Stuart Cole, that while the intentions are good in this area, there is still some work to do in improving the skill set of officials in Welsh Government when it comes to formulating and bedding-in active travel policy. Given the importance that the Welsh Government is now placing on the active travel agenda, what work are you doing to develop the capacity in the Welsh Government and local government sectors to ensure that those involved in the planning, management and delivery of active travel have the knowledge and expertise to implement this significant cultural change successfully and effectively?

Edrychaf ymlaen at graffu ar y Bil yn y pwyllgor, ond mae gennyf ddau gwestiwn heddiw. Yn gyntaf, un o’r materion a ddaeth i’r amlwg yn ein hymchwiliad o drafnidiaeth integredig yw pryder rhai fel Sustrans a’r Athro Stuart Cole, bod peth gwaith i’w wneud o hyd o ran gwella sgiliau swyddogion yn y Llywodraeth yng Nghymru ym maes llunio a sefydlu polisi teithio llesol, er bod y bwriadau yn dda yn y maes hwn. O ystyried y pwys y mae Llywodraeth Cymru yn awr yn ei roi ar yr agenda teithio llesol, pa waith ydych chi’n ei wneud i feithrin gallu yn sectorau Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol i sicrhau bod gan y rhai sy’n ymwneud â chynllunio, rheoli a darparu teithio llesol y wybodaeth a’r arbenigedd i weithredu’r newid diwylliannol sylweddol hwn yn llwyddiannus ac yn effeithiol?

Secondly, much of the current conditions attached to the funding criteria of walking and cycling projects are quite loose. Currently, there is no requirement to monitor the number of cyclists or walkers who use new routes, so local authorities do not know how many individuals are benefitting from such schemes. Minister, will you ensure that alongside changes outlined in the Bill, we establish robust systems to collect and use data on active travel to ensure the effective implementation of the principles that lie behind it?

Yn ail, mae llawer o’r amodau sydd ynghlwm wrth feini prawf ariannu prosiectau cerdded a beicio ar hyn o bryd yn eithaf llac. Nid oes rheidrwydd i fonitro nifer y beicwyr neu gerddwyr sy’n defnyddio llwybrau newydd, felly nid yw awdurdodau lleol yn gwybod faint o unigolion sy’n cael budd o gynlluniau o’r fath. Weinidog, a wnewch chi sicrhau, ochr yn ochr â’r newidiadau a amlinellir yn y Bil, ein bod yn sefydlu systemau cadarn i gasglu a defnyddio data ar deithio llesol i sicrhau y rhoddir yr egwyddorion y tu ôl iddo ar waith yn effeithiol?

16:29 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for his very supportive contribution on the active travel opportunities. To pick up on his first point on comments made by stakeholders around the opportunities for the Welsh Government and its skill set, I am very confident that my staff have quality skills, but we can always do better. Currently, we are working with external stakeholders to ensure that the appropriate and correct guidance is issued to local authorities in taking this forward. I am very grateful for the work that the working group has brought together and is providing for us.

Diolch i’r Aelod am ei gyfraniad cefnogol iawn ar y cyfleoedd ar gyfer teithio llesol. Gan ystyried ei bwynt cyntaf ar sylwadau a wnaed gan randdeiliaid ynghylch y cyfleoedd i Lywodraeth Cymru a’i sgiliau, rwy’n hyderus bod fy staff yn meddu ar sgiliau o ansawdd, ond gallwn bob amser wneud yn well. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid allanol i sicrhau bod y canllawiau priodol a chywir yn cael eu rhoi i awdurdodau lleol wrth ddatblygu hyn. Rwyf yn ddiolchgar am y gwaith y mae’r gweithgor wedi ei ddwyn ynghyd ac y mae’n ei ddarparu i ni.

I will give further consideration to the data collection element of this, which the Member raised. I would want to be sure that any collection of numbers was meaningful and that we were not just counting people on bikes or walking for the sake of it. We would have to ensure that it would be used in the design or future planning of opportunities by local authorities. I will give that further thought.

Byddaf yn rhoi rhagor o ystyriaeth i’r elfen sy’n ymwneud â chasglu data, a godwyd gan yr Aelod. Byddwn yn awyddus i fod yn siŵr bod unrhyw waith casglu rhifau yn ystyrlon ac nad ydym yn cyfrif pobl ar feiciau neu’n cerdded er ei fwyn ei hun yn unig. Byddai’n rhaid i ni sicrhau y byddai awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio yn y dyfodol wrth ddylunio neu gynllunio cyfleoedd. Byddaf yn ystyried hyn ymhellach.

I also missed the question of the Member for the Vale of Clwyd raised with me around insurance in terms of cyclists. I am not sure whether we have legislative competence on that, but I will check and I will ensure that I write to the Member with the details.

Collais hefyd gwestiwn yr Aelod dros Ddyffryn Clwyd a godwyd gyda mi ynghylch yswiriant ar gyfer beicwyr. Nid wyf yn siŵr a oes gennym gymhwysedd deddfwriaethol ar hynny, ond fe wnaf gadarnhau a sicrhau fy mod yn ysgrifennu at yr Aelod gyda’r manylion.

16:30 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for the statement today, Minister. I will ask you a few questions, however. Is the provision for approval by Welsh Ministers in the Bill enough to ensure that local authorities cannot designate as an active travel route any route from home to school that does not comply with the Learner Travel (Wales) Measure 2008? As you know, I have brought my concerns to you before about whether local authorities have caught up with the requirements of the learner travel Measure yet, so I hope that the approval of Ministers of active travel routes will be enough to prevent local authorities from using the active travel Bill as a reason for allowing children to take unsafe routes to school, thereby avoiding their responsibilities to provide school transport.

Diolch i chi am y datganiad heddiw, Weinidog. Rwyf am ofyn ychydig o gwestiynau, fodd bynnag. A yw'r ddarpariaeth yn y Bil ar gyfer cael cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru yn ddigon i sicrhau na all awdurdodau lleol ddynodi fel llwybr teithio llesol unrhyw lwybr o'r cartref i'r ysgol nad yw'n cydymffurfio â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008? Fel y gwyddoch, rwyf wedi tynnu eich sylw o'r blaen at fy mhryderon a yw awdurdodau lleol yn bodloni gofynion y Mesur teithio gan ddysgwyr eto. Felly rwy'n gobeithio y bydd yr angen i Weinidogion gymeradwyo llwybrau teithio llesol yn ddigon i atal awdurdodau lleol rhag defnyddio'r Bil teithio llesol fel rheswm dros ganiatáu i blant ddilyn llwybrau anniogel i'r ysgol, a thrwy hynny osgoi eu cyfrifoldebau i ddarparu cludiant ysgol.

As you said, you are looking for a culture change, and it will be important for children and young people to buy into this idea at an early age. If they are asked, under the pretext of an active travel route, to walk or cycle to school along a route that they or their parents do not consider to be safe, that might undermine the purpose of your Bill. Will any guidance that you introduce on the back of this Bill fully reflect what the children's commissioner said to you in his consultation response on the Bill, particularly as to what constitutes a safe walking or cycling route to school? That is a principle that can be extended more generally to other vulnerable users.

Fel yr ydych wedi'i ddweud, rydych yn dymuno gweld newid mewn diwylliant, a bydd yn bwysig i blant a phobl ifanc dderbyn y syniad hwn ar oedran cynnar. Os gofynnir iddynt, dan esgus llwybr teithio llesol, gerdded neu feicio i'r ysgol ar hyd llwybr nad ydynt hwy neu eu rhieni yn ystyried yn ddiogel, gallai hynny danseilio pwrpas eich Bil. A fydd unrhyw ganllawiau yr ydych yn eu cyflwyno yn sgil y Bil hwn yn adlewyrchu'n llawn yr hyn a ddywedodd y comisiynydd plant wrthych yn ei ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil, yn enwedig o ran yr hyn sy'n gwneud llwybr cerdded neu lwybr beicio diogel i'r ysgol? Mae honno'n egwyddor y gellir ei hymestyn yn fwy cyffredinol i ddefnyddwyr eraill sy'n agored i niwed.

Thirdly, to develop a point that Ann Jones raised with you, of course, it is not just people with hearing loss who suffer on shared routes, as blind people also do. What are you likely to do with irresponsible bike riders, because we want to encourage sensible cycling? There is nothing in the Bill that gives us any indication of how you would treat people who could use a cycle route, but do not, and decide to cycle on pavements instead. I obviously apply that to just adult cyclists.

Yn drydydd, i ddatblygu pwynt a godwyd gan Ann Jones gyda chi, wrth gwrs, nid dim ond pobl sydd wedi colli eu clyw sy'n dioddef ar lwybrau a rennir, mae pobl ddall yn dioddef hefyd. Beth ydych chi'n debygol o'i wneud gyda beicwyr anghyfrifol, gan ein bod eisiau annog beicio synhwyrol? Nid oes dim yn y Bil sy'n rhoi unrhyw arwydd i ni o sut y byddech yn trin pobl a allai ddefnyddio llwybr beicio, ond nad ydynt, ac sy'n penderfynu beicio ar balmentydd yn lle hynny. Yn amlwg rwy'n cyfeirio hynny at feicwyr sy'n oedolion yn unig.

16:32 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for her comments. To answer her first question, the detail of planning an active travel route will be based on safety and on ensuring the safety aspects of this. That is the whole purpose of it. I would want to caution local authorities that I would look carefully at examples of any piece of legislation being used as an excuse not to do something and at the reasons why they would want to do that in the first place. However, I will bear the Member's comments in mind.

Diolch i'r Aelod am ei sylwadau. I ateb ei chwestiwn cyntaf, bydd y manylion, wrth gynllunio llwybr teithio llesol, yn seiliedig ar ddiogelwch ac ar sicrhau agweddau diogelwch hyn. Dyna yw ei holl bwrpas. Byddai arnaf eisiau rhybuddio awdurdodau lleol y byddwn yn edrych yn ofalus ar enghreifftiau o unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth yn cael ei ddefnyddio fel esgus i beidio â gwneud rhywbeth, ac ar y rhesymau pam y byddent yn dymuno gwneud hynny yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, byddaf yn cadw sylwadau'r Aelod mewn golwg.

It is important that the users also feel that it is a safe route as opposed to being told that it is a safe route. Once again, the Bill and the guidance will encompass that and the importance of engagement with local stakeholders to the development of these mapping proposals.

Mae'n bwysig bod y defnyddwyr hefyd yn teimlo ei fod yn llwybr diogel yn hytrach na chael rhywun yn dweud wrthynt ei fod yn llwybr diogel. Unwaith eto, bydd y Bil a'r canllawiau yn cwmpasu hyn a phwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol i ddatblygu'r cynigion mapio hyn.

Your final point on irresponsible bike users is a difficult one. Sometimes, even now, we see people who are irresponsible, whether they are walking, cycling or driving a car. There are things in place already to deal with those issues. I will not stand here and say that we will stop that, because you will always get a certain number of individuals who will do this, whatever the consequences are. I am trying to put in place a step change for people who want to cycle or walk in the future and give them a safer place to do that, wherever they are in Wales, on a mapped route.

Mae eich pwynt olaf ar ddefnyddwyr beic anghyfrifol yn un anodd. Weithiau, hyd yn oed nawr, rydym yn gweld pobl sy'n anghyfrifol, p'un a ydynt yn cerdded, beicio neu yrru car. Mae camau ar waith eisoes i ddelio â'r materion hynny. Nid wyf am sefyll yma a dweud y byddwn yn atal hynny, oherwydd y bydd rhai unigolion bob amser yn gwneud hyn, beth bynnag fo'r canlyniadau. Rwyf yn ceisio cyflawni newid sylweddol i bobl sydd eisiau beicio neu gerdded yn y dyfodol a rhoi lle mwy diogel iddynt i wneud hynny, lle bynnag y maent yng Nghymru, ar lwybr wedi'i fapio.

Once again, I again thank the Member for her comments and note some of the important points that she raised, which I will consider as this Bill progresses.

Unwaith eto, rwyf yn diolch i'r Aelod am ei sylwadau ac yn nodi rhai o'r pwyntiau pwysig a godwyd ganddi, a byddaf yn eu hystyried wrth i'r Bil fynd yn ei flaen.

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

Since the debate that we had here a few weeks ago about the need for more 20 mph zones in Wales, I have been inundated with messages from constituents who have lobbied their local council to reduce the speed limit where they live. It struck me that what these cases have in common is that people just want to feel safer walking around their own neighbourhoods and town centres when they pop out to the shops or wherever they need to get to that day. That is exactly what the active travel Bill has the potential to deliver.

Ers y ddadl a gawsom yma ychydig wythnosau yn ôl ynglŷn â'r angen am fwy o barthau 20mya yng Nghymru, rwyf wedi cael llif o negeseuon gan etholwyr sydd wedi lobïo eu cyngor lleol i ostwng y terfyn cyflymder lle maent yn byw. Roedd yn fy nharo mai'r hyn sydd gan yr achosion hyn yn gyffredin yw bod pobl yn awyddus i deimlo'n fwy diogel wrth gerdded o gwmpas eu cymdogaethau a chanol eu trefi eu hunain pan fyddant yn mynd allan i'r siopau neu ble bynnag y mae angen iddynt gyrraedd y diwrnod hwnnw. Dyna'n union beth y mae gan y Bil teithio llesol y potensial i'w gyflawni.

The current walking and cycling action plan for Wales, which runs up to this year, sets ambitious targets to treble the number of children who cycle to school and adults who cycle to work. Do we know yet how we fared against those targets, Minister; and how might the Bill take that work forward? Looking at the Bill itself, against the proposals in the White Paper, I support the intention to extend the duty to consider walking and cycling provision in the development of road schemes to the Welsh Government and local authorities, as well as new road schemes and highway improvement. Does that mean that the Bill will make provision for a reduction in the minimum speed on trunk roads, from 30 mph to 20 mph, where that might be appropriate, Minister?

Mae'r cynllun gweithredu presennol ar gyfer cerdded a beicio yng Nghymru, sy'n dod i ben eleni, yn gosod targedau uchelgeisiol i dreblu nifer y plant sy'n beicio i'r ysgol ac oedolion sy'n beicio i'r gwaith. A ydym yn gwybod eto i ba raddau y llwyddwyd i gyflawni'r targedau hynny, Weinidog, a sut y gallai'r Bil ddatblygu'r gwaith hwnnw? O edrych ar y Bil ei hun, o'i gymharu â'r cynigion yn y Papur Gwyn, rwyf yn cefnogi'r bwriad i ymestyn y ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i ystyried darpariaeth cerdded a beicio wrth ddatblygu cynlluniau ffyrdd, yn ogystal â chynlluniau ffyrdd newydd a gwella priffyrdd. A yw hynny'n golygu y bydd y Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer gostwng y cyflymder lleiaf ar gefnffyrdd, o 30 mya i 20 mya, lle gallai fod yn briodol, Weinidog?

16:36

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for her support. I know that she has campaigned vigorously for 20 mph zones in communities, and I am grateful for her continued commitment to that. I do not want to confuse the two. The element of safer routes within our communities may include routes around schools that are safe to travel on, and it may include areas that encroach on a 20 mph zone. However, I am keen to ensure that local authorities take very seriously their duty regarding measuring safe speed limits in their communities and act appropriately on that. This will be a different duty in terms of creating safer routes, wherever they are in their community.

Diolch i'r Aelod am ei chefnogaeth. Gwn ei bod wedi ymgyrchu'n frwd ar gyfer parthau 20 mya mewn cymunedau, ac rwyf yn ddiolchgar am ei hymrwymiad parhaus i hynny. Nid wyf am ddrysu rhwng y ddau. Efallai y bydd yr elfen llwybrau mwy diogel o fewn ein cymunedau yn cynnwys llwybrau o amgylch ysgolion sy'n ddiogel i deithio arnynt, a gall gynnwys ardaloedd sy'n gorgyffwrdd â pharth 20 mya. Fodd bynnag, rwy'n awyddus i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cymryd eu dyletswydd o ddifrif o ran mesur terfynau cyflymder diogel yn eu cymunedau ac yn gweithredu'n briodol ar hynny. Bydd hon yn ddyletswydd wahanol o ran creu llwybrau mwy diogel, ble bynnag y maent yn eu cymuned.

I have been frank with people. The walking and cycling strategy has not achieved the progression that we wanted to happen, which is why we are doing something different here. I believe that this step change in terms of legislating for a safer route will give people the encouragement to walk and cycle in a better environment. Setting targets and saying, ‘We want more people to ride their bikes’, clearly does not work. This, I hope, will lead to the step change that we anticipate in Wales.

Rwyf wedi bod yn onest gyda phobl. Nid yw’r strategaeth cerdded a beicio wedi cyflawni’r hyn yr oeddem am ei weld yn digwydd, a dyna pam yr ydym yn gwneud rhywbeth gwahanol yma. Credaf y bydd y newid sylweddol hwn o ran deddfu ar gyfer llwybrau mwy diogel yn rhoi’r anogaeth i bobl i gerdded a beicio mewn amgylchedd gwell. Mae’n amlwg nad yw gosod targedau a dweud, ‘Rydym am i fwy o bobl fynd ar gefn eu beiciau’, yn gweithio. Bydd hyn, gobeithio, yn arwain at y newid sylweddol yr ydym yn ei ragweld yng Nghymru.

16:38

## Datganiad: Y Diweddaraf ynghylch Mynediad at Ddeddfwriaeth

## Statement: Update on Access to Legislation

Senedd.tv
Fideo Video

### Theodore Huckle

*Y Cwnsler Cyffredinol / The Counsel General*

Good afternoon, everyone. My interest in improving access to legislation, in terms of its availability and its clarity, has been set out in two previous statements. As I have said before, for the rule of law to prevail, legislation must be effective and accessible. For Welsh laws to be effective and accessible it is essential that they are intelligible, clear and predictable in their effect. They must also be easily available.

Prynhawn da, bawb. Mae fy niddordeb mewn gwella mynediad i ddeddfwriaeth, o ran ei eglurder a’r graddau y mae ar gael, wedi ei nodi mewn dau ddatganiad blaenorol. Fel yr wyf wedi’i ddweud o’r blaen, er mwyn i reolaeth cyfraith lwyddo, rhaid i ddeddfwriaeth fod yn effeithiol a hygyrch. Er mwyn i ddeddfau Cymru fod yn effeithiol a hygyrch, mae’n hanfodol eu bod yn ddealladwy ac yn glir, a bod modd rhagweld eu heffaith. Rhaid iddynt hefyd fod ar gael yn hawdd.

In considering these issues, I believe that we can learn a lot from other Commonwealth jurisdictions. Countries such as Australia, Canada and New Zealand have not only developed legislation that is distinct from that of the Westminster Parliament, but have also led the way on some clearer legislative drafting initiatives and other methods of better informing the public of the laws that apply to them. They have also given some prominence to ensuring that their legislation, taken as a whole—or, in other words, their statute book—is modern, manageable and well organised.

Wrth ystyried y materion hyn, rwyf yn credu y gallwn ddysgu llawer gan awdurdodaethau eraill y Gymanwlad. Mae gwledydd fel Awstralia, Canada a Seland Newydd wedi datblygu deddfwriaeth sy’n wahanol i un Senedd San Steffan, ond sydd hefyd wedi arwain y ffordd ar rai mentrau ym maes drafftio deddfwriaethol cliriach a dulliau eraill o roi gwybod yn well i’r cyhoedd am y deddfau sy’n berthnasol iddynt. Maent hefyd wedi rhoi rhywfaint o amlygrwydd i sicrhau bod eu deddfwriaeth, yn ei chyfanrwydd—neu, mewn geiriau eraill, eu llyfr statud—yn fodern, yn hylaw ac yn drefnus.

In September 2012, I visited New South Wales and New Zealand for four days of meetings to learn more about their institutional infrastructure for developing legislation and the internal organisation of their civil service. I was pleased to meet a number of eminent lawyers and politicians during the visit, including the Rt Hon Sir Geoffrey Palmer, senior counsel, the former Prime Minister of New Zealand, who has been highly influential in reforming the country’s constitution, as well as the president of the Law Commission, Sir Grant Hammond and several justices of the supreme court. In Sydney, meetings were held with the Attorney-General and Minister of Justice of New South Wales, the Hon Greg Smith, and the Hon Michael Kirby, now retired from the High Court of Australia, which is the Australian supreme court, but probably the most well-known of Australia’s judges and the first president of its law commission. I also met the parliamentary counsel’s offices in both jurisdictions.

Ym mis Medi 2012, ymwelais â De Cymru Newydd a Seland Newydd am bedwar diwrnod o gyfarfodydd i ddysgu mwy am eu seilwaith sefydliadol ar gyfer datblygu deddfwriaeth a threfn fewnol eu gwasanaeth sifil. Roeddwn yn falch o gyfarfod â nifer o gyfreithwyr a gwleidyddion amlwg yn ystod yr ymweliad, gan gynnwys y Gwir Anrhydeddus Syr Geoffrey Palmer, uwch gwnsler, cyn-Brif Weinidog Seland Newydd, sydd wedi bod yn hynod ddylanwadol wrth ddiwygio cyfansoddiad y wlad, yn ogystal â llywydd Comisiwn y Gyfraith, Syr Grant Hammond a nifer o ustusiaid y goruchaf lys. Yn Sydney, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda’r Twrnai Cyffredinol a Gweinidog Cyfiawnder De Cymru Newydd, yr Anrhydeddus Greg Smith, a’r Anrhydeddus Michael Kirby, sydd wedi ymddeol erbyn hyn o Uchel Lys Awstralia, sef goruchaf lys Awstralia, ond mae’n debyg y mwyaf adnabyddus o farnwyr Awstralia a llywydd cyntaf ei chomisiwn y gyfraith. Cyfarfûm hefyd â swyddfeydd y cwnsler seneddol yn y ddwy awdurdodaeth.

It became clear to me during the visit that ensuring that laws are up to date is a matter of considerable importance in both of those jurisdictions. In New South Wales, for example, a royal commissioner was appointed as long ago as 1902 for the purposes of consolidating the state’s laws. Since then, the need to update the statute book regularly has become entrenched in the system.

Daeth yn amlwg i mi yn ystod yr ymweliad ei bod yn fater o gryn bwysigrwydd yn y ddwy awdurdodaeth hynny i sicrhau bod deddfau yn gyfredol. Yn Ne Cymru Newydd, er enghraifft, penodwyd comisiynydd brenhinol mor bell yn ôl â 1902 er mwyn cydgrynhoi cyfreithiau’r wladwriaeth. Ers hynny, mae’r angen i ddiweddaru’r llyfr statud yn rheolaidd wedi cael ei ymwreiddio yn y system.

Although a similar consolidation exercise was completed in New Zealand in the 1900s, this was not later followed up in the same way and the coherence of the statute book is considered to have deteriorated there more recently. This has led to two Law Commission reports and the subsequent development of a very recent legislation Act designed to tackle the issue. Thus the New Zealand Legislation Act 2012 imposes a duty on the Attorney-General to promote a rolling programme of consolidation Bills designed to modernise the statute book. Expedited legislative procedures apply to Bills that fall within this definition, as certified by an independent committee of constitutional experts.

Also of interest are systems established by the New Zealand Government to improve the quality of New Zealand laws—something that is considered to be particularly important there given that, like Wales, there is no revising chamber or upper house in the Wellington Parliament. A legislation advisory committee was formed in the 1980s for the purpose of assisting the Parliament to scrutinise legislation. That committee is made up of prominent lawyers from within and outside Government and is led by the president of the Law Commission. A legislation design committee was also formed more recently for the purpose of asking more fundamental questions early in the process about the effectiveness of Bill proposals and their impact on the statute book as a whole.

Assisting the public to understand legislation was a prominent feature of the systems in both jurisdictions. A commitment to the use of plain language and modern legislative drafting techniques is something that has been a feature of their systems for some time. The New South Wales Parliamentary Counsel's Office, for example, has published a commitment to clarity in its legislative drafting since the 1980s and has been at the forefront of developing modern drafting techniques. Also of note is a provision in the New South Wales Interpretation Act 1987, which requires the courts to interpret statutes consistently with their purpose—something that is considered to help the drafter to take a simpler approach to conveying the legislative intention. Happily, in those jurisdictions, considerable resources can be committed to ensure effective publication. This is done through a commitment to publish legislation in its updated form more or less immediately, and by way of information services there to assist the public to find legislation and know what is in force.

A fuller report on my visit to New South Wales and New Zealand will be made available shortly. Some of what I saw was novel and I have been considering what lessons we can learn where things are done differently here. We have already begun the process of improving our drafting and publication systems, often in line with what is happening in Commonwealth jurisdictions, but this is a highly technical and rather painstaking process.

Er bod ymarfer cydgrynhoi tebyg wedi cael ei gwblhau yn Seland Newydd yn y 1900au, ni wnaed gwaith dilynol yn ddiweddarach yn yr un ffordd ac ystyrir bod cydlyniad y llyfr statud wedi dirywio yno yn fwy diweddar. Mae hyn wedi arwain at ddau adroddiad gan Gomisiwn y Gyfraith a datblygiad Deddf deddfwriaeth wedi hynny i fynd i'r afael â'r mater. Felly, mae Deddf Deddfwriaeth Seland Newydd 2012 yn gosod dyletswydd ar y Twrnai Cyffredinol i hyrwyddo rhaglen dreigl o Filiau cydgrynhoi a gynlluniwyd i foderneiddio'r llyfr statud. Mae gweithdrefnau deddfwriaethol brys yn berthnasol i Filiau sy'n dod o fewn y diffiniad hwn, fel y tystir gan bwyllgor annibynnol o arbenigwyr cyfansoddiadol.

Hefyd o ddiddordeb y mae'r systemau a sefydlwyd gan Lywodraeth Seland Newydd i wella ansawdd cyfreithiau Seland Newydd—rhywbeth sy'n cael ei ystyried yn arbennig o bwysig o gofio nad oes siambr adolygu neu dŷ uchaf yn Senedd Wellington, fel yng Nghymru. Cafodd pwyllgor cynghori ar ddeddfwriaeth ei ffurfio yn y 1980au er mwyn cynorthwyo'r Senedd i graffu ar ddeddfwriaeth. Mae'r pwyllgor hwnnw yn cynnwys cyfreithwyr amlwg o'r tu mewn a'r tu allan i'r Llywodraeth, ac yn cael ei arwain gan lywydd Comisiwn y Gyfraith. Ffurfiwyd pwyllgor cynllunio deddfwriaeth hefyd yn fwy diweddar ar gyfer gofyn mwy o gwestiynau sylfaenol yn gynnar yn y broses am effeithiolrwydd cynigion ar gyfer Biliau a'u heffaith ar y llyfr statud yn ei gyfanrwydd.

Roedd cynorthwyo'r cyhoedd i ddeall deddfwriaeth yn nodwedd amlwg o'r systemau yn y ddwy awdurdodaeth. Mae ymrwymiad i ddefnyddio iaith blaen a thechnegau drafftio deddfwriaethol modern yn rhywbeth sydd wedi bod yn nodwedd o'u systemau ers peth amser. Mae Swyddfa Cwnsler Seneddol De Cymru Newydd, er enghraifft, wedi cyhoeddi ymrwymiad i fod yn eglur wrth ddrafftio deddfwriaeth ers y 1980au ac mae wedi bod ar flaen y gad ym maes datblygu technegau drafftio modern. Ceir darpariaeth nodedig hefyd yn Neddf Dehongli De Cymru Newydd 1987, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r llysoedd ddehongli statudau yn gyson â'u diben—rhywbeth yr ystyrir ei fod yn helpu'r drafftiwr i gyfleu bwriad y ddeddfwriaeth mewn modd symlach. Yn ffodus, yn yr awdurdodaethau hynny, gellir ymrwymo adnoddau sylweddol i sicrhau trefn gyhoeddi effeithiol. Gwneir hyn drwy ymrwymiad i gyhoeddi deddfwriaeth yn ei ffurf wedi'i ddiweddaru fwy neu lai ar unwaith, a thrwy gyfrwng gwasanaethau gwybodaeth sy'n cynorthwyo'r cyhoedd i ddod o hyd i ddeddfwriaeth a gwybod beth sydd mewn grym.

Bydd adroddiad llawnach ar fy ymweliad â De Cymru Newydd a Seland Newydd ar gael cyn bo hir. Roedd rhywfaint o'r hyn a welais yn newydd ac rwyf wedi bod yn ystyried pa wersi y gallwn eu dysgu lle mae pethau'n cael eu gwneud yn wahanol yma. Rydym eisoes wedi dechrau ar y broses o wella ein systemau drafftio a chyhoeddi, yn aml yn unol â'r hyn sy'n digwydd yn awdurdodaethau'r Gymanwlad, ond mae hon yn broses dechnegol iawn a braidd yn llafurus.

I would like to mention the three areas that I have previously touched on. The first is consolidation. The idea of promoting a Welsh legislation Bill is something that is obviously attractive in principle, but with much new legislative work to be done in policy areas, and the general implications for the resources of both Government and the Assembly in doing so, it is important never to legislate unnecessarily. A detailed assessment of the benefit of legislating in this way is therefore required before proceeding. As I have mentioned before, the Government will have to think carefully before committing to the wholesale consolidation of the statute book when promoting reform Bills will obviously be the priority. However, we are laying the groundwork.

Hoffwn sôn am y tri maes yr wyf wedi eu crybwyll o'r blaen. Y cyntaf yw cydgrynhoi. Mae'r syniad o hybu Bil deddfwriaeth Cymru yn rhywbeth sy'n amlwg yn ddeniadol mewn egwyddor, ond gan fod llawer o waith deddfwriaethol newydd i'w wneud mewn meysydd polisi, a goblygiadau cyffredinol i hynny ar gyfer adnoddau'r Llywodraeth a'r Cynulliad, mae'n bwysig peidio â deddfu'n ddiangen byth. Mae angen cynnal asesiad manwl o fudd deddfu yn y modd hwn felly, cyn symud ymlaen. Fel yr wyf wedi crybwyll o'r blaen, bydd rhaid i'r Llywodraeth feddwl yn ofalus cyn ymrwymo i gydgrynhoi'r llyfr statud ar raddfa eang pan mai'r flaenoriaeth, yn amlwg, fydd hyrwyddo Biliau diwygio. Fodd bynnag, rydym yn gosod y sylfeini.

Secondly, there is access to the legislation that is passed and its publication. In my previous statement, I informed Members that progress is ongoing on improving the publication of legislation on the legislation.gov.uk website—a project that is being led by the National Archives but with contributions now from Welsh Government officials. An important milestone was reached recently when the work required on researching the effects of all amendments to primary legislation was completed. This is a two-stage process, however, the second of which is to make the actual change on the online publication system. Much of that work, therefore, remains unseen to the viewer of the site, although considerable work has been done and, we think, progress made. More work is required, and is in train, on the thousands of pieces of subordinate legislation that also make up the overall system. However, I am extremely disappointed to have to inform you that a project that we believed was to be completed by the beginning of this year, to make legislation.gov.uk fully available in the Welsh language, has been delayed until the spring. I have pressed the National Archives on the importance of this to Wales, and I will be monitoring progress and maintaining that pressure. We expect to see the fruits of that pressure in the coming very few weeks. I note that the new Acts passed by the Assembly recently are fully available on the site in both languages.

Y ail bwynt yw mynediad at y ddeddfwriaeth sy'n cael ei phasio a'r drefn o'i chyhoeddi. Yn fy natganiad blaenorol, hysbysais yr Aelodau bod camau'n cael eu cymryd i wella'r drefn o gyhoeddi deddfwriaeth ar y wefan legislation.gov.uk—prosiect sy'n cael ei arwain gan yr Archifau Gwladol ond gyda chyfraniadau erbyn hyn gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Cyrhaeddwyd carreg filltir bwysig yn ddiweddar wrth gwblhau'r gwaith sydd ei angen ar ymchwilio i effeithiau'r holl ddiwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae hon yn broses dau gam, fodd bynnag, a'r ail yw gwneud y newid gwirioneddol ar y system cyhoeddi ar-lein. Nid oes modd i bobl sy'n defnyddio'r safle weld llawer o'r gwaith hwnnw felly, er bod gwaith sylweddol wedi ei wneud, a bod cynnydd wedi'i wneud yn ein barn ni. Mae angen mwy o waith, ac mae ar y gweill, ar y miloedd o ddarnau o is-ddeddfwriaeth sydd hefyd yn rhan o'r system yn gyffredinol. Fodd bynnag, rwyf yn siomedig iawn i orfod eich hysbysu bod prosiect yr oeddem yn credu a fyddai'n cael ei gwblhau erbyn dechrau'r flwyddyn hon, i sicrhau bod legislation.gov.uk ar gael yn llawn yn yr iaith Gymraeg, wedi cael ei ohirio tan y gwanwyn. Rwyf wedi pwysleisio pwysigrwydd hyn i Gymru gyda'r Archifau Gwladol, a byddaf yn monitro'r hyn a gyflawnir ac yn cynnal y pwysau hwnnw. Rydym yn disgwyl gweld ffrwyth y pwysau hwn yn yr ychydig wythnosau nesaf. Sylwaf fod y Deddfau newydd a basiwyd gan y Cynulliad yn ddiweddar ar gael yn llawn ar y safle yn y ddwy iaith.

Thirdly, we have the law of Wales online, if I can call it that. I am pleased to report that good progress has been made in developing an encyclopaedia of Welsh laws in conjunction with the commercial publishers, Westlaw. Westlaw recently completed the first phase of the project and made the early content available to subscribers. The second phase has now begun and that includes an emphasis on laws within the devolved areas, the content of which should start to come available by the summer to those subscribers, but also free to the public via our online portal. Again, there is much work to be done, which is not surprising given the scale of the task, but we are working hard on it, in particular on establishing that online portal for Wales. Again, I believe that progress is encouraging.

Yn drydydd, mae gennym gyfraith Cymru ar-lein, os gallaf ei galw'n hynny. Rwyf yn falch o hysbysu bod camau da wedi'u cymryd o ran datblygu gwyddoniadur o gyfreithiau Cymru ar y cyd â'r cyhoeddwyr masnachol, Westlaw. Yn ddiweddar, cwblhaodd Westlaw gam cyntaf y prosiect a gofalu bod y cynnwys cynnar ar gael i danysgrifwyr. Mae'r ail gam bellach wedi dechrau ac mae hwnnw'n cynnwys pwyslais ar gyfreithiau o fewn y meysydd sydd wedi'u datganoli. Dylai cynnwys y rhain ddechrau dod ar gael erbyn yr haf i'r tanysgrifwyr hynny, ond hefyd yn rhad ac am ddim i'r cyhoedd trwy ein porth ar-lein. Unwaith eto, mae llawer o waith i'w wneud, ac nid yw'n syndod o ystyried maint y dasg, ond rydym yn gweithio'n galed arno, yn arbennig ar sefydlu'r porth ar-lein ar gyfer Cymru. Unwaith eto, rwy'n credu bod yr hyn a gyflawnwyd yn galonogol.

Back to consolidation, it is on an ongoing basis because, in the meantime of course, the Government's legislative programme is progressing. I have previously stated that, where this is a choice, Bills should restate law for Wales where practicable, instead of making amendments to existing laws of England and Wales or the UK generally. I am pleased to say that this has been a feature of nearly all Bills introduced to date. Two of the larger Bills that have come before you—the Schools Standards and Organisation (Wales) Bill and the Social Services and Well-being (Wales) Bill—are notable in that respect, as they comprise reform and recasting of entire systems for Wales. They will be excellent examples of Acts of this Assembly that fully establish—without the need to look elsewhere—the law as it applies in Wales.

Yn ôl i'r cydgrynhoi. Mae hwn yn waith parhaus oherwydd bod rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth yn mynd yn ei blaen yn y cyfamser, wrth gwrs. Rwyf wedi datgan yn flaenorol, lle bo hyn yn ddewis, y dylai Biliau ailddatgan y gyfraith ar gyfer Cymru lle bo hynny'n ymarferol, yn hytrach na gwneud newidiadau i gyfreithiau presennol Cymru a Lloegr neu'r DU yn gyffredinol. Rwyf yn falch o ddweud bod hyn wedi bod yn nodwedd o bron pob Bil a gyflwynwyd hyd yma. Mae dau o'r Biliau mwyaf sydd wedi dod ger eich bron—Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) a'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)—yn nodedig yn hynny o beth, gan eu bod yn cynnwys diwygio ac aildrefnu systemau cyfan ar gyfer Cymru. Byddant yn enghreifftiau gwych o Ddeddfau'r Cynulliad hwn sy'n sefydlu'r gyfraith yn llawn fel y mae'n berthnasol yng Nghymru —heb yr angen i edrych yn rhywle arall.

Finally, I mentioned the Law Commission. I was pleased to welcome the new president of the Law Commission, Lord Justice Lloyd Jones—there is a clue in the name—to Cardiff recently to discuss the Welsh Government's relationship with the commission and the potential for the commission to undertake reform projects on our behalf. The commission, we know, is very concerned to allocate appropriate resources to work for Wales, given the enhanced legislative devolution of the last couple of years, and we look forward to building upon the already excellent working relationship that we have with it. We very much hope to look to the commission, whose expertise in the field is long established, to provide important assistance in the work of clarification and consolidation of suitable areas of devolved statute law in Wales as the legislative programme progresses.

Yn olaf, soniais am Gomisiwn y Gyfraith. Roeddwn yn falch o groesawu llywydd newydd Comisiwn y Gyfraith, yr Arglwydd Ustus Lloyd Jones—mae cliw yn yr enw—i Gaerdydd yn ddiweddar i drafod perthynas Llywodraeth Cymru â'r comisiwn a'r potensial i'r comisiwn ymgymryd â phrosiectau diwygio ar ein rhan. Mae'r comisiwn, rydym yn gwybod, yn awyddus iawn i ddyrannu adnoddau priodol i waith i Gymru, o ystyried y datganoli deddfwriaethol ehagnach dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ac rydym yn edrych ymlaen at adeiladu ar y berthynas waith ardderchog sydd gennym eisoes gydag ef.  Rydym yn gobeithio'n fawr gallu troi at y comisiwn, y mae ei arbenigedd yn y maes wedi ei hen sefydlu, i gael cymorth pwysig yn y gwaith o egluro a chydgrynhoi meysydd addas o gyfraith statud ddatganoledig yng Nghymru wrth i'r rhaglen ddeddfwriaethol fynd yn ei blaen.

In conclusion, I have said many times that this is a long-term project, so I will conclude as I will have to for the foreseeable future: much is being done and has been done, but much remains to be done. I will make a further statement on progress before the summer.

I gloi, rwyf wedi dweud sawl gwaith bod hwn yn brosiect tymor hir, felly rwyf am gloi fel y bydd yn rhaid i mi am y dyfodol rhagweladwy: mae llawer yn cael ei wneud ac wedi'i wneud, ond mae llawer i'w wneud o hyd. Byddaf yn gwneud datganiad pellach ar yr hyn a gyflawnwyd cyn yr haf.

16:47 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Counsel General, for your statement today. I have to say that I was slightly alarmed to hear that it had taken a trip to the southern hemisphere for it to become clear to you, during that visit, that ensuring that laws are up to date is a matter of considerable importance in both jurisdictions. I was also a little surprised that the trip was omitted from Mick Antoniw's questions to the First Minister earlier today. Nevertheless, I understand that you have had some novel ideas from the trip and it is those that I would like to ask you about primarily, if you are willing.

Diolch i chi, Gwnsler Cyffredinol, am eich datganiad heddiw. Rhaid i mi ddweud fy mod wedi dychryn braidd i glywed ei bod wedi cymryd taith i hemisffer y de er mwyn iddi ddod yn glir i chi, yn ystod yr ymweliad hwnnw, ei bod yn fater o gryn bwysigrwydd yn y ddwy awdurdodaeth i sicrhau bod deddfau yn gyfredol. Roeddwn hefyd yn synnu braidd bod y daith wedi'i hepgor o gwestiynau Mick Antoniw i'r Prif Weinidog yn gynharach heddiw. Serch hynny, rwy'n deall eich bod wedi cael rhai syniadau newydd o'r daith ac am y rheini yr hoffwn ofyn i chi yn bennaf, os ydych yn fodlon.

First was your restatement that, in Wales, we should try to have consolidated legislation, rather than trying to use amendments of English and Welsh legislation. You mentioned in particular the school standards Bill. In our opinion, having scrutinised it, when it was first laid, it was more of a cut-and-paste exercise than a genuine consolidation, although it did improve as it went through the system. Similarly, in the Constitutional and Legislative Affairs Committee, we have come across recent secondary legislation that was all about amending existing legislation rather that consolidating or rewriting new legislation. Bearing in mind that you said in your speech that you have heard New Zealand's lesson about avoiding deterioration of what, in our case, is a fairly nascent statute book, what conclusion did you come to about how we might resolve that in Wales? I can see that you are sceptical about a legislation Act. Are you considering a legislative advisory committee or some other sort of revising system? I notice that there was nothing in the Government's response to Silk about revising capacity. What can you tell us from your visit about how you are approaching that particular aspect of improving the legislative process?

Yn gyntaf roedd eich ailddatganiad y dylem, yng Nghymru, geisio cael deddfwriaeth wedi'i chydgrynhoi, yn hytrach na cheisio defnyddio diwygiadau i ddeddfwriaeth Cymru a Lloegr. Crybwyllwyd y Bil safonau ysgolion yn benodol gennych. Yn ein barn ni, ar ôl craffu arno, pan gafodd ei osod yn gyntaf, roedd yn fwy o ymarfer torri-a-gludo na chydgrynhoi go iawn, er iddo wella wrth fynd trwy'r system. Yn yr un modd, yn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, rydym wedi dod ar draws is-ddeddfwriaeth ddiweddar a oedd yn ymwneud yn llwyr â diwygio deddfwriaeth bresennol yn hytrach na chydgrynhoi neu ailysgrifennu deddfwriaeth newydd. O gofio ichi ddweud yn eich araith eich bod wedi clywed gwers Seland Newydd ynglŷn ag osgoi dirywiad yr hyn sydd, yn ein hachos ni, yn llyfr statud eithaf eginol, i ba gasgliad y daethoch chi am sut y byddwn yn datrys hynny yng Nghymru? Gallaf weld bod gennych amheuon ynglŷn â Deddf deddfwriaeth. A ydych yn ystyried pwyllgor cynghori deddfwriaethol neu ryw fath arall o system adolygu? Rwyf yn sylwi nad oedd dim yn ymateb y Llywodraeth i Silk ynghylch adolygu gallu. Beth allwch chi ei ddweud wrthym yn sgil eich ymweliad am sut yr ydych yn ymdrin â'r agwedd benodol honno o wella'r broses ddeddfwriaethol?

To move on to legislation.gov.uk, I think that we are all disappointed that it has not quite reached a fully bilingual situation. Can you tell us exactly what is being accessed at the moment? If there is updating work going on, I am not 100% sure what is live for legal professionals to access and what is not at the moment. Perhaps you could update us on that.

I symud ymlaen i legislation.gov.uk, rwyf yn meddwl ein bod i gyd yn siomedig nad yw wedi cyrraedd sefyllfa gwbl ddwyieithog. A allwch chi ddweud wrthym yn union beth y mae modd cael gafael arno ar hyn o bryd? Os oes gwaith diweddaru yn mynd rhagddo, nid wyf 100% yn siŵr beth sy'n fyw i weithwyr proffesiynol cyfreithiol gael ei ddefnyddio a beth sydd ddim ar hyn o bryd. Efallai y gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am hynny.

Finally, I have a straightforward question. I am very interested in what is happening with Westlaw, obviously. Have you had any indication from the publishers that new subscribers are showing an interest in what they are offering as a result of your work with them to include changes in Welsh law in the service?

Yn olaf, mae gennyf gwestiwn syml. Mae gennyf ddiddordeb mawr yn yr hyn sy'n digwydd gyda Westlaw, yn amlwg. A ydych chi wedi cael unrhyw arwydd gan y cyhoeddwyr bod tanysgrifwyr newydd yn dangos diddordeb yn yr hyn y maent yn ei gynnig o ganlyniad i'ch gwaith gyda nhw i gynnwys newidiadau yng nghyfraith Cymru yn y gwasanaeth?

16:50

## Theodore Huckle

Senedd.tv
Fideo Video

It would not be right to say that I am sceptical about a legislation Bill, actually. I think that the way that we currently view that is that, ideally, we would love to do it, but other priorities and resource implications mean that it is probably not a good time, if I can put it that way. However, it is certainly something that we will keep an eye on and bring before the Assembly as soon as time and resources allow. The position that we are in is that of Commonwealth countries shortly after they became independent of Westminster—we are sort of in that position, anyway. There is no need to panic, as it were, but it is important that we are all aware of the dangers of a crowded and over-complex statute book developing. We do everything that we can to keep everything simple and clear.

Ni fyddai'n iawn i ddweud bod gennyf amheuon ynglŷn â Bil deddfwriaeth, mewn gwirionedd. Credaf mai ein hagwedd ar hyn o bryd yw y byddem wrth ein bodd yn gwneud hynny, yn ddelfrydol, ond bod blaenoriaethau eraill a goblygiadau o ran adnoddau yn golygu mae'n debyg nad yw'n amser da, os gallaf ei roi felly. Fodd bynnag, mae'n sicr yn rhywbeth y byddwn yn cadw llygad arno ac yn dod ag ef gerbron y Cynulliad cyn gynted ag y bydd amser ac adnoddau yn caniatáu. Y sefyllfa yr ydym ynddi yw un gwledydd y Gymanwlad yn fuan ar ôl iddynt ddod yn annibynnol o San Steffan—rydym yn y math hwnnw o sefyllfa mewn ffordd, beth bynnag. Nid oes angen cynhyrfu, fel petai, ond mae'n bwysig ein bod i gyd yn ymwybodol o beryglon gweld llyfr statud gorlawn a gorgymhleth yn datblygu. Rydym yn gwneud popeth y gallwn i gadw popeth yn syml ac yn glir.

On what else I learned, other than what I have already indicated, from the New Zealand and Australia trip, it is essentially that one has to keep on this and make sure that one does not let it slip. The New Zealanders, I think, have partly accepted that they did, and that is what gave rise to the need for the further Law Commission reports in 2008 and the legislative intervention in 2011. For many years before that, the statute book had been allowed to get into a bit of a mess, and that is the concern that we share, although, as things presently stand, it is difficult to justify according a great deal of resource to the research that would be necessary to disentangle, for example, every provision that affects Wales from the England-and-Wales statute book or the UK statute book as a whole. Certainly, we will do what we can, and particularly as the legislative programme in this Assembly progresses.

Y peth arall a ddysgais, ar wahân i'r hyn yr wyf eisoes wedi ei nodi, o daith Seland Newydd ac Awstralia, yn ei hanfod yw bod yn rhaid i rywun gadw golwg ar hyn a gwneud yn siŵr nad yw rhywun yn gadael iddo lithro. Mae pobl Seland Newydd, rwy'n meddwl, wedi derbyn yn rhannol eu bod wedi gwneud hynny, a dyna'r hyn a arweiniodd at yr angen am ragor o adroddiadau gan Gomisiwn y Gyfraith yn 2008 a'r ymyriad deddfwriaethol yn 2011. Am nifer o flynyddoedd cyn hynny, gadawyd i'r llyfr statud fynd i dipyn o lanast, a dyna'r pryder yr ydym yn ei rannu. Er hynny, fel y mae pethau ar hyn o bryd, mae'n anodd cyfiawnhau rhoi llawer iawn o adnoddau i'r ymchwil a fyddai'n angenrheidiol i ddatod, er enghraifft, pob darpariaeth sy'n effeithio ar Gymru yn llyfr statud Cymru a Lloegr neu lyfr statud y DU gyfan. Yn sicr, byddwn yn gwneud yr hyn a allwn, ac yn enwedig wrth i'r rhaglen ddeddfwriaethol yn y Cynulliad hwn fynd yn ei blaen.

On the point about legislation.gov.uk, as I have said, we have reservations about the progress that is being made there, but we do think that the injection of some resources from the Welsh Government, by way of research assistance in particular and work on the ground, has made a positive difference. The two Acts that I mentioned that are now on the statute book are certainly there in both languages, although it is right to say that we do not have everything there that we expected to have by now in both languages.

O ran y pwynt am legislation.gov.uk, fel y dywedais, mae gennym amheuon ynghylch y camau sy'n cael eu cymryd yno, ond rydym yn credu bod yr adnoddau a gyfranwyd gan Lywodraeth Cymru, drwy gyfrwng cymorth ymchwil yn arbennig a gwaith ar lawr gwlad, wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. Mae'r ddwy Ddeddf y soniais amdanynt sydd bellach ar y llyfr statud yn sicr yno yn y ddwy iaith, er ei bod yn iawn i ddweud nad oes gennym bopeth yno yr oeddem yn disgwyl ei gael erbyn hyn yn y ddwy iaith.

Finally, on Westlaw, I have no idea what the subscriber interest is, and I am not focusing on that. The agreement that we have come to with Westlaw is that it, for commercial purposes, wants to establish a sort of rival to 'Halsbury's Laws of England'—for those who have not used that publication, it is a compendium encyclopaedia of all aspects of relevant law—and as part of that project, it has worked with us on the Welsh end, if I can call it that, and has agreed that we can have access to a good measure of what we call the first level of articles, which are introductory articles to each relevant part of the devolved statute book and devolved law, and then further layers below that, where the articles become a bit more specialised. The whole point of that, from our point of view, is to ensure that the public in Wales—and it will be broader, of course, because there is no restriction on people accessing it—will have access to that level of encyclopaedia without payment. That is the important bit.

Yn olaf, ynghylch Westlaw, nid oes gennyf unrhyw syniad faint o ddiddordeb a ddangoswyd gan danysgrifiwr, ac nid wyf yn canolbwyntio ar hynny. Y cytundeb yr ydym wedi'i gyrraedd gyda Westlaw yw ei fod, at ddibenion masnachol, yn awyddus i sefydlu rhyw fath o gystadleuaeth i 'Halsbury's Laws of England'—i'r rhai nad ydynt wedi defnyddio'r cyhoeddiad hwnnw, mae'n wyddoniadur compendiwm o bob agwedd ar gyfraith berthnasol—ac fel rhan o'r prosiect hwnnw, mae wedi gweithio gyda ni ar ochr Cymru, os gallaf ei alw'n hynny. Mae wedi cytuno y gallwn gael mynediad at gyfran dda o'r hyn a alwn yn erthyglau lefel gyntaf, sef erthyglau rhagarweiniol i bob rhan berthnasol o'r llyfr statud datganoledig a chyfraith ddatganoledig, ac yna haenau pellach o dan hynny, lle mae'r erthyglau yn dod ychydig yn fwy arbenigol. Holl bwynt hynny, o'n safbwynt ni, yw sicrhau bod y cyhoedd yng Nghymru—ac fe fydd yn ehangach, wrth gwrs, oherwydd nad oes unrhyw gyfyngiad ar y mynediad ato—yn cael defnyddio'r lefel honno o wyddoniadur heb dalu. Dyna'r darn pwysig.

16:54 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i'r Cwnsler Cyffredinol am ei ddatganiad heddiw ac am y manylion am ei daith i'r 'antipodes'. Roedd yn braf iawn i'w glywed, ac rwy'n siŵr y bydd yr adroddiad llawn yn rhoi hyd yn oed mwy o wybodaeth am hynny.

I thank the Counsel General for his statement today and for the details of his trip to the antipodes. It was very good to hear and I am sure that the full report will have even more information about that particular trip.

Mae Plaid Cymru yn cytuno â’r egwyddorion yr ydych wedi eu gosod allan yn y paragraff cyntaf o’ch datganiad heddiw. Mae angen i gyfraith Cymru fod yn agored, yn hygyrch ac yn glir. Dylai fod yn bosibl i’r cyhoedd ddeall sut mae’r cyfreithiau hyn yn effeithio arnynt. Rydym yn gweld mai’r prif anhawster o ran hyn yw’r setliad datganoli presennol: mae’n ddyrys, yn gymhleth ac yn anodd ei ddeall. Byddwn yn dadlau bod cyfle, gyda chomisiwn Silk, i symud at setliad llawer mwy tebyg i fodel yr Alban lle mae’n gliriach pa bwerau sydd wedi’u cadw yn San Steffan a pha bwerau sydd wedi’u datganoli. Yn y cyd-destun hwnnw, rydym hefyd yn credu y byddai awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân a chyfundrefn cyfiawnder wedi’i datganoli i Gymru hefyd yn ganlyniad annatod i’r broses o sefydlu'r hyn rydych wedi’i drafod heddiw, sef y llyfr statud, a’r hyn sy’n digwydd yn gyffredinol nawr yng Nghymru, sef datblygu i fod yn senedd ddeddfwriaethol llawn. Byddai hynny yn ein rhoi ar yr un llwyfan a Seland Newydd, Awstralia a Canada a’r llefydd y buoch yn ymweld â hwy a’u hystyried yn ddiweddar.

Mae gennyf ychydig o gwestiynau pellach am eich datganiad heddiw. Yn gyntaf, o ran yr hyn rydych wedi ei drafod sawl gwaith, sef yr angen i gyfansoddi Biliau cyfansawdd lle bo hynny’n bosibl, hoffwn eich cyfeirio at ein profiad diweddar—rwy’n meddwl bod Suzy Davies hefyd wedi’i grybwyll—gyda dau Orchymyn i sefydlu’r corff amgylcheddol sengl. Mae’r ddau Orchymyn, yn enwedig yr ail, yn hynod ddyrys ac anodd eu deall. Byddai’n anodd i unrhyw un ond cyfreithiwr fynd trwyddynt a gweld yr effaith. Mae hynny’n enghraifft dda o adeg y byddai wedi bod yn ddoethach i’r Llywodraeth ailystyried a meddwl am Fil cyfansawdd; byddai wedi bod yn haws i roi cyfraith amgylcheddol Cymru ar y llyfr statud mewn ffordd a oedd yn ddealladwy i bawb. A ydych wedi dysgu gwersi o’r profiad hwnnw i wella’r ffordd rydym yn deddfu yng Nghymru?

I droi at legislation.gov.uk, rwy’n rhannu’r siom nad yw hwn eto ar gael yn llawn ac yn sicr nid yw ar gael yn llawn yn Gymraeg. Hoffwn ofyn am ychydig o fanylion. Rydych wedi sôn am y gwanwyn. Roeddwn yn teimlo bod y gwanwyn wedi dod ar ddydd Sadwrn, ond mae’n amlwg nad yw wedi dod am ei bod wedi oeri ers hynny. Pryd yn union rydych yn sôn amdano wrth sôn am ‘y gwanwyn’? Rydych yn sôn am gyfraniad gan Lywodraeth Cymru. Pwy sy’n talu i wneud yn siŵr bod y deunydd ar gael yn ddwyieithog? Byddwn yn tybio y byddai’n rhan o briod waith yr Archifau Gwladol, fel corff cenedlaethol dros y Deyrnas Gyfunol, i dalu i wneud yn siŵr bod hynny ar gael. Wrth gwrs, rwy’n derbyn efallai bod gan Lywodraeth Cymru ‘expertise’ i’w gyfrannu, ond mae hynny’n fater gwahanol.

Rydych newydd gadarnhau, ac roeddwn yn falch o glywed, bod y datblygiad gyda Westlaw yn mynd i fod ar gael i’r cyhoedd ac am ddim. Mae hynny’n hynod o bwysig. Rydym hefyd yn awyddus iawn i weld hynny’n cael ei ddatblygu. Mae Plaid Cymru’n credu bod hynny’n bwysig i ddatblygu dealltwriaeth o’r ffordd rydym yn deddfu yng Nghymru a’r ffordd y mae datblygiadau yng Nghymru yn aml yn wahanol i’r hyn sy’n digwydd yn Lloegr.

Plaid Cymru agrees with the principles that you have set out in the first paragraph of your statement today. There is a need for Welsh law to be open, accessible and clear. It should be possible for the public to understand how these laws impact upon them. We see that the main barrier to this is the current devolution settlement: it is complex and difficult to understand. We would argue that there is an opportunity now, with the Silk commission, to move to a settlement that is far closer to the Scottish model where it is clearer which powers are retained in Westminster and which powers have been devolved. In that context, we also believe that a separate legal jurisdiction and the devolution of the justice system to Wales would be inherent outcomes of the process of establishing what you have been discussing today, namely a statute book, and also of what is happening more generally in Wales, which is the development of a full legislative parliament. That would place us on a par with New Zealand, Australia and Canada and the other places that you have visited and considered recently.

I have a few further questions on the statement that you have made today. First, on something that you have discussed a number of times, namely the need to create consolidated Bills where possible, I would like to refer you to our recent experience—I think that Suzy Davies also mentioned it—with two Orders to establish the single environmental body. Those Orders, particularly the second, were exceptionally complex and difficult to understand. It would be difficult for anyone but a lawyer to trawl through them to identify the impacts. That is a good example of where it would have been better for the Government to reconsider a consolidated Bill; it would have been easier to place environmental law for Wales on the statute book in a way that was comprehensible to all. Are there any lessons that you have learnt from that experience to improve the way in which we legislate in Wales?

To turn to legislation.gov.uk, I share your disappointment that this is not yet fully available and that it is certainly not fully available through the medium Welsh. I would like to ask for some details. You mentioned the spring. I thought that spring had arrived on Saturday, but clearly it had not arrived as it has got a little colder since then. When exactly do you mean when you say ‘the spring’? You mention the contribution of the Welsh Government. Who is paying to ensure that the material is available bilingually? I would have thought that it would be the responsibility of the National Archives, as the overarching body for UK, to pay to ensure that that was available. Of course, I accept that the Welsh Government has expertise to contribute, but that is a different matter.

You have just confirmed, and I was pleased to hear, that the development with Westlaw will be available to the public and free of charge. That is extremely important. We are also very eager to see that being developed. Plaid Cymru believes that that is important to develop understanding of the way that we legislate in Wales and the way that developments in Wales are often different to what is happening in England.

O ran Comisiwn y Gyfraith, rwy'n falch bod diddordeb Cymraeg, fel petai, yng Nghomisiwn y Gyfraith bellach. Bu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar ymweliad â Gogledd Iwerddon yn weddol ddiweddar, lle gwelsom fod ganddynt gomisiwn ar wahân. Byddai dymuniad, efallai o fewn awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân, i symud at gael comisiwn y gyfraith yng Nghymru, ond, yn y cyfamser, mae'n sicr yn werth ystyried rhaglen waith benodol i'r comisiwn yng Nghymru. Mae'r rhaglen waith y comisiwn yng Ngogledd Iwerddon wedi'i chytuno gyda'r Llywodraeth ac mae persbectif Cynulliad Iwerddon arno hefyd. Byddai'n braf petai gan Gomisiwn y Gyfraith raglen waith benodol i Gymru a bod modd i ni yn y Cynulliad ei thrafod a gweld sut mae'n cyfoethogi'r ffordd rydym yn deddfu yng Nghymru.

On the Law Commission, I am pleased that there is now a Welsh interest, so to speak, in the Law Commission. The Constitutional and Legislative Affairs Committee visited Northern Ireland relatively recently, where we saw that they had a separate commission. It would be an aspiration, perhaps within a separate legal jurisdiction, to move to an independent commission in Wales, but, in the meantime, it is certainly worth considering a specific work programme for the commission in Wales. The work programme for the commission in Northern Ireland is agreed with the Government and it takes a Northern Ireland Assembly perspective too. It would be a good thing for the Law Commission to have a specific work programme for Wales and for there to be a way for us in the Assembly to discuss it and to see how it enhances the way that we legislate in Wales.

16:59

## Theodore Huckle

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much for those points. First, in relation to consolidation and the complaints registered about the single environmental body Orders, may I put it this way: nothing can be perfect with this process and the effort is always to make things better? Complaints can always be made by lawyers, including me, about the state of drafting and so on and the clarity with which Orders are made. Your complaints have been noted and will be noted again, I am sure. We all work very hard to ensure that legislation and Orders are in a form that does not incur the wrath of the Constitutional and Legislative Affairs Committee. Of course, the whole point of the exercise is to identify and adopt ways of improving the process. Your committee contributes greatly to that process, as do, I hope, the research and the efforts that we are making, in the ways that I have described.

Diolch yn fawr iawn am y pwyntiau hynny. Yn gyntaf, mewn cysylltiad â chydgrynhoi a'r cwynion a gofrestrwyd am Orchmynion yr un corff amgylcheddol, a gaf i ei roi fel hyn: all dim fod yn berffaith gyda'r broses hon a'r ymdrech bob amser yw gwneud pethau'n well? Gall cyfreithwyr, gan gynnwys fi, bob amser gwyno am gyflwr drafftio ac yn y blaen, ac eglurder y Gorchmynion. Mae eich cwynion wedi cael eu nodi a byddant yn cael eu nodi eto, rwy'n sicr. Rydym i gyd yn gweithio'n galed iawn i sicrhau bod deddfwriaeth a Gorchmynion yn cael eu gwneud ar ffurf nad yw'n ennyn llid y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Wrth gwrs, holl bwynt yr ymarfer yw nodi a mabwysiadu ffyrdd o wella'r broses. Mae eich pwyllgor yn cyfrannu'n fawr at y broses honno, fel, rwy'n gobeithio, y mae ein gwaith ymchwil a'n hymdrechion ni, yn y ffyrdd a ddisgrifiais.

As far as legislation.gov.uk is concerned, I know what you mean about the expression 'the spring'. We have not been given a date, and I was hoping to convey the idea that I feel the need to apply some pressure in relation to that, because it was promised to us at the beginning of the year and it has not been delivered, and we want to see it done sooner rather than later. So, I have allowed the expression 'the spring' to be used, but you will understand that I am looking at that very carefully.

O ran legislation.gov.uk, rwy'n deall eich pwynt ynglŷn â'r ymadrodd 'y gwanwyn'. Nid ydym wedi cael dyddiad, ac roeddwn yn gobeithio cyfleu'r syniad fy mod yn teimlo'r angen i roi rhywfaint o bwysau mewn perthynas â hynny, oherwydd iddo gael ei addo i ni ar ddechrau'r flwyddyn ac nad yw wedi cael ei gyflawni. Rydym am ei weld yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl. Felly, rwyf wedi caniatáu i'r ymadrodd 'y gwanwyn' gael ei ddefnyddio, ond byddwch yn deall fy mod yn edrych ar hynny'n ofalus iawn.

As far as the funds are concerned, we cannot have it both ways. In one sense, we can say that it is a matter for the National Archives and it must do it. The trouble is that we know from experience that if we just leave it to it, the work does not get done in the way that we want it to be done. As I have made clear in previous statements, the whole context for this is that there are not any large budgets to be applied here, as things stand. What we have been doing is, on the one hand, working with the National Archives, which already has responsibility for the publication of legislation across England and Wales, to improve the situation as far the Welsh part of that is concerned, and, on the other hand, working with a commercial provider, Westlaw, to do likewise in relation to the online encyclopaedia. We are doing what we can with limited resources, but it was thought appropriate to spend some money on paying for two people, principally, to work directly with the National Archives to try to ensure that the Welsh part of the online publications was in good order, and good work is being done.

O ran y cyllid, ni allwn ei chael hi bob ffordd. Mewn un ystyr, gallwn ddweud ei fod yn fater i'r Archifau Gwladol a bod rhaid iddynt hwy ei wneud. Y drafferth yw ein bod yn gwybod o brofiad nad yw'r gwaith yn cael ei wneud yn y ffordd yr ydym am iddo gael ei wneud os ydym yn ei adael iddynt hwy. Fel yr wyf wedi'i gwneud yn glir mewn datganiadau blaenorol, y cyd-destun cyffredinol ar gyfer hyn yw nad oes unrhyw gyllidebau mawr i'w defnyddio, fel y mae pethau. Yr hyn yr ydym yn ei wneud, ar y naill law, yw gweithio gyda'r Archifau Gwladol, sydd eisoes yn gyfrifol am gyhoeddi deddfwriaeth ar draws Cymru a Lloegr, er mwyn gwella'r sefyllfa cyn belled ag y mae rhan Cymru o hynny yn y cwestiwn, ac, ar y llaw arall, gweithio gyda darparwr masnachol, Westlaw, i wneud yr un peth o ran y gwyddoniadur ar-lein. Rydym yn gwneud yr hyn y gallwn ei wneud ag adnoddau cyfyngedig, ond ystyriwyd ei bod yn briodol gwario arian ar dalu am ddau o bobl, yn bennaf, i weithio'n uniongyrchol gyda'r Archifau Gwladol i geisio sicrhau bod rhan Cymru o'r cyhoeddiadau ar-lein mewn cyflwr da, ac mae gwaith da'n cael ei wneud.

As I understand it, this is a pretty common situation with the National Archives, which is itself not flush with funds, I think. Therefore, it is working with different interest groups, if I may put it in that way, in relation to different parts of the statute book. I cannot tell you who the other interest groups are, but let us call ourselves one of them for these purposes. That is the scale of it, and that is, perhaps, why we have not been able to force things on quicker than we have. We are working pretty hard to ensure that the National Archives does—well, not keep to the promise it previously made, but at least does not go beyond the spring in delivering this. I think that I know when the spring ends and summer begins, although we can probably have an argument about that if we need to.

As far as Westlaw is concerned, I think that we agree about the need, as far as is possible, to make the law as it applies in Wales available free of charge to the public at a level at which, if I may put it this way, the intelligent person in the street can understand it. It is not designed to offer the detail or specialism that one might expect of a specialist lawyer in the fields concerned. The aim of the process is to ensure that, at introductory level and a little beyond that perhaps, the law is explained to anyone who wants to have a look at it.

Finally, on the Law Commission, I am very familiar with the position in Northern Ireland and, for that matter, in Scotland. It is probably true to say that, where there is a fully devolved jurisdiction, the need for a devolved or separate law commission possibly arises as night follows day. We are not in that position. As you know from the evidence presented yesterday to part 2 of the Silk commission, we think that, as things stand, the arrangements for referral to the Law Commission of projects from Wales are not sufficiently clear, or not sufficiently reflective of the devolution settlement, because, at the moment, overall control of what is in the work programme of the Law Commission rests with the Lord Chancellor. We do not like that—the Law Commission does not like it either, by the way. It agrees that there must be, or should be, recognition that we ought to have a direct line of referral of matters.

I doubt that we will have a separate Welsh programme The reason I doubt that is because the Law Commission sounds like a huge body, but, actually, there are, I think, four commissioners and the chairman himself. They have staff working under each of them and they cover their different sectors, but it is not a huge building full of thousands of lawyers. However, in relation to the systems by which references are made to the Law Commission, we agree with it that, ideally, the Law Commissions Act 1965, under which it operates, should be amended, specifically to make referrals available from Welsh Ministers in the same way as Ministers for the Crown can refer, and to address the question of who has overall control of the programme. We would like it to be a joint decision between Welsh Ministers on the one hand and the Ministry of Justice, the Lord Chancellor, on the other.

Yn ôl yr hyn a ddeallaf, mae hon yn sefyllfa eithaf cyffredin gyda'r Archifau Gwladol, gan nad oes ganddynt lawer o arian eu hunain, rwyf yn meddwl. Felly, maent yn gweithio gyda grwpiau buddiant gwahanol, os caf ei roi yn y ffordd honno, ar wahanol rannau o'r llyfr statud. Ni allaf ddweud wrthych pwy yw'r grwpiau buddiant eraill, ond gadewch inni ein galw ein hunain yn un ohonynt at y diben hwn. Dyna raddfa'r mater, a dyna pam, efallai, nad ydym wedi gallu gwthio pethau yn eu blaenau yn gyflymach nag yr ydym. Rydym yn gweithio'n eithaf caled i sicrhau bod yr Archifau Gwladol yn—wel, nid, yn cadw at yr addewid a wnaed ganddynt o'r blaen, ond o leiaf nad ydynt yn mynd y tu hwnt i'r gwanwyn. Rwyf yn credu fy mod yn gwybod pryd y mae'r gwanwyn yn dod i ben a'r haf yn dechrau, er y gallwn gael dadl am hynny os bydd angen, mae'n debyg.

O ran Westlaw, rwyf yn meddwl ein bod yn cytuno ynglŷn â'r angen, cyn belled ag y bo modd, i sicrhau bod y gyfraith fel y mae'n berthnasol yng Nghymru ar gael yn rhad ac am ddim i'r cyhoedd ar lefel lle, os caf ei roi fel hyn, y gall y person deallus yn y stryd ei deall. Nid yw wedi'i chynllunio i gynnig y manylion neu'r arbenigedd y gallai rhywun eu disgwyl gan gyfreithiwr arbenigol yn y meysydd dan sylw. Nod y broses yw sicrhau, ar lefel ragarweiniol ac ychydig y tu hwnt efallai, bod y gyfraith yn cael ei hesbonio i unrhyw un sydd am gael golwg arni.

Yn olaf, ar Gomisiwn y Gyfraith, rwyf yn gyfarwydd iawn â'r sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon ac, o ran hynny, yn yr Alban. Mae'n debyg ei bod yn wir dweud, lle y ceir awdurdodaeth wedi'i datganoli'n llwyr, bod yr angen yn codi o bosibl am gomisiwn y gyfraith sy'n ddatganoledig neu ar wahân, fel y mae nos yn dilyn dydd. Nid ydym yn y sefyllfa honno. Fel y gwyddoch o'r dystiolaeth a gyflwynwyd ddoe i ran 2 comisiwn Silk, rydym yn credu, fel y mae pethau yn sefyll, nad yw'r trefniadau ar gyfer cyfeirio prosiectau o Gymru at Gomisiwn y Gyfraith yn ddigon clir, neu ddim yn adlewyrchu'r setliad datganoli'n ddigonol. Ar hyn o bryd, mae rheolaeth gyffredinol o'r hyn sydd yn rhaglen waith Comisiwn y Gyfraith yn nwylo'r Arglwydd Ganghellor. Nid ydym yn hoffi hynny—nid yw Comisiwn y Gyfraith yn ei hoffi chwaith, gyda llaw. Mae'n cytuno bod yn rhaid cael, neu y dylai fod, cydnabyddiaeth y dylem gael llinell uniongyrchol ar gyfer atgyfeirio materion.

Rwy'n amau y bydd gennym raglen ar wahân ar gyfer Cymru. Y rheswm yr wyf yn amau hynny yw am fod Comisiwn y Gyfraith yn swnio fel corff anferth, ond, mewn gwirionedd, rwy'n meddwl ei fod yn cynnwys pedwar comisiynydd a'r cadeirydd ei hun. Mae ganddynt staff sy'n gweithio o dan bob un ohonynt ac maent yn cwmpasu eu sectorau gwahanol, ond nid yw'n adeilad anferth yn llawn o filoedd o gyfreithwyr. Fodd bynnag, o safbwynt y systemau a ddefnyddir i wneud atgyfeiriadau i Gomisiwn y Gyfraith, rydym yn cytuno ag ef y dylai Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965, y mae'n gweithredu oddi tani, gael ei diwygio, yn ddelfrydol, er mwyn i Weinidogion Cymru allu atgyfeirio yn yr un modd ag y gall Gweinidogion y Goron, ac i fynd i'r afael â'r cwestiwn o bwy sy'n rheoli'r rhaglen yn gyffredinol. Byddem yn hoffi iddo fod yn benderfyniad ar y cyd rhwng Gweinidogion Cymru ar y naill law a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yr Arglwydd Ganghellor, ar y llaw arall.

17:06 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Counsel General for his statement today and, obviously, for his interest in improving access to legislation. We would all agree that there is a huge amount of work that could be done here to improve the accessibility of Welsh law and the law of England and Wales as it applies to Wales and to help people to understand what is operating in Wales at any one time. I look forward to the fuller report on your visit to New Zealand and Australia if it provides us with examples of other kinds of legislatures and how they operate. I am sure that you took great interest as well in the Constitutional and Legislative Affairs Committee's visit to Northern Ireland, in particular with regard to such things as the way in which the Law Commission in Northern Ireland works and how that might provide a model for something in Wales in the future. So, there are opportunities for us to share practice within the UK's own devolved legislatures as well as further afield.

Diolch i'r Cwnsler Cyffredinol am ei ddatganiad heddiw ac, yn amlwg, am ei diddordeb mewn gwella mynediad at ddeddfwriaeth. Byddem i gyd yn cytuno bod llawer iawn o waith y gellid ei wneud yma i wneud cyfraith Cymru a chyfraith Cymru a Lloegr fel y mae'n berthnasol i Gymru yn fwy hygyrch, ac i helpu pobl i ddeall beth sydd ar waith yng Nghymru ar unrhyw amser. Rwyf yn edrych ymlaen at yr adroddiad llawnach ar eich ymweliad â Seland Newydd ac Awstralia os yw'n darparu enghreifftiau i ni o fathau eraill o ddeddfwrfeydd a sut y maent yn gweithredu. Rwy'n siŵr eich bod wedi cymryd diddordeb mawr yn ogystal yn ymweliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol â Gogledd Iwerddon, yn enwedig o ran pethau fel y ffordd y mae Comisiwn y Gyfraith yng Ngogledd Iwerddon yn gweithio a sut y gallai hynny ddarparu model ar gyfer rhywbeth yng Nghymru yn y dyfodol. Felly, mae cyfleoedd i ni rannu arferion o fewn deddfwrfeydd datganoledig y DU ei hun yn ogystal â thu hwnt.

You talk about Government legislation and you reiterate your commitment that Bills should restate laws for Wales where practicable instead of making amendments to existing laws of England and Wales or the UK. As has been mentioned, there are examples where that has not been the case. For example, as has been mentioned, in the case of transferring functions from the Countryside Council for Wales, the Forestry Commission and the Environment Agency Wales to the natural resources body, we had an Order making a huge number of amendments to several different pieces of England-and-Wales law. It was a completely opaque process for committees to scrutinise, and it was also completely opaque for the third sector who wanted to have a better understanding of what this new body would, in effect, do when it came into existence. Also, for the staff and people who want to run this new body in the future, a single piece of law that told them what they do for a living would, surely, have been useful to them as well. This is a frustration to us as a legislature. On the one hand we have you and the First Minister, a former Counsel General, telling us that the intention is that it should be clearer, succinct, stand alone and that our legislation will be all the better for it. Unfortunately, on the other hand, we have examples of where that has not been the case. Do you think that this approach on this occasion made it difficult to achieve clarity in the law, and are you content that this approach is, in your words, 'intelligible, clear and predictable'? It is something that we have misgivings about.

Rydych yn sôn am ddeddfwriaeth y Llywodraeth ac rydych yn ailadrodd eich ymrwymiad y dylai Biliau ailddatgan cyfreithiau ar gyfer Cymru lle bo hynny'n ymarferol yn hytrach na diwygio cyfreithiau presennol Cymru a Lloegr neu'r DU. Fel y soniwyd, ceir enghreifftiau lle nad yw hynny wedi digwydd. Er enghraifft, fel y crybwyllwyd, yn achos trosglwyddo swyddogaethau o Gyngor Cefn Gwlad Cymru, y Comisiwn Coedwigaeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i'r corff adnoddau naturiol, roedd gennym Orchymyn yn gwneud nifer fawr o newidiadau i ddarnau gwahanol o gyfraith Cymru a Lloegr. Roedd yn broses hollol ddyrys i bwyllgorau graffu arni, ac roedd hefyd yn hollol ddyrys i'r trydydd sector oedd yn awyddus i gael gwell dealltwriaeth o'r hyn y byddai'r corff newydd hwn, i bob pwrpas, yn ei wneud pan ddeuai i fodolaeth. Hefyd, byddai un darn o gyfraith sy'n dweud wrthynt beth y maent yn ei wneud i ennill eu bywoliaeth, yn sicr, wedi bod yn ddefnyddiol i'r staff a'r bobl a fydd yn rhedeg y corff newydd yn y dyfodol. Mae hwn yn rhwystredigaeth i ni fel deddfwrfa. Ar y naill law rydych chi a'r Prif Weinidog, Cwnsler Cyffredinol blaenorol, yn dweud wrthym mai'r bwriad yw y dylai fod yn gliriach, yn gryno, yn sefyll ei ben ei hun ac y bydd ein deddfwriaeth yn well o'i herwydd. Yn anffodus, ar y llaw arall, mae gennym enghreifftiau lle nad yw hynny wedi bod yn wir. Ydych chi'n meddwl bod y dull hwn ar yr achlysur hwn wedi ei gwneud yn anodd cael eglurder yn y gyfraith, ac a ydych yn fodlon bod y dull hwn, yn eich geiriau chi, yn 'ddealladwy, yn glir ac yn rhagweladwy'? Mae'n rhywbeth y mae gennym amheuon yn ei gylch.

Moving on to some of the other points in your statement regarding legislation.gov.uk, obviously, we share your disappointment that progress has not been what we would have wished. It is in the nature of working with partners to deliver projects on our behalf that these things are outside our control, and we have to recognise that our priorities are not necessarily the priorities of our partners. I wonder whether, in the long term, you think that the current working arrangements will be suitable for delivering what you want to see or whether you have other plans in train.

Gan symud ymlaen at rai o'r pwyntiau eraill yn eich datganiad ynglŷn â legislation.gov.uk, yn amlwg, rydym yn rhannu eich siom na chyflawnwyd yr hyn y byddem wedi ei ddymuno. Mae yn rhan o natur gweithio gyda phartneriaid i gyflawni prosiectau ar ein rhan, bod y pethau hyn y tu hwnt i'n rheolaeth, ac mae'n rhaid i ni gydnabod nad yw'n blaenoriaethau ni o reidrwydd yn flaenoriaethau i'n partneriaid. Tybed a ydych chi'n meddwl y bydd y trefniadau gwaith presennol yn addas, yn y tymor hir, ar gyfer cyflawni'r hyn yr ydych am ei weld, neu a oes gennych gynlluniau eraill ar y gweill.

Similarly, I wanted to ask you about commentaries on Welsh law, because, again, in terms of accessibility and the ability to understand the law as a lay person, a law student or as a lawyer who is not necessarily a specialist, the role of commentaries in clarifying the law and helping us to understand what was intended by the law are really important. That is something that we have not touched upon, and I wonder whether you can give us an idea of how you might be able to achieve those.

Yn yr un modd, rwy'n awyddus i ofyn i chi am sylwadau ar gyfraith Cymru. Unwaith eto, o ran hygyrchedd a'r gallu i ddeall y gyfraith fel person lleyg, myfyriwr y gyfraith neu fel cyfreithiwr nad yw o reidrwydd yn arbenigwr, mae gan sylwadau swyddogaeth bwysig iawn o ran egluro'r gyfraith a'n helpu i ddeall yr hyn a fwriadwyd gan y gyfraith. Mae hynny'n rhywbeth nad ydym wedi ei grybwyll, a tybed a allwch chi roi syniad inni o sut y gallech gyflawni'r rhain?

17:09

## Theodore Huckle

Senedd.tv
Fideo Video

Obviously, the single environment body Order has caused a great deal of consternation. It is worth making the point that, when we speak of legislating in a way that creates freestanding provisions, we are necessarily talking about what were Measures and are now Acts, which are able to create a system for Wales in the devolved area. There is a difference between that and Orders, where it is appropriate to use secondary legislation, which, by their very nature, can only, where permitted, amend existing provisions in some way. So, it is difficult for an Order by secondary legislation, for example, to repeal an Act of England and Wales.

Yn amlwg, mae Gorchymyn yr un corff amgylcheddol wedi achosi cryn dipyn o syndod. Mae'n werth gwneud y pwynt ein bod o reidrwydd, wrth siarad am ddeddfu mewn ffordd sy'n creu darpariaethau annibynnol, yn siarad am rywbeth a oedd yn Fesur ond sydd bellach yn Ddeddf, sy'n gallu creu system ar gyfer Cymru yn y maes datganoledig. Mae gwahaniaeth rhwng hynny a Gorchmynion, lle mae'n briodol defnyddio is-ddeddfwriaeth, na allant, oherwydd eu natur, wneud mwy na diwygio darpariaethau presennol mewn rhyw ffordd, lle y caniateir hynny. Felly, mae'n anodd i Orchymyn drwy is-ddeddfwriaeth, er enghraifft, ddiddymu Deddf yng Nghymru a Lloegr.

We do not disagree about this; there is a necessary opacity that arises when one tries to amend previously existing provisions. In the end, one is left with the position that we know what we would like to achieve, and we will achieve it as best we can in any given situation. However, there are restrictions on the resources available to Government and to this Assembly in creating a wholly new statute book in the current situation.

Nid ydym yn anghytuno ynghylch hyn; mae'n anorfod fod pethau'n mynd yn ddyrys wrth geisio diwygio darpariaethau sydd eisoes yn bodoli. Yn y diwedd, mae rhywun yn cael ei adael mewn sefyllfa lle'r ydym yn gwybod beth yr hoffem ei gyflawni, a byddwn yn cyflawni hyn yn y ffordd orau y gallwn mewn unrhyw sefyllfa benodol. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ar yr adnoddau sydd ar gael i'r Llywodraeth ac i'r Cynulliad hwn wrth greu llyfr statud hollol newydd yn y sefyllfa bresennol.

That leads me on to the question about legislation.gov.uk, and I agree entirely that there always problems when one is relying on external agencies to put in train what one wants to achieve. As far as a clash of priorities is concerned, if I can summarize what you said in relation to that, and whether I have plans in train, I do not have plans in train, because, frankly, there is not the money to do anything more at the moment. I would love, for example, to have the £15 million a year that the Parliament of New South Wales told us that it spent just on having its legislation statute book online. It is a marvellous system, but I do not see that there is much scope for us to achieve that in the short term here, given that anything done in relation to legal costs, if I can put it that way, or costs of this type, are likely to be criticised because it is money that could otherwise be spent on health, education, and so on. One is always conscious of those competing priorities. So, I do not have any immediate plans, but I would love to be able to announce to this Assembly in due course that we are going to have a New South Wales-type legislation online service of our own. However, I do not see it happening in the short term; let us put it that way.

Mae hynny'n fy arwain at y cwestiwn am legislation.gov.uk, ac rwyf yn cytuno'n llwyr y ceir problemau bob amser wrth ddibynnu ar asiantaethau allanol i roi ar waith yr hyn y mae rhywun am ei gyflawni. O ran gwrthdaro rhwng blaenoriaethau, os gallaf grynhoi'r hyn a ddywedasoch mewn cysylltiad â hynny, ac a oes gennyf gynlluniau ar y gweill, nid oes gennyf gynlluniau ar y gweill. A dweud y gwir, nid yw'r arian ar gael i wneud dim mwy ar hyn o bryd. Byddwn wrth fy modd, er enghraifft, yn cael y £15 miliwn y flwyddyn y dywedodd Senedd De Cymru Newydd wrthym y mae'n ei wario dim ond i roi ei lyfr statud deddfwriaeth ar-lein. Mae'n system wych, ond nid wyf yn gweld bod llawer o gyfle i ni gyflawni hynny yma yn y tymor byr, o gofio bod unrhyw beth a wneir ym maes costau cyfreithiol, os gallaf ei roi felly, neu gostau o'r math hwn, yn debygol o gael ei feirniadu oherwydd ei fod yn arian y gellid ei wario fel arall ar iechyd, addysg, ac ati. Mae rhywun bob amser yn ymwybodol o'r ffaith y ceir blaenoriaethau sy'n cystadlu. Felly, nid oes gennyf unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd, ond byddwn wrth fy modd yn gallu cyhoeddi i'r Cynulliad hwn maes o law ein bod yn mynd i gael gwasanaeth deddfwriaeth ar-lein ein hunain, tebyg i un De Cymru Newydd. Fodd bynnag, nid wyf yn ei weld yn digwydd yn y tymor byr; gadewch inni ei roi felly.

As far as commentaries are concerned, the idea of the online encyclopaedia is just that—to provide a commentary: not just to set out the legislation, but to provide a commentary so that people can understand how that legislation applies in real life. Many people would say that many of the legal commentaries available do very little of that, but that is the aim in any event. What is quite interesting about the model that has been adopted by Westlaw is, as I mentioned earlier, that it is in the form of articles, so you have an introductory article in which someone who is suitably expert in the field sets out in a short and concise way the overall introductory position. After that, there are links to further articles that are gradually more specialist in what they cover, and which cover smaller areas in more detail. One hopes that that is a method that in itself enables a form of commentary that is more accessible to a member of the public who is not necessarily a lawyer, but we will have to see how it works. We will, of course, keep an eye on how that develops and make our position clear if we think that it is not achieving what we want it to achieve.

O ran sylwadau, dyna'n union yw syniad y gwyddoniadur ar-lein—darparu sylwadau: nid yn unig i nodi'r ddeddfwriaeth, ond i ddarparu sylwadau fel y gall pobl ddeall sut y mae'r ddeddfwriaeth yn berthnasol mewn bywyd go iawn. Byddai llawer o bobl yn dweud mai ychydig iawn o hynny y mae llawer o'r sylwadau cyfreithiol sydd ar gael yn ei wneud, ond dyna'r nod beth bynnag. Yr hyn sy'n eithaf diddorol am y model a fabwysiadwyd gan Westlaw, fel y soniais yn gynharach, yw ei fod ar ffurf erthyglau, felly mae gennych erthygl ragarweiniol lle mae rhywun sy'n arbenigwr priodol yn y maes yn nodi'r sefyllfa ragarweiniol gyffredinol mewn ffordd fer a chryno. Ar ôl hynny, ceir dolenni i erthyglau eraill y mae eu cynnwys yn mynd yn fwy arbenigol yn raddol, ac sy'n ymdrin â meysydd llai yn fwy manwl. Mae rhywun yn gobeithio fod hynny'n ddull sydd ynddo'i hun yn galluogi rhyw fath o sylwadau sy'n fwy hygyrch i aelodau o'r cyhoedd nad ydynt o reidrwydd yn gyfreithwyr, ond bydd yn rhaid inni weld sut mae'n gweithio. Byddwn, wrth gwrs, yn cadw llygad ar sut mae hynny'n datblygu ac yn gwneud ein safbwynt yn glir os ydym yn credu nad yw'n cyflawni'r hyn yr ydym am iddo ei gyflawni.

17:13 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I heard the point that you made earlier about informing and explaining to the public how the laws apply to them and your answer to Eluned Parrott about the body of law being more than what is contained in the primary legislation—obviously, we have Orders, regulations, statutory guidance and so on. So, for example, because there is a 500m buffer zone between opencast mining and homes in the Welsh Government's minerals technical advice note, there is a widespread belief among the public, and, actually, among elected Members, that this forms part of the planning law that applies to people. Would planning policy have to be enshrined in an Act for it to have legal status? When will the public have access to information about this wider body of law that applies to them?

Clywais y pwynt a wnaethoch yn gynharach ynglŷn â hysbysu ac egluro i'r cyhoedd sut y mae'r deddfau yn berthnasol iddynt hwy, a'ch ateb i Eluned Parrott bod corff y gyfraith yn fwy na'r hyn a geir yn y ddeddfwriaeth sylfaenol—yn amlwg, mae gennym Orchmynion, rheoliadau , canllawiau statudol ac ati. Felly, er enghraifft, oherwydd bod clustogfa 500m rhwng cloddfeydd glo brig a chartrefi yn nodyn cyngor technegol mwynau Llywodraeth Cymru, ceir cred gyffredinol ymhlith y cyhoedd, ac, mewn gwirionedd, ymhlith Aelodau etholedig, bod hynny'n rhan o'r gyfraith gynllunio sy'n berthnasol i bobl. A fyddai'n rhaid i bolisi cynllunio gael ei ymgorffori mewn Deddf iddo gael statws cyfreithiol? Pryd bydd y cyhoedd yn cael gweld gwybodaeth am y corff ehangach hwn o gyfraith sy'n berthnasol iddynt?

17:14 **Theodore Huckle**

Senedd.tv
Fideo Video

The last thing that I want to do is to appear to be obstructive. I am not sure that it arises from the statement that I have made. I should say that I am not a planner by training or practice. Planning law is—I was going to say 'notoriously', but that is a bad word to use—well known to be set out in framework legislation and heavily applied through guidance notes et cetera. I am not sure what else I can say about it. The point is that such things should all be published, but I agree that it is sometimes very difficult for lawyers and members of the public in particular to understand. I am not sure how it would help to change the guidance notes into primary legislation. We would have the same complexity of provision or guidance, but it would be contained within an Act. I am not sure that an Act is the appropriate place for such provisions, partly because it is appropriate and necessary from time to time to change policy and guidance behind planning regulations. I am not sure that that is very helpful.

Y peth olaf yr wyf am ei wneud yw ymddangos yn wrthnysig. Nid wyf yn siŵr ei fod yn codi o'r datganiad yr wyf wedi'i wneud. Dylwn ddweud nad wyf yn gynllunydd drwy hyfforddiant nac ymarfer. Mae cyfraith cynllunio—roeddwn yn mynd i ddweud yn 'ddrwg-enwog', ond mae hwnnw'n air gwael i'w ddefnyddio— yn adnabyddus am gael ei nodi mewn deddfwriaeth fframwaith a'i roi ar waith i raddau helaeth trwy nodiadau cyfarwyddyd ac ati. Nid wyf yn siŵr beth arall y gallaf ei ddweud am y peth. Y pwynt yw y dylai pethau o'r fath i gyd gael eu cyhoeddi, ond rwyf yn cytuno ei bod weithiau'n anodd iawn i gyfreithwyr, ac aelodau'r cyhoedd yn arbennig, ei ddeall. Nid wyf yn siŵr sut y byddai'n helpu i newid y nodiadau cyfarwyddyd yn ddeddfwriaeth sylfaenol. Byddai gennym yr un cymhlethdod o ran darpariaeth neu gyfarwyddyd, ond y byddai'n cael ei gynnwys o fewn Deddf. Nid wyf yn siŵr mai Deddf yw'r lle priodol ar gyfer darpariaethau o'r fath, yn rhannol oherwydd ei bod yn briodol ac yn angenrheidiol o bryd i'w gilydd i newid polisi a chanllawiau sy'n sail i reoliadau cynllunio. Nid wyf yn siŵr a yw hynny'n ddefnyddiol iawn.

## Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol—y Bil Ynni

Cynnig NDM5120 John Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Ynni sy'n ymwneud â sefydlu safonau perfformiad ynghylch allyriadau i osod terfynau ar faint o garbon deuocsid y gall gorsaf bŵer tanwydd ffosil newydd (h.y. un sy'n cael ei phweru gan lo, olew neu nwy 'naturiol') ei ollwng yn ystod unrhyw flwyddyn benodol, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Legislative Consent Motion –the Energy Bill

Legislative Consent Motion –the Energy Bill

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that provisions of the Energy Bill relating to establishing emission performance standards to impose limits on the amount of carbon dioxide that a new fossil fuel power station (i.e. one powered by coal, oil or 'natural' gas) can emit in any given year, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

17:16

### John Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy / The Minister for Environment and Sustainable Development*

I move the motion.

This legislative consent motion on the Energy Bill is in relation to emission performance standards. I thank the Assembly's Environment and Sustainability Committee for its work in scrutinising the legislative consent memorandum.

The aim of the Bill is to promote growth and to ensure that the UK has a secure and affordable energy supply. The relevant measure within the Bill relates to an emission performance standard. The EPS measure will place a duty on fossil-fuel generating plant operators to not exceed the annual emissions limit of carbon dioxide set by the UK Secretary of State. The policy position of the UK Government, supported by Welsh Ministers, is that there should be a single UK-wide EPS in relation to the Bill, which is consistent and stable. That is to ensure a common environmental UK standard, to avoid any rush to the bottom to attract projects and to limit emissions.

The Department of Energy and Climate Change recognises the position of the different environmental regulators across the UK, including, once formed, the new natural resources Wales body, and their relationships with their respective Ministers. The legislation will therefore place a duty on Welsh Ministers in relation to EPS, and recognise our responsibilities to implement monitoring and enforcement within Welsh jurisdictions. It also gives Welsh Ministers the necessary powers to do this, including taking decisions on the body that will carry out monitoring and enforcement functions and setting the level of fees and civil penalties.

One of the key aims of our programme for government is that Wales becomes a one-planet nation, putting sustainable development at the heart of Government. Part of this is the continuing challenge to sustain the underlying health of our environment, while ensuring that the ways in which we use it meet society's needs and are compliant with European legislation. It is on this basis that the legislative consent motion is placed before Members for approval.

Cynigiaf y cynnig.

Mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn ar y Bil Ynni yn ymwneud â safonau perfformiad allyriadau. Hoffwn ddiolch i Bwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Cynulliad am ei waith yn craffu ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol.

Nod y Bil yw hyrwyddo twf a sicrhau bod gan y DU gyflenwad ynni diogel a fforddiadwy. Mae'r mesur perthnasol o fewn y Bil yn ymwneud â safon perfformiad ym maes allyriadau. Bydd y mesur hwn yn gosod dyletswydd ar weithredwyr gweithfeydd cynhyrchu tanwydd ffosil i beidio â gollwng mwy na'r terfyn blynyddol o garbon deuocsid a bennwyd gan Ysgrifennydd Gwladol y DU. Safbwynt polisi Llywodraeth y DU, a gefnogir gan Weinidogion Cymru, yw y dylai'r Bil bennu un Safon Perfformiad Allyriadau cyson a sefydlog trwy'r DU. Mae hynny er mwyn sicrhau safon amgylcheddol gyffredin i'r DU, ac osgoi unrhyw ruthro i'r gwaelod i ddenu prosiectau ac i gyfyngu ar allyriadau.

Mae'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn cydnabod sefyllfa gwahanol reoleiddwyr amgylcheddol ledled y DU, gan gynnwys y corff newydd, cyfoeth naturiol Cymru, ar ôl iddo gael ei ffurfio, a'u perthynas â'u Gweinidogion. Bydd y ddeddfwriaeth, felly, yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r Safon Perfformiad Allyriadau, ac yn cydnabod ein cyfrifoldebau i weithredu camau monitro a gorfodi mewn awdurdodaethau yng Nghymru. Mae hefyd yn rhoi'r pwerau angenrheidiol i Weinidogion Cymru i wneud hyn, gan gynnwys gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r corff a fydd yn cyflawni swyddogaethau monitro a gorfodi a gosod lefel y ffioedd a chosbau sifil.

Un o amcanion allweddol ein rhaglen ar gyfer llywodraeth yw bod Cymru yn dod yn genedl un blaned, gan roi datblygiad cynaliadwy wrth wraidd y Llywodraeth. Rhan o hyn yw'r her barhaus i gynnal iechyd sylfaenol ein hamgylchedd, yn ogystal â sicrhau bod y ffyrdd yr ydym yn ei ddefnyddio yn diwallu anghenion cymdeithas ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth Ewropeaidd. Gosodir y cynnig cydsyniad deddfwriaethol gerbron yr Aelodau i'w gymeradwyo ar y sail hon.

17:18 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Minister for bringing forward this LCM today and I confirm the support of the Welsh Liberal Democrat group for its implementation.

Diolch i'r Gweinidog am gyflwyno'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn heddiw ac rwyf yn cadarnhau cefnogaeth grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i'w weithredu.

Regardless of our political allegiance, it is abundantly clear that it is in our collective best interests, in terms of our health, our environment and our economy, that we move towards a low-carbon energy generation network as swiftly and efficiently as possible. While many of us would doubtlessly like such a transition to happen tomorrow, we know that such a move would not be possible, given the standard of existing technology and our present reliance on fossil-fuel burning stations. As such, we know that these power stations, especially those fuelled by natural gas, will play a substantial but, hopefully, an ever-decreasing role in our generation grid for decades to come.

Waeth beth yw ein teyrngarwch gwleidyddol, mae'n gwbl amlwg ei bod er ein lles gorau ar y cyd, o ran ein hiechyd, ein hamgylchedd a'n heconomi, i symud tuag at rwydwaith cynhyrchu ynni carbon isel mor gyflym ac effeithlon â phosibl. Er y byddai llawer ohonom yn ddiau yn hoffi i newid o'r fath ddigwydd yfory, rydym yn gwybod na fyddai cam o'r fath yn bosibl, o ystyried safon y dechnoleg sydd eisoes yn bodoli a'n dibyniaeth bresennol ar orsafoedd llosgi tanwydd ffosil. Fel y cyfryw, rydym yn gwybod y bydd gan y gorsafoedd pŵer hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael eu tanio gan nwy naturiol, ran sylweddol yn ein grid cynhyrchu ynni am ddegawdau i ddod ond, gobeithio, un sy'n gostwng yn gyson.

It is for this reason that the UK Government's move to limit annual carbon dioxide emission levels is such an important step forward. In doing so across all of the devolved administrations, the UK is able to prevent an unabated rise in emissions and ensure that no one area is overly exposed to harm through a concentration of emitting stations. Such a move would also lead to an increased proliferation of carbon capture technologies, should energy demand further increase or should the upper limit be reduced over time. However, in debating this LCM, I would also request that the Minister expands a little further on the duty placed upon him under clause 40 and outlines the present state of the emissions monitoring system in terms of compliance and the arrangements for enforcement that this Bill will place upon him. Can he also detail to the Chamber, please, whether he envisages that there will be any significant differences in how the devolved monitoring duties will operate in practice within the separate nations, given the differing mix of generation methods presently in operation?

Dyma pam y mae penderfyniad Llywodraeth y DU i gyfyngu ar lefelau allyriadau carbon deuocsid blynyddol yn gam mor bwysig ymlaen. Wrth wneud hynny ar draws pob un o'r gweinyddiaethau datganoledig, mae'r DU yn gallu atal cynnydd parhaus mewn allyriadau a sicrhau nad oes yr un ardal yn rhy agored i niwed drwy fod â nifer o orsafoedd sy'n allyrru. Byddai cam o'r fath hefyd arwain at nifer gynyddol o dechnolegau dal carbon, pe byddai galw am ynni yn cynyddu ymhellach neu pe byddai'r terfyn uchaf yn lleihau dros amser. Fodd bynnag, wrth drafod y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn, byddwn hefyd yn gofyn i'r Gweinidog ehangu ychydig ymhellach ar y ddyletswydd a osodir arno o dan gymal 40 ac amlinellu sefyllfa bresennol y system fonitro allyriadau o ran cydymffurfio, ac o ran y trefniadau ar gyfer gorfodi y bydd y Bil hwn yn eu gosod arno. A all hefyd roi manylion i'r Siambr, os gwelwch yn dda, p'un a yw'n rhagweld y bydd unrhyw wahaniaethau sylweddol yn y modd y bydd y dyletswyddau monitro datganoledig yn gweithredu yn ymarferol o fewn y gwahanol wledydd, o ystyried y cymysgedd gwahanol o ddulliau cynhyrchu sy'n weithredol ar hyn o bryd?

17:20 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

17:20 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I very much thank William Powell for his support and for setting out the real benefits and advantages that the Bill and this LCM will bring.

Diolch yn fawr i William Powell am ei gefnogaeth ac am nodi'r buddianau a'r manteision go iawn a ddaw yn sgil y Bil a'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn.

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 5.21 p.m.*

*The Presiding Officer took the Chair at 5.21 p.m.*

**John Griffiths** Bywgraffiad Biography

It is about facilitating the development of a low-carbon economy in Wales. We all know that our energy system underpins our entire way of life. That system is undergoing considerable change to meet our environmental, economic and social objectives. We expect the energy system to become increasingly decarbonised, and there are European Union drivers in place, along with others, for that. It is also important that we have energy security and resilience.

Mae'n ymwneud â hwyluso datblygiad economi carbon isel yng Nghymru. Rydym i gyd yn gwybod bod ein system ynni yn sylfaen i'n ffordd gyfan o fyw. Mae'r system honno yn newid yn sylweddol i fodloni ein hamcanion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Rydym yn disgwyl i'r system ynni ddatgarboneiddio mwy a mwy, ac mae ffactorau o du'r Undeb Ewropeaidd, ynghyd ag eraill, yn sbarduno hynny. Mae hefyd yn bwysig bod gennym sicrwydd a gwydnwch ym maes ynni.

It will be up to the particular administrations in the UK to set their own monitoring systems and that is recognised in this Bill. For us, as I said, natural resources Wales will be the regulator. The system as a whole will mirror the European Union emission trading system scheme in the way that it operates and it will be for Welsh Ministers and NRW to ensure that it is effective in Wales. I thank the Member for his support and hope that other Members will join him in due course.

Cyfrifoldeb y gweinyddiaethau penodol yn y DU yw sefydlu eu systemau monitro eu hunain ac mae hynny'n cael ei gydnabod yn y Bil hwn. I ni, fel y dywedais, cyfoeth naturiol Cymru fydd y rheoleiddiwr. Bydd y system yn ei chyfanrwydd yn gweithredu mewn modd sy'n adlewyrchu cynllun system masnachu allyriadau yr Undeb Ewropeaidd, a mater i Weinidogion Cymru ac NRW fydd sicrhau ei bod yn effeithiol yng Nghymru. Diolch i'r Aelod am ei gefnogaeth ac rwyf yn gobeithio y bydd Aelodau eraill yn ymuno ag ef maes o law.

17:22 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Are there any objections? I see that there are none. I therefore declare the motion agreed, in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, rwyf yn datgan y derbyniwyd y cynnig, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

## Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol—y Bil Mordwyo Morol (Rhif 2)

Cynnig NDM5126 Alun Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Mordwyo Morol (Rhif 2), sy'n ymwneud â diwygiadau i Ddeddf Peilota 1987, Deddf Harbyrau 1964 a Deddf Llongau Masnach 1995, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Legislative Consent Motion—The Marine Navigation (No. 2) Bill

Motion NDM5126 Alun Davies

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that provisions of the Marine Navigation (No 2) Bill, relating to amendments of the Pilotage Act 1987, the Harbours Act 1964 and the Merchant Shipping Act 1995, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

17:22 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd / The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

The Marine Navigation (No. 2) Bill is a private Member's Bill supported by the United Kingdom Government. The Bill is making some amendments to existing Acts regarding the safe navigation of ships into harbours, including pilotage, port constables and the marking of wrecks. It is intended to make the processes surrounding these functions less cumbersome, while ensuring a high level of port safety. There are some issues that may fall within the legislative competence of the National Assembly as a result of provisions in this Bill.

Mae'r Bil Mordwyo Morol (Rhif 2) yn Fil Aelod preifat a gefnogir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'r Bil yn gwneud rhai diwygiadau i Ddeddfau presennol ynghylch mordwyo llongau'n ddiogel i borthladdoedd, gan gynnwys peilota, cwnstabliaid porthladdoedd a marcio llongddrylliadau. Y bwriad yw gwneud y prosesau sy'n ymwneud â'r swyddogaethau hyn yn llai beichus, yn ogystal â sicrhau diogelwch porthladdoedd i lefel uchel. Mae rhai materion a allai ddod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol o ganlyniad i ddarpariaethau yn y Bil hwn.

I express my thanks to the Environment and Sustainability Committee for considering the legislative consent motion memorandum for this Bill and for the report that it has produced, which stated that the committee has no objection to the use of the LCM as proposed.

Hoffwn fynegi fy niolch i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd am ystyried y memorandwm cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil hwn, ac am yr adroddiad y mae wedi'i baratoi, a nododd nad oedd gan y pwyllgor unrhyw wrthwynebiad i'r defnydd o'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol fel y'i cynigiwyd.

Briefly, this Bill crosses four areas of the National Assembly's legislative competence. These are: fisheries, transport, historic wrecks and animal welfare. In terms of marine navigation, many of the provisions under the Bill do not fall under the powers of the Assembly. Officials from the Welsh Government's transport department do not consider that the provisions of the Bill affect devolved areas of transport policy in Wales.

Yn fyr, mae'r Bil hwn yn croesi pedwar o feysydd cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Y rhain yw: pysgodfeydd, cludiant, llongddrylliadau hanesyddol a lles anifeiliaid. O ran mordwyo morol mae llawer o'r darpariaethau o dan y Bil nad ydynt yn dod o dan bwerau'r Cynulliad. Nid yw swyddogion o adran drafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn ystyried bod darpariaethau'r Bil yn effeithio ar feysydd datganoledig o bolisi trafnidiaeth yng Nghymru.

The areas of the legislative competence of Welsh Ministers that are affected by the Bill include: fishery harbours, the movement of livestock and historic wrecks. All Welsh Government departments have considered the Bill and have also concluded that it will have no negative effect on the Assembly's powers or ministerial powers in these areas. It has therefore been concluded that we should proceed with this LCM. I therefore request that the National Assembly agrees to this legislative consent motion.

Mae meysydd cymhwysedd deddfwriaethol Gweinidogion Cymru sy'n cael eu heffeithio gan y Bil yn cynnwys: porthladdoedd pysgodfeydd, symud da byw a llongddrylliadau hanesyddol. Mae pob un o adrannau Llywodraeth Cymru wedi ystyried y Bil ac wedi dod i'r casgliad hefyd na fydd yn cael unrhyw effaith negyddol ar bwerau'r Cynulliad neu bwerau gweinidogol yn y meysydd hyn. Daethpwyd i'r casgliad felly y dylem fwrw ymlaen â'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn. Gofynnaf felly bod y Cynulliad Cenedlaethol yn derbyn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn.

17:24

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I have no speakers. Therefore, the proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections. I therefore declare the motion agreed, in accordance with Standing Order No. 12.36.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr. Felly, y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, rwyf yn datgan y derbyniwyd y cynnig, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

## Setliad yr Heddlu

Cynnig NDM5163 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2013-2014 (Setliad Terfynol – Awdurdodau Heddlu) a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Chwefror 2013.

## The Police Settlement

Motion NDM5163 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales, under Section 84H of the Local Government Finance Act 1988, approves the Local Government Finance Report (No. 2) 2013-14 (Final Settlement - Police and Crime Commissioners), which was laid in the Table Office on 4 February 2013.

17:24

## Carl Sargeant [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau / The Minister for Local Government and Communities*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I thank the Presiding Officer for the opportunity to present to the Assembly today for its approval of the details of the Welsh Government's contribution to police funding for 2013-14 for the four police and crime commissioners in Wales. It is a realistic settlement, given the economic conditions, but it will require difficult choices to be made to protect front-line policing. The newly elected commissioners must take the opportunity offered by their roles to establish new partnerships and approaches that can be sustained despite the funding challenges.

Diolch i'r Llywydd am y cyfle i gyflwyno i'r Cynulliad heddiw ar gyfer ei gymeradwyaeth i fanylion cyfraniad Llywodraeth Cymru i ariannu'r pedwar comisiynydd heddlu a throseddu yng Nghymru ar gyfer 2013-14. Mae'n setliad realistig, o ystyried yr amgylchiadau economaidd, ond bydd dewisiadau anodd i'w gwneud i ddiogelu plismona rheng flaen. Mae'n rhaid i'r comisiynwyr sydd newydd eu hethol fanteisio ar y cyfle a gynigir gan eu swyddogaethau i sefydlu partneriaethau a dulliau gwaith newydd y gellir eu cynnal er gwaethaf yr heriau ariannu.

The police forces in Wales have an excellent record of collaboration, and are participating in a shared agenda across the public service to secure efficiencies and promote innovation in delivering services. I view growth in collaboration as vital to improve policing and community safety for the people of Wales.

Although most aspects of policing remain non-devolved, a significant part of police funding is provided through the Welsh Government's revenue support grant. This is the funding that you are being asked to approve today. However, the overall funding picture is determined by the Home Office, which will provide police grants and additional revenue support so that no Welsh force receives a reduction in core funding of more than 1.6% in the 2013-14, compared with this year.

The Home Office has contributed to administer a floor mechanism so that every police force in England and Wales will see the same reduction in core funding. For Dyfed-Powys Police and North Wales Police this means that they will share £13 million of additional floor grant from the Home Office to ensure that their funding falls by no more than 1.6%. Although the four Welsh forces will receive core funding from the Home Office and the Welsh Government, totalling £388 million for 2013-14, the Welsh Government's contribution to that will be £147.8 million in revenue support grant and the redistribution of national non-domestic rates. Unfortunately, no announcements for the funding have been made beyond 2013-14. I appreciate that that is not helpful for the commissioners in terms of their medium-term planning. However, the Minister of State for Policing and Criminal Justice has deferred the publication of the 2014-15 allocation in order to scrutinise Home Office budgets following the Chancellor's autumn statement. The Welsh Government is therefore unable to publish its information beyond 2013-14 without the details of the Home Office funding allocated.

The core funding is distributed between police forces according to the needs-based formula determined by the Home Office and applied across England and Wales. The formula also determines the levels of resources that the Welsh Government contributes to the settlement. The Home Secretary is planning a fundamental review of the formula once the commissioners have established and are able to engage in the review process. I am keen that the needs of the Welsh forces are fully represented through this review and I will look to engage further with the Minister of State to promote Welsh interests.

The Welsh Government made a unique commitment to supporting the police by investing over £40 million in the initial recruitment of 500 additional community support officers. Due to the hard work of our forces, the recruitment and training began ahead of schedule, and over 360 officers have now been deployed and are making a positive contribution to public safety. A vital part of their role is engaging with partners and community organisations to address anti-social behaviour and related criminal activity.

Mae gan heddluoedd yng Nghymru hanes ardderchog o gydweithio, ac maent yn cymryd rhan mewn agenda a rennir ar draws y gwasanaeth cyhoeddus i sicrhau arbedion effeithlonrwydd a hyrwyddo arloesedd wrth ddarparu gwasanaethau. Rwyf yn ystyried bod mwy o gydweithredu yn hanfodol i wella plismona a diogelwch cymunedol ar gyfer pobl Cymru.

Er bod y rhan fwyaf o agweddau plismona yn parhau heb eu datganoli, mae rhan sylweddol o gyllid yr heddlu yn cael ei ddarparu drwy grant cynnal refeniw Llywodraeth Cymru. Dyma'r cyllid y gofynnir i chi ei gymeradwyo heddiw. Fodd bynnag, mae'r darlun ariannu cyffredinol yn cael ei bennu gan y Swyddfa Gartref, a fydd yn darparu grantiau'r heddlu a chymorth refeniw ychwanegol fel nad oes yr un heddlu yng Nghymru yn derbyn gostyngiad mewn cyllid craidd o fwy na 1.6% yn 2013-14, o'i gymharu ag eleni.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cyfrannu i weinyddu mecanwaith gwaelodol fel y bydd pob heddlu yng Nghymru a Lloegr yn gweld yr un gostyngiad mewn cyllid craidd. Ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys a Heddlu Gogledd Cymru mae hyn yn golygu y byddant yn rhannu £13 miliwn o grant gwaelodol ychwanegol gan y Swyddfa Gartref i sicrhau nad yw eu cyllid yn gostwng mwy na 1.6%. Bydd y pedwar heddlu yng Nghymru yn derbyn cyllid craidd gan y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru, sef cyfanswm o £388 miliwn ar gyfer 2013-14, a chyfraniad Llywodraeth Cymru i hynny fydd £147.8 miliwn trwy grant cynnal refeniw a thrwy ailddosbarthu ardrethi annomestig cenedlaethol. Yn anffodus, nid oes unrhyw gyhoeddiadau am y cyllid wedi cael eu gwneud y tu hwnt i 2013-14. Rwyf yn gwerthfawrogi nad yw hyn yn ddefnyddiol i'r comisiynwyr o ran cynllunio yn y tymor canolig. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog Gwladol Plismona a Chyfiawnder Troseddol wedi gohirio cyhoeddi dyraniad 2014-15 er mwyn craffu ar gyllidebau'r Swyddfa Gartref yn dilyn datganiad yr hydref gan y Canghellor. Nid oes modd felly i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei gwybodaeth y tu hwnt i 2013-14 heb fanylion y cyllid a ddyrennir gan y Swyddfa Gartref.

Mae'r cyllid craidd yn cael ei ddosbarthu rhwng heddluoedd yn unol â'r fformiwla seiliedig ar anghenion a bennir gan y Swyddfa Gartref ac a ddefnyddir ar draws Cymru a Lloegr. Mae'r fformiwla hefyd yn pennu lefel yr adnoddau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cyfrannu at y setliad. Mae'r Ysgrifennydd Cartref yn bwriadu cynnal adolygiad sylfaenol o'r fformiwla ar ôl i'r comisiynwyr ymsefydlu a pan fyddant mewn sefyllfa i allu cymryd rhan yn y broses adolygu. Rwyf yn awyddus i anghenion heddluoedd Cymru gael eu cynrychioli'n llawn drwy'r adolygiad hwn, a byddaf yn ceisio ymgysylltu ymhellach â'r Gweinidog Gwladol i hyrwyddo buddiannau Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad unigryw i gefnogi'r heddlu trwy fuddsoddi dros £40 miliwn yn y broses gychwynnol o recriwtio 500 o swyddogion cymorth cymunedol ychwanegol. Oherwydd gwaith caled ein heddluoedd, dechreuodd y broses recriwtio a hyfforddi yn gynt na'r disgwyl, ac mae dros 360 o swyddogion bellach yn eu lle ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ddiogelwch y cyhoedd. Rhan hanfodol o'u swyddogaeth yw ymgysylltu â phartneriaid a sefydliadau cymunedol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithgareddau troseddol cysylltiedig.

The Welsh forces have an enviable record of working with public sector partners through community safety partnerships to tackle a range of issues in our communities, and I am also encouraged by the continued efforts that our forces seek in collaboration where possible.

Mae gan heddluoedd Cymru hanes rhagorol o weithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus drwy bartneriaethau diogelwch cymunedol i fynd i'r afael ag ystod o broblemau yn ein cymunedau, ac rwyf wedi fy nghalonogi hefyd gan ymdrechion parhaus ein heddluoedd i gydweithio lle bo hynny'n bosibl.

It is now for the newly elected commissioners to set their budgets and the council tax precepts for next year. I trust that they will act responsibly, working with their chief constables and finance officers to recognise the pressures on services, while giving reasonable consideration to the squeezed household finances of the residents they serve. I am prepared to use capping powers available to me should the need arise, but before doing so I will take into account all of the circumstances, not just the level of the precept in isolation. Average council tax in Wales remains around 20% lower than in England, and that is because of proportionality and the greater support that the Welsh Government provides for local spending.

Mae'n fater bellach i'n comisiynwyr etholedig newydd i bennu eu cyllidebau a phraeseptau'r dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf. Hyderaf y byddant yn ymddwyn yn gyfrifol, gan weithio gyda'u prif gwnstabliaid a swyddogion cyllid i gydnabod y pwysau ar wasanaethau, gan roi ystyriaeth resymol i'r pwysau sydd ar gyllid y trigolion y maent yn eu gwasanaethu. Rwy'n barod i ddefnyddio pwerau capio sydd ar gael i mi os bydd yr angen yn codi, ond cyn gwneud hynny byddaf yn ystyried yr holl amgylchiadau, nid dim ond lefel y praesept ar wahân. Mae'r dreth gyngor gyfartalog yng Nghymru yn parhau i fod tua 20% yn is nag yn Lloegr, ac mae hynny oherwydd cymesuredd a'r cymorth mwy y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu ar gyfer gwariant lleol.

I am confident that by building on our track record of working together and by maintaining the momentum in establishing a collaborative partnership across Wales, we can deliver real benefits for the citizen and community safety.

Rwyf yn hyderus y gallwn sicrhau manteision gwirioneddol i ddinasyddion a diogelwch cymunedau trwy adeiladu ar ein hanes o weithio gyda'n gilydd, a thrwy gynnal y momentwm i sefydlu partneriaeth gydweithredol ar draws Cymru.

17:29

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Police budgets are a three-way process, with contributions from the Home Office, the Welsh Government and police precepts paid by council tax payers. As we have heard in the Home Office announcement of the final settlement for policing in England and Wales, no Welsh police force area will receive a decrease of more than 1.57% in 2013-14. The Welsh Government revenue support grant, as then distributed, ensures that if each police and crime commissioner had a budget requirement at the level of its standard spending assessment, each could set broadly the same police precept for properties in the same council tax valuation band.

Mae cyllidebau'r heddlu yn broses tair ffordd, gyda chyfraniadau gan y Swyddfa Gartref, Llywodraeth Cymru a phraeseptau'r heddlu gan y rhai sy'n talu'r dreth gyngor. Fel yr ydym wedi clywed yng nghyhoeddiad y Swyddfa Gartref ynglŷn â'r setliad terfynol ar gyfer plismona yng Nghymru a Lloegr, ni fydd yr un ardal heddlu yng Nghymru yn derbyn gostyngiad o fwy na 1.57% yn 2013-14. Mae grant cynnal refeniw Llywodraeth Cymru, fel y'i dosberthir bryd hynny, yn sicrhau y gallai pob comisiynydd heddlu a throseddu osod yr un praesept heddlu, yn fras, ar gyfer eiddo yn yr un band prisio'r dreth gyngor, pe byddai gofynion cyllideb pob un ar yr un lefel â'i asesiad o wariant safonol.

As we heard, the Welsh Government has previously capped police precept increases, and it is noted that the highest rise in police precepts among the 41 forces of England and Wales is the 7% put forward by the new Labour police and crime commissioner for south Wales. This contrasts with the 3.98% increase put forward by north Wales's independent commissioner, the 3.9% proposed by Dyfed-Powys's Welsh Conservative commissioner, and the 2.66% proposed by Gwent's independent commissioner. In monetary terms, this means a band D increase of £11.86 per year in south Wales, compared with £8.55 in north Wales, £8 in Dyfed-Powys and £5.14 in Gwent.

Fel y clywsom, mae Llywodraeth Cymru wedi capio cynnydd mewn praeseptau'r heddlu o'r blaen, a nodir mai'r cynnydd mwyaf mewn praeseptau'r heddlu ymhlith y 41 heddlu yng Nghymru a Lloegr yw'r 7% a gyflwynwyd gan gomisiynydd heddlu a throseddu newydd Llafur ar gyfer de Cymru. Mae hyn yn cyferbynnu â'r cynnydd o 3.98% a gynigiwyd gan gomisiynydd annibynnol gogledd Cymru, y 3.9% a gynigiwyd gan gomisiynydd Ceidwadwyr Cymreig Heddlu Dyfed-Powys, a'r 2.66% a gynigiwyd gan gomisiynydd annibynnol Gwent. Mewn termau ariannol, mae hyn yn golygu cynnydd band D o £11.86 y flwyddyn yn ne Cymru, o'i gymharu â £8.55 yng ngogledd Cymru, £8 yn Nyfed-Powys a £5.14 yng Ngwent.

Figures released by the Home Office last month showed that crime in Wales fell 7% last year. The biggest drop was in Gwent, down 20% in the area now facing the smallest precept increase. This is compared with a 5% crime reduction in south Wales and a 2% crime reduction in north Wales and Dyfed-Powys. Based on these figures alone, we will therefore oppose the Welsh Government's motion. However, during evidence to the Communities, Equalities and Local Government Committee inquiry into community safety, I referred to the two committee inquiries held during the second Assembly—in which I took part—into the then proposed police merger. These inquiries found that a merger of Welsh police forces would have not only generated deficits of between £78 million and £120 million by 2012, but required an equalisation of police precepts, meaning higher increases in south Wales and lower increases elsewhere. The Association of Chief Police Officers Cymru replied in committee that the funding differences were still there, and the chair of the Police Authorities of Wales said that there was still a will to equalise, but that this had been prevented by Welsh Government—this was in 2011. In this context, I note that, even after the precept increases from April, the annual cost to a band D property in south Wales of £181.28 will still be significantly behind Gwent on £198.23, Dyfed-Powys on £206, and north Wales on £223.11. On this basis, we shall abstain on this motion, although we note that the better performing police force areas are those with the lower precepts.

Mae ffigurau a ryddhawyd gan y Swyddfa Gartref y mis diwethaf yn dangos bod troseddu yng Nghymru wedi gostwng 7% y llynedd. Roedd y gostyngiad mwyaf yng Ngwent, i lawr 20% yn yr ardal sydd bellach yn wynebu'r cynnydd lleiaf mewn praesept. Mae hyn yn cymharu â gostyngiad mewn troseddu o 5% yn ne Cymru a gostyngiad mewn troseddu o 2% yng ngogledd Cymru a Dyfed-Powys. Yn seiliedig ar y ffigurau hyn yn unig, byddwn felly'n gwrthwynebu cynnig Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, yn ystod tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldebau a Llywodraeth Leol i ddiogelwch cymunedol, cyfeiriais at y ddau ymchwiliad pwyllgor a gynhaliwyd yn ystod yr ail Gynulliad—y cymerais ran ynddynt—i'r cynnig i uno'r heddluoedd. Canfu'r ymchwiliadau hyn y byddid wedi cynhyrchu diffygion o rhwng £78 miliwn a £120 miliwn erbyn 2012 trwy uno heddluoedd Cymru, ond y byddai hefyd yn gofyn am wneud praeseptau'r heddlu yn fwy cydradd. Byddai hyn yn golygu cynnydd uwch yn ne Cymru a chodiadau is mewn mannau eraill. Atebodd Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru yn y pwyllgor bod y gwahaniaethau cyllid yn dal i fodoli, a dywedodd cadeirydd Awdurdodau Heddlu Cymru bod yr ewyllys yn dal i fodoli i sicrhau praeseptau cydradd, ond bod Llywodraeth Cymru wedi atal hynny—roedd hyn yn 2011. Yn y cyd-destun hwn, nodaf y bydd y gost flynyddol i eiddo Band D yn ne Cymru, sef £181.28, yn dal i fod yn sylweddol is nag yng Ngwent ar £198.23, Dyfed-Powys ar £206, a gogledd Cymru ar £223.11, hyd yn oed ar ôl y cynnydd mewn praesept o fis Ebrill. Ar y sail hon, byddwn yn ymatal ar y cynnig hwn, er ein bod yn nodi mai'r ardaloedd heddlu sy'n perfformio orau yw'r rhai â'r praeseptau is.

Shadow UK Minister for police, David Hanson, has criticised police budget reductions, despite Labour backing equivalent cuts. Labour-planned cuts of around 12%, and Labour's March 2010 UK budget, had included police funding reductions of £545 million by 2014. Labour has also supported savings proposed by Her Majesty's Inspectorate of Constabulary and the Police Arbitration Tribunal, which essentially matched the UK Government's own plans to make savings from police budgets over this UK Parliament. The previous UK Labour Government did spend record sums on policing, but Hansard records that just 14% of police officer time was spent on patrol, compared with 22% on paperwork.

Mae Gweinidog gwrthblaid y DU dros yr heddlu, David Hanson, wedi beirniadu'r gostyngiadau yng nghyllideb yr heddlu, er bod Llafur yn gefnogol i doriadau cyfatebol. Roedd toriadau a gynlluniwyd gan Lafur o tua 12%, a chyllideb Llafur ar gyfer y DU ym mis Mawrth 2010, wedi cynnwys gostyngiadau i gyllid yr heddlu o £545 miliwn erbyn 2014. Mae Llafur hefyd wedi cefnogi arbedion a gynigiwyd gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a Thribiwnlys Cyflafareddu'r Heddlu, sydd yn eu hanfod yn cyfateb i gynlluniau Llywodraeth y DU ei hun i arbed arian ar gyllidebau'r heddlu yn ystod Senedd hon y DU. Gwariodd Llywodraeth Lafur flaenorol y DU symiau uwch nag erioed ar blismona, ond mae Hansard yn cofnodi mai dim ond 14% o amser swyddogion heddlu oedd yn cael ei dreulio ar batrôl, o'i gymharu â 22% ar waith papur.

The July 2012 HMIC report, 'Policing in austerity: One year on', states that

Mae adroddiad mis Gorffennaf 2012 Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, 'Policing in austerity: One year on', yn nodi bod

'Police forces have risen to the financial challenge, cutting their spending while largely maintaining the service they provide the public',

heddluoedd wedi ymateb i'r her ariannol, gan dorri eu gwariant a chynnal y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu i'r cyhoedd, ar y cyfan,

and that the overall level of victim satisfaction among members of the public who had contacted the police had increased. Shadow UK Minister for police, David Hanson, has questioned whether reductions in police-recorded crime are being exaggerated, but crime has fallen in the figures for police-recorded crime and in the separate crime survey for England and Wales that records people's experiences of crime. The crime survey in fact reports that people's experience of crime fell by 8% in the year to last September—to its lowest level since the survey began. In other words—

a bod lefel gyffredinol bodlonrwydd dioddefwyr ymhlith aelodau o'r cyhoedd a oedd wedi cysylltu â'r heddlu wedi cynyddu. Mae Gweinidog gwrthblaid y DU dros yr heddlu, David Hanson, wedi cwestiynu a yw gostyngiadau mewn troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yn cael eu gorliwio, ond mae troseddau wedi gostwng yn ôl y ffigurau a gofnodwyd gan yr heddlu ac yn yr arolwg troseddu ar wahân ar gyfer Cymru a Lloegr sy'n cofnodi profiadau pobl o drosedd. Yn wir, mae'r arolwg o droseddau yn nodi bod profiad pobl o drosedd wedi gostwng 8% yn y flwyddyn hyd at fis Medi diwethaf—i'w lefel isaf ers i'r arolwg ddechrau. Mewn geiriau eraill—

17:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Time is up.

Trefn. Amser ar ben.

17:34 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

—effective policing is not just about how much money you spend, but how well you serve.

—mae plismona effeithiol yn golygu mwy na faint o arian yr ydych yn ei wario, mae'n golygu pa mor dda yr ydych yn gwasanaethu.

17:34 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have a couple of things, to follow on from what Mark Isherwood has said. Every single one of us —certainly all my constituents—wants a police officer when we have a problem. They want and expect a police officer to turn up when they have a problem. South Wales does have certain peculiarities. First, it has a capital city. There are only two other such places on mainland Britain, namely London and Edinburgh, and there is also Belfast. It has a capital city and all the things that are associated with having a capital city, including the cost. There is a whole range of problems relating to the south Wales police force that do not exist in the rest of Wales. That was just in reply to Mark Isherwood.

Mae gen' i gwpl o bethau, i ddilyn ymlaen o'r hyn a ddywedodd Mark Isherwood. Mae pob un ohonom—yn sicr fy holl etholwyr i—eisiau swyddog heddlu pan fydd gennym broblem. Maent yn dymuno ac yn disgwyl i swyddog heddlu ymddangos pan fydd ganddynt broblem. Mae gan Dde Cymru nodweddion penodol. Yn gyntaf, mae yno brifddinas. Dim ond dau le arall yr un fath sydd ar dir mawr Prydain, sef Llundain a Chaeredin, ac mae Belfast hefyd. Mae yno brifddinas a'r holl bethau sy'n gysylltiedig â chael prifddinas, gan gynnwys y gost. Ceir ystod eang o broblemau sy'n ymwneud â Heddlu De Cymru nad ydynt yn bodoli yng ngweddill Cymru. Roedd hynny mewn ymateb i Mark Isherwood yn unig.

The police settlement for 2013-14 is a challenging one for the police service and the new police and crime commissioners. It will require difficult choices to try to protect front-line policing, which I am sure will not be fully protected because the money is not there. The Tory-led and Liberal Democrat-supported UK Government is implementing policing cuts of 20%, which, as I have said about a huge number of other Tory cuts, go too far, too fast—like most of the other cuts we have been talking about. These Tory-driven cuts make the current settlement the worst for the police in my lifetime and perhaps the worst since the police strikes of 1918 and 1919. The latest figures already show the biggest fall in police numbers in decades, with 487 fewer officers in Wales since the last general elections. There are 487 fewer police officers available when people have problems. The Tory-led Government's 20% cut—more than £2 billion over the spending review period—from central Government funding to the police goes much further than the last Labour UK Government's equivalent plan to find savings of around 12%—some £1 billion. It it almost twice as much.

Mae setliad yr heddlu ar gyfer 2013-14 yn un heriol ar gyfer y gwasanaeth heddlu a chomisiynwyr newydd yr heddlu a throseddu. Bydd yn rhaid gwneud dewisiadau anodd i geisio amddiffyn plismona rheng flaen, ac rwyf yn sicr na chaiff ei warchod yn llawn gan nad yw'r arian ar gael. Mae Llywodraeth y DU dan arweiniad y Toriaid gyda chefnogaeth y Democratiaid Rhyddfrydol yn gweithredu toriadau o 20% ym maes plismona, sydd, fel yr wyf wedi ei ddweud am nifer fawr o doriadau eraill y Toriaid, yn mynd yn rhy bell, yn rhy gyflym—fel y rhan fwyaf o'r toriadau eraill yr ydym wedi bod yn siarad amdanynt. Mae'r toriadau a sbardunir gan y Toriaid yn golygu mai'r setliad presennol yw'r gwaethaf ar gyfer yr heddlu yn fy oes i ac efallai'r gwaethaf ers streic yr heddlu ym 1918 a 1919. Mae'r ffigurau diweddaraf eisoes yn dangos y gostyngiad mwyaf yn niferoedd yr heddlu mewn degawdau, gyda 487 yn llai o swyddogion yng Nghymru ers yr etholiadau cyffredinol diwethaf. Mae 487 yn llai o swyddogion heddlu ar gael pan fydd pobl yn cael problemau. Mae toriad y Llywodraeth dan arweiniad y Toriaid o 20%—mwy na £2 biliwn dros gyfnod yr adolygiad o wariant—i gyllid i'r heddlu gan Lywodraeth ganolog yn mynd ymhellach o lawer na chynllun cyfatebol Llywodraeth Lafur ddiwethaf y DU i arbed tua 12%—rhyw £1 biliwn. Mae bron yn ddwywaith cymaint.

Her Majesty's Inspectorate of Constabulary said that Labour's plans could be achieved without impacting on the front line. The Conservative Government is implementing cuts of 20%, which is too far, too fast and will affect the front line. It will affect the availability of police when people need them. You can contrast that with what was said prior to the 2010 general election. What did David Cameron say? He said

Dywedodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi y gellid gweithredu cynlluniau Llafur heb effeithio ar y rheng flaen. Mae'r Llywodraeth Geidwadol yn gweithredu toriadau o 20%, sy'n rhy bell, yn rhy gyflym a bydd yn effeithio ar y rheng flaen. Bydd yn effeithio ar y graddau y bydd yr heddlu ar gael pan fydd ar bobl eu hangen. Gallwch gyferbynnu hynny â'r hyn a ddywedwyd cyn etholiad cyffredinol 2010. Beth ddywedodd David Cameron? Dywedodd

'What I can tell you is any cabinet minister if I win the election, if we win the election, who comes to me and says, "Here are my plans" and they involve frontline reductions, they will be sent straight back to their department to go away and think again.'

Yr hyn y gallaf ei ddweud wrthych yw y bydd unrhyw weinidog cabinet os byddaf yn ennill yr etholiad, os ydym yn ennill yr etholiad, sy'n dod ataf ac yn dweud, "Dyma fy nghynlluniau" a'u bod yn cynnwys gostyngiadau i'r rheng flaen, bydd yn cael ei anfon yn syth yn ôl i'r adran i ailfeddwl.

It gets better, though. The Liberal Democrats also promised 3,000 more police officers for the UK:

Mae gwell i ddod hyd yn oed. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol hefyd wedi addo 3,000 yn fwy o swyddogion yr heddlu ar gyfer y DU:

'Two things: firstly, quite simply, more police on our streets. This government wants to waste billions of your money on an ID card system so you have to pay for the privilege of having lots of your own details on a piece of plastic card that you carry around. For pretty well exactly the amount of money, your money, that the government is pouring into that, we could put 3,000 more police officers on the streets.'

Dau beth: yn gyntaf, yn syml iawn, mwy o heddlu ar ein strydoedd. Mae'r llywodraeth hon am wastraffu biliynau o'ch arian ar system cerdyn adnabod er mwyn i chi orfod talu am y fraint o gael llawer o'ch manylion eich hun ar ddarn o gerdyn plastig yr ydych yn ei gario o gwmpas. Am yr un swm o arian bron, eich arian chi, y mae'r llywodraeth yn ei arllwys i mewn i hynny, gallem roi 3,000 yn fwy o swyddogion heddlu ar y strydoedd.

That was Nick Clegg in the leaders' debate on 15 April 2010. Now, not even Nick Clegg agrees with Nick Clegg. In the 1980s and 1990s, during the last period of Tory slash-and-burn policies towards the public sector, the police service was excluded from the cuts. They were kept going because it was seen that you need to keep people safe. The Welsh Labour Government, on the other hand, is implementing Labour's manifesto commitment to invest in keeping our communities safe by funding 500 new police community safety officers across Wales during this Assembly term and by protecting the community safety budget with £16.7 million of revenue and £2.6 million of capital funding planned for next year. The thin blue line that protects us from anarchy is under threat. As someone who watched 'Dixon of Dock Green' as a child, I can see a remake where George Dixon is told, 'You have done a good job, but you have doing it for 30 years now, so you have to retire.' [Interruption.]

Dyna ddywedodd Nick Clegg yn nadl yr arweinwyr ar 15 Ebrill 2010. Bellach, nid yw hyd yn oed Nick Clegg yn cytuno gyda Nick Clegg. Yn y 1980au a'r 1990au, yn ystod y cyfnod diwethaf o bolisïau torri a llosgi'r Toriaid tuag at y sector cyhoeddus, cafodd y gwasanaeth heddlu ei eithrio o'r toriadau. Cawsant eu gwarchod oherwydd y gwelwyd bod angen i chi gadw pobl yn ddiogel. Mae Llywodraeth Lafur Cymru, ar y llaw arall, yn gweithredu ymrwymiad maniffesto Llafur i fuddsoddi i gadw ein cymunedau yn ddiogel drwy ariannu 500 swyddog diogelwch cymunedol newydd yr heddlu ledled Cymru yn ystod tymor y Cynulliad hwn a thrwy amddiffyn y gyllideb diogelwch cymunedol gyda £16.7 miliwn o gyllid refeniw a £2.6 miliwn o gyllid cyfalaf wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r llinell las gul sy'n ein diogelu ni rhag anarchiaeth dan fygythiad. Fel rhywun oedd yn gwylio 'Dixon of Dock Green' fel plentyn, gallaf weld fersiwn newydd lle y dywedir wrth George Dixon, 'Rydych wedi gwneud gwaith da, ond rydych wedi gwneud hyn am 30 mlynedd bellach, felly mae'n rhaid i chi ymddeol.' [Torri ar draws.]

17:38

## Y Llywydd / The Presiding Officer
Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Order. Just carry on.

Trefn. Ewch yn eich blaen.

17:38

## Mike Hedges
Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The police and crime commissioners are left with the choice of increasing taxes or further cutting police numbers. The sad thing is that whichever they do, those causing the cuts will blame them for it. We need a whole new attitude from Westminster on policing and keeping our people safe.

Mae'r comisiynwyr heddlu a throseddu yn cael eu gadael gyda'r dewis o gynyddu trethi neu dorri niferoedd yr heddlu ymhellach. Y peth trist yw pa un bynnag y maent yn ei wneud, y bydd y rhai sy'n achosi'r toriadau'n eu beio am hynny. Mae angen agwedd hollol newydd gan San Steffan at blismona a chadw ein pobl yn ddiogel.

17:39 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The police settlement is often a matter of great interest, but particularly so this year following the introduction of the new police and crime commissioners. The four police and crime commissioners were elected in November and they have recently set their first ever police precepts. Plaid Cymru did not contest these elections because we did not agree with the party politicisation of policing that they represented. The turnout in November was low, showing that most people agreed with Plaid Cymru's position. The elections were a waste of money and time when police forces are in the serious position of facing substantial cuts to front-line services.

Mae setliad yr heddlu yn aml yn fater o ddiddordeb mawr, ond yn arbennig felly eleni yn dilyn cyflwyno'r comisiynwyr heddlu a throseddu newydd. Cafodd y pedwar comisiynydd heddlu a throseddu eu hethol ym mis Tachwedd ac maent yn ddiweddar wedi gosod eu praeseptau heddlu cyntaf erioed. Penderfynodd Plaid Cymru beidio ag ymladd yr etholiadau hyn oherwydd nad oeddem yn cytuno â'r hyn yr oeddent yn eu cynrychioli, sef gwneud plismona'n fater pleidiol wleidyddol. Roedd y nifer a bleidleisiodd ym mis Tachwedd yn isel, gan ddangos bod y rhan fwyaf o bobl yn cytuno â safbwynt Plaid Cymru. Roedd yr etholiadau yn wastraff arian ac amser pan mae heddluoedd yn y sefyllfa ddifrifol o wynebu toriadau sylweddol i wasanaethau rheng flaen.

In the Rhondda, we no longer have any custody suite facilities. Officers have to travel long distances within their shifts, and I know of similar situations elsewhere, too. These cuts put communities at risk, but where has the UK Government's focus been? It has been on the police commissioners that people have no appetite for. Where we previously had a police authority for each of the four police forces, we now have police and crime commissioners building empires with new assistants and deputies, and, of course, scrutinising them is a police and crime panel. How can this be argued to represent a simplification of the policing system? How can it be argued that the system is more responsive to the public? I do not think that it can.

Yn y Rhondda, nid oes gennym unrhyw ddalfa erbyn hyn. Mae swyddogion yn gorfod teithio pellteroedd hir o fewn eu sifftiau, ac rwyf yn gwybod am sefyllfaoedd tebyg mewn mannau eraill, hefyd. Mae'r toriadau hyn yn rhoi cymunedau mewn perygl, ond lle mae ffocws Llywodraeth y DU wedi bod? Mae wedi bod ar gomisiynwyr heddlu nad oes gan bobl unrhyw awydd amdanynt. Lle'r oedd gennym awdurdod heddlu ar gyfer pob un o'r pedwar heddlu o'r blaen, mae gennym bellach gomisiynwyr yr heddlu a throseddu sy'n adeiladu ymerodraethau gyda chynorthwywyr a dirprwyon newydd, ac, wrth gwrs, banel heddlu a throseddu yn craffu arnynt. Sut y gellir dadlau bod hyn yn symleiddio'r system blismona? Sut y gellir dadlau bod y system yn fwy ymatebol i'r cyhoedd? Nid wyf yn credu y gellir.

Not many people will be shocked to hear that the devolution of policing will be part of Plaid Cymru's submission to part 2 of the Commission on Devolution in Wales. The transfer of powers over policing to the Welsh Government is the right thing to do. We would take decisions here and scrutinise the Welsh police here. The police and crime commissioners are not necessary, so they should be scrapped and the savings reinvested in front-line policing: in officers and the police stations that have closed.

Ni fydd llawer o bobl yn synnu o glywed y bydd datganoli plismona yn rhan o gyflwyniad Plaid Cymru i ran 2 y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru. Trosglwyddo pwerau dros blismona i Lywodraeth Cymru yw'r peth iawn i'w wneud. Byddem yn gwneud penderfyniadau yma a chraffu ar heddlu Cymru yma. Nid yw'r comisiynwyr heddlu a throseddu yn angenrheidiol, felly dylid eu dileu, ac ailfuddsoddi'r arian a arbedir mewn plismona rheng flaen: yn y swyddogion a'r gorsafoedd heddlu sydd wedi cau.

Following yesterday's release of its submission to the Silk commission, I welcome the Welsh Government's position that policing should be devolved. That is a significant change in its stance given that it argued strongly against this in the Welsh general election of 2011. At that time, the Minister said that a devolved police force would not help Wales in the fight against terrorism, domestic violence and drug abuse. A similar line was taken by the Labour MP who is the shadow police Minister this morning on Radio Wales. Labour is all over the place on this. Are Labour MPs seriously suggesting that our police force would be better off in the hands of Tory Ministers in London than Welsh Ministers here in Cardiff bay? It is staggering if that is their position. With police and criminal justice already in the hands of Ministers in Scotland and Northern Ireland, there is no principle or practice that prevents the transfer of these powers to Wales.

Ar ôl rhyddhau ei chyflwyniad i gomisiwn Silk ddoe, croesawaf safbwynt Llywodraeth Cymru y dylai plismona gael ei ddatganoli. Mae hynny'n newid sylweddol yn ei safiad gan iddi ddadlau'n gryf yn erbyn hyn yn etholiad cyffredinol Cymru yn 2011. Ar y pryd, dywedodd y Gweinidog na fyddai heddlu datganoledig yn helpu Cymru yn y frwydr yn erbyn terfysgaeth, trais domestig a chamddefnyddio cyffuriau. Cymerwyd safbwynt tebyg gan yr AS Llafur sef Gweinidog heddlu'r wrthblaid y bore yma ar Radio Wales. Mae Llafur dros y lle i gyd ar hyn. A yw ASau Llafur o ddifrif yn awgrymu y byddai ein heddlu yn well eu byd yn nwylo Gweinidogion Torïaidd yn Llundain na Gweinidogion Cymru yma ym mae Caerdydd? Mae'n syfrdanol os mai dyna yw eu safbwynt. Gyda'r heddlu a chyfiawnder troseddol eisoes yn nwylo Gweinidogion yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, nid oes unrhyw egwyddor nac arfer sy'n atal y pwerau hyn rhag cael eu trosglwyddo i Gymru.

I will take an intervention, Byron.

Fe gymeraf ymyriad, Byron.

17:42 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

From what you have just said, I would suggest that you have no understanding of the complexities of these things, particularly with intelligence and organised crime. Do you not agree?

O'r hyn yr ydych newydd ei ddweud, byddwn yn awgrymu nad oes gennych unrhyw ddealltwriaeth o gymhlethdodau'r materion hyn, yn enwedig o ran gwybodaeth a throsedd gyfundrefnol. Onid ydych yn cytuno?

17:42 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are you expecting a serious answer to that question?

A ydych chi'n disgwyl ateb difrifol i'r cwestiwn hwnnw?

17:42 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Ydw.

17:42 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Policing in Wales faces some serious challenges; that is something I do understand. Lowering officers' wages while spending money on unnecessary elections and bureaucracy makes no sense. The damaging Windsor review, which will not be implemented in Scotland, proposes changes to the retirement age and police pensions. These changes are a weakening of workers' rights, but unlike many other workers, who can register protest, the hands of the police are tied.

Mae plismona yng Nghymru yn wynebu rhai heriau difrifol; mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn ei ddeall. Nid yw'n gwneud synnwyr i ostwng cyflogau swyddogion a gwario arian ar etholiadau a biwrocratiaeth diangen. Mae'r adolygiad Windsor niweidiol, na fydd yn cael ei roi ar waith yn yr Alban, yn cynnig newidiadau i oedran ymddeol a phensiynau'r heddlu. Mae'r newidiadau hyn yn gwanhau hawliau gweithwyr, ond yn wahanol i weithwyr eraill, sy'n gallu cofrestru eu protest, mae dwylo'r heddlu wedi cael eu clymu.

The Welsh Government should undoubtedly push to take over responsibility for policing so that, like the Scottish Government, our Government could reject the Windsor proposals. I sincerely hope that agreement on this can be swift, so that we can protect policing in Wales. The future of Welsh policing does not look bright, especially if it is left in London's hands.

Dylai Llywodraeth Cymru'n ddi-os wthio i gymryd drosodd y cyfrifoldeb dros blismona er mwyn i'n Llywodraeth ni, fel Llywodraeth yr Alban, allu gwrthod cynigion Windsor. Rwy'n mawr obeithio y gellir dod i gytundeb ar hyn yn gyflym, fel y gallwn warchod plismona yng Nghymru. Nid yw dyfodol plismona yng Nghymru yn edrych yn ddisglair, yn enwedig os yw'n cael ei adael yn nwylo Llundain.

17:43 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As Mike Hedges has pointed out to me by e-mail, George Dixon was resurrected for the tv series, having been shot in the film 'The Blue Lamp'. However, let us move on from that.

Fel y mae Mike Hedges wedi tynnu fy sylw drwy e-bost, cafodd George Dixon ei atgyfodi ar gyfer y gyfres deledu, ar ôl cael ei saethu yn y ffilm 'The Blue Lamp'. Fodd bynnag, gadewch inni symud ymlaen o hynny.

We have heard a catalogue, particularly from Leanne Wood, of the conditions and what is happening in terms of South Wales Police and other police forces regarding their property, the way they are being funded, et cetera. Five or six years ago, along with a number of other Assembly Members, I attended briefings from South Wales Police about the problems they faced with regard to finances. We were told that the vast majority of the police estate was not fit for purpose, that police stations would need to close, that there were financial problems that needed to be addressed, and, at that point, they sought the sort of 7% council tax increase that Alun Michael has just imposed in the South Wales Police area. However, the then Labour Minister who was responsible—I think it was Brian Gibbons—changed the capping rules and prevented it from doing that, so south Wales is capped in a different way to England. If it had gone with the English capping rules, it would have been able to increase council tax at that point and it would be in a much more secure financial footing now having made that decision earlier, when people were in a better position to pay for it that they are now because of the recession. There are important points there in terms of lessons in how we approach this.

Rydym wedi clywed rhestr, yn enwedig gan Leanne Wood, o'r amgylchiadau a'r hyn sy'n digwydd o ran Heddlu De Cymru a heddluoedd eraill ynghylch eu heiddo, y ffordd y maent yn cael eu hariannu, ac ati. Rhyw bump neu chwe blynedd yn ôl mynychais i, ynghyd â nifer o Aelodau eraill o'r Cynulliad, sesiynau briffio gan Heddlu De Cymru am y problemau yr oeddent yn eu hwynebu o safbwynt cyllid. Dywedwyd wrthym nad oedd mwyafrif helaeth o ystâd yr heddlu yn addas at y diben, y byddai angen cau gorsafoedd heddlu, a bod problemau ariannol yr oedd angen mynd i'r afael â nhw. Ar yr adeg honno, roeddent yn gofyn am gynnydd o 7% yn y dreth gyngor, fel y mae Alun Michael newydd ei bennu yn ardal Heddlu De Cymru. Fodd bynnag, newidiwyd y rheolau capio gan y Gweinidog Llafur a oedd yn gyfrifol bryd hynny—Brian Gibbons, rwy'n credu—a'i atal rhag gwneud hynny, felly mae de Cymru yn cael ei gapio mewn ffordd wahanol i Loegr. Pe bai wedi dilyn rheolau capio Lloegr, byddai wedi gallu cynyddu'r dreth gyngor ar yr adeg honno a byddai mewn sefyllfa ariannol lawer mwy diogel yn awr wedi gwneud y penderfyniad hwnnw yn gynharach, pan oedd pobl mewn sefyllfa well i dalu amdano nag y maent yn awr oherwydd y dirwasgiad. Ceir pwyntiau pwysig o ran gwersi ynglŷn â'r ffordd yr ydym yn ymdrin â hyn.

The Minister said in his speech that, now he has given police commissioners their budgets, he expects them to set their council tax and be responsible for that. I think that all of them have already set their council tax. Three of the four have kept it at around the level of inflation. However, south Wales has seen an increase of virtually twice the level of inflation, at 7%. That is despite the fact, as has already been pointed out, that it has a deputy commissioner earning £65,000 a year and it spent £3,000 on logos et cetera. You begin to wonder where its priorities are in terms of how it is spending its money, but that is a matter for it. As has been pointed out, the commissioners are democratically elected and it is not for us to interfere in that decision. There is no doubt that they will respond on those issues when it comes to re-election.

Dywedodd y Gweinidog yn ei araith ei fod wedi rhoi eu cyllidebau i gomisiynwyr yr heddlu, a'i fod nawr yn disgwyl iddynt osod eu treth gyngor a bod yn gyfrifol am hynny. Credaf fod pob un ohonynt eisoes wedi gosod eu treth gyngor. Mae tri o'r pedwar wedi ei chadw o gwmpas lefel chwyddiant. Fodd bynnag, mae de Cymru wedi gweld cynnydd o bron ddwywaith lefel chwyddiant, sef 7%. Mae hynny er gwaethaf y ffaith, fel sydd wedi'i nodi, bod ganddo ddirprwy gomisiynydd sy'n ennill £65,000 y flwyddyn a'i fod wedi gwario £3,000 ar logos ac ati. Rydych yn dechrau meddwl tybed beth yw ei flaenoriaethau o ran sut y mae'n gwario ei arian, ond mae hynny'n fater iddo ef. Fel y nodwyd, mae'r comisiynwyr yn cael eu hethol yn ddemocrataidd ac nid mater i ni yw ymyrryd yn y penderfyniad hwnnw. Nid oes amheuaeth y byddant yn ymateb ar y materion hynny pan ddaw'n bryd eu hailethol.

17:46

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The positions they are in were set up by an Act of Parliament that your party helped to pass.

Cafodd y swyddi y maent ynddynt eu sefydlu gan Ddeddf Seneddol y cynorthwyodd eich plaid chi i'w phasio.

17:46

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yes; you are absolutely right. They were democratically elected, but the people making the decisions are those who were elected. It is no coincidence that the only Labour commissioner in Wales put up council tax at twice the rate of the other police commissioners in Wales. One of the reasons for that is that a decision was taken by the Welsh Government around four, five or six years ago, when south Wales wanted to put itself on a more secure financial footing. That is also the case in terms of the way in which they are funded.

Ydych, rydych yn llygad eich lle. Cawsant eu hethol yn ddemocrataidd, ond y bobl sy'n gwneud y penderfyniadau yw'r rhai a gafodd eu hethol. Nid yw'n gyd-ddigwyddiad bod yr unig gomisiynydd Llafur yng Nghymru wedi codi'r dreth gyngor ar ddwywaith cyfradd comisiynwyr eraill yr heddlu yng Nghymru. Un o'r rhesymau am hynny yw fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniad tua phedair, pump neu chwe blynedd yn ôl, pan oedd heddlu De Cymru'n dymuno'i roi ei hun ar seiliau ariannol cadarnach. Mae hynny hefyd yn wir o ran y ffordd y maent yn cael eu hariannu.

Mike has referred to the cuts made by the coalition Government. The amount of money going to all four police authorities has reduced since 2010, but, as was pointed out by Mark Isherwood, crime has dropped. The idea of the thin blue line struggling to maintain order is not borne out by the results. During the last year of the Labour Government, 2009-10, it cut police funding. It was planning cuts to UK spending on roughly the same par as the coalition Government is now introducing. There is no indication that it would have excepted the police any more than the current Government is doing.

Mae Mike wedi cyfeirio at y toriadau a wnaed gan y Llywodraeth glymblaid. Mae'r swm o arian sy'n mynd i bob un o'r pedwar awdurdod heddlu wedi gostwng ers 2010, ond, fel y dywedodd Mark Isherwood, mae troseddu wedi gostwng. Nid yw'r syniad o linell las gul sy'n brwydro i gadw trefn yn cael ei gadarnhau gan y canlyniadau. Yn ystod blwyddyn olaf y Llywodraeth Lafur, 2009-10, torrwyd cyllid yr heddlu. Roedd yn bwriadu torri gwariant y DU ar fwy neu lai'r un lefel ag y mae'r Llywodraeth glymblaid yn awr yn ei chyflwyno. Nid oes unrhyw arwydd y byddai wedi eithrio'r heddlu'n fwy nag y mae'r Llywodraeth bresennol yn ei wneud.

It is apt that we are discussing this the day after the First Minister called for the devolution of policing. Home Office funding affects devolved responsibilities, because if it cuts its funding, issues like community safety and domestic violence may not be funded to the level that we want. It is very important that we get control of those budgets, and my party is very much behind that particular initiative.

Mae'n briodol ein bod yn trafod hyn y diwrnod ar ôl i'r Prif Weinidog alw am ddatganoli plismona. Mae cyllid y Swyddfa Gartref yn effeithio ar gyfrifoldebau datganoledig, oherwydd na fydd materion fel diogelwch cymunedol a thrais domestig yn cael eu hariannu ar y lefel yr ydym yn ei dymuno os torrir y cyllid. Mae'n bwysig iawn ein bod yn cael rheolaeth dros y cyllidebau hynny, ac mae fy mhlaid yn gefnogol iawn i'r fenter benodol honno.

The Minister referred to the funding formula review. There are some difficult issues with regard to the funding formula in Wales that have to be taken into account, such as rurality, the fact that Cardiff is a capital city, and a whole range of other issues, including the fact that, often, when police forces in Birmingham and Merseyside are funded for special projects they top-slice funding for Welsh forces to do that. All of that has to be addressed as part of that review. We have to make sure that Welsh forces are protected as part of that. I will be looking to the Minister to come back with a statement on that and to inform the committee so that we can be kept abreast of what is happening as part of that review.

Cyfeiriodd y Gweinidog at yr adolygiad o'r fformiwla ariannu. Mae'n rhaid ystyried rhai materion anodd o ran y fformiwla ariannu yng Nghymru, megis natur wledig y wlad, y ffaith bod Caerdydd yn brifddinas, ac ystod eang o faterion eraill gan gynnwys y ffaith y caiff cyllid heddluoedd yng Nghymru ei frigdorri yn aml er mwyn cyllido prosiectau arbennig gan heddluoedd yn Birmingham a Glannau Mersi. Rhaid rhoi sylw i bob un o'r rhain fel rhan o'r adolygiad hwnnw. Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod heddluoedd Cymru yn cael eu diogelu fel rhan o hynny. Byddaf yn disgwyl i'r Gweinidog ddod yn ôl gyda datganiad ar hynny a hysbysu'r pwyllgor fel y gallwn wybod y diweddaraf am yr hyn sy'n digwydd fel rhan o'r adolygiad hwnnw.

In summary, we will be supporting this motion. It is vital that the police forces get as much funding as they can and we have to ensure that this funding goes to them. However, I do not share the pessimistic view put across by those on the benches opposite on the crisis facing the police forces. This crisis has been brewing for over a decade. It is slowly and surely being addressed and put right.

Yn gryno, byddwn yn cefnogi'r cynnig hwn. Mae'n hanfodol bod yr heddluoedd yn cael cymaint o arian ag y gallant, ac mae'n rhaid i ni sicrhau bod yr arian yn mynd iddynt. Fodd bynnag, nid wyf yn cytuno â'r farn besimistaidd a gyflewyd gan y rhai ar y meinciau gyferbyn ynglŷn â'r argyfwng sy'n wynebu'r heddluoedd. Mae'r argyfwng wedi bod yn mudferwi ers dros ddegawd. Mae'n derbyn sylw ac yn cael ei unioni'n araf ac yn sicr.

17:49

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, thank you for your report. While I accept some of the figures laid before us today, I have a number of concerns about the new police precept levels. Mark Isherwood AM has very ably pointed out our concerns for our residents.

Weinidog, diolch i chi am eich adroddiad. Er fy mod yn derbyn rhai o'r ffigurau a osodir ger ein bron heddiw, mae gennyf nifer o bryderon am lefelau praeseptau newydd yr heddluoedd. Mae Mark Isherwood AC yn fedrus iawn wedi dangos ein pryderon ynglŷn â'n trigolion.

The increases in police precepts come on top of significant council tax rises this year in many local authorities across Wales. Mark Isherwood AM was quite right to point out that Mr Hanson did say that Labour planned cuts of around 12%, made up of things like savings on procurement, savings on overtime and looking at how to make efficient use of back office and policing staff and that Labour backed the 12% savings proposed by Her Majesty's Inspectorate of Constabulary and that it backed the Government's pay freeze for police officers and staff, Labour planned additional savings from overtime and shift patterns and that Labour has accepted the savings agreed by the Police Arbitration Tribunal.

Mae'r cynnydd ym mhraeseptau'r heddlu yn dod ar ben codiadau sylweddol yn y dreth gyngor eleni mewn llawer o awdurdodau lleol ledled Cymru. Roedd Mark Isherwood AC yn hollol iawn i nodi bod Mr Hanson wedi dweud bod Llafur yn cynllunio toriadau o oddeutu 12%, gan gynnwys pethau fel arbedion ar gaffael, arbedion ar oramser ac ystyried sut i wneud defnydd effeithlon o staff swyddfa gefn a phlismona a bod y blaid Lafur yn cefnogi'r arbedion o 12% a gynigiwyd gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi a'i bod yn cefnogi syniad y Llywodraeth o rewi cyflogau swyddogion a staff yr heddlu. Roedd y blaid Lafur yn cynllunio arbedion ychwanegol trwy gyfrwng patrymau goramser a sifftiau ac wedi derbyn yr arbedion a gytunwyd gan Dribiwnlys Cyflafareddu'r Heddlu.

We, of course, welcomed the introduction of our new police and crime commissioners, irrespective of political persuasion, into their new roles. The whole initiative of police and crime commissioners was about having somebody to be directly answerable to the people. These roles are perfectly aligned with the true localism agenda, allowing our communities to be closer to key decisions made by our police forces as well as rebuilding trust and confidence with, and between, our local communities.

Roeddem, wrth gwrs, yn croesawu cyflwyno ein comisiynwyr heddlu a throseddau newydd, heb ystyried eu lliw gwleidyddol, i'w swyddogaethau newydd. Roedd holl fenter comisiynwyr heddlu a throseddu yn ymwneud â chael rhywun i fod yn uniongyrchol atebol i'r bobl. Mae'r swyddogaethau hyn yn cyd-fynd yn berffaith â'r agenda o wneud penderfyniadau ar lefel leol, gan alluogi ein cymunedau i fod yn agosach at benderfyniadau allweddol a wneir gan ein heddluoedd yn ogystal ag adfer ymddiriedaeth a hyder gyda, a rhwng, ein cymunedau lleol.

However, I find it disappointing that the highest police precept that has been agreed in England and Wales is 7%, and that is under the administration of a Welsh Labour commissioner. Many people in south Wales will, no doubt, be questioning why, in percentage terms, this is nearly double the next highest police precept, and almost triple the rise in Gwent. This is, of course, in stark contrast to the rest of the UK, where 11 police and crime commissioners have committed to freezing their precepts for the next year, while a further 18 commissioners have set their rises at around 2% or less. In Wiltshire, the police and crime commissioner has frozen the precept. The commissioner for Avon and Somerset, an area that covers the city of Bristol, has also elected for a precept freeze in return for a grant from the UK Government that is equivalent to a 1% rise. However, no such funding is available in Wales. I question the desire of the leader of Plaid Cymru to ask for more powers for policing to be devolved to the Assembly when we look at how the Welsh Labour Government is handling health and education. She may be filled with confidence in that regard, but, I am sorry, I cannot join her.

Fodd bynnag, rwyf yn ei chael yn siomedig bod y praesept uchaf sydd wedi cael ei gytuno yng Nghymru a Lloegr yn 7%, a bod hynny dan weinyddiaeth comisiynydd Llafur Cymru. Bydd llawer o bobl yn ne Cymru, yn ddiau, yn holi pam mae hwn, o ran canran, bron yn ddwbl yr ail braesept heddlu uchaf, a bron i dair gwaith y cynnydd yng Ngwent. Mae hyn, wrth gwrs, mewn gwrthgyferbyniad llwyr â gweddill y DU, lle y mae 11 comisiynydd heddlu a throseddu wedi ymrwymo i rewi eu praeseptau ar gyfer y flwyddyn nesaf, tra bod 18 o gomisiynwyr wedi cynyddu eu praeseptau tua 2% neu lai. Yn Wiltshire, mae comisiynydd yr heddlu a throseddu wedi rhewi'r praesept. Mae comisiynydd Avon a Gwlad yr Haf, ardal sy'n cynnwys dinas Bryste, hefyd wedi dewis rhewi praesept yn gyfnewid am grant gan Lywodraeth y DU sy'n cyfateb i gynnydd o 1%. Fodd bynnag, nid oes cyllid o'r fath ar gael yng Nghymru. Rwy'n cwestiynu awydd arweinydd Plaid Cymru i ofyn am ddatganoli mwy o bwerau ar gyfer plismona i'r Cynulliad pan fyddwn yn edrych ar sut y mae Llywodraeth Lafur Cymru yn ymdrin ag iechyd ac addysg. Efallai ei bod hi'n llawn hyder yn hynny o beth, ond, rwyf yn flin, ni allaf ymuno â hi.

This funding would have been a safety net for police and crime commissioners to allow some tangible initiatives and a freeze on some precepts. I understand that this huge increase was technically to protect front-line policing, but figures from the Office for National Statistics show that the South Wales Police area has seen a reduction in crime of 14% between 2010 and 2012, and that crime in Wales fell by 13%. We know that there is scant evidence to show that more spending automatically means more front-line police. Certainly, during record spending by the previous Labour UK Government, it was proven that 14% of police time was spent on the beat, while 22% was classed as being wasted on paperwork and layers of mass bureaucracy.

Byddai'r cyllid hwn wedi bod yn rhwyd ddiogelwch ar gyfer comisiynwyr heddlu a throseddu i ganiatáu iddynt gyflwyno rhai mentrau ymarferol a rhewi rhai praeseptau. Deallaf y cyflwynwyd y cynnydd enfawr hwn yn dechnegol er mwyn amddiffyn plismona rheng flaen, ond mae ffigurau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod ardal Heddlu De Cymru wedi gweld troseddau'n gostwng 14% rhwng 2010 a 2012, a bod troseddu yng Nghymru wedi gostwng 13%. Rydym yn gwybod nad oes fawr o dystiolaeth i ddangos y ceir mwy o heddlu rheng flaen yn awtomatig trwy wario mwy. Yn sicr, er y cafwyd gwariant uwch nag erioed gan Lywodraeth Lafur flaenorol y DU, profwyd bod 14% o amser yr heddlu yn cael ei dreulio ar y stryd, tra ystyriwyd bod 22% yn cael ei wastraffu ar waith papur a haenau o fiwrocratiaeth dorfol.

It is disappointing that, despite being vocal in saying that he has the power to cap precepts, the Minister has not used this power. I sometimes wonder, when he sees the way that, year after year, our council tax payers are being hit with council tax increases and now this—this double whammy—whether he will ever be proactive in this regard. A cap would have helped to stop increases of this nature being imposed on some of the poorest areas of Wales, but he has failed to impose it. Indeed, in a response to a written Assembly question on 5 February, the Minister stated

Mae'n siomedig, er ei fod yn llafar wrth ddweud fod ganddo'r pŵer i gapio praeseptau, nad yw'r Gweinidog wedi defnyddio'r pŵer hwn. Byddaf yn meddwl weithiau, pan mae'n gweld, flwyddyn ar ôl blwyddyn, sut y mae'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor yn cael eu taro gyda chynnydd yn y dreth gyngor ac yn awr hyn—ergyd ddwbl—a fydd ef byth yn rhagweithiol yn hyn o beth Byddai cap wedi helpu i atal cynnydd o'r fath rhag cael ei osod ar rai o'r ardaloedd tlotaf yng Nghymru, ond nid yw wedi ei roi ar waith. Yn wir, mewn ymateb i gwestiwn ysgrifenedig y Cynulliad ar 5 Chwefror, dywedodd y Gweinidog.

'I expect all Commissioners to act responsibly and reasonably at a time when individual households are facing a squeeze on their own domestic finances and am prepared to use my capping powers if the need arises'.

Rwyf yn disgwyl i bob Comisiynydd ymddwyn yn gyfrifol ac yn rhesymol ar adeg pan fo aelwydydd unigol yn wynebu gwasgfa ar eu cyllid domestig eu hunain ac rwyf yn barod i ddefnyddio fy mhwerau capio pe bai'r angen yn codi.

I am sorry that he has not done so.

Mae'n ddrwg gennyf nad yw wedi gwneud hynny.

17:54

## Keith Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mae fy nghyfraniad yn mynd i fod yn eithaf byr, oherwydd y mae Mike Hedges wedi dweud y rhan fwyaf o'r hyn yr oeddwn am ei ddweud. Fodd bynnag, ddydd Mercher diwethaf, treuliais ddiwrnod gyda'r heddlu yn cerdded strydoedd Llanelli fel rhan o fenter Llanelli Mwy Diogel. Yr hyn a oedd yn galonogol iawn i mi oedd y ffordd yr oedd yr heddlu yn gweithio—roedd swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn falch i fod yno gyda ni yn mynd o amgylch y strydoedd. Gallwn ddiolch i Lywodraeth Cymru am ariannu swyddi'r swyddogion hyn. Fel y dywedodd Mike Hedges, toriad mewn arian a ddaeth o Lundain.

My contribution will be very brief, because Mike Hedges has said most of the things that I wanted to say. However, last Wednesday, I spent a day with the police walking the streets of Llanelli as part of the Safer Llanelli initiative. What was very heartening for me was the way that the police were working—police community support officers were pleased to be there with us, on the streets. We can thank the Welsh Government for funding those officers. As Mike Hedges said, it was a cut in funding that came from London.

Yn hynny o beth, roeddwn yn falch clywed Leanne Wood yn cefnogi a chytuno â Phrif Weinidog Cymru y dylid datganoli'r heddlu i Gymru, oherwydd cydweithio gyda'n gilydd yw'r ateb. Gyda'r grŵp lle y bûm ddydd Mercher diwethaf yn Llanelli roedd Heddlu De Cymru a Heddlu Dyfed-Powys yn gweithio gyda'i gilydd. Yr un neges a gefais ganddynt sef, o ganlyniad i'r arian sy'n dod iddynt—y rhan fwyaf ohono yn dod o Lundain—maent yn becso y byddant yn colli pobl sy'n gweithio ar y rheng flaen. Yr hyn mae poblogaeth Llanelli ei eisiau yw gweld y bobl hyn yn cerdded o gwmpas y strydoedd, oherwydd os ydych yn gwneud hyn rydych yn mynd i wthio pobl sydd eisiau defnyddio neu werthu cyffuriau oddi ar y strydoedd. Gwelais hyn yn gweithio'n llwyddiannus iddynt ddydd Mercher diwethaf.

I was pleased to hear Leanne Wood supporting and agreeing with the First Minister that we should be devolving policing to Wales, because collaboration is the answer. With the group that I was with last Wednesday in Llanelli, South Wales Police and Dyfed-Powys Police were working together. I had the same message from them: as a result of the funding that they receive—most of it comes from London—they are concerned that they are going to lose people from the front line. The population of Llanelli wants to see these officers on the streets, because if you do walk the streets you are going to drive people who want to use or sell drugs from those streets. I saw this working successfully for them last Wednesday.

17:56

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwy'n falch clywed Keith Davies yn datgan ei gefnogaeth ef a'r Prif Weinidog i ddatganoli gwasanaethau'r heddlu a chyfraith droseddol i'r Cynulliad. Rwy'n falch bod y Prif Weinidog wedi cael tröedigaeth ar y ffordd i San Francisco, oherwydd cyn ei ymweliad roedd yn ymddangos bod Llywodraeth Lafur Cymru yn gwrthwynebu'r syniad o ddatganoli gwasanaethau'r heddlu i'r Cynulliad. Codais y mater sawl gwaith gyda'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ond roedd yntau'n dweud bob tro nad dyna oedd yr amser priodol i ddatganoli'r gwasanaethau hynny. Rwy'n falch bod y Prif Weinidog a Llywodraeth Cymru wedi newid eu meddwl ar hynny a'u bod yn uno â barn pobl Cymru, oherwydd yn y pôl piniwn diwethaf ar y pwnc hwn roedd 56.7 % o boblogaeth Cymru'n cefnogi datganoli gwasanaethau'r heddlu a chyfraith droseddol i'r Cynulliad. Dim ond 26% o bobl Cymru oedd am weld y gwasanaethau hynny yn aros gyda San Steffan. Felly, mae'n bryd i'r Ceidwadwyr ddal lan gyda'r farn gyhoeddus yng Nghymru ac o fewn y gwasanaethau hyn. Y rheswm am hyn yw mai barn glir y bobl sy'n gweithio yn yr heddlu yw y byddent yn dymuno i'r gwasanaeth gael ei ddatganoli i Gymru.

I was pleased to hear Keith Davies expressing his support and the First Minister's support for the devolution of policing and criminal justice to the Assembly. I am pleased that the First Minister had a conversion on the road to San Francisco, because before that visit it appeared that the Labour Welsh Government was opposed to the concept of devolving police services to the Assembly. I raised this issue on a number of occasions with the Minister for Local Government and Communities, but he told me on each occasion that it was not the appropriate time to devolve those services. I am pleased that the First Minister and the Welsh Government have changed their minds and that their views are now in line with the views of the people of Wales, because in the latest opinion poll on this issue, 56.7% of the population of Wales supports the devolution of police services and criminal justice to the Assembly. Only 26% of the population of Wales wanted to see those services retained at Westminster. Therefore, it is time that the Conservatives caught up with public opinion in Wales and the opinion within the services themselves. There is a clearly stated opinion from those working in the police forces that they would want to see policing devolved to Wales.

Hoffwn ofyn un neu ddau gwestiwn i'r Gweinidog ynglŷn â'i berthynas â chomisiynwyr yr heddlu sydd newydd eu hethol, os mai dyna'r disgrifiad o'r hyn a ddigwyddodd iddynt, oherwydd lleiafrif bach iawn o bobl a drodd allan i bleidleisio. Felly, nid oes ganddynt fandad cryf iawn. Sut ydych, Weinidog, yn mynd i gydweithio â'r comisiynwyr hyn? Yn benodol, sut ydych yn mynd i sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn aros o fewn y sector cyhoeddus ac yn atebol i Lywodraeth Cymru, oherwydd mae modd i'r comisiynwyr hyn breifateiddio adrannau o'r gwasanaeth plismona yng Nghymru? Rwy'n siŵr y cytunwch â mi y byddai hynny'n gam a fyddai'n tanseilio'r gwasanaeth a gawn ar hyn o bryd gan heddluoedd ledled Cymru.

I would like to ask one or two questions of the Minister on his relationship with the police commissioners who were recently elected, if that is a proper description of what happened to them, because it was a very small percentage of people who turned out to vote. Therefore, they do not have a very strong mandate. Minister, how will you collaborate with these commissioners? Specifically, how will you ensure that these services are retained within the public sector and are accountable to the Welsh Government, because there is a means for these commissioners to privatise certain departments within the policing service in Wales? I am sure that you would agree that that would be a step that would undermine the service that we currently receive from our police forces across Wales.

17:58

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

17:58

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I woud like to thank the Presiding Officer for the opportunity to respond to the many points raised this afternoon. I have listened carefully to Members' contributions. I will pick up on a few of the issues that have been raised with me. The police and crime commissioners are elected by the people of Wales to make these determinations on the precept settlement. Whether we like the fact that the elections took place or not, the legal position is that they have a duty to deliver on that. The democratic process will enable the police and crime commissioners to take through their precept proposals to the police and crime panels, which I believe that they have all done. They have all passed through the police and crime panels and are, therefore, asking for this to be ratified by me.

Hoffwn ddiolch i'r Llywydd am y cyfle i ymateb i'r pwyntiau niferus a godwyd y prynhawn yma. Rwyf wedi gwrando'n ofalus ar gyfraniadau'r Aelodau. Byddaf yn ystyried rhai o'r materion sydd wedi'u codi gyda mi. Mae'r comisiynwyr heddlu a throseddu wedi eu hethol gan bobl Cymru i wneud y penderfyniadau ar y setliad praesept. P'un a ydym yn hoffi'r ffaith bod yr etholiadau wedi digwydd ai peidio, y sefyllfa gyfreithiol yw bod ganddynt ddyletswydd i gyflawni hynny. Bydd y broses ddemocrataidd yn galluogi comisiynwyr heddlu a throseddu i gyflwyno eu cynigion praesept i'r paneli heddlu a throseddu, ac rwy'n credu eu bod i gyd wedi gwneud hynny. Maent i gyd wedi pasio drwy'r paneli heddlu a throseddu ac, felly, maent yn gofyn i mi gadarnhau hyn.

I listened carefully to Leanne Wood's contribution on the policing element. Let me be very clear, as the First Minister was, we have made our position on policing and its future in Wales clear in our proposals to the Silk commission. That was prior to any other party making such representations. It is a little bit of playing catch-up on the part of some other parties in terms of where we want to be.

Gwrandewais yn ofalus ar gyfraniad Leanne Wood ar yr elfen blismona. Gadewch i mi fod yn glir iawn, fel yr oedd y Prif Weinidog. Rydym wedi gwneud ein safbwynt ar blismona a'i ddyfodol yng Nghymru yn glir yn ein cynigion i gomisiwn Silk. Roedd hynny cyn i unrhyw blaid arall wneud sylwadau o'r fath. Mae rhywfaint o geisio dal i fyny ar ran y pleidiau eraill o ran o ble'r ydym eisiau bod.

The Member made comments about the Windsor review and how that could possibly be reversed in some way. However, you did not mention how you would fund that provision subject to making those changes. What we have said is that if we are seeking powers over policing, we must have the funding to align with that.

Gwnaeth yr Aelod sylwadau am adolygiad Windsor a sut y gellid o bosibl wrthdroi hwnnw mewn rhyw ffordd. Fodd bynnag, ni wnaethoch sôn sut y byddech yn ariannu'r ddarpariaeth honno pe byddai'r newidiadau hynny'n cael eu gwneud. Yr hyn yr ydym wedi'i ddweud yw bod yn rhaid i ni gael y cyllid i gyd-fynd â hynny os ydym yn ceisio pwerau dros yr heddlu.

Peter Black raises a very important issue about the position for policing in Wales. I have already made representations to the Minister, and I will continue to do so on relevant issues, such as capital city funding, the sparsity of different police forces and how that will have an impact on potential changes to the formula in the future.

Mae Peter Black yn codi mater pwysig iawn am y sefyllfa ar gyfer plismona yng Nghymru. Rwyf eisoes wedi gwneud sylwadau i'r Gweinidog, a byddaf yn parhau i wneud hynny ar faterion perthnasol, fel cyllid i'r brifddinas, y prinder heddluoedd gwahanol a sut y bydd hynny'n cael effaith ar newidiadau posibl i'r fformiwla yn y dyfodol.

Peter Black also mentioned that he did not think that police forces were in crisis. I believe that there are certainly serious concerns that have been expressed to me by the police federation and officers on the ground, which paints a very different picture to the one portrayed by politicians in this room.

Soniodd Peter Black hefyd nad oedd yn meddwl bod heddluoedd mewn argyfwng. Credaf fod pryderon difrifol sydd yn sicr wedi cael eu mynegi i mi gan ffederasiwn yr heddlu a swyddogion ar lawr gwlad. Maent yn rhoi darlun gwahanol iawn i'r un a bortreadir gan wleidyddion yn yr ystafell hon.

18:01

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I do not think that I said that they were not in crisis; I said that the crisis had been brewing for the best part of a decade, and that it was not something that had just come forward.

Nid wyf yn meddwl fy mod wedi dweud nad oeddent mewn argyfwng; dywedais fod yr argyfwng wedi bod yn mudferwi ers bron i ddegawd, ac nad oedd yn rhywbeth a oedd newydd ymddangos.

18:01

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for his clarification on that.

Diolch i'r Aelod am ei eglurhad ar hynny.

To pick up on the points made by Rhodri Glyn Thomas, I have met all the police and crime commissioners now. I have regular meetings scheduled in the diary with them, as well as with the chief officers of the four forces. I was very clear with them about the Welsh Government funding intervention, and I believe that they understand that there is a commitment from them and the Welsh Government to continue to work together to make sure that we get best value for the additional funding that they get from the Welsh block. However, they must ensure that elements such as community support officers, operation Tarian and other exercises on which they work very closely with the broader public sector, continue in line with the aspirations of Welsh Government. To date, we have had a great response from the police commissioners, and we appear to working in a very conducive way, despite the political differences between all the commissioners and the Welsh Government.

I ystyried y pwyntiau a wnaed gan Rhodri Glyn Thomas, rwyf wedi cwrdd â'r holl gomisiynwyr heddlu a throseddu yn awr. Mae gennyf gyfarfodydd rheolaidd wedi'u trefnu yn y dyddiadur gyda nhw, yn ogystal â phrif swyddogion y pedwar heddlu. Roeddwn yn glir iawn â nhw ynglŷn â'r ymyriad cyllid gan Lywodraeth Cymru, a chredaf eu bod yn deall bod ymrwymiad ganddynt a Llywodraeth Cymru i barhau i weithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr ein bod yn cael y gwerth gorau am yr arian ychwanegol y maent yn ei gael o floc Cymru. Fodd bynnag, rhaid iddynt sicrhau bod elfennau megis swyddogion cymorth cymunedol, ymgyrch Tarian ac ymarferion eraill y maent yn gweithio'n agos iawn arnynt gyda'r sector cyhoeddus ehangach, yn parhau yn unol â dyheadau Llywodraeth Cymru. Hyd yma, rydym wedi cael ymateb gwych gan y comisiynwyr heddlu, ac mae'n ymddangos ein bod yn gweithio mewn ffordd addas iawn, er gwaethaf y gwahaniaethau gwleidyddol rhwng yr holl gomisiynwyr a Llywodraeth Cymru.

I will take an intervention from the Member as he indicated earlier on.

Fe gymeraf ymyriad gan yr Aelod fel y nododd yn gynharach.

18:02 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I appreciate that you have moved on, Minister, but I am a little concerned because you and the First Minister, who has just entered the Chamber, alluded to party organs informing Government's response to the Silk commission. Can you confirm that no civil servants were used in the Government's response and that it was a Labour Party response, or were civil servants used in that response? You are confusing the two, because there should not have been use of the civil service if it is a party response.

Rwyf yn gwerthfawrogi eich bod wedi symud ymlaen, Weinidog, ond rwyf braidd yn bryderus oherwydd eich bod chi a'r Prif Weinidog, sydd newydd ddod i mewn i'r Siambr, wedi cyfeirio at organau'r blaid yn llywio ymateb y Llywodraeth i gomisiwn Silk. A allwch chi gadarnhau na ddefnyddiwyd unrhyw weision sifil yn ymateb y Llywodraeth a'i fod yn ymateb gan y Blaid Lafur, ynteu a ddefnyddiwyd gweision sifil yn yr ymateb hwnnw? Rydych yn drysu rhwng y ddau. Ni ddylid bod wedi defnyddio'r gwasanaeth sifil os mai ymateb gan y blaid ydyw.

18:03 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The only person confused here is you. [Laughter.] The fact of the matter is that this is a Welsh Labour Government response. That has been very clear. You often make accusations about this Welsh Labour Government, but let me be very clear about this: we have made our response and we know what the Welsh Government's position is on this. What is your position? Let us see what you put in to the Silk commission.

Chi ydi'r unig berson sy'n ddryslyd yma. [Chwerthin.] Y ffaith amdani yw mai ymateb gan Lywodraeth Lafur Cymru yw hwn. Mae hynny wedi bod yn glir iawn. Rydych yn aml yn gwneud honiadau am Lywodraeth Lafur Cymru, ond gadewch i mi fod yn glir iawn ynglŷn â hyn: rydym wedi gwneud ein hymateb ac rydym yn gwybod beth yw safbwynt Llywodraeth Cymru ar hyn. Beth yw eich safbwynt chi? Gadewch inni weld beth fyddwch chi'n ei roi i mewn i gomisiwn Silk.

Moving on to the Conservative contributions this afternoon, Mark Isherwood made many comments, many of which I would probably not agree with. He was selective with his figures; therefore, I will give him some accurate details. He made reference to the four police areas and the proposed percentage increases, but we must look at the proposed charge overall: for Dyfed-Powys Police, the band D precept is £206; for Gwent Police it is £198; for North Wales Police it is £220; and for South Wales Police it is £181. This indicates that South Wales Police would still have the lowest band D property charge, subject to me agreeing with the police and crime commissioner on an allowance of 7%. However, I have written to the south Wales commissioner to ask him to explain why he wishes to add a 7% precept to constituents in the south Wales region.

Gan symud ymlaen at gyfraniadau'r Ceidwadwyr y prynhawn yma, gwnaeth Mark Isherwood lawer o sylwadau, llawer ohonynt na fyddwn i yn ôl pob tebyg yn cytuno â nhw. Roedd yn defnyddio'i ffigurau'n ddethol, felly fe roddaf rai manylion cywir iddo. Cyfeiriodd at y pedair ardal heddlu a chanran y codiadau arfaethedig, ond rhaid inni edrych ar yr hyn y bwriedir ei godi'n gyffredinol: ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys, y praesept band D yw £206; ar gyfer Heddlu Gwent mae'n £198; ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru mae'n £220, ac ar gyfer Heddlu De Cymru mae'n £181. Mae hyn yn dangos mai gan Heddlu De Cymru y byddai'r tâl eiddo band D isaf o hyd, yn amodol ar i mi gytuno â'r comisiynydd heddlu a throseddu ar lwfans o 7%. Fodd bynnag, rwyf wedi ysgrifennu at gomisiynydd de Cymru i ofyn iddo esbonio pam ei fod yn dymuno ychwanegu praesept o 7% i etholwyr yn rhanbarth de Cymru.

Finally, I find it quite astonishing that the Conservative party has, yet again, come up with the ploy of saying, 'We want localism, we want determination at a local level and we want PCCs', yet, they are failing to back their local Dyfed-Powys Conservative commissioner by supporting this budget. For further information—I am sure that the Member opposite will welcome the reminder—Mark Isherwood made reference to capping powers and the precept in north Wales being £222. I recall that Mark Isherwood and his colleagues in this Chamber voted against the capping powers that Sue Essex was going to introduce in this Chamber: double standards from the Tories yet again, Presiding Officer. We will take no lessons from them today.

Yn olaf, rwyf yn ei chael yn eithaf rhyfeddol bod y blaid Geidwadol, unwaith eto, wedi defnyddio'r ystryw o ddweud, 'Rydym am weld penderfyniadau'n cael eu gwneud ar lefel leol ac rydym am gael comisiynwyr yr heddlu a throseddu', ac eto, nid ydynt yn cefnogi eu comisiynydd Ceidwadol lleol yn Nyfed-Powys trwy gefnogi'r gyllideb hon. Er gwybodaeth hefyd—rwyf yn siŵr y bydd yr Aelod gyferbyn yn croesawu cael ei atgoffa—cyfeiriodd Mark Isherwood at y pwerau capio a bod y praesept yng ngogledd Nghymru yn £222. Rwy'n cofio Mark Isherwood a'i gydweithwyr yn y Siambr hon yn pleidleisio yn erbyn y pwerau capio yr oedd Sue Essex yn mynd i'w cyflwyno yn y Siambr hon: safonau dwbl gan y Toriaid unwaith eto, Lywydd. Ni fyddwn yn cymryd unrhyw wersi ganddynt hwy heddiw.

18:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there is an objection, therefore I will defer all voting on this item until voting time.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad, felly byddaf yn gohirio'r holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

18:05

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As we are now at the end of the agenda and the Business Committee has agreed that voting will take place at the end of business, I will now move to a vote, unless three Members wish the bell to be rung. I see not.

Gan ein bod bellach ar ddiwedd yr agenda a bod y Pwyllgor Busnes wedi cytuno i gynnal y pleidleisio ar ddiwedd y busnes, byddaf yn awr yn symud i bleidlais, oni bai bod tri Aelod yn dymuno i'r gloch gael ei chanu. Gwelaf nad oes.

## Cyfnod Pleidleisio

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5163

## Voting Time

Result of the vote on motion NDM5163

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 41, Yn erbyn 0, Ymatal 11.*

*Motion agreed: For 41, Against 0, Abstain 11.*

18:06

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That brings today's business to a close.

Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.06 p.m.*

*The meeting ended at 6.06 p.m.*